
# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Panel Adolygu Annibynnol

## Yn Gywir i Gymru

Adolygiad annibynnol o'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad

Gorffennaf 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Panel Adolygu Annibynnol

# Yn Gywir i Gymru

Adolygiad annibynnol o'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad

Gorffennaf 2009

## Aelodau'r Panel Adolygu Annibynnol



**Syr Roger Jones** yw Cadeirydd y Panel. Mae'n ŵr busnes a arferai fod yn Llywodraethwr y BBC ac yn Gadeirydd Awdurdod Datblygu Cymru. Bu hefyd yn Gadeirydd Sefydliad y Cyfarwyddwyr - Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ar hyn o bryd, mae'n Ddirprwy Ganghellor ac yn Gadeirydd Cyngor Prifysgol Abertawe. Dyfarnwyd OBE iddo ym 1996 am ei wasanaethau i'r diwydiant fferyllol ac fe'i hurddwyd yn farchog yn rhestri anrhydeddau'r flwyddyn newydd yn 2005. Ef hefyd yw cwnsler anrhydeddus cyntaf Gweriniaeth Estonia yng Nghymru.



Tan yn ddiweddar, **Jackie Nickson** oedd Rheolwr Adnoddau Dynol Opagus Group Limited. Cyn hynny, bu'n gweithio i Nwy Prydain yng Nghymru a'i Ganolfan Gorfforaethol yn Llundain. Ei harbenigedd yw cyflwyno polisïau adnoddau dynol i fodloni gofynion strategol y sefydliad. Mae'n arbenigo ym maes recriwtio, Cyfle Cyfartal, recriwtio o Ewrop, hyfforddi a datblygu graddedigion, cynorthwyo cyflogeion i ddatblygu'n gyflym a'u hadleoli. Mae Jackie hefyd yn gweithio fel Aelod Annibynnol o Banelau Camymddwyn Awdurdod yr Heddlu. Yn ogystal â hynny, mae Jackie hefyd yn Aelod Cysylltiedig o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu.



Arferai **Nigel Rudd** fod yn Brif Weithredwr ar Gynulliad Rhanbarthol Dwyrain Canolbarth Lloegr. Cyn hynny, ef oedd wrth y llyw yng Nghyngor Bwrdeistref Corby am bum mlynedd. Mae Mr Rudd yn adnabyddus am hyrwyddo materion adfywio, ac mae wedi gweithio'n eang ar lefel genedlaethol gyda Gweinidogion, gwleidyddion rhanbarthol a chynghorwyr lleol. Mae wedi gweithio gyda nifer o bartneriaethau cyhoeddus-preifat, a hynny wrth gynnal adolygiadau economaidd a datblygu polisi. Bu'n aelod ymgynghorol ar gyfer y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, gan gynorthwyo gwaith craffu yn y llywodraeth, y sector iechyd a sectorau eraill. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol ar Studentforce, yr asiantaeth leoli graddedigion.



Mae gan **Dafydd Wigley** brofiad o roi arweiniad strategol yn y sectorau preifat a gwirfoddol ac ym myd gwleidyddiaeth. O'i gyfnodau fel Aelod Seneddol Caernarfon am 27 mlynedd, ac fel Aelod Cynulliad yn ystod tymor cyntaf y Cynulliad, mae'n ymwybodol iawn o'r materion perthnasol. Fel Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad, mae ganddo brofiad o sicrhau gwerth am arian. Mae ei brofiad diwydiannol blaenorol fel Prif Gyfrifydd Cost cwmni Mars a Rheolwr Cyllid cwmni Hoover hefyd yn berthnasol. Bu'n Gadeirydd Pwyllgor Archwilio S4C (2003-06) ac ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Bwrdd Ymgynghorol Ysgol Fusnes Prifysgol Bangor. Roedd yn Llywydd Plaid Cymru rhwng 1991 a 2000.

## Cydnabyddiaethau

Mae'r Panel yn cydnabod y cymorth a gafodd gan:

### Ysgrifenyddiaeth

Christopher Reading, Clerc
Annette Stafford, Dirprwy Glerc
Catherine Domican, Cymorth Ysgrifenyddol
Helen Finlayson, Cymorth Ysgrifenyddol

### Ymchwil

Yr Athro Laura McAllister, Prifysgol Lerpwl
Dr Alys Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Cynghorwr Cyfreithiol Annibynnol

Emyr Lewis, Morgan Cole

## Rhagair y Cadeirydd

Bu'n bleser bod yn Gadeirydd ar y Panel Adolygu Annibynnol. Cawsom dasg heriol gan Gomisiwn y Cynulliad, sef argymell system ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad sy'n deg, yn dryloyw, ac yn rhoi gwerth am arian.

Nid yw'r ffaith bod yr adolygiad hwn yn angenrheidiol yn awgrymu beirniadaeth o Gynulliad Cenedlaethol Cymru na'i Aelodau. Pan ddechreuwyd ar y gwaith hwn, ni allai neb fod wedi rhagweld y digwyddiadau dramatig diweddar yn San Steffan. Er ein bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus wrthi'n adolygu'r system yn San Steffan, mae ein hymchwiliad ni'n un cwbl annibynnol. Un o'n prif argymhellion yw y dylai'r cysylltiad rhwng cyflogau Aelodau'r Cynulliad a chyflogau Aelodau Seneddol ddod i ben. Credwn nad yw cadw'r cysylltiad presennol yn fanteisiol nac yn briodol.

Rydym yn canmol y Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad am eu gweledigaeth wrth sefydlu'r Panel hwn yn ystod yr haf y llynedd. Mae'r Comisiwn eisoes wedi cyhoeddi gwybodaeth gynhwysfawr am y treuliau a hawliwyd gan Aelodau'r Cynulliad a bydd yn gwneud hynny'n rheolaidd o hyn ymlaen. Mae tryloywder yn allweddol er mwyn cael system deg sy'n ennyn ffydd y cyhoedd. Mae Aelodau'r Cynulliad yn gweithio'n galed dros bobl Cymru ac yn haeddu eu parch.

Cafodd ein trafodaethau eu llywio gan gyfres o egwyddorion a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Credaf i ni fod yn radical ac eto'n deg wrth lunio ein hargymhellion. Rydym wedi dehongli ein cylch gwaith mewn ffordd eang. Nid mân newidiadau i'r system a argymhellwn, ond newidiadau a fydd yn ei hailwampio'n llwyr. Bydd y rhan fwyaf o'n prif argymhellion yn dod i rym cyn etholiad nesaf y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2011. Gobeithiwn y bydd Aelodau'r Cynulliad yn cymryd ein holl argymhellion o ddifrif ac yn dechrau cyflwyno newidiadau nawr, yn arbennig o ran yr angen i ddarparu mwy o gyfleoedd hyfforddi a datblygu iddynt hwy ac i'w staff.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Panel a'n staff cymorth am eu gwaith caled. Hoffwn ddiolch hefyd i bawb a gyflwynodd dystiolaeth, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar. Rwyf yn arbennig o ddiolchgar i Aelodau presennol a chyn-Aelodau'r Cynulliad a'u staff am eu cefnogaeth adeiladol.

Bydd ein hargymhellion yn creu system heb ei hail ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad. Byddai rhoi'r argymhellion ar waith yn galluogi'r Cynulliad i ddatblygu fel sefydliad sy'n dysgu, a hynny er budd Cymru yn y dyfodol. Cymeradwyaf yr adroddiad hwn i Gomisiwn y Cynulliad.



**Syr Roger Jones**

## Cynnwys


Pennod 1: Crynodeb gweithredol ..........................................................1
Pennod 2: Ein dull o weithio ..........................................................17
Pennod 3: Egwyddorion ..........................................................27
Pennod 4: Cyd-destun a chapasiti..........................................................32
Pennod 5: Cyflogau, pensiynau a threfniadau wrth adael y swydd ...............49
Pennod 6: Llety preswyl ..........................................................73
Pennod 7: Swyddfeydd ..........................................................87
Pennod 8: Staff Aelodau'r Cynulliad ..........................................................104
Pennod 9: Hyfforddi a datblygu..........................................................131
Pennod 10: Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu..........................................144
Pennod 11: Teithio..........................................................152
Pennod 12: Gweinyddu, archwilio a safonau..........................................164
Pennod 13: Gweithredu, trefniadau pontio a materion ariannol .................178
Atodiad 1: Penderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009 a Phenderfyniad 2006 (Rhan 18)..........................................................185
Atodiad 2: Nodau Strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru........................221
Atodiad 3: Y fframwaith deddfwriaethol ..........................................223
Atodiad 4: Rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad..........................225
Atodiad 5: Rhestr o'r tystion ..........................................................227
Atodiad 6: Cod Ymddygiad ar Gyfer Aelodau'r Cynulliad ...........................229
Atodiad 7: Gwariant ar gyflogau a lwfansau 2008-09 ................................236
Atodiad 8: Cyflogau cymharol gwleidyddion y Deyrnas Unedig..................237
Atodiad 9: Trefniadau cyflogau – cymariaethau rhyngwladol .....................241
Atodiad 10: Crynodeb o Lawlyfr Cynllun Pensiwn yr Aelodau.....................252
Atodiad 11: Lleoliadau swyddfeydd rhanbarthol a swyddfeydd etholaeth (mapiau) ..........................................................261
Atodiad 12: Llawlyfr staff (cynnwys arfaethedig)........................................263
Atodiad 13: Cyflogi Aelodau Teuluol (Rheol Sefydlog Drafft) .....................267
Atodiad 14: Costau rhedeg cerbydau ..........................................................270
Atodiad 15: Nodyn gan Archwilydd Cyffredinol ..........................................271
Atodiad 16: Yr amserlen a awgrymwyd ar gyfer y broses archwilio ............277

## Pennod 1: Crynodeb gweithredol

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad. Mae'n argymell gwelliannau er mwyn cyflwyno pecyn cyflogau a threuliau a fydd yn addas i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei ail ddegawd ac y tu hwnt i hynny. Nod y gwelliannau yw creu system gyflawn a chadarn ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, a honno'n system sy'n addas at y diben. Mae argymhellion y Panel i'w gweld ar ddiwedd y Crynodeb Gweithredol hwn, a cheir y rhesymau drostynt yn y penodau perthnasol.

1.2 Yn ein barn ni, nid oes dwywaith fod yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad gael digon o adnoddau i allu cyflawni'r gwaith y cawsant eu hethol i'w wneud. Ar yr un pryd, rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy'n gwbl ddi-fai. Mae'n rhaid sicrhau gwerth am arian pan fydd angen ad-dalu costau, mae'n rhaid dwyn Aelodau'r Cynulliad i gyfrif, ac mae'n rhaid i'r holl broses fod yn un agored. Credwn ei bod yn hanfodol gweithredu mewn ffordd atebol a thryloyw er mwyn adfer ffydd y cyhoedd.

1.3 Ar hyn o bryd, caiff ychydig dros £13 miliwn y flwyddyn ei wario ar gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad. Mae hynny'n cynnwys cyflogau, treuliau, costau staff cymorth a chostau offer. Mae'r Panel wedi canfod y byddai modd gwneud arbedion mewn meysydd penodol, a bod angen rhagor o adnoddau mewn meysydd eraill. Nid canfod ffyrdd o arbed arian oedd prif ddiben yr adolygiad hwn, ond yn hytrach creu system ar gyfer rhoi cymorth ariannol sy'n deg ac yn dryloyw, a honno'n ennyn parch y cyhoedd. Mae'r Panel yn credu ei fod wedi cyflawni'r nod sylfaenol hwn, ac y gellir darparu'r pecyn o fewn y cyllidebau presennol.

1.4 Un argymhelliad allweddol yw y dylid cael gwared ar y cysylltiad awtomatig rhwng cyflogau Aelodau'r Cynulliad a chyflogau Aelodau Seneddol. Ar gyfer 2010-11, mae'r Panel wedi argymell y dylid cadw'r cyflog sylfaenol o £53,108, gyda chynnydd i gyd-fynd â chwyddiant. Cyn yr etholiad nesaf, dylid sefydlu Corff Adolygu Annibynnol statudol i bennu lefelau cyflogau yn y dyfodol, a dylai'r cyflogau hynny fod yn sefydlog ar gyfer pob tymor pedair blynedd yn y Cynulliad. Rydym wedi argymell sut y dylai'r corff annibynnol fynd ati i gyflawni'r gwaith hwn.

1.5 Argymhelliad pwysig arall yw cael gwared ar nifer o daliadau sy'n ymwneud ag ail gartrefi, gan gynnwys y gallu i hawlio taliadau llog ar forgeisi ail gartrefi'r Aelodau yng Nghaerdydd. Yn y dyfodol, bydd nifer yr Aelodau sydd â hawl i gael ail gartref yn cael ei haneru o 51 i 25. Bydd yr Aelodau dan sylw yn byw mewn llety wedi'i ddodrefnu a ddarperir gan y Cynulliad, a hynny o fewn pum milltir i'r Senedd. Bydd y fflatiau'n addas ar gyfer gofynion rhesymol bywyd modern, ac yn addas hefyd ar gyfer ymweliadau gan deuluoedd, ond bydd yn rhaid i'r Aelodau dalu am unrhyw ddodrefn a nwyddau ychwanegol eu hunain.

1.6 Bydd disgwyl i'r 35 Aelod arall gymudo o'u cartrefi i Fae Caerdydd, gyda darpariaeth gyfyngedig iddynt hawlio treuliau i aros rhai nosweithiau bob blwyddyn yng Nghaerdydd, er y bydd angen cyfiawnhau hynny a darparu derbynebau.

1.7 Ar hyn o bryd, mae gan yr Aelodau hawl i gael lwfans safonol o £30.65 ar gyfer treuliau sy'n deillio o aros dros nos i ffwrdd o'u prif gartref. Bydd y lwfans hwnnw'n dod i ben.

1.8 Mae'r Panel yn credu mai un o'r heriau pennaf i'r Cynulliad Cenedlaethol yw ei allu i gyflawni gwaith craffu deddfwriaethol, yn enwedig o ganlyniad i'r cyfrifoldebau newydd a ddaeth yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar y cyfan, mae'r Panel yn credu y dylai staff cymorth Aelodau'r Cynulliad wella eu gallu i gyflawni'r gwaith hwn, a hynny fel modd o ehangu gallu'r Cynulliad cyfan yn y maes. Mae'r Panel yn credu y dylai Comisiwn y Cynulliad fynd ati'n ddiymdroi i edrych ar faint o staff cymorth sydd ei angen ar Aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu gwaith, gan ystyried y dystiolaeth a'r awgrymiadau a geir yn yr adroddiad hwn.

1.9 Mae'r Panel yn credu y dylid cryfhau unedau cymorth canolog y prif grwpiau gwleidyddol, yn enwedig o ran ymchwil a chyswllt â'r cyfryngau. Er hynny, dylai cyfanswm nifer y staff cymorth barhau yn agos at y lefelau presennol.

1.10 Mae'r Panel wedi canfod bod hyfforddi a datblygu yn faes lle mae angen llawer mwy o adnoddau, a hynny er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Cymru. Mae'r Panel wedi argymell cynnydd mawr yn y gyllideb bresennol ar gyfer hyfforddi a datblygu, er mwyn cryfhau sgiliau ac arbenigedd yr Aelodau a'u staff. Teimla'r Panel yn gryf y dylai'r Comisiwn a grwpiau'r pleidiau gydweithio er mwyn hyrwyddo ethos o ddysgu a gwella drwy bob rhan o'r Cynulliad Cenedlaethol. Nid mater

o ddarparu mwy o adnoddau yn unig yw hyn; mae'n gofyn am ymrwymiad ac ymroddiad ar ran yr Aelodau hefyd.

1.11 Mae'r Panel yn teimlo bod y trefniadau pensiwn presennol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn hael, ac y byddai modd gwneud arbedion. Mae'r Panel yn argymell na ddylai'r cyfradd gyfrannu a ariennir gan y Comisiwn fod yn uwch na'r lefel bresennol o 23.8 y cant.

1.12 Wrth lunio'r holl argymhellion, mae'r Panel wedi ystyried pa drefniadau pontio a fyddai'n addas. Bydd angen i Gomisiwn y Cynulliad hefyd wneud penderfyniadau ynghylch pa bryd i gyflwyno'r newidiadau, gan ystyried pa waith paratoadol sy'n angenrheidiol a sut y bwriedir rhoi'r argymhellion ar waith – er enghraifft, trwy ddeddfwriaeth, lle mae hynny'n briodol.

1.13 Mae'r Panel wedi edrych ar y trefniadau presennol ar gyfer cynnal archwiliadau mewnol ac allanol o'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad. Fel rhan o weithdrefnau llywodraethu corfforaethol cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol, mae'r Panel yn fodlon bod y trefniadau hyn yn gadarn, ond mae wedi cyfeirio at rai meysydd lle gellid eu cryfhau.

1.14 Ni ddylai ymgeiswyr sydd am sefyll yn etholiadau'r Cynulliad gael eu denu'n unig gan y taliadau a'r treuliau, ond ni ddylent ychwaith gael eu hatal rhag sefyll dim ond os nad oes ganddynt ddigon o fodd i gyflawni'r gwaith.

1.15 Mae'r Panel yn credu'n gryf y bydd ei argymhellion yn helpu i gryfhau'r broses ddemocrataidd yng Nghymru, a hynny drwy ddenu trawsdoriad eang o'r boblogaeth i sefyll mewn etholiadau, a thrwy roi'r adnoddau i'r rheini a etholir gyflawni eu gwaith yn effeithiol.

1.16 Mae'r Panel wedi gwneud 23 o brif argymhellion (wedi'u nodi â '✳' yn y penodau perthnasol) ac 85 o argymhellion pellach, ac mae'r rhain i'w gweld isod. Rydym wedi nodi, ar gyfer pob un o'r argymhellion, y rheini:

- y dylid eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r adroddiad (①)
- y dylid eu rhoi ar waith yn syth ar ôl etholiad nesaf yn 2011 (②)

## Y Prif Argymhellion

<table>
<tr><th colspan="2">Argymhellion</th><th>Gweithredu</th></tr>
<tr><td colspan="3">Pennod 3: Egwyddorion</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Dylai fod yn ofynnol i Aelodau Cynulliad sy’n hawlio treuliau am weithgaredd sy’n gysylltiedig â’u dyletswyddau fel Aelodau Cynulliad ddarparu’r dystiolaeth ddogfennol briodol ac eglurhad, os oes angen, i ddangos eu bod wedi ysgwyddo’r gost a bod y gweithgaredd wedi’i gyflawni.</td><td>①</td></tr>
<tr><td colspan="3">Pennod 4: Cyd-destun a chapasiti</td></tr>
<tr><td>7</td><td>Dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried ar unwaith y ffordd orau o wella capasiti strategol y Cynulliad trwy gyflwyno arbenigedd ychwanegol o’r ddewislen o opsiynau a nodir ym mharagraff 4.46.</td><td>①</td></tr>
<tr><td colspan="3">Pennod 5: Cyflogau, pensiynau a threfniadau wrth adael y swydd</td></tr>
<tr><td>8</td><td>Ni ddylai fod cysylltiad awtomatig uniongyrchol mwyach rhwng cyflogau Aelodau Cynulliad a chyflogau Aelodau Seneddol.</td><td>①</td></tr>
<tr><td>9</td><td>Mae’r cyflog sylfaenol cyfredol o £53,108 i Aelodau’r Cynulliad yn briodol, a dylid ei godi hyd at fis Ebrill 2010, yn unol â chwyddiant.</td><td>①</td></tr>
<tr><td>11</td><td>Dylid pennu cyflogau Aelodau Cynulliad am dymor 4-blynedd y Cynulliad.<ul><li>Bydd lefel sylfaenol y cyflog hwn yn cael ei phennu yn unol â’r newid canrannol yn y mynegai enillion cyfartalog ar gyfer Cymru.</li><li>Rhoddir ystyriaeth i chwyddiant ac fe ychwanegir cynnydd tybiannol at y cyflog sylfaenol.</li><li>Byddai’r cyflog hwn yn cael ei bennu hyd ddiwedd tymor y Cynulliad oni cheir amgylchiadau eithriadol; er enghraifft, newid sylweddol ym mhwerau’r Cynulliad Cenedlaethol.</li><li>Bydd Corff Adolygu Annibynnol yn cwrdd o leiaf chwe mis cyn y Cynulliad nesaf i benderfynu ar y materion hyn (gweler argymhelliad 12).</li></ul></td><td>②</td></tr>
<tr><td>12</td><td>Dylai Comisiwn y Cynulliad baratoi a chyflwyno Mesur Cynulliad cyn gynted ag sy’n ymarferol, i sefydlu Corff Adolygu Annibynnol statudol i wneud penderfyniadau mewn perthynas â’r materion a restrir isod. Rôl y corff hwn yw:<br><br>i) gwneud penderfyniadau ynghylch pob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau’r Cynulliad<br>ii) ystyried cyfrifoldebau newidiol yng ngwaith Aelodau’r Cynulliad<br>iii) adolygu effeithiolrwydd ac effaith y broses uwchraddio</td><td>①</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | iv) ymdrin ag unrhyw faterion 'ad hoc'<br><br>Dylid nodi y dylai aelodau'r Corff hwn fod yn annibynnol ar y Cynulliad ac y dylai fod ganddynt arbenigedd perthnasol. Byddai dethol gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu), yr Archwilydd Cyffredinol ac Ymgynghorydd Annibynnol i'r Comisiwn yn ffordd briodol o fynd ati. | |
| 16 | Dylai Comisiwn y Cynulliad ac Ymddiriedolwyr y Gronfa gymryd cyngor cyfreithiol ac actiwaraidd gyda golwg ar gadw cyfradd y cyfraniadau safonol a ariennir gan y Comisiwn ar lefel sy'n ddim uwch na'r lefel gyfredol, sef 23.8 y cant, ac y dylid adolygu'r lefel hon o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried yr hyn sy'n digwydd mewn cynlluniau pensiwn mewn sefydliadau eraill. | ① |
| 17 | Yn dilyn etholiad nesaf y Cynulliad, dylid gostwng y Lwfans dirwyn i ben i uchafswm o chwarter y lwfans Costau Staff Eraill a'r Lwfans Costau Swyddfa ac ni ddylai gynnwys taliadau dileu swyddi i staff cymorth, y bwriedir darparu ar eu cyfer mewn cyllideb ar wahân. | ② |
| 18 | Bydd Aelodau presennol y Cynulliad yn parhau, cyhyd ag y bônt yn dal i roi gwasanaeth parhaus, i fod â hawl i Grant Ymaddasu pan maent yn ymddiswyddo neu'n ymddeol. O ran yr Aelodau a gaiff eu hethol i'r Cynulliad yn 2011 neu wedi hynny, dim ond y Grand Ymaddasu y byddant hwy'n gymwys iddo pan na fyddant yn cael eu hailethol mewn etholiad Cynulliad y bu iddynt sefyll ynddo. | ② |
| **Pennod 6: Llety preswyl** | | |
| 20 | Dylai'r Lwfans Costau Ychwanegol presennol, gan gynnwys y gallu i hawlio llog morgais ar ail gartrefi, gael ei ddiddymu o ddiwedd y Cynulliad hwn ym mis Mai 2011. Dylai fod darpariaeth ar gyfer y costau a ysgwyddir o ganlyniad i aros oddi cartref. Dylai hyn gynnwys darpariaethau gwahanol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n byw yn yr ardaloedd mewnol ac allanol, fel a ddisgrifir ym mharagraffau 6.24 a 6.25 ac a ddangosir yn Atodiad 11. | ② |
| 21 | Dylai Aelodau'r Cynulliad sy'n byw o fewn yr ardal fewnol a ddiffinnir ym mharagraff 6.24 allu hawlio hyd at 20 arhosiad dros nos y flwyddyn yng Nghaerdydd. Gallant hawlio hyd at £95.00 y noson am ystafell mewn gwesty, gan gynnwys parcio car, a hyd at £20.00 am bryd gyda'r nos. Dylid cyflwyno derbynebion perthnasol a nodyn esboniadol byr gyda phob hawliad. Ar gyfer y cyfradd o £25.00 y noson am lety 'heblaw gwesty', sef aros gyda ffrind neu berthynas, dim ond nodyn esboniadol byr fyddai'n ofynnol. | ② |
| 23 | Dylai'r taliad safonol o £30.65 a hawlir gan Aelodau'r Cynulliad | ① |

| | | |
|---|---|---|
| | wrth aros dros nos o'u prif gartref gael ei diddymu cyn gynted â phosibl. | |
| 24 | Dylai Comisiwn y Cynulliad ddarparu llety addas ar gyfer Aelodau cymwys, a'r rheiny wedi'u dodrefnu'n unol â safonau modern ac wedi'u lleoli o fewn radiws o bum milltir i'r Senedd. Dylai'r Comisiwn ystyried y dull mwyaf cost-effeithiol o ddarparu'r llety hwn. | ② |
| 25 | Dylai dau Aelod Cynulliad sy'n cael perthynas â'i gilydd fel partneriaid, ac sy'n gymwys i gael ail gartref yng Nghaerdydd, gael eu hystyried yn un aelwyd at ddibenion darparu llety preswyl. | ② |
| 27 | O hyn ymlaen ni ddylai Aelodau'r Cynulliad hawlio am ddodrefn ac ati ar gyfer eu hail gartrefi. | ① |
| 29 | Dylai Aelodau Cynulliad cymwys allu hawlio, lle y bo'n briodol, ad-daliad am filiau cyfleustodau, treth y cyngor, band eang, yswiriant a thrwydded deledu ar gyfer yr ail gartref a ddarperir gan y Cynulliad. | ② |
| **Pennod 7: Swyddfeydd** | | |
| 32 | Dylai'r ddarpariaeth costau swyddfa leol alluogi Aelodau Cynulliad i gael ad-daliad am yr holl gostau rhesymol, yn amodol ar argymhelliad 31, yn ymwneud â rhedeg swyddfa leol ac ymwneud ag etholwyr. Dylid cyflwyno derbynebau neu brawf o'r gwariant gyda phob hawliad, a dylai'r trefniadau misol newydd ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am dreuliau Aelodau barhau. | ① |
| 36 | Rhaid i Aelod Cynulliad sy'n bwriadu prydlesu swyddfa oddi wrth sefydliad plaid wleidyddol neu undeb llafur, neu isosod rhan o'i swyddfa i sefydliad plaid wleidyddol, undeb llafur neu unrhyw sefydliad neu fusnes arall, gael prisiad annibynnol gan aseswr wedi ei ddewis gan y Cynulliad. Rhaid cyflwyno'r prisiad annibynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn cwblhau unrhyw drefniadau contractiol. Dylid gwneud archwiliadau'n awr ac yn y man i sicrhau bod rhenti'n parhau'n rhesymol. | ① |
| **Pennod 8: Staff Aelodau'r Cynulliad** | | |
| 65 | Dylai Aelodau'r Cynulliad sy'n cyflogi aelodau'r teulu, fel y'u diffinnir hwy yn y Rheol Sefydlog ddrafft yn Atodiad 13, fod â'r hawl i barhau i wneud hynny. Fodd bynnag, credwn na ddylai'r Aelodau benodi unrhyw aelodau o'r teulu o hyn allan. | ① |
| **Pennod 9: Hyfforddi a datblygu** | | |
| 75 | Yn y mis cyntaf ar ôl cael eu hethol i'w swyddi, dylai pob Aelod Cynulliad newydd fynd ar gwrs wythnos i gael hyfforddiant cynefino. | ② |
| 80 | Dylid cynyddu cyllideb hyfforddi Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn sylweddol, a'i phennu ar gyfer pob cyfnod o bedair blynedd. | ② |

| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 11: Teithio** | | |
| 92 | Dylai Aelodau'r Cynulliad a'u staff roi'r gorau i logi ceir ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. | ① |
| **Pennod 12: Gweinyddu, archwilio a safonau** | | |
| 101 | Dylai Comisiwn y Cynulliad ddefnyddio trefniadau archwilio allanol (yr Archwilydd Cyffredinol) i roi sicrwydd annibynnol i'r Comisiwn ac i bobl Cymru fod gwariant ar hawliadau a lwfansau yn cael ei wneud yn unol â gofynion y trefniadau newydd. | ① |

## Argymhellion Pellach

| Argymhellion | | Gweithredu |
|---|---|---|
| **Pennod 3: Egwyddorion** | | |
| 1 | Dylai cymorth ariannol i Aelodau Cynulliad gael ei seilio ar gyfres o egwyddorion. Dylai'r egwyddorion hyn fod yn gyson â'r 'saith egwyddor mewn bywyd cyhoeddus': anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweiniad. Dylai Aelodau Cynulliad lofnodi'r Cod Ymddygiad wrth dyngu'r Llw. | ② |
| 2 | Dylai Aelodau'r Cynulliad allu hawlio am ad-daliadau am dreuliau rhesymol a ysgwyddwyd wrth gyflawni busnes y Cynulliad. | ① |
| **Pennod 4: Cyd-destun a chapasiti** | | |
| 4 | Dylai'r Comisiwn, drwy drafodaethau â Gweinidogion Cymru, geisio hwyluso llif esmwythach o ran gwybodaeth a briffio, yn arbennig wrth gynorthwyo gwaith pwyllgorau. | ① |
| 5 | Dylai'r Pwyllgor Busnes gynyddu'r amser eistedd i uchafswm o 36 wythnos y flwyddyn er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gyfer craffu ar y rhaglen ddeddfwriaethol. | ① |
| 6 | Dylai grwpiau'r pleidiau gofnodi gwyliau Aelodau'r Cynulliad. | ① |
| **Pennod 5: Cyflogau, pensiynau a threfniadau wrth adael y swydd** | | |
| 10 | Y lefel sylfaenol a ddefnyddir ar gyfer uwchraddio cyflogau yn y dyfodol fydd y cyflog ar 1 Mehefin 2009. | ① |
| 13 | Dylai cadeiryddion pwyllgorau dderbyn tâl atodol swydd-ddeiliad o naill ai £12,000 y flwyddyn neu £8,000 y flwyddyn. Dylai Comisiwn y Cynulliad benderfynu pa dâl atodol sy'n berthnasol i bob cadeirydd pwyllgor, a hwnnw'n berthnasol am weddill tymor y Cynulliad. Dylai deiliaid swyddi ychwanegol sydd ar hyn o bryd â hawl i'r un tâl atodol â chadeiryddion pwyllgorau ddal i fod yn gyfartal â hwy. | ① |
| 14 | Yn dilyn etholiad nesaf y Cynulliad, dylai deiliaid swyddi ychwanegol dderbyn taliadau atodol ar ben eu cyflog sylfaenol yn ôl yr un gyfran â'r un a fydd yn berthnasol yn dilyn yr addasiadau a ddisgrifir yn argymhelliad 13. Bydd y cyfrannau hyn yn cael eu hadolygu gan y Corff Adolygu Annibynnol o bryd i'w gilydd. | ② |
| 15 | Yn ogystal â chofnodi gwybodaeth am gyflogaeth arall ar y Gofrestr Buddiannau, dylai fod yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad nodi manylion yr amser y maent yn ei dreulio yn y gyflogaeth ychwanegol hon. | ① |
| 19 | Dylai'r Grant Ymaddasu i Aelodau newydd y Cynulliad fod yn seiliedig ar hyd gwasanaeth yr Aelod Cynulliad yn unig. Dylid cyfrifo'r grant ar sail un mis am bob blwyddyn lawn o wasanaeth hyd at uchafswm o chwe mis o dâl. Gall Aelodau'r Cynulliad cyfredol, os ydynt yn dymuno, barhau i gael eu trin yn ôl y | ② |

| | | |
|---|---|---|
| | rheolau a nodir ym Mhenderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009, cyhyd â'u bod yn dal i roi gwasanaeth parhaus. Fodd bynnag, gall unrhyw Aelod Cynulliad cyfredol ddewis cael ei drin yn unol â'r rheolau newydd. | |
| **Pennod 6: Llety preswyl** | | |
| 22 | Dylai Comisiwn y Cynulliad sicrhau cyfraddau gwestai â disgownt ar gyfer Aelodau Cynulliad a swyddogion y Cynulliad. Dylai fod yn ofynnol i Aelodau a swyddogion ond defnyddio'r gwestai hynny sy'n cynnig prisiau â disgownt, oni bai fod amgylchiadau eithriadol. | ① |
| 26 | Efallai y bydd Comisiwn y Cynulliad yn dymuno ystyried capio cost rhentu eiddo ar gyfer Aelodau cymwys. | ② |
| 28 | Ni ddylai Aelodau'r Cynulliad sy'n dewis prynu ail gartref neu rentu ail gartref gan asiant nad yw wedi'i gymeradwyo gael hawlio lwfans llety. | ② |
| 30 | Dylai'r Aelodau Cynulliad hynny sy'n dewis rhentu neu brynu eiddo'n annibynnol allu hawlio ad-daliad am filiau cyfleustodau, trwydded deledu, yswiriant, treth y cyngor a chyswllt band eang. | ② |
| **Pennod 7: Swyddfeydd** | | |
| 31 | Dylai'r Lwfans Costau Swyddfa i Aelodau'r Cynulliad barhau ar y lefel bresennol ar gyfer costau swyddfa a hysbysebu cymorthfeydd. | ① |
| 33 | Dylai grant o £5,000 fod ar gael tuag at eitemau unwaith-am-byth sy'n angenrheidiol i ddarparu offer mewn swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol yn ystod y deuddeg mis cyntaf yng nghyfnod Aelod Cynulliad newydd yn y swydd. Dylai'r swm hwnnw ostwng i £2,000 os darperir y swyddfa mewn adeilad sy'n eiddo cyhoeddus. | ② |
| 34 | Lle bydd Aelod Cynulliad yn penderfynu peidio â rhentu swyddfa leol, ond yn dewis cyflawni dyletswyddau etholaethol neu ranbarthol o swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd, yna dylai'r gost o ddarparu swyddfa ostwng 75 y cant. | ② |
| 35 | Gyda chymeradwyaeth Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau, gall Aelodau'r Cynulliad hawlio darpariaeth Lwfans Costau Swyddfa ychwanegol o ran y swm dros £2,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol a gaiff ei wario yn eu swyddfeydd lleol ar ddiogelwch o bob math a mynediad i bobl anabl; a chaiff y swm gormodol hwn ei ad-dalu yn ychwanegol at y Lwfans Costau Swyddfa sylfaenol. | ① |
| 37 | Gall Aelodau'r Cynulliad isosod rhan o'u swyddfa i sefydliadau plaid wleidyddol, undeb llafur neu unrhyw sefydliad neu fusnes arall, ond dim ond pan fydd trefniadau felly'n eglur. Dylai Comisiwn y Cynulliad osod rheolau clir ynglŷn â sut i ddelio ag incwm a gynhyrchir dan drefniadau felly. Rhaid peidio ar unrhyw gyfrif â defnyddio'r swyddfa a ddefnyddir gan yr Aelod ar gyfer | ① |

| | | |
|---|---|---|
| | gweithgarwch plaid wleidyddol, gan gynnwys ymgyrchu. | |
| 38 | Ni ddylid prydlesu swyddfa oddi wrth bartner Aelod Cynulliad, aelodau o'i deulu, cydweithwyr busnes nac unrhyw sefydliad, gan gynnwys ymddiriedolaeth y mae gan yr Aelod, partner, aelod teulu neu gydweithiwr busnes fudd ariannol ynddi, gydag eithriadau i gynnwys daliadau bach iawn mewn cwmnïau wedi eu rhestru a buddiolwyr cronfeydd pensiwn mawr. | ② |
| 39 | Lle bydd Aelod Cynulliad yn rhannu swyddfa gydag Aelod Seneddol neu Aelod o Senedd Ewrop, dylid sefydlu cytundeb ffurfiol sy'n gosod allan sut y caiff y costau eu gwahanu, a dylai Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau gymeradwyo hyn a'i gyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad. | ① |
| 40 | Ni ddylai Aelodau'r Cynulliad allu hawlio o'r lwfans costau swyddfa am ddefnyddio'u cartref fel swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol. | ① |
| 41 | Bydd costau Aelodau'r Cynulliad am hysbysebu cymorthfeydd yn cael eu had-dalu hyd at derfyn uchaf o £1,500 mewn unrhyw flwyddyn, a hwnnw i'w dalu o'r ddarpariaeth costau swyddfa. | ① |
| 42 | Ar unwaith, dylai'r holl eitemau unigol o offer swyddfa sy'n costio £50 neu fwy gael eu cofnodi mewn rhestr eitemau. Dylai pob eitem ar y rhestr gael ei dychwelyd i Gomisiwn y Cynulliad pan fydd Aelod Cynulliad yn rhoi'r gorau i'r sedd; oni wneir cytundeb lle bydd yr Aelod yn cynnig prynu'r eitemau am bris wedi ei gytuno; neu eu trosglwyddo i ofal yr Aelod sydd i ddod, a ddylai lofnodi wrth eu cymryd i'w feddiant. | ① |
| 43 | Bydd eitemau unigol o ddodrefn swyddfa neu eitemau unigol eraill sy'n costio dros £750 yn cael eu cyfeirio at Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau i'w cymeradwyo, cyn tynnu'r gost. | ① |
| 44 | Lle mae'n briodol, dylid trefnu'n ganolog ar gyfer darparu offer, dodrefn a chyflenwadau swyddfa i Aelodau'r Cynulliad. Dylai'r Cynulliad hefyd roi i Aelodau enwau cyflenwyr offer swyddfa sydd wedi eu cymeradwyo ac sy'n barod i gynnig gostyngiadau pris mewn gwahanol rannau o Gymru, waeth ble mae eu canolfan. | ① |
| 45 | Dylai'r Corff Adolygu Annibynnol gael pwerau i gymeradwyo newidiadau yn y ddarpariaeth costau swyddfa. | ② |
| **Pennod 8: Staff Aelodau'r Cynulliad** | | |
| 46 | Dylai'r rheolau ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad gael eu cynnwys mewn un ddogfen. | ① |
| 47 | Pan gaiff y canllawiau ar fandiau cyflog y staff eu diwygio y tro nesaf, dylid rhifo'r bandiau yn eu trefn. | ① |
| 48 | Dylai Aelodau'r Cynulliad barhau i gyflogi eu staff eu hunain. | ① |
| 49 | Dylai gwasanaethau cyflogres y Cynulliad Cenedlaethol barhau i weinyddu costau cyflogau'r holl staff, gan nodi ar ran pa Aelodau | ① |

| | | |
|---|---|---|
| | y gwneir hynny. | |
| 50 | Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu grŵp o brentisiaid i gryfhau unedau cymorth canolog pob grŵp plaid. | ② |
| 51 | Er mwyn rhoi gwell adnoddau i'r Cynulliad mewn perthynas â'i gapasiti strategol, dylai Comisiwn y Cynulliad drafod y mater ag arweinwyr y pleidiau gwleidyddol er mwyn dod i gytundeb ar y lefel o gymorth a fyddai'n dderbyniol. Dylai'r Comisiwn hefyd adolygu darpariaeth pob grŵp plaid er mwyn gallu sefydlu uned gymorth ganolog. Bydd yr uned honno'n cynnwys un rheolwr grŵp, un pennaeth polisi ac ymchwil, pedwar ymchwilydd, dau swyddog y wasg a dau aelod o staff gweinyddol ar gyfer grwpiau sydd â rhwng tri a deg Aelod, a'r un trefniant ond gydag un swyddog y wasg ychwanegol ar gyfer grwpiau sydd ag un Aelod ar ddeg neu ragor. | ① |
| 52 | Dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried sefydlu swydd gweithiwr cymorth pwyllgor, gydag Aelodau'r Cynulliad yn eu cyflogi o'u Lwfans Cyflogau Staff. | ② |
| 53 | Er cysondeb, dylai holl staff Aelodau'r Cynulliad gael eu cyflogi yn unol ag amodau contract cyflogaeth safonol. | ① |
| 54 | Dylai Comisiwn y Cynulliad lunio canllawiau i Aelodau'r Cynulliad er mwyn ystyried y graddfeydd cyflog a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Dylai cyflogau cychwynnol adlewyrchu swyddogaethau, cyfrifoldebau a phrofiad staff a dylid cytuno arnynt gyda gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cynulliad cyn cynnig y swydd. | ① |
| 55 | Ni ddylid caniatáu i Aelodau'r Cynulliad roi taliadau bonws i'w staff o'r lwfansau a ariennir gan y Cynulliad. | ① |
| 56 | Bydd cyflogau staff yn parhau i godi bob blwyddyn yn unol â'r rheolau presennol ynghylch codiadau graddol a dyfarniadau 'costau byw'. Fodd bynnag, os bydd newidiadau sylweddol, gall y Corff Adolygu Annibynnol gynnal adolygiad o'r sefyllfa, neu gall Comisiwn y Cynulliad wneud cais am adolygiad o'r fath. | ① |
| 57 | Pan gaiff bandiau cyflog y staff cymorth eu hadolygu nesaf ym mis Ebrill 2010, dylai'r Comisiwn ystyried un ai ychwanegu pwynt arall ar frig pob band, neu gynyddu pwynt uchaf presennol pob band. | ① |
| 58 | Dylai Comisiwn y Cynulliad barhau i dalu cyfraniadau yswiriant cenedlaethol y cyflogwr, a hynny allan o lwfans cyflogau staff Aelodau'r Cynulliad. Dylid nodi ar ran pa Aelodau y gwneir hynny. | ① |
| 59 | Dylai uchafswm cyfraniadau pensiwn y cyflogwr barhau i fod yn 10 y cant o'r cyflog blynyddol gwirioneddol. | ① |
| 60 | Dylid caniatáu i Aelodau'r Cynulliad barhau â'u trefniadau ar gyfer rhannu staff cymorth. Dylid gosod y trefniadau hyn o fewn fframwaith cyfreithiol addas. | ① |

| | | |
|---|---|---|
| 61 | Mewn achosion dilys, dylid caniatáu defnyddio'r gronfa ganolog i dalu am gostau staff llanw dros dro. Dim ond ar gyfer swyddi parhaol y dylid gwneud taliadau am staff llanw o'r fath. Ni ddylid caniatáu taliadau am staff llanw os yw'r swydd yn un dros dro. | ① |
| 62 | Dylai Aelodau'r Cynulliad allu hawlio swm ychwanegol o hyd at £2,000 er mwyn talu treuliau teithio a thaliadau goramser i staff, gan gynnwys cyfraniadau yswiriant cenedlaethol y cyflogwr sy'n berthnasol i daliadau o'r fath. Pan fydd y staff cymorth wedi gorfod ysgwyddo costau teithio uchel wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Cynulliad, gall Aelodau wneud cais i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau er mwyn cynyddu'r lwfans hwn. | ② |
| 63 | Wrth iddynt ddechrau yn eu swydd, dylid rhoi llawlyfr i bob un o staff Aelodau'r Cynulliad. Dylai Comisiwn y Cynulliad baratoi'r llawlyfr hwn, yn seiliedig ar y fformat a welir yn Atodiad 12 o'r adroddiad hwn. Dylid adolygu'r llawlyfr yn rheolaidd a darparu copïau caled ac electronig ohono. | ① |
| 64 | Dylid llunio Polisi Recriwtio ar gyfer penodi staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Dylai hwn ymdrin â'r materion a ganlyn:<br>i) pam ei bod yn bwysig dilyn arferion da, crynodeb o'r fframwaith deddfwriaethol – o ran hil, rhyw, anabledd ac ati<br>ii) y dyletswyddau penodol ar gyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf – hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob dim a wnânt<br>iii) llunio manyleb person cyn hysbysebu'r swydd<br>iv) hysbysebu'n agored ar y wefan ac yn y wasg leol<br>v) ni ddylid cynnwys amod ynghylch y rheidrwydd i fod yn aelod o blaid wleidyddol benodol<br>vi) rheolau'n cyfyngu ar gyflogi aelodau o'r teulu<br>vii) defnyddio ffurflen gais gyffredin sy'n cynnwys gwybodaeth am fonitro cyfle cyfartal<br>viii) dylai Aelodau'r Cynulliad a'r adran Adnoddau Dynol benderfynu pwy sy'n cael cyfweliad<br>ix) cofnodi'r rhesymau dros wrthod ymgeiswyr pan lunnir y rhestr fer (gan roi atborth os gofynnir am hynny)<br>x) cyfweliad proffesiynol gan yr Aelod Cynulliad gan ddilyn canllawiau'r adran Adnoddau Dynol. Dylai hyn gynnwys trafodaeth ar egwyddorion Nolan a Chod Ymddygiad y Staff | ① |
| 66 | Wrth recriwtio unrhyw staff cymorth newydd, dylid dilyn gweithdrefnau recriwtio tryloyw yn unol â'r polisi newydd ac egwyddorion Nolan. | ① |
| 67 | Dylai'r Comisiwn lunio contract cyflogaeth wedi'i ddiweddaru i staff cymorth presennol Aelodau'r Cynulliad, gan ystyried y diwygiadau a awgrymir ym mharagraff 8.93. | ① |
| 68 | Dylai'r Comisiwn lunio contract cyflogaeth newydd ar gyfer yr holl | ① |

| | | |
|---|---|---|
| | staff cymorth newydd a benodir gan Aelodau'r Cynulliad. | |
| 69 | Dylid cyfrifo taliadau dileu swyddi staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn unol â'r cynllun taliadau dileu swyddi statudol ynghyd â thaliad ychwanegol o 50 y cant. | ① |
| 70 | Dylai Comisiwn y Cynulliad fod yn fodlon bod ceisiadau a wneir am gostau dileu swyddi yn rhesymol, yn dibynnu ar y sefyllfa benodol dan sylw. Mae'n rhaid i'r Comisiwn gytuno bod modd cyfiawnhau dileu'r swyddi a bod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn, a hynny er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol. | ① |
| 71 | Dylai fod gan Gomisiwn y Cynulliad yr awdurdod i dalu, o gronfa ganolog, y cyfan neu rywfaint o'r costau dileu swyddi sy'n rhesymol eu talu pan fydd grŵp o staff yn chwalu ar ôl i un Aelod Cynulliad neu ragor adael ei swydd. | ① |
| **Pennod 9: Hyfforddi a datblygu** | | |
| 72 | Dylid annog grwpiau'r pleidiau i lunio proffiliau swyddi ar gyfer eu Haelodau Cynulliad a'u defnyddio'n adeiladol er mwyn nodi bylchau sgiliau ac anghenion datblygu. | ① |
| 73 | Dylai pob un o'r grwpiau pleidiau lunio adroddiad byr, unwaith y flwyddyn, yn rhoi crynodeb o gyflawniadau hyfforddiant ei Aelodau, a'i gyhoeddi ar wefan y Cynulliad. | ② |
| 74 | Dylai pob grŵp plaid benodi 'hyrwyddwr hyfforddiant' er mwyn rhoi cefnogaeth ac annog dysgu a datblygu parhaus ymysg yr Aelodau a'u staff. | ② |
| 76 | Dylai grwpiau'r pleidiau gytuno i neilltuo un prynhawn bob mis ar gyfer hyfforddiant (er enghraifft, ar brynhawn dydd Llun neu brynhawn dydd Iau) a sicrhau bod pob Aelod Cynulliad yn bresennol yn y sesiynau ar feysydd allweddol, y meysydd a ddaeth i'r amlwg ar ôl dadansoddi'r anghenion hyfforddi, a'r meysydd a bennwyd gan yr 'hyrwyddwr hyfforddi' a thrwy'r broses hunanasesu. | ② |
| 77 | Dylai'r Comisiwn gyhoeddi gwybodaeth a data ar ei wefan am y cyfleoedd hyfforddi a datblygu y bydd yr Aelodau unigol wedi manteisio arnynt, ynghyd â chyhoeddi hynny yn y Pwyllgorau. Bydd hynny'n rhoi gwell gwybodaeth i'r etholwyr am yr Aelodau Cynulliad a etholwyd ganddynt. | ① |
| 78 | Ynghyd â chael hyfforddiant a ddarperir gan grŵp y blaid ac unrhyw hyfforddiant arbenigol angenrheidiol, dylai staff Aelodau'r Cynulliad allu manteisio ar unrhyw hyfforddiant perthnasol sydd ar gael ar hyn o bryd i staff y Cynulliad Cenedlaethol. | ② |
| 79 | Dylid talu am hyfforddiant i'r staff cymorth o gyllideb hyfforddi Aelodau'r Cynulliad, a dylai honno gael ei rheoli'n ganolog. | ② |
| 81 | Dylai'r gyllideb hyfforddi fod yn uwch yn y flwyddyn gyntaf gan | ② |

| | | |
|---|---|---|
| | mai dyna pryd y bydd angen y mwyaf o hyfforddiant ar Aelodau newydd y Cynulliad a'u staff. Argymhellwn gyfanswm o £350,000 yn y flwyddyn gyntaf, a £200,000 ym mhob un o'r tair blynedd ddilynol. | |
| 82 | Dylai Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau sefydlu system lle bydd grwpiau'r pleidiau'n gwneud cais am arian o'r gyllideb hyfforddi, er mwyn darparu hyfforddiant penodol i Aelodau'r Cynulliad a'u staff. | ① |
| **Pennod 10: Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu** | | |
| 83 | Dylai fod yn orfodol i Aelodau'r Cynulliad a'u cyflogeion lofnodi'r Cod TGCh cyn defnyddio offer TGCh. Yn ddelfrydol dylai hyn fod yn rhan o'r broses sefydlu. | ① |
| 84 | Yn ogystal â'r cyfrifiaduron a'r offer TGCh arall a ddarperir yn y swyddfa ym Mae Caerdydd a'r swyddfa yn yr etholaeth, dylai pob Aelod Cynulliad barhau i gael un ddyfais BlackBerry (neu ddyfais debyg), un ffôn symudol, un gliniadur, un llinell dir a chysylltiad â band eang. | ① |
| 85 | Dylai Aelodau'r Cynulliad fod yn gymwys i hawlio ad-daliad am gost galwadau busnes a wnaed ar eu ffôn symudol. Dylent gael dewis naill ai i gyflwyno bil eitemedig neu gyfrannu cyfradd unffurf o 50 y cant tuag at gyfanswm y bil. Byddai disgwyl i Aelodau ddewis un o'r opsiynau hyn ar ddechrau pob Cynulliad. | ① |
| 86 | Dylai'r holl offer TGCh a roddir i Aelodau'r Cynulliad barhau i gael eu cofnodi ar gofrestr asedau a dylid eu dychwelyd i Gomisiwn y Cynulliad pan fo Aelod yn gadael. | ① |
| **Pennod 11: Teithio** | | |
| 87 | Dylai cyfraddau teithio fesul milltir barhau i fod yn seiliedig ar y rhai a osodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi a dylent fod yn berthnasol i Aelodau'r Cynulliad a'u staff. | ① |
| 88 | Dylai Comisiwn y Cynulliad gynnal trafodaethau â Thrysorlys Ei Mawrhydi a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i ystyried datblygu system newydd o gyfraddau teithio fesul milltir sy'n seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf, gyda'r nod o fod yn fwy cadarnhaol wrth annog pobl i ddefnyddio cerbydau sy'n fwy amgylcheddol-gyfeillgar. | ① |
| 89 | Dylai Aelodau'r Cynulliad barhau i fod yn gymwys i hawlio costau teithio rhwng eu cartref, y Cynulliad a swyddfeydd lleol. | ① |
| 90 | Dylai'r trefniadau teithio presennol ar gyfer partneriaid a phlant Aelodau'r Cynulliad, fel y nodir yn Adran 6 o Benderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009, aros fel y maent. | ② |
| 91 | Dylai Adran 4.2 o Benderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009 gael ei ddiwygio i annog trafnidiaeth gynaliadwy a chynllun y Ddraig Werdd. | ② |
| 93 | Dylai Aelodau'r Cynulliad chwilio am y tocyn teithio rhataf posibl | ① |

| | | |
|---|---|---|
| | ac ystyried unrhyw ostyngiadau sydd ar gael; gan gynnwys y rhai sydd ar gael i Aelodau sy'n ddeiliaid 'tocynnau rheilffordd i bobl hŷn' neu gostau teithio rhad eraill. | |
| 94 | Dylai Comisiwn y Cynulliad geisio annog Aelodau'r Cynulliad i rannu car pan fo hynny'n briodol, efallai drwy gynnig cymhelliant ariannol. | ① |
| 95 | Dylai Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau geisio cynnal trafodaethau â gweithredwyr trenau a darparwyr gwasanaethau hedfan i gytuno ar gostau gostyngol i Aelodau'r Cynulliad sy'n defnyddio'u gwasanaethau ar gyfer busnes y Cynulliad. | ① |
| 96 | Dylai teithiau y tu allan i'r DU barhau i gael eu cymeradwyo ymlaen llaw gan Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau (ac eithrio teithiau i Frwsel a Strasbourg). | ② |
| 97 | Mewn unrhyw flwyddyn ariannol, dylid caniatáu i bob Aelod Cynulliad fynd at hyd ar bedair taith y flwyddyn rhwng Cymru ac Aelod-wladwriaeth, neu ranbarth, o'r Undeb Ewropeaidd ar fusnes sy'n ymwneud â'r Cynulliad. | ① |
| 98 | Dylai Comisiwn y Cynulliad adolygu'r polisi presennol ar gyfer trefniadau parcio yn swyddfeydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd o ran Aelodau'r Cynulliad, eu staff a staff y Cynulliad – o ran tegwch y ddarpariaeth, polisi cynaliadwyedd ac effaith ar adnoddau. | ① |
| **Pennod 12: Gweinyddu, archwilio a safonau** | | |
| 99 | Dylai Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, roi systemau ar waith i sicrhau trefn lywodraethu gorfforaethol briodol. | ① |
| 100 | Dylid cynnal yr egwyddorion o lywodraethu corfforaethol cadarn fel a ganlyn:<br><br>i) rheolau cyhoeddedig sydd wedi'u mynegi'n glir, eu cymhwyso'n gyson a'u hategu gan ganllawiau eglur<br>ii) os derbynnir yr adroddiad hwn, rhaid i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau nodi'n glir mewn un ddogfen sydd ar gael i'r cyhoedd yr holl gostau y gall Aelod Cynulliad eu hawlio, gan gynnwys cyflogau, treuliau a lwfansau, sydd hefyd yn cynnwys costau staff cymorth<br>iii) rhaid cael canllawiau eglur i ategu'r ddogfen honno sy'n nodi'n fanwl y rheolau a'r gweithdrefnau penodol y dylai Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth eu dilyn wrth nodi costau lwfans y gellir eu hawlio, wrth baratoi hawliadau i'w cyflwyno a chadw papurau ategol<br>iv) rhaid paratoi hefyd ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer staff Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau i'w cynorthwyo i wirio a phrosesu hawliadau i gael eu cymeradwyo a'u talu<br>v) hyfforddiant a chymorth priodol ac amserol i bawb sy'n | ① |

| | | |
|---|---|---|
| | gysylltiedig â'r dasg o weithredu'r trefniadau newydd<br>vi) rhaid i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau ddatblygu deunydd hyfforddiant priodol ar y trefniadau newydd a chynnig yr hyfforddiant hwn i holl Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Dylai fod yn orfodol iddynt fynd ar y cyrsiau hyfforddi hyn<br>vii) rhaid gwneud addasiadau priodol i'r trefniadau sefydlu presennol ar gyfer pob Aelod Cynulliad a staff cymorth newydd, a hynny er mwyn sicrhau bod digon o amlygrwydd yn cael ei roi i'r materion hyn o'r cychwyn<br>viii) rhaid hefyd sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff y Comisiwn yn cael hyfforddiant, yn cynnwys staff Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau, ar sut i roi'r trefniadau newydd hyn ar waith<br>ix) rhaid sicrhau bod trefniadau archwilio mewnol ac allanol cynhwysfawr a chadarn yn bodoli | |
| 102 | Dylai Comisiwn y Cynulliad ddefnyddio trefniadau archwilio mewnol er mwyn rhoi sicrwydd i Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, fod y fframwaith rheoli mewnol ar gyfer y trefniadau newydd yn un gadarn ac yn gweithredu yn ôl y bwriad. | ① |
| 103 | Er mwyn sicrhau tryloywder, dylai Datganiad Rheolaeth Fewnol blynyddol y Comisiwn ar gynnwys cyfeiriad pendant at effeithiolrwydd y fframwaith rheoli mewnol o ran y trefniadau newydd. | ① |
| 104 | Y Pwyllgor Archwilio ddylai fod yr enw newydd ar y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. | ① |
| 105 | Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Cymru) ddylai fod yr enw newydd ar y Pwyllgor Archwilio presennol. | ① |
| 106 | Dylai fod yn ddyletswydd ar Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gyfeirio materion perthnasol at y Comisiynydd Safonau i ymchwilio iddynt. | ① |
| 107 | Er mwyn gwella effeithiolrwydd y broses archwilio, byddai'r Panel yn cefnogi'r penderfyniad i ehangu pwerau'r Comisiynydd Safonau i ymchwilio i achosion eraill posibl, y maent yn berthnasol i'r ymchwiliad i un mater penodol neu'n gysylltiedig ag ef ym marn y Comisiynydd. | ① |
| 108 | Dyali'r Corff Adolygu Annibynnol gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Gall Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Cenedlaethol, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, alw cyfarfod arbennig gan y Corff Adolygu Annibynnol ar unrhyw adeg. | ① |

## Pennod 2: Ein dull o weithio

### Rhagymadrodd

2.1 Sefydlwyd y panel adolygu annibynnol hwn (y Panel) gan Gomisiwn y Cynulliad yn haf 2008. Mae'r Panel yn credu y dylid canmol y Comisiynwyr am eu gweledigaeth. Mae cyflogau a lwfansau Aelodau Tŷ'r Cyffredin wedi dod yn bwnc trafod cyhoeddus o bwys yn ystod ein hymchwiliad, yn enwedig dros y tri mis diwethaf. Fodd bynnag, er bod ein hadroddiad yn rhoi sylw i'r holl faterion sy'n peri pryder, dylid ei gwneud yn glir nad ein hymateb i'r datblygiadau yn San Steffan yw'r adroddiad hwn. Nod ein hargymhellion ni yw creu system gadarn a thryloyw ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol.

2.2 Cyflwynwyd adroddiad panel adolygu annibynnol blaenorol ym mis Mawrth 2008, ac roedd hwnnw'n canolbwyntio'n bennaf ar gyflogau. Ei brif argymhelliad oedd y dylai cyflogau Aelodau'r Cynulliad godi o 76.5 y cant i 82 y cant o gyflogau Aelodau Seneddol. Y rheswm am hyn oedd er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldebau cynyddol sydd gan Aelodau'r Cynulliad, yn enwedig craffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol, yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

2.3 Un arall o'i argymhellion allweddol oedd:

> "a fundamental examination of the pay and system of financial support for Members under the developing devolution settlement. This will allow for further experience of the new powers of the Assembly as they develop to inform the review, and for a new approach to be adopted, tailored by the Assembly, which has the advantage of effectiveness, clarity, transparency and simplicity."

2.4 Derbyniodd Comisiwn y Cynulliad yr argymhelliad hwn a phenodwyd y Panel ym mis Awst 2008. Dechreuodd ein hadolygiad y mis canlynol.

### Ein cylch gorchwyl

2.5 **Edrych ar bob agwedd ar y cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys cyflogau a lwfansau ar gyfer teithio, llety, swyddfeydd yn yr etholaethau a staff cymorth. Wrth gyflawni'i waith, byddai'r Panel yn gwneud y canlynol:**

- **adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad a chwilio am arferion gorau**

- **clywed tystiolaeth ar faterion perthnasol**

- **ymgynghori â chyrff a rhanddeiliaid perthnasol**

- **llunio cyfres o argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth, a'r rheini'n cynnwys egwyddorion a fydd yn creu proses deg, gyfiawn a thryloyw ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad**

2.6 Caiff y rheolau presennol sy'n ymwneud â chyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad eu cynnwys ym Mhenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) Cyflogau a Lwfansau 2009 ac yn y darn cyfatebol o Benderfyniad 2006. Mae'r rhain i'w gweld yn **Atodiad 1**.

**Nodau strategol**

2.7 Wrth gyflawni'r adolygiad hwn, mae'r Panel wedi ystyried pum nod strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad 2.**

**Y fframwaith deddfwriaethol**

2.8 Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Fodd bynnag, bu i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('y Ddeddf') greu cyfansoddiad newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol fel corff deddfwriaethol ar wahân i'r weithrediaeth (Llywodraeth Cynulliad Cymru), gan roi rhagor o bwerau iddo wneud deddfau.

2.9 Felly, ers 2007, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol yr hawl i wneud deddfau – a elwir yn 'Fesurau' – mewn meysydd lle mae ganddo gymhwysedd deddfwriaethol ynddynt. Ceir cymhwysedd deddfwriaethol naill ai trwy Ddeddf Seneddol, neu drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ Senedd y DU.

2.10 Er bod darpariaethau yn y Ddeddf mewn perthynas â thâl i Aelodau'r Cynulliad, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol i wneud Mesurau Cynulliad. Gall y Mesurau hyn ddarparu ar gyfer talu cyflogau, lwfansau, pensiynau ac arian rhodd i Aelodau'r Cynulliad, neu mewn perthynas â hynny, a gallant ddiwygio darpariaethau yn y Ddeddf.

2.11 I gael mwy o wybodaeth am y ddeddfwriaeth berthnasol, gweler **Atodiad 3.**

**Y cyd-destun**

2.12 Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n sefydliad ifanc – prin ddeg oed ydyw. Mae ganddo gyllideb flynyddol o £48 miliwn, a hwnnw'n dod o grant bloc y Trysorlys o £15 biliwn ar gyfer y sefydliadau datganoledig yng Nghymru. Mae rhyw £13 miliwn o'r gyllideb o £48 miliwn ar gyfer cyflogau a lwfansau Aelodau, cyflogau Deiliaid Swyddi a chyflogau staff cymorth yr Aelodau. Nid oes gan y Cynulliad unrhyw bwerau trethu annibynnol. Fel y crybwyllir uchod, gall y Cynulliad basio deddfwriaeth (Mesurau Cynulliad) mewn nifer o feysydd polisi allweddol, gan gynnwys iechyd, addysg a theithio.

2.13 Yn 2008, cynhaliwyd arolwg o agweddau'r cyhoedd tuag at ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus gan BMRB Social Research, ar ran y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Canfu'r arolwg hwnnw fod pobl yng Nghymru'n fwy tebygol o ymddiried yng Ngweinidogion Cymru (55 y cant) ac yn Aelodau'r Cynulliad (51 y cant) i ddweud y gwir nag oeddent o ymddiried yng Ngweinidogion Llywodraeth y DU (42 y cant).

2.14 Mae 60 o Aelodau Cynulliad ar hyn o bryd; 40 Aelod wedi'u hethol yn ôl system 'y cyntaf i'r felin' ac 20 Aelod arall wedi'u hethol trwy gynrychiolaeth gyfrannol. Ceir disgrifiad manylach o hyn ym **Mhennod 4.**

2.15 Ym mis Mehefin 2007, comisiynodd Corff Corfforaethol Senedd yr Alban (SPCB) adolygiad o lwfansau Aelodau Senedd yr Alban. Cafodd yr adolygiad hwn ei gadeirio gan Syr Alan Langlands, a chyflwynwyd ei adroddiad ym mis Mawrth 2008. Mae cynllun newydd (Cynllun Ad-dalu Treuliau Aelodau) bellach yn weithredol, a hwnnw i raddau helaeth yn seiliedig ar argymhellion yr adolygiad. Mae nifer o'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwnnw yn berthnasol i'n gwaith ni. Clywodd y Panel dystiolaeth hefyd gan ddau o uwch swyddogion Senedd yr Alban a oedd yn gyfrifol am weinyddu'r system o roi cymorth ariannol i'r Aelodau yno. Ym mis Mehefin 2009, penderfynodd y Corff Corfforaethol edrych eto ar ei gynllun yng ngoleuni datblygiadau yn San Steffan ac yng Nghymru, ond gyda golwg ar ddatblygu'r system bresennol yn hytrach na'i disodli. Mae'r Panel hefyd yn nodi adroddiad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB) ar gyflogau a lwfansau Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon.

2.16 Yn San Steffan, bu cryn weithgarwch yn ddiweddar mewn perthynas â chyflog a lwfansau Aelodau Seneddol, gan gynnwys argymhellion gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion, ystyriaeth gan Bwyllgor Amcangyfrif yr Aelodau (MEC), dadleuon a phleidleisiau yn Nhŷ'r Cyffredin ac adolygiad gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Er na chafodd ein gwaith ni ei ysgogi gan ddigwyddiadau yn San Steffan, mae'r materion yno, wrth gwrs, yn berthnasol.

2.17 Yn gynnar yn 2008, cytunodd y Tŷ i roi codiad cyflog cyfyngedig i Aelodau Seneddol. Cytunwyd hefyd y byddai Syr John Baker yn cynnal adolygiad o'r dull o bennu cyflogau Aelodau Seneddol heb iddynt orfod pleidleisio ar hynny. Cyhoeddodd Syr John Baker ei adroddiad, Review of Parliamentary Pay and Pensions, ym mis Mehefin 2008. Derbyniodd y Llywodraeth argymhelliad Syr John y dylai'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion barhau i weithredu fel y corff annibynnol sy'n adolygu cyflogau Aelodau Seneddol, y dylai'r adolygiadau hyn gael eu cynnal unwaith ym mhob Senedd, ac y dylid gweithredu casgliadau'r adolygiadau hynny heb fod angen cynnal dadleuon neu bleidleisiau pellach yn y Tŷ. Ni dderbyniodd y Llywodraeth argymhelliad Syr John y dylid cael codiad o £650 y flwyddyn yng nghyflogau Aelodau Seneddol dros y tair blynedd nesaf. Ni dderbyniodd y Llywodraeth ychwaith y dylai fod cyswllt rhwng cyflog Aelodau Seneddol a mynegai enillion cyfartalog y sector cyhoeddus. Yn hytrach, cynigiodd y Llywodraeth, yn unol â'r awgrym arall gan Syr John, y dylai Aelodau Seneddol dderbyn cyfartaledd y setliadau ar gyfer ystod eang o weithluoedd yn y sector cyhoeddus. Cafwyd dadl ar y materion hyn yn y Tŷ ym mis Gorffennaf 2008, a mabwysiadwyd y trefniadau a oedd yn cael eu ffafrio gan y Llywodraeth. Yn y dyfodol, ni fydd Aelodau Seneddol yn pleidleisio ar eu cyflogau.

2.18 Mynegodd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus bryder am y tro cyntaf ynghylch system lwfansau a threuliau Aelodau Seneddol yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor yn 2006. Ym mis Ebrill 2008, cyhoeddodd y Pwyllgor gyfres o egwyddorion i fod yn sail i'r system ar gyfer ad-dalu treuliau Aelodau Seneddol. Cyflwynwyd yr egwyddorion hyn i'r adolygiad a oedd yn cael ei gynnal gan Bwyllgor Amcangyfrif yr Aelodau ar y pryd. Ym mis Gorffennaf 2008, yn dilyn dwy ddadl yn y Tŷ ar y mater, nododd y Pwyllgor fel a ganlyn:

> "There remains a case in our view for a fresh and independent look at the complete picture of how MPs should be supported in a modern system, looking at both what the public expect from their MPs and how they are resourced to meet those expectations."

2.19 Ym mis Ionawr 2009, cafwyd dadl yn y Tŷ ar gynigion y Llywodraeth mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth am dalu lwfansau i Aelodau Seneddol. Roedd hyn yn cynnwys diwygiadau i'r rheolau sy'n berthnasol i lwfansau Aelodau Seneddol (neu'r 'Llyfr Gwyrdd'), gwell gweithdrefnau ar gyfer archwilio a darparu sicrwydd, a sefydlu pwyllgor dethol newydd (Pwyllgor Lwfansau Aelodau) i gynghori'r Llefarydd, Pwyllgor Amcangyfrif yr Aelodau ac Arweinydd y Tŷ ynghylch pob mater sy'n ymwneud â lwfansau Aelodau Seneddol. Cafodd pob un o'r mesurau hyn eu cymeradwyo gan y Tŷ.

2.20 Ym mis Ebrill 2009, penderfynodd y Tŷ gefnogi penderfyniad y Llywodraeth i gyfeirio materion sy'n ymwneud â lwfansau at y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a gohirio'i gasgliadau nes bod y Pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad ar hynny. Fodd bynnag, aeth y Tŷ ati wedyn i ystyried rhai newidiadau i'r system, gan gynnwys:

- cytuno na ddylai Aelodau Llundain (Llundain fewnol ac allanol) gael hawlio'r lwfans ail gartrefi. Cafodd hyn ei ddiffinio fel unrhyw Aelod sy'n cynrychioli etholaeth sy'n gyfan gwbl o fewn 20 milltir i Balas San Steffan. Daw hyn i rym o 1 Ebrill 2010

- cytunwyd ar fersiwn estynedig o'r gofrestr o fuddiannau ariannol Aelodau fel bod angen cofrestru pob taliad o fuddiannau allanol a dderbynnir gan Aelodau (swyddi cyfarwyddwyr, cyflogaeth, taliadau gan gleientiaid), ynghyd â manylion eraill megis y math o waith a'r oriau gwaith

- mynegwyd yn y Tŷ y dylai staff yr Aelodau gael eu cyflogi gan y Tŷ, yn amodol ar ystyriaeth gan Gomisiwn Tŷ'r Cyffredin, a fydd yn adrodd ar 29 Hydref 2009. Mynegodd nifer o Aelodau Seneddol bryder personol ynghylch y cynnig, gan nodi y byddai'r costau'n uwch pe bai hyn yn dod i rym. Roedd materion perthnasol eraill yn cynnwys diffyg ymgynghori â staff, goblygiadau'r rheolau o ran natur ddiduedd staff Tŷ'r Cyffredin, a'r tebygolrwydd y byddai gofyn newid y gyfraith

- o 1 Gorffennaf 2009, bydd angen derbynebion i gyd-fynd â phob hawliad. Ar hyn o bryd, gall Aelodau Seneddol hawlio hyd at £25 y dydd heb dderbynebion

2.21 Mae'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn gweithio ar ei adolygiad ar hyn o bryd, gyda'r nod o sicrhau'r canlynol:

- y darperir yr adnoddau a'r treuliau sydd angen eu had-dalu i Aelodau Seneddol er mwyn eu galluogi i gyflawni'u swyddi'n effeithiol

- bod gan Aelodau Seneddol fodd digonol o'u hamddiffyn eu hunain rhag cyhuddiadau di-sail o amhriodoldeb

- bod system gwbl dryloyw'n bodoli lle gellir gweld yn glir sut y mae arian trethdalwyr yn cael ei wario

- bod y system yn gynaliadwy

- bod ffydd y cyhoedd yn cael ei adfer

2.22 Yn olaf, mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion yn ystyried y trefniadau pensiwn ar gyfer Aelodau Seneddol ac mae disgwyl iddo gyflwyno'i adroddiad yn ddiweddarach eleni.

2.23 Yn ystod ein hymchwiliad, bu pryder eang ymysg y cyhoedd, na welwyd mo'i debyg, ynghylch y trefniadau presennol sy'n ymwneud â chyflogau a lwfansau Aelodau Seneddol. Mae storïau am gamddefnydd honedig o lwfansau gan wleidyddion mewn seneddau a chynulliadau datganoledig ledled y DU wedi ymddangos yn rheolaidd ac yn amlwg yn y wasg Brydeinig a'r wasg Gymreig. Yn dilyn ymchwiliadau gan yr awdurdodau perthnasol, cafwyd bod y gwleidyddion hyn, fel arfer, wedi dilyn y rheolau. Mae hyn yn peri i ni ofyn a yw'r rheolau'n deg ac yn rhesymol? Mae'r cwestiwn hwn yn greiddiol i waith y Panel.

2.24 Mae'r system bresennol o roi cymorth ariannol yn y Cynulliad yn seiliedig ar fodel San Steffan, ac mae cyswllt uniongyrchol rhwng cyflog Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad. Roedd hwn yn fan cychwyn rhesymol i'r sefydliad newydd. Fodd bynnag, dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi datblygu ei weithdrefnau a'i arferion gorau ei hun ac mae ganddo bellach fwy o brofiad o ddefnyddio'i bwerau newydd.

2.25 Mae'r Panel yn croesawu'r ffaith bod Comisiwn y Cynulliad eisoes wedi cyhoeddi gwybodaeth fanwl am y treuliau a hawliwyd gan yr Aelodau a'i fod wedi ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth o'r fath yn rheolaidd yn y dyfodol. Rydym yn credu bod tryloywder yn allweddol er mwyn ennyn ffydd y cyhoedd yn y trefniadau presennol.

2.26 Mae'r adolygiad hwn yn gyfle i greu system newydd sy'n gweddu orau i'r anghenion presennol a'r disgwyliadau yn y dyfodol.

**Y broses**

2.27 Cytunodd y Panel yn ei gyfarfod cyntaf y byddai'n ceisio casglu tystiolaeth gan bob un o Aelodau'r Cynulliad, grwpiau'r pleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad, staff cymorth yr Aelodau, deddfwrfeydd eraill y DU a sefydliadau perthnasol. Roeddem yn awyddus i glywed safbwyntiau yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar dreuliau sy'n angenrheidiol er mwyn i'r Aelodau gyflawni'u dyletswyddau, ond roedd gennym ddiddordeb arbennig yn y canlynol:

- y tasgau y disgwylir i'r Aelodau eu cyflawni mewn perthynas â'u dyletswyddau yn y Cynulliad ac ymgysylltu ag etholwyr. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai cael gwybod am eu llwyth gwaith (er enghraifft, faint o ohebiaeth yr ymdrinnir â hi, nifer y cymorthfeydd, cyfarfodydd lleol ac ati) o gymorth mawr

- yr adnoddau y mae eu hangen (gan gynnwys staff a llety) i gyflawni dyletswyddau swyddogol

- sut y gellid darparu llety ar gyfer Aelodau nad ydynt yn rhesymol yn gallu cymudo i Fae Caerdydd yn ddyddiol er mwyn cyflawni'u dyletswyddau swyddogol

- pa deithio sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn a sut y byddai'r costau hynny'n cael eu had-dalu

2.28 At hynny, rhoddwyd galwad gyffredinol am dystiolaeth gan y cyhoedd. Roeddem yn falch o dderbyn 74 ymateb: 10 oddi wrth Aelodau neu eu staff cymorth, 36 oddi wrth gynghorau lleol (gan gynnwys cynghorau cymuned), 7 oddi wrth sefydliadau eraill a 21 oddi wrth unigolion. Roedd chwech o'r ymatebion hyn yn nodi nad oedd yr anfonwr yn dymuno gwneud sylw am y trefniadau presennol. Mae enwau'r unigolion a'r sefydliadau a ymatebodd i'w cael yn **Atodiad 4.**

2.29 Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i law'n cael eu dangos ar y wefan ar ôl i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi.

2.30 Cynhaliwyd dau gyfarfod cyhoeddus gennym: y naill yn Llandudno ar 5 Rhagfyr 2008 a'r llall yng Nghaerdydd ar 27 Ionawr 2009. Yn ogystal, cynhaliwyd 25 o gyfarfodydd preifat rhwng mis Medi 2008 a mis Gorffennaf 2009. Cynhaliwyd y rhain i gyd ym Mae Caerdydd er mwyn clywed a phwyso a mesur tystiolaeth gan dystion, ac er mwyn paratoi ein hadroddiad.

2.31 Yn ystod y cyfarfodydd preifat, clywsom dystiolaeth gan 15 Aelod a dau Weinidog. Roedd pedwar Aelod yn cynrychioli safbwyntiau'u grŵp gwleidyddol a'r lleill yn ymddangos fel unigolion. Clywsom hefyd gan ddau gyn-Aelod Cynulliad, y mae un ohonynt bellach yn Aelod Seneddol. Yn ogystal, derbyniwyd tystiolaeth gan saith o bobl sy'n gweithio fel staff cymorth i'r Aelodau o fewn y pedwar prif grŵp gwleidyddol, ynghyd â swyddogion o Senedd yr Alban a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Ceir rhestr o'r tystion yn **Atodiad 5.**

2.32 Er mwyn ein helpu â'n trafodaethau, comisiynwyd cyngor cyfreithiol annibynnol gan Morgan Cole.

2.33 Cynhaliodd y Panel drafodaethau anffurfiol gyda phedwar Comisiynydd y Cynulliad, y Comisiynydd Safonau, Archwilydd Cyffredinol Cymru, aelod o'r panel adolygu blaenorol a nifer o swyddogion yng Nghomisiwn y Cynulliad sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r system bresennol ar gyfer rhoi cymorth ariannol i'r Aelodau.

2.34 Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o waith Aelodau'r Cynulliad yn ei holl agweddau, bu aelodau'r Panel yn 'cysgodi' chwe Aelod yn eu hetholaethau neu'u rhanbarthau ac yn ymweld â nifer o swyddfeydd yn yr etholaethau. Lle'r oedd hynny'n bosibl, siaradwyd hefyd gyda staff cymorth yr Aelodau hynny, er mwyn cael dealltwriaeth fwy eglur o'u gwaith.

2.35 Yn ystod y cyfarfodydd cyhoeddus, anerchwyd y Panel gan gynrychiolwyr o'r Sefydliad Materion Cymreig, Prifysgol Abertawe, Cynghrair y Trethdalwyr a chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Cafodd aelodau'r Panel drafodaethau bywiog ac adeiladol gyda'r cyhoedd yn y ddau gyfarfod.

2.36 Yn ogystal â'r cyfarfodydd ffurfiol, bu aelodau'r Panel yn arsylwi ar Aelodau wrth eu gwaith mewn Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau.

2.37 Cafodd y Cadeirydd hefyd drafodaethau anffurfiol gyda Syr Alan Langlands, Cadeirydd y panel a gynhaliodd yr adolygiad o lwfansau ar gyfer Aelodau Senedd yr Alban, a Syr Christopher Kelly, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Mae'r Panel yn ddiolchgar i Syr Alan a Syr Christopher am eu cymorth.

2.38 Un o'r materion cyntaf a gafodd sylw gennym oedd beth a olygir wrth 'lwfans'. Rydym yn cytuno â phanel yr Alban ei fod mewn gwirionedd yn 'ad-daliad o dreuliau' a ysgwyddwyd gan Aelodau er mwyn gwneud eu gwaith.

2.39 Mae'n rhaid rhoi'r adnoddau i'r Aelodau allu cyflawni'r gwaith y cawsant eu hethol i'w wneud. Wrth ysgwyddo costau sy'n gyfreithlon, ni ddylid disgwyl i'r Aelodau dalu'r costau hynny'n bersonol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw gynllun ad-dalu sicrhau gwerth am arian, mae'n rhaid i'r Aelodau fod yn atebol, ac mae'n rhaid i'r prosesau gweinyddol perthnasol fod yn dryloyw. Atebolrwydd a thryloywder yw'r ddau beth allweddol er mwyn adfer ffydd y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd yn gyffredinol ac mewn gwleidyddion yn benodol.

2.40 O'r dystiolaeth a ddaeth i law, roedd yn amlwg bod angen canolbwyntio ar y trefniadau llety preswyl; hyfforddi a datblygu Aelodau a'u staff; darparu swyddfeydd yn yr amryw etholaethau a rhanbarthau; ad-dalu costau teithio; a'r system daliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

2.41 Un mater canolog a ddaeth yn amlwg yn ystod ein hymchwiliad oedd gallu 60 o Aelodau i ymdopi â maint a chymhlethdod cynyddol eu gwaith. Roeddem yn teimlo mai diofal fyddai peidio â gwneud sylw ar y mater pwysig hwn, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr angen am staff cymorth a'u patrwm gweithio. Rydym yn awgrymu ateb posibl, o fewn cyfyngiadau'r system etholiadol bresennol, ac ymdrinnir â hynny ym **Mhennod 4**.

2.42 Rydym wedi asesu'r gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol sy'n bodoli ar hyn o bryd, gan gynnwys archwilio mewnol ac allanol. Rydym yn dawel ein meddwl bod llywodraethu corfforaethol yn rhywbeth y mae Comisiwn y Cynulliad a'i staff yn ei gymryd o ddifrif, ond teimlwn y gellir cryfhau'r trefniadau presennol. Rhoddir sylw i'r trefniadau archwilio ym **Mhennod 12**.

2.43 Crëwyd argraff arnom hefyd gan ymroddiad a phroffesiynoldeb y staff sy'n gweinyddu'r system bresennol ar gyfer rhoi cymorth ariannol i'r Aelodau. Cawsom ein calonogi'n arbennig gan y trefniadau atebolrwydd lle na chaiff gwariant ei ad-dalu oni chaiff ei ddilysu ag anfonebau a derbynebion. Rydym yn cytuno'n gryf y dylai hyn barhau fel arfer da.

2.44 Mae tryloywder y trefniadau presennol hefyd wedi cael ei gydnabod yn sgil cyhoeddi manylion gwariant yr Aelodau'n ddiweddar. Mae'r Panel yn llongyfarch y Cynulliad am hyn, gan ei fod yn galluogi'r cyhoedd i weld beth sy'n cael ei wario gan eu cynrychiolwyr etholedig.

2.45 Mae'r Panel yn croesawu'r ffaith bod yr adolygiad hwn wedi cael ei gomisiynu ac mae'n credu bod hynny'n adlewyrchu'n dda ar y Comisiwn ac ar Aelodau'r Cynulliad. Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn cadarnhau'r farn bod Aelodau'r Cynulliad yn gweithio'n gydwybodol ar ran eu hetholwyr. Fodd bynnag, gellid gwella'r system bresennol ar gyfer rhoi cymorth ariannol yn sylweddol. Mae'r Panel wedi mabwysiadu dull strategol o ddarparu system o'r fath a fydd yn para am o leiaf ddeng mlynedd, a'r gobaith yw y bydd yn batrwm i'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

# Pennod 3: Egwyddorion

## Rhagymadrodd

3.1 O'r cychwyn, penderfynwyd mabwysiadu cyfres o egwyddorion arweiniol i lywio'n gwaith. Wrth fframio'r egwyddorion hyn, ystyriwyd y rhai a fabwysiadwyd gan Banel Adolygu'r Alban, a gadeiriwyd gan Syr Alan Langlands. Rydym wedi ystyried yr egwyddorion hyn a'u haddasu ar gyfer ein hymchwiliad ni.

## Amcanion

3.2 Dylai unrhyw gynllun newydd i roi cymorth ariannol wneud y canlynol:

- hybu hyder y cyhoedd a gwell dealltwriaeth am y defnydd o arian cyhoeddus gan Aelodau wrth gyflawni'u dyletswyddau – a mwy o gydnabyddiaeth bod y gwariant hwn yn deg ac yn rhesymol

- darparu adnoddau digonol er mwyn galluogi Aelodau i gyflawni'u rolau a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys craffu ar ddeddfwriaeth, dal Gweinidogion i gyfrif ac ymgysylltu â'u hetholwyr

- dangos cywirdeb, atebolrwydd, gwerth am arian, a thryloywder mewn perthynas â gwario arian cyhoeddus

- chynnwys darpariaeth ar gyfer adolygu a phennu lefelau tâl

## Egwyddorion

3.3 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, cytunwyd y dylai ein gwaith ar unrhyw gynllun newydd gyd-fynd â'r egwyddorion canlynol:

- dylai bod y drefn yn seiliedig ar swyddogaeth – mewn geiriau eraill, dylai'r system hwyluso gwaith Aelodau

- ei bod yn seiliedig ar egwyddorion yn hytrach na budd personol

- ei bod yn rhoi gwerth am arian

- ei bod yn eglur, yn dryloyw, yn ddealladwy, ac yn agored i graffu cyhoeddus

- ei bod yn cyd-fynd ag ymrwymiad Comisiwn y Cynulliad i gynaliadwyedd

- ei bod yn bosibl ei gweinyddu'n gyson mewn modd a fydd yn cyfyngu ar y risg o gamddefnydd

- ei bod yn cynnig dull sy'n golygu mai dim ond treuliau rhesymol a chyfreithlon a gaiff eu had-dalu

- dylid gwirio'r holl hawliadau am dreuliau trwy archwiliad samplu annibynnol

- ni ddylid defnyddio treuliau fel cymhorthdal i bleidiau gwleidyddol neu weithgarwch ymgyrchu gwleidyddol

- dylai'r cynllun weithredu'n deg o safbwynt Aelodau a phwrs y wlad

- dylid adolygu'r cynllun bob hyn a hyn er mwyn ystyried y profiad o'i weithredu ac unrhyw newid yn statws Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3.4 Dylai unrhyw gynllun newydd nodi'n eglur y rheolau a'r canllawiau o ran yr hyn y gellir a'r hyn na ellir ei hawlio mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau Aelodau. Bydd y dull hwn yn helpu'r rhai sy'n gweinyddu'r cynllun i sicrhau bod hawliadau'n cael eu prosesu'n deg ac yn gyson.

3.5 Yn ogystal â'r rheolau cyffredinol ar gyfer pob Aelod Cynulliad, mae canllawiau a phrotocolau penodol yn bodoli sy'n ymwneud â rolau Gweinidogion Cymru a deiliaid swyddi eraill. Mae'r Panel wedi ystyried y rhain yn eang ac nid yw'n gweld unrhyw reswm dros newid y trefniadau presennol.

3.6 Ni fydd unrhyw gyfres o reolau, ni waeth pa mor ragnodol ydyw, yn ymorol am bopeth a all ddigwydd. Bydd achlysuron pan fydd angen rhoi dyfarniad am rinweddau hawliad penodol. Rydym yn gobeithio y bydd ein hegwyddorion allweddol yn rhoi sylfaen i'r penderfyniadau hyn ac yn rhoi i'r swyddogion sy'n gweinyddu'r cynllun yr hyder i wrthsefyll pwysau gormodol.

3.7 Mae Aelodau'r Cynulliad eisoes yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad sy'n cynnwys saith egwyddor bywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac

arweiniad.  Caiff yr agweddau ar y Cod yr ystyrir eu bod yn arbennig o berthnasol eu nodi isod.  Gellir gweld y Cod Ymddygiad yn **Atodiad 6.**

- **Anhunanoldeb:** *Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig.  Ni ddylent wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu'n faterol.*

- **Uniondeb:** *Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.  Dylai Aelodau'r Cynulliad bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei Aelodau'n gyffredinol.  Ni ddylai'r Aelodau ofyn i staff y Cynulliad weithredu mewn unrhyw ffordd a allai gyfaddawdu eu hamhleidioldeb gwleidyddol neu wrthdaro â Chod Ymddygiad Staff y Cynulliad.  Ni ddylent  ychwaith ddisgwyl i'w staff eu hunain wneud unrhyw beth sy'n groes i'w Cod Ymddygiad neu i egwyddorion Nolan.*

- **Gwrthrychedd:** *Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.*

- **Atebolrwydd:** *Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt gytuno i fod yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'r swydd.  Ni ddylid gwneud unrhyw ddefnydd amhriodol o unrhyw daliad neu lwfans a roddir i Aelodau'r Cynulliad at ddibenion cyhoeddus a rhaid cadw at y rheolau gweinyddol sy'n gysylltiedig â thaliadau a lwfansau tebyg.*

- **Bod yn agored**: *Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a'r camau a gymerir ganddynt.  Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar y wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.*

- **Gonestrwydd:** *Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â'u*

*dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi er mwyn diogelu buddiannau'r cyhoedd.*

- **Arweiniad:** *Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad a dangos esiampl.*

**Argymhelliad 1: Dylai cymorth ariannol i Aelodau Cynulliad gael ei seilio ar gyfres o egwyddorion. Dylai'r egwyddorion hyn fod yn gyson â'r 'saith egwyddor mewn bywyd cyhoeddus': anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweiniad. Dylai Aelodau Cynulliad lofnodi'r Cod Ymddygiad wrth dyngu'r Llw.**

3.8 Ar hyn o bryd, caiff rhyw £13m ei ddyrannu i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Ceir dadansoddiad o'r gwariant hwn yn **Atodiad 7**.

3.9 Mae'r Panel yn credu y dylai'r Comisiwn ddarparu adnoddau digonol i alluogi Aelodau'r Cynulliad i gyflawni'u hamryw rolau'n effeithiol.

**Argymhelliad 2: Dylai Aelodau'r Cynulliad allu hawlio am ad-daliadau am dreuliau rhesymol a ysgwyddwyd wrth gyflawni busnes y Cynulliad.**

**Deiliaid swyddi**

3.10 Mae Aelodau'r Cynulliad yn ddeiliaid swyddi cyhoeddus statudol. Nid ydynt yn cael eu cyflogi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru na Chomisiwn y Cynulliad. Nid oes contract cyflogaeth. Felly nid ydynt yn ddarostyngedig i gyfraith cyflogaeth, sydd wedi'i bwriadu i reoleiddio cyflogaeth. Ni ellir gwahardd Aelodau rhag bod yn aelodau o'r Cynulliad cyn diwedd eu tymor yn y swydd, oni bai y cânt eu dedfrydu neu'u gorchymyn i gael eu carcharu neu'u cadw yn y ddalfa am gyfnod amhenodol neu am fwy na blwyddyn. Ar ddiwedd eu tymor nid ydynt yn cael eu diswyddo gan fod diswyddo'n golygu terfynu contract cyflogaeth. Yn hytrach daw eu tymor yn y swydd i ben trwy weithrediad cyfreithiol. Mae enghreifftiau eraill o ddeiliaid swyddi cyhoeddus statudol yn cynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, y Comisiynydd Plant a'r farnwriaeth.

3.11 Gall deiliaid swyddi fod, mewn egwyddor, yn destun amodau penodiad sy'n gosod ymrwymiadau arnynt mewn perthynas â'r ffordd y maent yn cyflawni dyletswyddau'r swydd. Er enghraifft, caiff amodau penodiad yr Archwilydd Cyffredinol eu cytuno arnynt rhwng y Cynulliad a'r darpar benodai cyn i'r unigolyn hwnnw gael ei enwebu gan y Cynulliad

i gael ei benodi gan Ei Mawrhydi. Er bod rhai mesurau disgyblu penodol sy'n galluogi'r Cynulliad i docio cyflog Aelod Cynulliad os bydd yn camymddwyn, nid oes sail statudol ar hyn o bryd sy'n golygu bod cyflog Aelodau'r Cynulliad (neu Aelodau Seneddol) yn gallu cael ei gysylltu â'r modd y maent yn cyflawni'u dyletswyddau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Aelodau'r Cynulliad yn atebol i'r etholwyr yn y pen draw.

3.12 Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn rhesymol i ddisgwyl i Aelodau sy'n hawlio treuliau am gyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â busnes y Cynulliad ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ysgwyddo'r costau ac wedi cwblhau'r gweithgareddau. Mae hyn yn gyson â'r egwyddorion a nodwyd yn gynharach yn y bennod hon.

3.13 Bydd y trefniadau presennol ar gyfer cofnodi presenoldeb Aelodau mewn pwyllgorau a Chyfarfodydd Llawn yn ddigon o dystiolaeth ar gyfer busnes ffurfiol y Cynulliad. Ond dylai Aelodau orfod darparu peth gwybodaeth sylfaenol (dyddiad, amser, lleoliad, pwrpas) ar gyfer gweithgareddau eraill.

3.14 Caiff unrhyw honiadau sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad eu hymdrin â hwy gan y Comisiynydd Safonau neu gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

**Argymhelliad 3✳: Dylai fod yn ofynnol i Aelodau Cynulliad sy'n hawlio treuliau am weithgaredd sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau fel Aelodau Cynulliad ddarparu'r dystiolaeth ddogfennol briodol ac eglurhad, os oes angen, i ddangos eu bod wedi ysgwyddo'r gost a bod y gweithgaredd wedi'i gyflawni.**

## Pennod 4: Cyd-destun a chapasiti

### Rhagymadrodd

4.1 Mae'r bennod hon yn trafod materion mewn perthynas â chapasiti sy'n deillio o faint y Cynulliad, yn benodol nifer yr Aelodau Cynulliad, ac agweddau cysylltiedig sy'n ymwneud â gweithrediad a rheoli Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Panel wedi rhoi sylw i'r maes hwn oherwydd bod y nifer cymharol fach o Aelodau etholedig yn golygu bod angen darparu adnoddau priodol ar eu cyfer er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn gweithredu'n effeithiol.

4.2 Roedd y Panel o'r farn bod materion sy'n ymwneud â chapasiti yn arbennig o berthnasol i'n hystyriaethau o safbwynt creu system deg ac effeithiol o gymorth i Aelodau'r Cynulliad. Mae'r ystyriaethau o ran capasiti'n hanfodol gan eu bod yn fframio'r cyd-destun gweithredu ffurfiol ar gyfer y Cynulliad a'i Aelodau, ac yn effeithio ar ei effeithiolrwydd cyffredinol. Os na roddir sylw i hyn, gallai'r cwestiwn sy'n ymwneud â chapasiti a'i effaith ar lwyth gwaith Aelodau atal ymgeiswyr posib rhag sefyll mewn etholiad. Roedd y Panel yn gwbl glir y dylai'r system o gymorth a threuliau hwyluso gweithio effeithiol gan Aelodau Cynulliad, gan ddilyn yr egwyddor bod y drefn yn seiliedig ar y swyddogaeth. Rydym ni o'r farn bod cyfyngiadau ar allu wedi effeithio ar waith y Cynulliad. Felly daw'r bennod hon yn gynnar yn ein hadroddiad er mwyn ychwanegu cyd-destun a sail resymegol at yr argymhellion a ganlyn.

4.3 Cafodd y Panel dystiolaeth ar faterion sy'n ymwneud â gallu gan Aelodau'r Cynulliad ac eraill. I ategu hyn, fe roddom ystyriaeth i dystiolaeth o wledydd bychain eraill megis Seland Newydd a'r Alban, a gwladwriaethau ffederal gan gynnwys Queensland a Western Australia er mwyn ffurfio awgrymiadau ar gyfer cynyddu i'r eithaf effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau gweithio. Canfuwyd rhai cyfyngiadau penodol sy'n effeithio ar weithrediad busnes gwleidyddol a seneddol yng Nghymru. Nid yw'n rhwydd newid rhai o'r rhain, tra gellid addasu eraill gyda golwg ar wella capasiti ac effeithiolrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- yr ystod o bwerau sydd gan y Cynulliad
- nifer yr Aelodau Cynulliad
- y system ar gyfer ethol Aelodau'r Cynulliad

- rheoli rolau a chyfrifoldebau gwleidyddol

- trefnu a chofnodi amser gweithio yn ystod tymhorau a thoriadau'r Cynulliad

- yr arbenigedd sydd ar gael

- hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff

- chymorth i Aelodau'r Cynulliad

4.4 Roedd y Panel yn ymwybodol bod angen cefnogaeth yr holl bartneriaid allweddol i'w awgrymiadau ar gyfer newid. Yn amlwg, ychydig o'r syniadau hyn y gellir eu gweithredu heb gefnogaeth yr Aelodau Cynulliad eu hunain. Mae yma rôl hanfodol hefyd i'r pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

**Cyd-destun**

4.5 Bu rhai newidiadau sylweddol sydd wedi effeithio ar gapasiti yn ystod degawd cyntaf datganoli ac yn enwedig ers Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn arbennig, mae rhannu'r gorfforaeth gorfforedig wreiddiol i greu gweithrediaeth a deddfwrfa ffurfiol yn dwyn goblygiadau sylweddol o ran capasiti seneddol, ac felly hefyd y pwerau ychwanegol a gafwyd trwy Ran III y Ddeddf. Rhoddodd hyn ganiatâd i'r Cynulliad wneud deddfau (a elwir yn 'Fesurau Cynulliad') yn y meysydd datganoledig a nodir yn Atodlen 5 y Ddeddf.

4.6 Ystyriodd y Panel y modd y mae newidiadau yng nghwmpas a gweithrediad datganoli wedi effeithio ar waith Aelodau'r Cynulliad a sut y maent wedi addasu i ofynion Deddf 2006. Adolygodd y Panel y modd y mae Aelodau'n cyflawni swyddogaethau craidd pob gwleidydd etholedig, sef cynrychioli ac eirioli dros etholwyr a grwpiau; dwyn y Llywodraeth i gyfrif; craffu ar ddeddfwriaeth; craffu ar gyllid; ymchwilio i bolisïau a datblygu polisïau; a dadleuon ac ystyriaethau gwleidyddol. Ceir consensws mai dyma rolau hanfodol gwleidyddion ym mhob democratiaeth. Yn 2004, canfu Comisiwn Richard rolau tebyg ar gyfer gwleidyddion etholedig a dyma oedd sail eu hargymhellion ynghylch gweithrediad, rôl a strwythur y Cynulliad fel y nodir ym Mhennod 4 yr adroddiad.[1]

---

[1] Adroddiad Comisiwn Richard (2004), gweler http://www.richardcommission.gov.uk/content/finalreport/report-e.pdf

4.7 Cafodd rhai o'r dadleuon craidd o blaid creu Aelodau Cynulliad ychwanegol eu nodi yn adroddiad Comisiwn Richard a oedd yn ystyried a oedd gan y Cynulliad ddigon o gapasiti i gyflawni'i amcanion. Roedd tystiolaeth y Comisiwn ar gapasiti yn canolbwyntio'n benodol ar effeithiolrwydd gallu'r 'meinciau cefn' gyda 60 o Aelodau Cynulliad.

**Y prif faterion mewn perthynas â chapasiti**

**Maint y Cynulliad**

4.8 Mewn termau cymharol, mae'r Cynulliad yn hynod o fach gyda 60 yn unig o Aelodau Cynulliad.

**Tabl 4.1 Nifer yr Aelodau etholedig a lefelau poblogaeth**

| Cenedl | Nifer yr Aelodau Etholedig[1] | Poblogaeth (miloedd) | Poblogaeth a gynrychiolir gan bob Aelod[2] (miloedd) |
|---|---|---|---|
| Catalonia [b] | 135 | 7,242 | 54 |
| Denmarc [a] | 179 | 5,442 | 30 |
| UE (27 o wledydd) [c] | 785 | 499,795 | 679 |
| Iceland [a] | 63 | 301 | 5 |
| Iwerddon | 166 | 4,301 | 26 |
| Ynys Manaw [a] | 24 | 79 | 3 |
| Norwy [a] | 169 | 4,698 | 28 |
| Seland Newydd [a] | 122 | 4,179 | 34 |
| Gogledd Iwerddor [d] | 109 | 1,759 | 16 |
| Yr Alban [d] | 129 | 5,144 | 40 |
| Y Deyrnas Unedig [a] | 646 | 60,769 | 94 |
| **Cymru** [d] | **60** | **2,980** | **50** |

*1. Ffigyrau o wefannau'r deddfwrfeydd priodol.*
*2. Wedi'i gyfrifo fel y gymhareb Aelodau:Poblogaeth.*
*a. Ffigurau o Ddiwygiad 2006 o Ragolygon y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Poblogaeth y Byd.*
*b. Ffigurau o Flwyddlyfr Ystadegol Catalonia gan Idescat, Generalitat de Catalunya.*
*c. Ffigurau gan Eurostat. Ers etholiadau'r UE yn 2009 mae 736 ASE.*
*ch. Gwybodaeth am y boblogaeth wedi'i chasglu o'r amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth gan y swyddfa Ystadegau Gwladol.*

4.9 Ers cyhoeddi Adroddiad Richard yn 2004, mae'r materion sy'n ymwneud â chapasiti wedi cael eu dwysau gan effaith Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

4.10 Mae'r prinder yn nifer Aelodau'r Cynulliad i gyflawni'r swyddogaethau craffu craidd wedi dod yn fwy amlwg yn sgîl rhannu'r gorfforaeth gorfforedig yn ffurfiol ers Deddf 2006. Ers mis Gorffennaf 2007, mae'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru wedi ffurfio llywodraeth glymblaid. Mae 41 o'r 60 o Aelodau'r Cynulliad yn Aelodau o'r ddwy blaid hon.

**Tabl 4.2 Swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad**

| Y Weithrediaeth/Y Ddeddfwrfa | Rolau | Nifer yr Aelodau Cynulliad |
|---|---|---|
| Y Weithrediaeth | Y Prif Weinidog a Gweinidogion y Cabinet | 9 |
| Y Weithrediaeth | Y Cwnsler Cyffredinol | 1* |
| Y Weithrediaeth | Dirprwy Weinidogion | 4 |
| Y Ddeddfwrfa | Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd | 2 |
| Y Ddeddfwrfa | Arweinwyr y Pleidiau | 4 |
| Y Ddeddfwrfa | Comisiynwyr y Cynulliad | 4 |
| Y Ddeddfwrfa | Aelodau'r Cynulliad sydd ar gael i wasanaethu ar bwyllgorau | 44** |

**nid oes rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol fod yn Aelod Cynulliad.*
***mae 44 yn cynnwys pawb ar y meinciau cefn, arweinwyr dwy o'r pleidiau a'r Aelod Cynulliad Annibynnol, sy'n eistedd ar un pwyllgor yn unig ar hyn o bryd.*

4.11 Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu y bydd nifer yr Aelodau Cynulliad mewn rolau gweithredol yn dal i fod yn fawr o'i gymharu â'r rheiny mewn rolau anweithredol os daw llywodraethau clymblaid yn arferol yng Nghymru, fel sy'n debygol o ddigwydd. Fel arfer, mae gan wladwriaethau sydd â llywodraethau clymblaid yn rheolaidd Gabinet mwy, gyda Gweinidogion ychwanegol a mwy o Ddirprwy weinidogion neu Is-weinidogion[2]. Awgrymodd nifer o Aelodau'r Cynulliad fod y ffaith bod cyn lleied o Aelodau'r Cynulliad y tu allan i'r Llywodraeth yn effeithio ar eu gallu i graffu.

4.12 Erbyn hyn, yn dilyn mwy o wahanu rhwng gweithrediaeth a deddfwrfa'r Cynulliad, dywedwyd wrth y Panel mai ychydig iawn o gysylltiad sydd gan yr Aelodau â gweision sifil sy'n gysylltiedig â datblygu a

[2] McAllister, L., 2007, 'Coalition Negotiations and the Normalisation of Welsh Politics', *Western Mail*, 7 Gorffennaf 2007; Seyd, B., 2002, *Coalition Government in Britain: Lessons from Overseas* (Sefydliad Nuffield).

gweithredu polisïau'r Llywodraeth a'r wybodaeth a ddelir ganddynt. Mae hyn yn rhwystr i'w paratoadau ar gyfer dadleuon y Cyfarfod Llawn a gwaith pwyllgorau - ni all y Cynulliad weithredu heb lif gwybodaeth briodol. Er ei fod yn cydnabod yr angen am wahanu clir rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, cred y Panel y dylai'r Comisiwn gynnal trafodaethau gyda Gweinidogion priodol Cymru, er mwyn hwyluso gwell cysylltiad rhwng Aelodau unigol a gweision sifil a'r wybodaeth sydd ganddynt, drwy Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau a ffynonellau gwybodaeth eraill. Yn benodol, byddai o gymorth er mwyn sicrhau bod y Pwyllgorau'n meddu ar wybodaeth drylwyr, ac y gallant, felly, gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol pe bai swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu cynorthwyo i roi gwybodaeth iddynt ar ddechrau eu trafodaethau heb i Weinidogion fod yn bresennol os nad oes angen, fel sy'n digwydd yn aml yn San Steffan.

**Argymhelliad 4: Dylai'r Comisiwn, drwy drafodaethau â Gweinidogion Cymru, geisio hwyluso llif esmwythach o ran gwybodaeth a briffio, yn arbennig wrth gynorthwyo gwaith pwyllgorau.**

**Y system etholiadol**

4.13 Mae'r system etholiadol yn effeithio'n uniongyrchol ar gapasiti'r Cynulliad. Mae Cymru'n defnyddio System Etholiadol Aelodau Cymysg (MMES) a elwir yn System Aelodau Ychwanegol (AMS). Cafodd hon ei dynodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 ac roedd yn rhan annatod o'r cynigion datganoli gwreiddiol, fel yr eglurwyd yn y Papur Gwyn, 'Llais dros Gymru':

> "Bydd y system etholiadol yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru fodern ac yn sicrhau cynrychiolaeth deg i bob ardal a phlaid. Bydd gan etholwyr ddwy bleidlais – y naill dros ymgeisydd ar gyfer eu hetholaeth leol a'r llall dros restr un o'r pleidiau. Mae hyn yn cadw etholaethau lleol gan hefyd roi elfen gref o gynrychiolaeth gyfrannol."

4.14 Mae gan y Cynulliad 60 o Aelodau etholedig ac mae gan bob etholwr ddwy bleidlais. Defnyddir y bleidlais gyntaf i ethol Aelod Cynulliad dros yr etholaeth yn yr un modd ag yr etholir Aelodau Seneddol i Dŷ'r Cyffredin, gan ddefnyddio system y cyntaf i'r felin. Caiff 40 o Aelodau'r Cynulliad eu hethol fel hyn, un o bob etholaeth seneddol yng Nghymru. Defnyddir yr ail bleidlais i ethol 20 o Aelodau ychwanegol, ar sail ranbarthol, er mwyn sicrhau bod cyfanswm nifer y seddi sydd gan bob plaid wleidyddol yn adlewyrchu'r gyfran o bleidleisiau a gafodd, cymaint â phosibl. Mae pum rhanbarth

etholiadol yn seiliedig ar Etholaethau Senedd Ewrop a grëwyd ym 1994, ac mae pob rhanbarth yn anfon pedwar Aelod i'r Cynulliad.

4.15 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n trawsosod ac yn addasu Deddf 1998, yn nodi'r dulliau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir ar gyfer anfon Aelodau Rhestr Ychwanegol i'r Cynulliad. Mae etholwyr yn pleidleisio dros blaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol, yn hytrach na thros unigolyn arbennig, mewn system 'rhestr gaeedig'. Am y tro cyntaf yn 2007, nid oedd yn bosibl i ymgeiswyr sefyll yn y ddwy ran o'r bleidlais.

4.16 Mae nifer o wledydd eraill yn defnyddio amrywiadau ar y System Aelodau Ychwanegol, gan gynnwys Senedd yr Alban. Ymhlith y gwledydd sydd â System Etholiadol Aelodau Cymysg, mae anghydbwysedd annodweddiadol yng Nghymru rhwng y gyfran o Aelodau etholaeth a'r gyfran o Aelodau Cynulliad a etholwyd oddi ar restr – 67 y cant o'i chymharu â 33 y cant.

**Tabl 4.3 Cydbwysedd yr Aelodau Etholaethau a'r Aelodau Rhestrau o dan MMES**

| Gwlad (sy'n defnyddio MMES) | Aelodau Etholaeth (canran) | Aelodau Rhestrau/Pleidiau (canran) |
|---|---|---|
| Cymru | 67 | 33 |
| Venezuela | 60 | 40 |
| Yr Alban | 57 | 43 |
| Seland Newydd | 54 | 46 |
| Yr Almaen | 50 | 50 |
| De Affrica | 50 | 50 |

**Goblygiadau'r system etholiadol**

4.17 Gwerthusodd y Panel y System Aelodau Ychwanegol (AMS) er mwyn ystyried ei oblygiadau o ran gwaith Aelodau'r Cynulliad a chapasiti'r Cynulliad ar y cyfan, ar hyn o bryd a chan ragweld mwy o bwerau deddfu.

4.18 Mae'r pwyntiau perthnasol yn cynnwys:

- Mae'r System Aelodau Ychwanegol yn sicrhau gwahaniaeth yn y math o aelod, gan ddibynnu sut y cafodd ei ethol. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cadarnhau bod "*AMS yn creu dau gategori o*

*gynrychiolwyr etholedig. Mae hwn yn ddiffyg cynhenid mewn systemau aelodau ychwanegol"*[3]

- Mae gan Gymru grynodiad uwch nag arfer o Aelodau etholaeth sy'n effeithio ar ddosbarthiad y llwyth gwaith gwleidyddol cyffredinol. Caiff ei dderbyn y bydd gan Aelodau etholaeth fel arfer faich achosion trymach. O ystyried bod gan Gymru un o'r cyfrannau lleiaf o wleidyddion a etholir trwy'r rhan o'r bleidlais sy'n seiliedig ar restrau, mae hyn yn golygu bod rhan helaeth o'r amser gwleidyddol ar y cyfan yn cael ei lyncu gan waith etholaeth. Er bod y gwaith hwn yn hanfodol, canlyniad hyn yw bod llai o gapasiti ar ôl ar gyfer y swyddogaethau deddfu, polisi a chraffu a gyflawnir gan wleidyddion, sydd felly'n effeithio ar reoli swyddogaethau gwleidyddol pob Aelod Cynulliad

- Mae Cymru'n defnyddio rhestrau rhanbarthol yn hytrach nag un genedlaethol, fel y defnyddir yn Seland Newydd, er enghraifft. Y rhanbarthau a ddefnyddir fel etholaethau yng Nghymru'n wreiddiol oedd etholaethau Senedd Ewrop. Mae'r Panel o'r farn bod perthnasedd a chydlyniad y rhanbarthau a ddefnyddir yn System Aelodau Ychwanegol Cymru, megis Gogledd Cymru, a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, yn ei gwneud yn anos cynrychioli'r ardaloedd hyn yn gywir

**Aelodau Etholaeth ac Aelodau Rhanbarthol**

4.19 Mae'r Panel yn cydnabod bod holl Aelodau'r Cynulliad yn gyfartal ac y dylid eu trin felly o ran eu cyfraniadau yn y siambr ac mewn pwyllgorau, ac o ran eu hawliau pleidleisio. Mae'r Panel yn ymwybodol fod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi paratoi protocol ar swyddogaethau a dyfarniadau Aelodau rhanbarthol ac Aelodau etholaeth yn unol â Rheol Sefydlog 11.3, ond nad yw wedi'i chymeradwyo eto gan y Cynulliad. Cred y Panel y dylid cael rhai newidiadau yn y ffordd y mae'r naill a'r llall yn cyflawni eu swyddogaethau gwleidyddol, gydag ychydig o wahaniaeth mewn proffiliau swyddi ac o ran y modd y caiff cymorth ei drefnu ar gyfer Aelodau rhanbarthol ac Aelodau etholaeth y Cynulliad. Mae'r system etholiadol yn berthnasol yn hyn o beth. Os yw'r rhestr, fel sy'n digwydd mewn nifer o wledydd eraill, yn cael ei hystyried yn ddim mwy na dull o wella cymesuredd, yna mae dadl dros annog swyddogaethau ychydig yn wahanol i'r ddau fath o Aelod Cynulliad.

[3] Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Comisiwn Etholiadol i Gomisiwn Richard, 2003

4.20 Mae'n werth nodi rhai o nodweddion allweddol y System Aelodau Ychwanegol:

- un sail resymegol allweddol i system led-gyfrannol megis y System Aelodau Ychwanegol yw dewisiadau ehangach i ddinasyddion o ran y rhai sy'n eu cynrychioli (gallai dinesydd fynd at aelod o blaid wahanol i blaid ei Aelod etholaeth neu, o dan rai amgylchiadau, efallai y byddai'n well gan ddinesydd siarad yn benodol â chynrychiolydd benywaidd neu wrywaidd). Meddai un Aelod Cynulliad rhanbarthol wrthym:

  > "...mae pobl yn dysgu bod gennych ddewis, a'r dewis hwnnw y mae'r system bleidleisio wedi'i roi i ni yw y gallwch fynd at Aelod arall, boed yn Aelod rhanbarthol neu Aelod etholaeth, a fyddai yn eich tyb chi'n cydymdeimlo mwy â'ch achos"

- blaenoriaethau ac uchelgeisiau gwleidyddol yr Aelodau Cynulliad unigol eu hunain. Fodd bynnag, mae rhai cwestiynau ynghylch sut y gellid cael cydbwysedd rhwng rôl gynrychiadol Aelodau ar y naill law a'r dyletswyddau gwleidyddol eraill megis craffu ar bolisïau a deddfwriaeth, neu ddiddordebau ymgyrchu neu eirioli cenedlaethol, ehangach ar y llaw arall

4.21 Clywodd y Panel dystiolaeth bod Aelodau etholaeth ac Aelodau rhanbarthol eisoes yn cyflawni swyddi sydd ychydig yn wahanol a bod rolau cynrychiadol yn dal i ddatblygu. Meddai un Aelod etholaeth wrthym:

> "O'm safbwynt i fy hun, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y niferoedd sy'n dod drwy ddrws y swyddfa. Byddwn, fwy na thebyg, yn disgwyl cael 50 neu 60 o bobl yn dod drwy'r drws yn awr. Mae'r cymorthfeydd fel arfer yn llawn."

4.22 Soniodd un Aelod Cynulliad rhanbarthol am rai gwahaniaethau rhwng Aelodau rhanbarthol ac Aelodau etholaeth:

> "O safbwynt gwaith achos, mae gwahaniaeth, rwy'n credu, o ran arddull yn hytrach na gwahaniaeth o ran maint. Gallaf chwilio drwy brofiadau personol yma. I ddechrau, rydych yn tueddu i ymwneud â materion mwy, rhai sydd â llawer mwy o arwyddocâd."

4.23 Meddai un arall:

> "Mae cymhlethdod y gwaith yr ydym yn ei wneud fel Aelodau rhanbarthol yn ddiddorol iawn gan ein bod yn bwrw trosolwg...ar y dalgylch cyfan..."

4.24 Mae profiad Seland Newydd yn cynnig diffiniad eglurach o lawer o swyddogaethau Aelodau Seneddol yr etholaethau (sy'n cyfateb i Aelodau etholaeth yng Nghymru) a swyddogaethau Aelodau Seneddol Rhestr (sy'n cyfateb i Aelodau rhanbarthol). Mae'r rhain wedi datblygu dros amser. Cyflwynwyd y System Gyfrannol Aelodau Cymysg (neu MMP fel y'i hadwaenir yno) yn Seland Newydd ym 1996, dair blynedd yn unig cyn y system yng Nghymru, ond gan fod tymhorau seneddol sefydlog o dair blynedd yn Seland Newydd, mae *pum* etholiad wedi cael eu cynnal gan ddefnyddio MMP yn Seland Newydd, o'i gymharu â *thri* yng Nghymru. Cafodd y Panel dystiolaeth atodol gan Margaret Wilson, Cyn-lefarydd Tŷ'r Cynrychiolwyr (ac Aelod Seneddol Rhestr), a ddywedodd wrthym fod Aelodau Seneddol oddi ar restrau'r pleidiau fel arfer yn cynrychioli 'etholaeth' sectoraidd neu ranbarthol a oedd yn golygu, gyda'r cyntaf o'r ddau, bod materion ehangach sy'n ymwneud â'r grŵp hwnnw (undebau llafur, menywod, grŵp ethnig lleiafrifol, er enghraifft) yn creu gwaith sylweddol i'r Aelod Seneddol a, gyda'r ail o'r ddau, bod dimensiwn tiriogaethol cryf i'r llwyth gwaith a allai rychwantu ffiniau ehangach nag etholaethau 'swyddogol' Aelodau Seneddol yr etholaethau. Dywedodd cyn-Aelod Seneddol arall o Seland Newydd, sef Marian Hobbs, wrthym, er gwaethaf y defnydd o restr genedlaethol yn Seland Newydd, fod cwmpas daearyddol neu diriogaethol yn cael ei reoli trwy reoli llwyth gwaith gan chwipiau'r pleidiau[4]. Os oedd materion polisi rhanbarthol o bwys i'w cael, er enghraifft mater amgylcheddol penodol, yna byddai'r Chwipiau'n sicrhau bod Aelodau Seneddol rhestr yn gwthio'r rhain ar ran y blaid.

4.25 Yng Nghymru, dywedodd un aelod o'r cyhoedd:

> "Mae Aelodau Cynulliad rhanbarthol wedi gwneud cyfraniad mawr tuag at waith y Cynulliad, tuag at broffil y sefydliad, a thuag at bleidio achosion sy'n bwysig heb iddynt fod yn rhai sy'n 'denu pleidleisiau i'r blaid'. Cynrychiolaeth gyfrannol sy'n arferol yn Ewrop hefyd."

4.26 Mae hyn yn cyd-daro â thystiolaeth gan rai Aelodau rhanbarthol y Cynulliad eu bod wedi'u paratoi'n well i arwain ar faterion ehangach sy'n cwmpasu mwy nag un etholaeth. Meddai un ohonynt:

---

[4] Cyfweliadau a thystiolaeth atodol gan Margaret Wilson a Marian Hobbs

"...byddai cau ysgolion, cau swyddfeydd post yn tueddu i fod yn bethau'r yr ydym yn ymwneud yn agos iawn â hwy ac yn eu hystyried o safbwynt rhanbarthol. Yr agwedd arall, wrth gwrs, yw'r gwasanaeth iechyd. Mae iechyd ac addysg bellach yn ddau faes lle y gallaf drafod materion eang yn fwy rhydd... gan eu bod yn mynd y tu hwnt i ffiniau etholaethau ac mae hynny weithiau o gymorth hefyd."

**Swyddogaethau a chyfrifoldebau**

4.27 Mae gwleidyddiaeth yn faes arbennig ac nid yw'n hawdd cymharu gwleidyddion â phobl mewn swyddi eraill. Yn y pen draw, caiff eu perfformiad ei fesur gan bleidleiswyr ac mae gwleidyddion yn atebol i'r etholwyr yn rheolaidd. Mae'n amlwg felly na ellir yn syml drawsgludo disgrifiadau swyddi generig o broffesiynau neu sectorau eraill. Nid oes gan Aelodau Cynulliad, nac Aelodau Seneddol y DU nac Aelodau Senedd yr Alban, ddisgrifiad swydd. Mae hyn yn arwain at nifer o ganlyniadau; ac un o'r rhain yw bod Aelodau ar y cyfan yn rhydd i bennu'u blaenoriaethau'u hunain rhwng gwaith yn y Senedd a gwaith yn eu hetholaeth neu ranbarth. Mae diffyg disgrifiad swydd hefyd yn ei gwneud yn anodd monitro a mesur perfformiad.

4.28 Caiff rhai o'r gweithgareddau a gyflawnir gan Aelodau Cynulliad eu rhestru isod:

- datblygu deddfwriaeth
- datblygu polisïau
- craffu ar ddeddfwriaeth ddrafft
- craffu ar wariant a pholisïau
- dyletswyddau etholaeth/rhanbarthol
- mynychu Cyfarfodydd Llawn a phwyllgorau a chyfrannu atynt
- y cyfryngau
- derbyn grwpiau lobïo
- ymweliadau addysgol a chyhoeddus
- cynrychioli'r Cynulliad ar gyrff rhyngwladol a chyrff allanol eraill

- gwaith ar ran y blaid

4.29 Credwn fod y gweithgareddau hyn yn adlewyrchiad teg o ddyletswyddau seneddol Aelod Cynulliad. Er mwyn eu cyflawni, bydd angen cymorth ymarferol ar Aelodau'r Cynulliad i wneud y defnydd gorau o'u capasiti a'u heffeithiolrwydd eu hunain a chapasiti ac effeithiolrwydd y Cynulliad yn gyffredinol.

4.30 Er mwyn cyflawni'u dyletswyddau, mae angen i Aelodau'r Cynulliad ddangos amrywiaeth eang o sgiliau, gan gynnwys cyfathrebu, TGCh, ymchwil, datrys problemau, a rheoli swyddfa a staff (ceir manylion pellach ym **Mhennod 9**).

4.31 Fel y dywedodd un Aelod Cynulliad wrth y Panel:

> "Rydym yn treulio oriau lawer yma yn llunio rheolau a rheoliadau mewn perthynas â phroffesiynau eraill a gall unrhyw un gerdded i mewn i'r adeilad hwn a gwneud y swydd hon waeth beth fo'u cymwysterau. Efallai y byddai gan y cyhoedd fwy o hyder pe baent yn gwybod bod gan Aelodau'r Cynulliad lefel benodol o sgiliau a chymhwysedd."

4.32 Roedd y Panel o'r farn y gallai peth gwybodaeth ffurfiol o 'siâp' neu ffiniau'r swydd wleidyddol fod o fudd i Aelodau'r Cynulliad eu hunain. Bu'r Panel yn trafod rhinweddau datblygu proffiliau swyddi fel sy'n digwydd mewn rhai deddfwrfeydd eraill – yn rhai cyffredinol (ar gyfer pob Aelod Cynulliad) ac yn rhai penodol, ar gyfer Aelodau etholaeth ac Aelodau rhanbarthol. Gallai hyn fod yn gyfle i ddangos yr amrywiaeth eang o sgiliau sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau allweddol gwleidydd etholedig, yn ogystal â chynorthwyo'r pleidiau i ddewis ymgeiswyr. Er enghraifft, gallai'r gwaith o lunio proffiliau swyddi helpu pleidiau i benderfynu pa sgiliau y maent yn eu disgwyl gan ymgeiswyr, yn ogystal â phennu proffil cyffredinol eu tîm o ymgeiswyr ledled Cymru (gweler **Pennod 9**).

4.33 Mae'r dadleuon diweddar ynghylch y treuliau sydd wedi bod yn cael eu hawlio gan Aelodau Seneddol wedi ysgogi cryn drafodaeth yn San Steffan ynghylch patrymau gwaith, swyddogaethau a dyletswyddau gwleidyddion.

4.34 Paratowyd 'disgrifiad swydd' gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion yn San Steffan ar gyfer Aelodau Seneddol a oedd yn nodi gwaith Aelod Seneddol dan dri phennawd bras:

> "The first is his or her participation in activities designed to assist in the passage of legislation and hold the Executive to account. This is traditionally seen as the 'core' role of the parliamentarian. The second area is work in and for the constituency. This is in part representational; in part promoting or defending the interests of the constituency as a whole; and in part it is designed to help individual constituents in difficulty. The third part of the job is work in support of the party to which the Member belongs, and for which he/she was elected."[5]

4.35 Er mwyn helpu grwpiau'r pleidiau i nodi lle mae angen capasiti ychwanegol a bod o gymorth wrth strwythuro cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad (gweler 4.49 isod a **Phennod 9**), ceir awgrym isod gan y panel o ran meysydd posibl y dylid canolbwyntio arnynt mewn perthynas â hyfforddiant a datblygiad.

- polisi
- deddfwriaeth
- craffu
- ymchwil a dadansoddi
- cyllid ac archwilio cyhoeddus
- prosesau seneddol
- cyfathrebu ac eiriolaeth
- ymgysylltu dinesig/cynhwysiant cymdeithasol
- rheoli adnoddau

4.36 Bydd angen pwyslais a chydbwysedd gwahanol rhwng y sgiliau allweddol hyn o dan y rhan fwyaf o bynciau, er mwyn adlewyrchu cymwyseddau deddfwriaethol a pholisïau'r Cynulliad Cenedlaethol. Yn amlwg, bydd y testun a rhaglen bolisi'r Llywodraeth yn arwain at wahanol gyfuniad o sgiliau a phwyslais amrywiol. Bydd angen i bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad ddangos ei fod yn gallu

[5] Y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion, Cm 4997-II, 200, yn cael ei ddyfynnu yn 'Cyflogau Aelodau Cynulliad – Asesu Maint y Gwaith', papur i'r Panel Cyntaf ar Gymorth Ariannol i Aelodau Cynulliad

ymwneud â phob un o'r cymwyseddau ar draws yr amrywiaeth hon er mwyn cyflawni tasgau gwleidyddol craidd a sicrhau bod dylanwad y Cynulliad yn effeithiol ac yn gyson ym mhob portffolio.

**Rheoli amser gweithio ar adegau pan fydd y Cynulliad yn eistedd ac ar adegau eraill**

4.37 **Amserlenni toriadau ac adegau pan fydd y Cynulliad yn eistedd.** Ystyriodd y Panel y modd y trefnir sesiynau'r Cynulliad mewn perthynas ag amseroedd eistedd ffurfiol, strwythur yr wythnos waith (gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd gan aelodau'r Panel wrth gysgodi gwaith Aelodau'r Cynulliad), a sut yr oedd trefniadau gwyliau blynyddol yn cael eu rheoli a'u cofnodi. Roedd y Panel o'r farn ei bod yn bwysig bod natur gwaith cynrychiolydd etholedig yn cael ei deall a'i chyhoeddi'n iawn. Mae'n amlwg bod llwyth gwaith Aelodau'r Cynulliad yn sylweddol yn ystod y toriad yn ogystal â phan fo'r Cynulliad yn eistedd. Fel y pwysleisiodd un Aelod Cynulliad sy'n cynrychioli etholaeth:

> "Mae swm aruthrol o waith y tu allan i oriau arferol y mae angen i chi ei wneud fel Aelod Cynulliad."

4.38 Er hynny, oherwydd rhai camganfyddiadau rhai ynglŷn â thoriadau a gwyliau blynyddol neu wyliau, ymddengys y byddai o fantais i bawb fod y gwahaniaethu'n fwy eglur rhwng yr adegau pan fo Aelodau'r Cynulliad yn gweithio ac adegau pan nad ydynt yn gweithio.

4.39 Ymchwiliodd y Panel i drefniadau toriadau yn Nhŷ'r Cyffredin a'r sefydliadau datganoledig eraill.

**Tabl 5: Hyd Toriad yn Neddfwrfeydd y DU**

| Deddfwrfa | Wythnosau o Doriadau |
|---|---|
| Cymru | 19 |
| Yr Alban | 16 |
| Gogledd Iwerddon | 16 |
| San Steffan | 19 |

*Ffynhonnell: amserlenni cyhoeddedig deddfwrfeydd y DU ar gyfer sesiynau 2008-09 a 2009-10.*
*Sylwer: Mae toriadau yn San Steffan yn amodol ar hynt busnes Seneddol: gweler* *http://www.politics.co.uk/briefings-guides/political-guides/recesses-$450860.htm*

4.40 Er gwaethaf rhai estyniadau i'r amser eistedd yn y trydydd Cynulliad, mae llai o amser ar gael o hyd ar gyfer y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau na'r hyn a ganiateir yn Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd

Iwerddon. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eistedd ar hyn o bryd am gyfanswm o 33 wythnos ac mae 19 wythnos o doriad. Yn 2004, yn dilyn gwaith dadansoddi manwl o swyddogaeth, strwythur a gweithrediad y ddau gynulliad cyntaf, argymhellodd Comisiwn Richard gynnydd yn yr amser eistedd (gweler pennod pedwar, adroddiad Comisiwn Richard). Dylai amser eistedd y Cynulliad sicrhau digon o amser i archwilio deddfwriaeth yn llawn a'i phasio'n effeithlon. Ar adegau, mae posibilrwydd y bydd y rhaglenni deddfwriaethol yn drwm, gallai hyn olygu eistedd am gyfnod hirach. Ar ddiwedd pob tymor, dylai'r Pwyllgor Busnes adolygu'r dyddiadau a bennwyd ganddo ar gyfer toriadau yn y dyfodol ochr yn ochr â rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth a'r Aelodau.

4.41 Er mwyn cynyddu capasiti'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau gwleidyddol penodol, yn arbennig y llwyth gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â chraffu deddfwriaethol, barn y Panel yw y dylai eistedd yn ffurfiol am 36 wythnos gyda thoriad o 16 wythnos (yn unol â Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon).

**Argymhelliad 5: Dylai'r Pwyllgor Busnes gynyddu'r amser eistedd i uchafswm o 36 wythnos y flwyddyn er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gyfer craffu ar y rhaglen ddeddfwriaethol.**

4.42 Byddai'r tair wythnos ychwanegol yn creu amser busnes ychwanegol gwerthfawr. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Busnes o dan y Rheolau Sefydlog presennol yw ystyried y materion hyn. Fodd bynnag, nid yw'r Panel yn credu bod y newid hwn yn groes i'r ymrwymiad pwysig i drefniadau gweithio 'sy'n ystyriol o deuluoedd' os caiff ei ddehongli'n hyblyg, gan nad yw pob wythnos o doriad ar hyn o bryd yn cyd-daro â gwyliau ysgol.

4.43 Er bod disgwyl i Aelodau'r Cynulliad fynychu sesiynau ym Mae Caerdydd am tua 33 wythnos y flwyddyn, nid yw hyn yn golygu eu bod ar eu gwyliau am weddill yr amser. Sylwodd y Panel hefyd fod presenoldeb yn y Cyfarfod Llawn yn ymddangos yn uwch o lawer yn y Senedd nag yn San Steffan. Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd i ni yn awgrymu bod Aelodau'r Cynulliad yn gweithio tua 50-60 awr yr wythnos yn ystod yr adeg o'r flwyddyn pan fo'r Cynulliad yn eistedd a 40-50 awr yr wythnos ar adegau eraill. Credwn fod yr Aelodau'n gweithio'n ddiwyd a'u bod yn awyddus i gwrdd â'u hetholwyr i hybu ac ehangu ymgysylltiad â'r broses ddatganoli. Fel arfer, maent yn cymryd tua phedair wythnos o wyliau blynyddol: wythnos dros y Nadolig a'r Pasg, a phythefnos yn ystod yr haf. Yn gyson â threfniadau eraill yn y sector cyhoeddus, credwn y dylai Aelodau gymryd 25 diwrnod o

wyliau'r flwyddyn ac y dylai grwpiau’r pleidiau gyflwyno mesurau i sicrhau bod y gwyliau hyn yn cael eu cymryd a’u cofnodi.  Yn ogystal ag adlewyrchu arfer da cyffredinol, bydd proses ffurfiol gan grwpiau’r pleidiau yn y Cynulliad gadarnhau a chofnodi’r gwyliau a gymerir gan Aelodau’r Cynulliad o gymorth i etholwyr ac i eraill sydd angen cysylltu ag Aelodau’r Cynulliad, a bydd, felly, o fudd uniongyrchol i’r Aelodau Cynulliad eu hunain.

**Argymhelliad 6: Dylai grwpiau’r pleidiau gofnodi gwyliau Aelodau’r Cynulliad.**

4.44 Crëwyd argraff ar y Panel gan y defnydd a wneir o adnoddau’r we gan rai o Aelodau’r Cynulliad ac roedd y Panel yn teimlo bod blogiau rhyngweithiol, yn ogystal â chyhoeddi dyddiaduron wythnosol ar-lein neu drwy bapurau lleol neu gylchlythyrau’n ffordd o rannu gwybodaeth ychwanegol, ddefnyddiol i etholwyr am raglen waith arferol gwleidydd etholedig.  Mae hyn yn beth cyffredin yn Seland Newydd; dywedwyd wrthym fod nifer o Aelodau Seneddol yno’n cofnodi eu gweithgareddau wythnosol, gan nodi’n aml pam eu bod wedi dewis mynychu digwyddiad penodol ac wedi methu un arall mewn amserlen waith brysur.  Y farn oedd bod hyn wedi gwella dealltwriaeth y cyhoedd o ran y galwadau sy’n cystadlu â’i gilydd am amser gwleidyddion.[6]

4.45 **Pwyllgorau.** Yn y trydydd Cynulliad, ceir 18 o Bwyllgorau: pum pwyllgor deddfwriaeth parhaol, un yn ymdrin â deddfwriaeth eilaidd a’r 12 arall yn ymdrin â swyddogaethau archwilio, polisi a chraffu.  Ceir gweithgarwch pwyllgor anffurfiol hefyd sy’n rhoi galwadau pellach ar amser Aelodau Cynulliad.  Mae chwe aelod ar bob Pwyllgor Deddfwriaeth (gan gynnwys cadeirydd nad yw’n pleidleisio).  Mae hyn yn anarferol o isel i bwyllgorau o’r fath, yn arbennig o’u cymharu â’r rhai yn San Steffan.  Ceir rhwng pedwar a deg aelod ar y pwyllgorau eraill.  Mae’r niferoedd sydd eu hangen i ‘wasanaethu’r’ pwyllgorau hyn yn iawn yn tanlinellu rhai o’r anawsterau o ran y capasiti gwleidyddol a ddaeth i sylw’r Panel.  Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn llai rhagnodol o ran nifer y pwyllgorau a’r mathau o bwyllgorau er ei bod yn amlwg bod gofynion craffu’n golygu bod angen nifer craidd.  Mae aelodaeth ar fwy nag un pwyllgor yn effeithio ar bresenoldeb mewn cyfarfodydd a gallu grwpiau’r pleidiau i ddarparu dirprwyon pan fo aelodau’n canfod nad ydynt yn gallu bod yn bresennol, yn ogystal ag ansawdd cyffredinol perfformiad aelodau’r pwyllgorau.

[6] Cyfweliad â Marian Hobbs, Ebrill 2009

4.46 **Yr arbenigedd sydd ar gael.** Prin fod yr un senedd fodern yn gweithredu heb ddefnyddio cymorth a chefnogaeth gan sefydliadau ac unigolion allanol sydd ag arbenigedd neu brofiad sy'n gweddu i anghenion penodol. Mae nifer sefydliadau gwleidyddol yn ceisio datblygu eu capasiti mewn sawl ffordd heb gynyddu maint. Archwiliodd y Panel y dull a ddefnyddir mewn seneddau a sefydliadau eraill ledled y byd i helpu i ychwanegu at yr arbenigedd. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y rhai a oedd naill ai'n niwtral o ran cost neu'n isel iawn eu costau, a chanfuwyd dewislen o opsiynau posibl, gan gynnwys:

- defnyddio ymgynghorwyr arbenigol neu arbenigwyr yn fwy strwythuredig a strategol, yn bennaf i roi cymorth a chyngor ychwanegol i bwyllgorau
- defnydd gwell ac ychwanegol o secondiadau ac aelodau cyfetholedig o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol
- defnydd estynedig o ymgyngoreion ffurfiol sy'n cyfrannu at drafodaethau am gynigion deddfwriaethol newydd a llunio polisïau
- datblygu cynghorau polisi i gadeiryddion pwyllgorau brofi syniadau polisi neu fentrau newydd (fel y defnyddir ar lefel y gweinidogion yn Seland Newydd)

4.47 Mae'r Panel yn derbyn bod rhai anawsterau systemig yn gysylltiedig â phob un o'r opsiynau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cydbwysedd rhwng gweithdrefnau penodi agored, teg a thryloyw ar gyfer ychwanegu capasiti ar y naill law a rhai rhagweithiol, cyflym â chyffyrddiad ysgafn ar y llaw arall
- a ddylai'r rhain fod yn ddi-dâl ynteu'n a ddylid cynnig tâl ac effaith hyn ar ba mor ddeniadol ydynt i ymgeiswyr posibl (ac addas)
- cynaliadwyedd a pharhad y cyfraniadau, mewn perthynas â datblygu cof sefydliadol y Cynulliad
- rheoli cysylltiadau ag Aelodau'r Cynulliad a staff y Cynulliad
- cheisio peidio â gwyrdroi'r cydbwysedd gwleidyddol cyffredinol rhwng y pleidiau sy'n seiliedig ar ganlyniadau etholiadau

4.48 Nid oes un model penodol ar gyfer defnyddio arbenigedd allanol yn effeithiol. Er hynny, roedd y Panel o'r farn y gallai archwilio i arfer da rhyngwladol (o Seland Newydd a Queensland, Awstralia, er enghraifft) helpu i fynd i'r afael â rhai o'r cyfyngiadau capasiti systemig y mae'r Cynulliad yn eu hwynebu.

**Argymhelliad 7✳: Dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried ar unwaith y ffordd orau o wella capasiti strategol y Cynulliad trwy gyflwyno arbenigedd ychwanegol o'r ddewislen o opsiynau a nodir ym mharagraff 4.46.**

**Hyfforddiant a datblygiad**

4.49 Un dull hanfodol arall ar gyfer gwella capasiti strategol yw mynd ati ymhellach i ddatblygu'r cyfleoedd hyfforddi neu'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i aelodau a'u staff. Defnyddir y term 'DPP' yn fras er mwyn cyfeirio at amrywiaeth eang o weithgareddau dysgu sy'n ategu datblygiad gyrfa a datblygiad proffesiynol ac mae'r rheiny'n cynnwys darllen personol, hyfforddiant sgiliau rheoli o ansawdd uchel, mynd i seminarau a, lle y bo'n briodol, rhaglenni sy'n arwain at gredydau neu ddyfarniadau. Ceir mwy o wybodaeth am y dull a argymhellir gan y Panel ym **Mhennod 9**.

# Pennod 5: Cyflogau, pensiynau a threfniadau wrth adael y swydd

## Rhagymadrodd

5.1 Mae pob Aelod Cynulliad yn derbyn yr un cyflog sylfaenol, ni waeth ai fel Aelod etholaethol ynteu fel Aelod rhanbarthol y cafodd ei ethol. Mae Gweinidogion a swydd-ddeiliaid dynodedig eraill yn cael tâl atodol ar ben eu cyflog er mwyn adlewyrchu eu cyfrifoldebau ychwanegol. Nodir y rheolau yn y Penderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009 yn **Atodiad 1**.

5.2 Gwnaeth y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB) argymhellion ynghylch strwythur ar gyfer cyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad ym mis Ebrill 1998. Gwerthusodd SSRB swyddogaethau a chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad o'u cymharu ag Aelodau Seneddol a chymaryddion yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Yna, cynhaliodd SSRB asesiad o gyflog cychwynnol Aelodau'r Cynulliad gan gyfeirio at y gwerthusiad hwnnw.

5.3 Yna, cynhaliodd SSRB adolygiad o gyflogau Aelodau'r Cynulliad yn 2001 a 2004. Mae'r adroddiadau hyn ar gael ar ei wefan.

5.4 Roedd ei adroddiad yn 2004 yn cynnwys cymhariaeth rhwng swydd Aelod Cynulliad a swydd Aelod Seneddol o dan y penawdau canlynol:

- cymhlethdod y swydd
- y gofynion deallusol
- cyfathrebu rhyngbersonol
- sgiliau
- gwybodaeth
- natur y cyfrifoldeb

5.5 O ran y gofynion deallusol, cyfathrebu rhyngbersonol a sgiliau, rhoddwyd yr un pwysiad i'r ddwy swydd. Ond o ran y meini prawf eraill rhoddwyd pwysiad uwch i swydd Aelod Seneddol nag i swydd Aelod Cynulliad. Ar y cyfan, swydd Aelod Seneddol gafodd y sgôr uchaf, sef 307, o'i gymharu â sgôr o 277 i swydd Aelod Cynulliad.

Daeth SSRB i'r casgliad y dylai'r gwahaniaeth cyflog rhwng y ddwy swydd gael ei leihau ychydig.

5.6 Canfu'r adroddiad fel a ganlyn:

> "Nid yw'r cynnydd yn llwyth gwaith Aelodau'r Cynulliad ynddo'i hun yn cyfiawnhau rhagor o gyflog. Serch hynny, rydym yn derbyn bod rhywfaint o gynnydd yn swydd ACau o ran dyfnder gwybodaeth a bod y gwaith ychydig yn fwy dyrys, ac o'r herwydd mae'r gwahaniaeth rhwng pwysau swydd AS San Steffan wedi lleihau o ychydig. Deuwn i'r casgliad felly bod achos o blaid cael codiad bach yn nhâl ACau i £44,000, sef codiad o 3.0 y cant ar y cyflog sylfaenol cyfredol o £42,711. Byddai hyn yn lleihau'r gwahaniaeth rhwng eu cyflog â chyflog AS San Steffan o 2.2 pwynt canran i 76.5 y cant."

5.7 Ym mis Ionawr 2008, cyhoeddodd SSRB ei adroddiad ar gyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau Seneddol. Cafwyd dadl arno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 24 Ionawr. Arweiniodd hyn at gynnydd o 1 y cant yng nghyflogau Aelodau Seneddol o £60,277 i £61,181 i ddod i rym o 1 Ebrill 2007, a chynnydd pellach i £61,820 i ddod i rym o 1 Tachwedd 2007.

5.8 Mewn perthynas â phensiynau, rhoddodd y Tŷ ei gefnogaeth mewn egwyddor i argymhellion SSRB y dylid rhannu cost cronni buddion y Gronfa Pensiwn Cyfrannol Seneddol rhwng y Trysorlys a'r Aelodau, y dylid pennu uchafswm o 20 y cant ar gyfer Cyfraniad sylfaenol y Trysorlys, ac os oedd yn edrych yn debygol y byddai'r cyfraniad yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm hwnnw, dylid cynnal adolygiad helaeth o'r gronfa.

**Y panel adolygu cyntaf ar dâl Aelodau'r Cynulliad**

5.9 Roedd Comisiwn y Cynulliad wedi penderfynu ym mis Gorffennaf 2007 y dylid cadw gwahaniaeth o 76.5 y cant rhwng cyflogau Aelodau'r Cynulliad a chyflogau Aelodau Seneddol, yn unol ag argymhelliad SSRB. Yn ystod hydref 2007, penderfynodd Comisiwn y Cynulliad geisio argymhellion ynghylch y cyflogau, pensiynau a lwfansau sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad gan banel o bedwar o bobl annibynnol, a oedd yn cael ei gadeirio gan Syr Michael Wheeler-Booth, Cyn-glerc y Seneddau, a William Graham AC, un o Gomisiynwyr y Cynulliad (heb bleidlais).

5.10 Roedd gan y panel adolygu gylch gorchwyl eang, gan gynnwys asesu'r modd yr oedd swyddogaeth Aelod Cynulliad yn newid o ganlyniad i weithredu Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

5.11 Clywodd y panel dystiolaeth lafar gan Aelodau a oedd yn cynrychioli pob un o'r pedwar prif grŵp gwleidyddol a chafwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan chwe Aelod Cynulliad a dau dyst arall.

5.12 Cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Mawrth 2008 ac mae i'w weld ar wefan y Cynulliad. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar gyflogau'r Aelodau, gan egluro'r canlynol:

> "We are conscious that the Panel has not, at this stage, discharged the entire brief given to us, but we felt it was necessary to approach the matter in two phases. This report deals with issues which, on the weight of the evidence and background information presented to us, appeared to be urgent. It also makes a recommendation that the Commission puts in place a fundamental review of the pay and system of financial support for Assembly Members, which has the object of recommending something more tailored to the National Assembly for Wales, rather than the current structure, which is based upon that of Westminster."

5.13 Ei brif gasgliad oedd nad yw'r pwerau a'r dyletswyddau newydd a roddwyd i Aelodau Cynulliad ym mis Mai 2007, er eu bod wedi arwain at ehangu eu swyddogaethau, wedi datblygu'n llawn eto.

5.14 Argymhellodd y Panel fel a ganlyn:

- dylai cyflog sylfaenol Aelod Cynulliad gynyddu i lefel o 82 y cant o gyflog Aelod Seneddol; a hwnnw'n cael ei ôl-ddyddio i fis Mai 2007, sef dyddiad etholiad y Cynulliad

- dylai arweinwyr y gwrthbleidiau, ac eithrio'r brif wrthblaid, gael cyflog sy'n gyfwerth â'r cyflog a dderbynnir gan y cadeiryddion pwyllgorau hynny sy'n derbyn tâl atodol

- na ddylid ymestyn y tâl atodol i gynnwys pob cadeirydd pwyllgor na chwipiau'r pleidiau am nad oedd yn credu bod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau hyn; er bod Comisiwn y Cynulliad wedi gwneud rhai newidiadau wedyn i'r lefelau cyflogau hyn

- dylid cynnal archwiliad sylfaenol o'r cyflogau a'r system o gymorth ariannol i Aelodau dan y setliad datganoli sy'n datblygu

## Cyflog

5.15 Arweiniodd effaith gyfunol cynyddu cyflog Aelod Cynulliad fel cyfran o gyflog Aelod Seneddol o 76.5 y cant i 82 y cant – a'r cynnydd a

roddwyd i Aelodau Seneddol o ganlyniad i adroddiad SSRB yn 2008 a ddisgrifiwyd yn flaenorol, at godiad cyflog o 8.3 y cant i Aelodau'r Cynulliad yn 2008. Er bod y panel adolygu cyntaf wedi ymdrin â sail resymegol y codiad hwn, fe arweiniodd at sylw negyddol yn y wasg ac ymateb negyddol gan y cyhoedd. Dewisodd nifer o Aelodau'r Cynulliad beidio â derbyn y codiad yn llawn.

5.16 Cyflog sylfaenol Aelod Cynulliad (o Ebrill 2009) yw £53,108. Mae hyn yn cymharu â £56,671 ar gyfer Aelod o Senedd yr Alban a £64,766 ar gyfer Aelod o Senedd y DU.

5.17 Yn ogystal â'r cyflog sylfaenol, mae 41 Aelod yn gymwys i dderbyn swm ychwanegol am ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol. Mae'r taliadau atodol hyn yn amrywio o £6,039 ar gyfer cadeiryddion rhai pwyllgorau i £41,370 ar gyfer Gweinidogion Cymru a £79,753 ar gyfer y Prif Weinidog. Felly mae cyflogau Aelodau'r Cynulliad yn amrywio o £53,108 ar gyfer Aelodau'r 'meinciau cefn' i £132,861 ar gyfer y Prif Weinidog. Cyfanswm y taliadau atodol hyn yn 2008-09 oedd tua £830,000.

5.18 Mae darpariaethau tebyg yn weithredol yn Senedd y DU a Senedd yr Alban. Ceir rhestr o'r swyddi y telir y cyflogau atodol hyn ar eu cyfer yng Nghymru, San Steffan, yr Alban a Gogledd Iwerddon a symiau'r taliadau atodol, yn seiliedig ar wybodaeth ym mis Ebrill 2009, yn **Atodiad 8**.

5.19 Mae'r ffaith bod dwy ran o dair o Aelodau'r Cynulliad yn cael tâl atodol am gyfrifoldeb ychwanegol yn un o ganlyniadau'r nifer cymharol isel o Aelodau'r Cynulliad yn y Cynulliad Cenedlaethol. Ni chyflwynwyd llawer o dystiolaeth i ni ar gyflogau'r swydd-ddeiliaid hyn, a oedd yn awgrymu i ni nad oedd Aelodau'r Cynulliad na'r cyhoedd yn ystyried hyn yn fater o bwys. Fodd bynnag, mae amodau ein cylch gorchwyl yn golygu ei bod yn ofynnol i ni ystyried y mater hwn a gwneir hynny'n ddiweddarach yn y bennod hon.

5.20 Mewn adolygiad ym 1996 o gyflogau Senedd y DU nodwyd egwyddorion ar gyfer pennu cyflogau. Mae'r Panel o'r farn bod y rhain yn parhau i fod yn sylfaen dda ar gyfer ffurfio barn. Yr egwyddorion yw:

- ni ddylai'r cyflog fod mor isel fel ei fod yn rhwystro ymgeiswyr addas rhag sefyll, nac mor uchel fel mai 'r cyflog yw prif atyniad y swydd

- dylai cyflog adlewyrchu lefelau cyfrifoldeb yn hytrach na llwyth gwaith

- er na ddylid rhwystro y rhai sydd â buddiannau allanol rhag cael eu hethol i'r Senedd, dylai'r rhai sy'n dewis gwneud y Senedd yn yrfa lawn-amser gael tâl digonol er mwyn adlewyrchu eu cyfrifoldebau

- ni ddylid codi'r tâl mewn ymgais i ddigolledu Aelodau Seneddol am ansicrwydd swydd, nad yw'n unigryw i Aelodau Seneddol

- dylai'r cyflog seneddol sylfaenol ddal i fod yr un fath i bob Aelod Seneddol

- ni ddylid gweithredu system datblygiad cyflog sy'n gysylltiedig â hyd gwasanaeth

- rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng cyflog ac ad-daliad treuliau

5.21 Roedd y rhai a ymatebodd i'r hymgynghoriad o'r farn bod Aelodau'r Cynulliad ar y cyfan yn cael tâl yn ôl cyfradd sy'n deg am y swydd a gyflawnir. Roedd y sylwadau nodweddiadol yn cynnwys:

> "Nid yw cymariaethau â chyflogau Aelodau Seneddol yn ddilys."

> "Dylai'r tâl fod ar lefel sy'n ddigon i olygu nad oes angen cyflogaeth ychwanegol a dylid eu gwahardd rhag derbyn swyddi cyfarwyddwyr a phenodiadau tebyg."

> "Mae Aelodau eisoes yn cael cyflog digonol."

> "Ni ddylai Aelodau benderfynu ar eu cyfraddau tâl na'u lwfansau eu hunain."

> "Dylai Aelodau'r Cynulliad gael tâl sy'n gymesur â'r gwaith y maent yn ei wneud; dylid mesur eu perfformiad a'u heffeithiolrwydd."

> "Gwerth da iawn; maent yn gweithio mwy am eu harian na'u cymheiriaid yn San Steffan."

> "Dylid cynnig tâl digonol er mwyn denu'r bobl orau i'r Cynulliad."

> "Dylai Aelodau'r Cynulliad gael tâl digonol am gyflawni eu swyddogaethau'n briodol, yn arbennig o gofio'r ffaith nad oes ail incwm gan y mwyafrif."

> "Caiff cyflogau eu cymharu'n aml â'r cyflogau uchaf ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus er bod yr ail o'r rhain, yn wahanol i Aelodau'r Cynulliad, yn cael eu harfarnu a'u cyflog yn cael ei gysylltu â pherfformiad."

5.22 Er bod rhai o'r farn bod Aelodau'r Cynulliad yn cael gormod o dâl, yn cael *"cyflogau a threuliau anllad"*, roedd pobl yn gyffredinol o'r farn bod y cyflog sylfaenol cyfredol ar y lefel gywir fwy neu lai. Roedd y rheiny a gyflwynodd eu safbwyntiau i ni'n bersonol hefyd yn cefnogi'r sefyllfa bresennol. Nid oedd cefnogaeth gyffredinol i gynyddu'r cyflog sylfaenol.

**Pennu lefelau cyflogau**

5.23 Ar hyn o bryd, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng cyflogau Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon ac Aelodau Senedd yr Alban a chyflogau Aelodau Seneddol. Deallwn fod hyn yn ffordd gyfleus o bennu lefelau cyflogau pan sefydlwyd y sefydliadau hyn ond nid ydym yn gweld bod unrhyw reswm i hyn barhau am gyfnod amhenodol. I'r gwrthwyneb, fel rhan o broses barhaus datganoli, credwn y dylid torri'r cysylltiad uniongyrchol.

5.24 Pan ofynnwyd iddynt beth oedd eu barn am y cysylltiad uniongyrchol sydd ar hyn o bryd rhwng cyflog Aelod Cynulliad a chyflog Aelod Seneddol, roedd rhai o Aelodau'r Cynulliad a gyflwynodd dystiolaeth i ni'n teimlo bod hynny'n ffordd resymol a syml o bennu eu cyflogau. Roeddent yn cefnogi'r trefniadau cyfredol yn bennaf am eu bod yn hwylus.

5.25 Mynegwyd barn wahanol gan dystion eraill, a rhai a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth. Roedd dwy ran i'w dadl hwy; roeddent yn teimlo bod y cysylltiad yn hybu'r syniad bod Aelodau'r Cynulliad yn Aelodau Seneddol o'r ail radd a hefyd bod y cysylltiad uniongyrchol yn wystl ffawd, oherwydd gallai Aelodau Seneddol gael codiad cyflog mawr ar ryw adeg yn y dyfodol, am resymau sydd heb gysylltiad o gwbl â gweithgareddau'r Cynulliad Cenedlaethol, ond byddai Aelodau'r Cynulliad yn gymwys yn awtomatig i gael yr un cynnydd. Cawsom ein perswadio gan yr ail ddadl hon.

5.26 Mae dau rym ar waith ar hyn o bryd sydd eisoes yn rhoi straen ar y cysylltiad hwn.

5.27 Yn gyntaf, y ffaith bod y Cynulliad yn ennill profiad o arfer ei bwerau deddfu newydd ac yn ceisio ymestyn cwmpas pwerau o'r fath.

5.28 Yn ail, oherwydd pryderon cyhoeddus a gwleidyddol diweddar ynghylch y system lwfansau yn San Steffan, mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus gynnal adolygiad ar fyrder. Mae disgwyl i'r Pwyllgor adrodd yn ôl erbyn diwedd y flwyddyn. Un canlyniad posibl yw cyfyngu'n sylweddol ar hawl Aelodau Seneddol i hawlio treuliau. Mae rhai uwch Aelodau Seneddol eisoes wedi mynegi'r farn y dylai Aelodau Seneddol, o dan amgylchiadau o'r fath, gael codiad cyflog mawr fel iawndal. Mae hyn yn gydnabyddiaeth bod Aelodau Seneddol yn hanesyddol wedi ystyried bod eu lwfansau'n ffordd gyfreithlon o ychwanegu at eu cyflogau. Pe digwydd hyn, byddai Aelodau'r Cynulliad yn derbyn codiad cyflog tebyg yn awtomatig. Gellir rhagweld y fanllef o brotest gan y cyhoedd a'r cyfryngau a byddai hynny'n tanseilio enw da'r Cynulliad a'i Aelodau heb fod bai arnynt hwy o gwbl.

5.29 Am y rhesymau hyn, credwn y dylid datgysylltu cyflogau Aelodau'r Cynulliad oddi wrth gyflogau Aelodau Seneddol. Mae hyn hefyd yn unol â'n hegwyddorion arweiniol a nodir ym **Mhennod 3**.

**Argymhelliad 8✳: Ni ddylai fod cysylltiad awtomatig uniongyrchol mwyach rhwng cyflogau Aelodau Cynulliad a chyflogau Aelodau Seneddol.**

5.30 Mae'n bwysig cydnabod goblygiad ein safbwynt y dylai'r cyfrifoldeb am bennu cyflogau Aelodau'r Cynulliad gael ei dynnu o San Steffan, sef y bydd gofyn sefydlu proses agored a thryloyw i feithrin ffydd y cyhoedd.

5.31 Yn dilyn torri'r cysylltiad uniongyrchol â San Steffan, mae angen darparu dull arall o bennu lefelau cyflogau, gan gynnwys taliadau am gyfrifoldebau ychwanegol i swydd-ddeiliaid dynodedig y cyfeiriwyd atynt eisoes.

5.32 Mae'r mater dadleuol sy'n ymwneud â llunio dull priodol o bennu cyflogau ar gyfer cynrychiolwyr etholedig yn faes a astudiwyd yn helaeth. Rhoddodd y Panel ystyriaeth i gryn dipyn o dystiolaeth ar y pwnc hwn.

5.33 Mae pennu cyflogau Aelodau Seneddol wedi bod yn bwnc dadleuol byth ers iddynt gael eu cyflwyno bron i ganrif yn ôl. Cafodd cyflogau'u cyflwyno er mwyn galluogi Aelodau Seneddol o'r dosbarth gweithiol i gystadlu â'r rhai 'goludog'. Cafodd cyflogau ar gyfer Aelodau Seneddol eu cyflwyno ym 1911 a £400 oedd y cyflogau i ddechrau. Fe gadwyd y cyflogau ar yr un lefel tan 1937 er eu bod, yn ddiddorol

ddigon, wedi cael eu gostwng dros dro rhwng 1931 a 1935 oherwydd yr argyfwng economaidd. Yn y 1970au a'r 80au, adolygwyd y cyflogau'n rheolaidd gan Fwrdd Adolygu'r Cyflogau Uchaf (TSRB), ac yn yr 80au fe ddatblygwyd y cysylltiad â graddfeydd cyflogau'r Gwasanaeth Sifil. Yn fwy diweddar, mae cyflogau a threuliau Aelodau Seneddol wedi dod yn un o'r prif bynciau trafod cyhoeddus, yn arbennig am fod Aelodau Seneddol dan bwysau i ddilyn eu pregeth eu hunain mewn perthynas â ffrwyno cyflogau. Bu barn gynyddol na ellir cynnal sefyllfa lle mae Aelodau Seneddol yn pleidleisio ynghylch eu codiadau cyflog eu hunain. Mae pryder hefyd ymhlith rhai Aelodau Seneddol bod dyfarniadau cyflog cyfyngedig flwyddyn ar ôl blwyddyn wedi eu gadael ar ei hôl hi mewn perthynas â swyddi uchel eraill. Mae'r ffactorau hyn wedi arwain at gynnal nifer o adolygiadau sylfaenol, gan gynnwys adroddiad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ar Gyflogau, Pensiynau a Lwfansau Seneddol yn 2007, a'r Adolygiad o Gyflogau a Phensiynau Seneddol wedyn gan Syr John Baker ym mis Mehefin 2008. Mae'r holl fater hwn wedi denu cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau dros y misoedd diwethaf gan fod rhai'n dadlau bod cysylltiad rhwng cyflogau a chamddefnyddio'r system treuliau a lwfansau.

5.34 Wrth roi tystiolaeth i'r Panel, awgrymodd rhai tystion y dylai cyflogau Aelodau Cynulliad fod yn gyfartal â chyflogau uwch swyddogion yr heddlu, penaethiaid ysgolion uwchradd canolig eu maint, athrawon â sgiliau arbenigol, nyrsys, ymgynghorwyr ac uwch swyddogion yn y lluoedd arfog.

5.35 Cyfeiriwyd at y ffaith bod meddygon teulu'n nodweddiadol yn ennill cyflog blynyddol o tua £100,000 a bod rhai aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol yn ennill cryn dipyn yn fwy. Ni chynigiodd tystion y dylai Aelodau dderbyn y lefelau tâl hyn. Eu dadl oedd fod nifer o Aelodau'r Cynulliad wedi derbyn gostyngiad cyflog sylweddol i ddilyn eu gyrfa ym myd gwleidyddiaeth.

5.36 Mae'r Panel yn nodi'r pryderon hyn ac er ei fod yn cefnogi canfyddiadau'r panel blaenorol o ran codi cyflogau'n unol â chodiadau mewn sefydliadau eraill, credwn y byddai codiad cyflog sylweddol arall yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni'n annerbyniol gan y cyhoedd ac nad yw'r Aelodau eu hunain yn ceisio hyn.

5.37 Mae'r Panel wedi arsylwi Aelodau'r Cynulliad wrth eu gwaith yn eu hetholaethau a'u rhanbarthau a hefyd mewn pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn yn y Senedd. Rydym wedi gweld eu bod yn gweithio'n galed a'u bod yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif.

5.38 Mae'r Panel yn derbyn bod maint ac ansawdd y gwaith a wneir gan Aelodau'r Cynulliad wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, rydym wedi adolygu'r dystiolaeth ac rydym yn teimlo bod y lefelau cyflogau cyfredol yn briodol. Credwn eu bod yn ddigon i ddenu ystod eang o ymgeiswyr galluog a da eu bwriad i ddod yn Aelodau'r Cynulliad. Ar ôl eu datgysylltu oddi wrth gyflogau Aelodau Seneddol San Steffan, credwn y dylai cyflogau Aelodau Cynulliad gael eu codi'n unol â chwyddiant hyd at fis Ebrill 2010. Wedi hynny, mae angen dull o bennu cyflogau Aelodau'r Cynulliad, a hwnnw'n dull tryloyw a phriodol. Eto mae hwn yn fater y mae'r Panel wedi rhoi cryn ystyriaeth iddo.

**Argymhelliad 9✳: Mae'r cyflog sylfaenol cyfredol o £53,108 i Aelodau'r Cynulliad yn briodol, a dylid ei godi hyd at fis Ebrill 2010, yn unol â chwyddiant.**

**Dulliau o bennu lefelau cyflogau mewn sefydliadau eraill**

5.39 Yn adolygiad 2008, gofynnwyd i Syr John Baker nodi mecanwaith annibynnol i bennu cyflogau Aelodau Seneddol. Dadl Syr John yn yr adroddiad diweddaraf oedd:

> "if MPs are prepared to relinquish control over their salaries, then the government also has to forgo any possibility of directly seeking to intervene in the process (although it can obviously still provide views or evidence). A system in which the Government retained the means to override the independent recommendations would not deserve the trust of MPs or the public."

5.40 Aeth ymlaen i nodi tair prif elfen sy'n angenrheidiol ar gyfer 'dull annibynnol o bennu cyflogau'.

5.41 Mae'r rhain fel a ganlyn:

- pennu lefel cyflogau Aelodau Seneddol ar lefel sylfaenol er mwyn i'r dull uwchraddio gael effaith
- dull uwchraddio a fydd yn addasu cyflogau'n awtomatig (naill ai'n flynyddol neu ar ryw adeg arall)
- Corff Annibynnol sy'n gallu cynnal adolygiad i ganfod a yw cyflogau Aelodau Seneddol yn dal i fod yn ddigonol i'r swydd ac yn briodol wrth ystyried unrhyw newidiadau i swyddogaethau a chyfrifoldebau. Byddai'r Corff Annibynnol hefyd yn monitro gweithrediad y dull uwchraddio

5.42 Roedd y Panel yn cytuno â'r dull yma.

5.43 Yn ddiweddar, bu nifer o adolygiadau perthnasol o gyflogau cynrychiolwyr etholedig, yn enwedig mewn cynulliadau datganoledig. Comisiynodd Cynulliad Gogledd Iwerddon adroddiad ar gyflogau a phensiynau gan yr Hay Group[7]. Daeth i'r casgliad canlynol:

> "In our view, there are in reality only two mechanisms which provide the potential to establish stable salary arrangements. These are:
> - a newly established link to a specified and trackable market or groups…
> - a continued link to Westminster…"

5.44 Fel rhan o'r adroddiad hwn, cynhaliwyd proses gwerthyso swyddi ar gyfer Aelodau Cynulliad Deddfwriaethol Gogledd Iwerddon. Daeth hon i'r casgliad fod gostyngiad wedi bod ym maint y swydd o'i gymharu ag astudiaeth flaenorol. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw ymarfer gwerthuso swyddi o lawer o gymorth wrth bennu cyflogau – proses gymharol ydyw sy'n ei gwneud yn bosibl gosod swyddi mewn trefn restrol mewn perthynas â'i gilydd neu newidiadau mewn cyfrifoldebau dros gyfnod o amser. Rhoddodd yr adroddiad ystyriaeth ddwys i gysylltu Aelodau'r Cynulliad Deddfwriaethol â chyflogau'r gwasanaeth sifil, ond penderfynwyd yn y pen draw y dylid cynnal y cysylltiad â chyflogau Aelodau Seneddol y DU.

5.45 Y 'cymharydd' y rhoddwyd ystyriaeth iddo yn yr achos hwn oedd gwasanaeth sifil Gogledd Iwerddon, ac er bod hyn yn dwyn mantais o ran tryloywder cyhoeddus daethpwyd i'r casgliad, am fod y cyflogau'n cael eu cytuno trwy drafodaeth, bod perygl y byddai'n ymddangos bod i'r Aelodau fudd o godiadau cyflog ar gyfer y grŵp penodol hwn o gyflogeion yn y sector cyhoeddus. Roedd Syr John Baker, yn ei adolygiad, hefyd o'r farn na fyddai'r cysylltiad â'r gwasanaeth sifil yn 'ddull da, annibynnol' a hynny am yr un rheswm – pe bai'r cysylltiad yn cael ei gadw byddai'r Llywodraeth i bob pwrpas yn pennu codiadau cyflog yr Aelodau. Yn ogystal, mae'r ffordd y caiff cyflogau'r gwasanaeth sifil eu strwythuro'n golygu nad yw mwyach yn ddull cysylltu priodol.

5.46 Yn yr Alban maent wedi defnyddio cyflog Aelodau Seneddol a swydd-ddeiliaid yn San Steffan fel y cymharydd mwyaf priodol i'w ddefnyddio wrth bennu cyflogau Aelodau Senedd yr Alban. Yn 2001 bu anghytuno rhwng Plaid Genedlaethol yr Alban a'r Democratiaid Rhyddfrydol, a oedd yn cefnogi'r cysylltiad, a Phlaid Sosialaidd yr Alban, a oedd yn

[7] Northern Ireland Assembly: Review of Pay, Pension Scheme and Allowances 2008

credu bod y cyflog a oedd yn cael ei gynnig yn rhy uchel.  Yn ystod y trafodaethau, dadleuwyd fod Aelodau Senedd yr Alban yn anghyfforddus ynghylch pennu eu cyflogau eu hunain.  Ers 2002 mae'r cyflog wedi codi'n unol â chyflogau San Steffan, er y cydnabuwyd y gallai'r amgylchiadau newid yn y dyfodol ac na fyddai'r cysylltiad â San Steffan o bosibl yn briodol.

5.47 Yn ei adroddiad yn 2008 ar gyflogau a phensiynau Seneddol, cynhwysodd Syr John Baker dabl o gymariaethau rhyngwladol, sydd i'w weld yn **Atodiad 9**.  Mae'n nodi sut y caiff cyflogau Aelodau eu pennu mewn nifer o wledydd.  Mae'n ddiddorol nodi sut y maent wedi goresgyn rhywbeth sy'n broblem gyffredin.  Defnyddir panel taliadau annibynnol mewn pump o'r gwledydd hyn; Awstralia, Seland Newydd, Norwy, Sbaen a Sweden.  Nid yw'r Aelodau'n chwarae unrhyw ran yn y broses o bennu eu cyflogau mewn saith o'r gwledydd; Canada, Ffrainc, Iwerddon, Seland Newydd, Singapore, Sbaen a Sweden.

5.48 Yn Ffrainc, mae cysylltiad uniongyrchol wedi bod rhwng cyflogau Aelodau Seneddol a chyflogau uwch weision sifil ers 1958.  Nid yw Aelodau Seneddol yn Ffrainc yn pleidleisio ynghylch eu cyflogau eu hunain na chyflogau gweision sifil.  Yn Iwerddon, mae cysylltiad rhwng cyflogau Aelodau Senedd Iwerddon a'r gwasanaeth sifil a chynhelir adolygiadau sylfaenol bob pedair blynedd.  Yn yr Eidal, mae cysylltiad rhwng cyflogau Aelodau Seneddol ac ynadon yn y Llys Goruchaf, ond caiff cyflogau'r ynadon eu pennu gan y Llywodraeth.  Yn Seland Newydd, caiff cyflogau a lwfansau Aelodau Seneddol eu pennu gan gorff statudol annibynnol a elwir yn Remuneration Authority; maent yn defnyddio cymaryddion yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.  Mae defnyddio cymaryddion a phennu cyflogau'n annibynnol yn arferion cyffredin yn rhyngwladol.

### Casgliadau ynghylch lefelau cyflogau yn y dyfodol

5.49 Fel y nodwyd uchod, mae Syr John Baker yn argymell tri cham ar gyfer nodi dull annibynnol o bennu cyflogau; pennu cyfnogau ar lefel sylfaenol, dull uwchraddio a Chorff Adolygu Annibynnol.  Mae'r Panel wedi cytuno, am y rhesymau a drafodwyd yn gynharach yn y bennod hon, mai'r lefel sylfaenol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw achosion o uwchraddio cyflogau yn y dyfodol fydd y cyflog ar 1 Mehefin 2009.

**Argymhelliad 10: Y lefel sylfaenol a ddefnyddir ar gyfer uwchraddio cyflogau yn y dyfodol fydd y cyflog ar 1 Mehefin 2009.**

5.50 Y mater nesaf i'w ystyried yw'r dull uwchraddio. Mae llawer o'r gwaith angenrheidiol wedi cael ei drafod gan Syr John Baker a chytunodd y Panel â hyn. Caiff hyn ei gynnwys ym mharagraffau 32-36 yn adroddiad Baker. Nodir y dylai'r dull uwchraddio, yn ei hanfod, fod:

- yn hawdd i'w ddeall, yn annibynnol ac yn awdurdodol, yn dryloyw ac yn un na ellir ei gamddefnyddio
- yn gynaliadwy dros sawl Cynulliad
- yn seiliedig ar gymaryddion cyflogau nid cymaryddion prisiau
- yn un sy'n adlewyrchu newidiadau mewn enillion ac nid setliadau
- wedi'i gysylltu mewn rhyw ffordd â'r sector cyhoeddus

5.51 Mae adlewyrchu enillion yn hytrach na setliadau'n fater pwysig nad yw wastad yn cael ei ddeall. Mae wedi bod yn batrwm hirdymor yn y DU bod enillion yn cynyddu ar gyfartaledd 1-2 y cant yn fwy na lefelau setliadau bob blwyddyn. Nid yw Aelodau Seneddol yn cael codiadau cynyddrannol, tâl goramser, tâl am berfformiad na bonysau na datblygiad cyflog. Felly, pe na bai cyflogau Aelodau Seneddol yn cael eu haddasu i ystyried y cynnydd gwirioneddol mewn enillion a dderbynnir gan bobl eraill, dros gyfnod o amser, byddai eu cyflogau'n syrthio ar ei hôl hi.

5.52 Ar ôl ystyried y cysylltiad â'r gwasanaeth sifil neu ddefnyddio casgliad o gymaryddion, daeth adroddiad Baker i'r casgliad mai'r cymharydd gorau sy'n bodloni'r meini prawf uchod i gyd fyddai mynegeio. Yr un a ddewiswyd gan Syr John oedd Mynegai Enillion Cyfartalog y Sector Cyhoeddus (PSAEI). Gwrthodwyd yr argymhelliad hwn gan Dŷ'r Cyffredin am ei fod yn cynnwys codiad cyflog i ddal i fyny, ar adeg pan oedd y Llywodraeth yn pwyso am ffrwyno cyflogau. Fodd bynnag, mae'r Panel o'r farn bod Syr John Baker yn iawn ac mai'r defnydd hwn o ddull mynegeio yw'r ffordd orau ymlaen.

5.53 Cred y Panel y dylai'r Corff Adolygu Annibynnol (gweler isod) bennu cyflogau Aelodau Cynulliad trwy gymryd y cyflog ar y lefel sylfaenol (gweler argymhelliad 10) a'i addasu yn unol â'r newid canrannol yn $75^{ain}$ ganradd yr enillion cyfartalog yng Nghymru. Hon fydd y sail ar gyfer pennu'r cyflog sylfaenol yn y Cynulliad nesaf yn 2011; sef, cyflog sylfaenol o £53,108 wedi'i luosi â'r newid canrannol yn $75^{ain}$ ganradd yr enillion cyfartalog yng Nghymru yn 2009-10, y bwriedir ei chyhoeddi ym mis Tachwedd 2010.

5.54 Mae'r Panel yn argymell cytundeb cyflog dros 4 blynedd a fydd yn cael ei bennu cyn etholiadau nesaf y Cynulliad. Mantais hyn yw y bydd yn caniatáu i ddarpar ymgeiswyr wybod beth fyddant yn ei gael yn eu tymor hwy. Bydd y pecyn dros 4 blynedd yn cael ei bennu trwy gyfrifo'r uwchraddiad sy'n gysylltiedig â'r mynegai a argymhellir uchod, yn seiliedig ar y cyflog sylfaenol ar 1 Mehefin 2009. Yn ogystal, bydd lwfans ar gyfer chwyddiant a ddaroganir yn cael ei ychwanegu at y cyflog.

5.55 Yn ystod tymor y Cynulliad dylai darpariaeth fod ar gael ar gyfer addasu o dan amgylchiadau eithriadol; er enghraifft, os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ennill pwerau ychwanegol sylweddol.

**Argymhelliad 11✳: Dylid pennu cyflogau Aelodau Cynulliad am dymor 4-blynedd y Cynulliad.**

- **Bydd lefel sylfaenol y cyflog hwn yn cael ei phennu yn unol â'r newid canrannol yn y mynegai enillion cyfartalog ar gyfer Cymru.**
- **Rhoddir ystyriaeth i chwyddiant ac fe ychwanegir cynnydd tybiannol at y cyflog sylfaenol.**
- **Byddai'r cyflog hwn yn cael ei bennu hyd ddiwedd tymor y Cynulliad oni cheir amgylchiadau eithriadol; er enghraifft, newid sylweddol ym mhwerau'r Cynulliad Cenedlaethol.**
- **Bydd Corff Adolygu Annibynnol yn cwrdd o leiaf chwe mis cyn y Cynulliad nesaf i benderfynu ar y materion hyn (gweler argymhelliad 12).**

5.56 Dylid ystyried yr agweddau deddfwriaethol ar y cynigion hyn. Fel y nodwyd ym **Mhennod 2**, caiff y broses o roi tâl ei rheoli gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rhoddwyd y swyddogaeth hon i Gomisiwn y Cynulliad; bydd angen iddo ystyried y camau y mae angen eu cymryd i weithredu'r argymhellion, gan gynnwys yr angen am ddeddfwriaeth.

5.57 Yr olaf o'r tair eitem a argymhellwyd ar gyfer y 'dull annibynnol i bennu cyflogau' yw'r Corff Adolygu Annibynnol.

5.58 Yn ôl Syr John Baker, dylai swyddogaeth corff o'r fath fod fel a ganlyn:

- ystyried amgylchiadau newidiol yng ngwaith Aelodau Cynulliad – er enghraifft swyddogaeth neu nifer yr Aelodau Cynulliad neu ddeddfwriaeth newydd

- adolygu effeithiolrwydd ac effaith y broses uwchraddio

- ymdrin ag unrhyw faterion ad hoc wrth iddynt godi, megis creu swyddi swydd-ddeiliaid newydd

- mynd ati ar y cyd â'r pleidiau i fonitro ansawdd y rhai sy'n cyflwyno'u hunain fel ymgeiswyr

- bwrw trosolwg ar y pecyn tâl cyfan a'r gyfundrefn treuliau a lwfansau. Cyfeirir at yr agwedd benodol hon o'r swyddogaeth mewn mwy o fanylder ym **Mhennod 12**

5.59 Yn y cyd-destun hwn, mae'r Panel hefyd yn ymwybodol bod Confensiwn Cymru Gyfan wrthi ar hyn o bryd yn chwilio am safbwyntiau'r cyhoedd ar amseriad refferendwm ar roi pwerau deddfu llawn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Pe rhoddid pwerau o'r fath, mae'n amlwg y byddai angen adolygu cyflogau Aelodau'r Cynulliad. Byddai hyn yn golygu bod angen gwerthuso swyddi i gadarnhau'r newidiadau yn y swydd.

5.60 Byddai'r Corff Adolygu Annibynnol yn cael ei benodi'n statudol ac yn gweithredu'n annibynnol, a byddai angen cymorth ac adnoddau arno i gyflawni'i swyddogaethau. Ei rôl fyddai gwneud penderfyniadau ynghylch pob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad. Byddai'r penderfyniadau hynny'n derfynol ac ni fyddent yn amodol ar gadarnhad neu gymeradwyaeth gan Gomisiwn y Cynulliad na'r Cynulliad.

**Argymhelliad 12✳: Dylai Comisiwn y Cynulliad baratoi a chyflwyno Mesur Cynulliad cyn gynted ag sy'n ymarferol, i sefydlu Corff Adolygu Annibynnol statudol i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r materion a restrir isod. Rôl y corff hwn yw:**

**i) gwneud penderfyniadau ynghylch pob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad**
**ii) ystyried cyfrifoldebau newidiol yng ngwaith Aelodau'r Cynulliad**
**iii) adolygu effeithiolrwydd ac effaith y broses uwchraddio**
**iv) ymdrin ag unrhyw faterion 'ad hoc'**

**Dylid nodi y dylai aelodau'r Corff hwn fod yn annibynnol ar y Cynulliad ac y dylai fod ganddynt arbenigedd perthnasol. Byddai dethol gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu), yr Archwilydd Cyffredinol ac Ymgynghorydd Annibynnol i'r Comisiwn yn ffordd briodol o fynd ati.**

**Deiliaid Swyddi Ychwanegol**

5.61 Ar hyn o bryd, mae cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol yn y Cynulliad Cenedlaethol yn gysylltiedig â swyddi penodol yn San Steffan. Er enghraifft, mae cyflog y Prif Weinidog yn gysylltiedig â chyflog Ysgrifennydd Gwladol, a chyflogau Gweinidogion Cymru a'r Llywydd yn cyfateb i rai Gweinidogion Gwladol. Teimla'r Panel y byddai'n anghyson cynnal y trefniadau cyfredol ar gyfer deiliaid swyddi ychwanegol ar ôl torri'r cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad a chyflog sylfaenol Aelodau Seneddol.

5.62 Mae'r Panel yn nodi bod hierarchaeth ac iddi ddwy haen ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau ar hyn o bryd, yn seiliedig ar amlder cyfarfodydd a natur y pwyllgor; gyda rhai'n cael tâl atodol sydd tua 22 y cant o'u cyflog sylfaenol ac eraill yn cael tua 11 y cant. Nid yw'r Panel wedi'i argyhoeddi bod hwn yn adlewyrchiad teg o'r cyfrifoldebau ychwanegol y mae'r amryw gadeiryddion pwyllgorau'n ymgymryd â hwy.

5.63 Adolygodd y Panel dystiolaeth o amlder cyfarfodydd pwyllgorau dros y flwyddyn ddiwethaf, a'r ystod o gyfrifoldebau sydd gan gadeiryddion pwyllgorau. Daethom i'r casgliad y dylai'r gwahaniaeth rhwng taliadau i'r amryw gadeiryddion pwyllgorau fod yn llai, ond y dylai'r taliadau ar y cyfan gael eu cynyddu er mwyn adlewyrchu eu swyddogaeth fel arweinwyr yn y Cynulliad Cenedlaethol.

5.64 Mae'r tabl isod yn nodi'r cyflog gros cyfredol ar gyfer deiliaid swyddi ychwanegol ac yn cymharu hyn â'r cyflog sylfaenol. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys, ynghyd â chyflogau cymharol mewn sefydliadau eraill, yn **Atodiad 8**.

**Tabl 5.1 Cyflogau swydd-ddeiliaid**

| Swydd-ddeiliad | Cyflog Gros (Ebrill 2009) | Cyflog Gros / Cyflog Sylfaenol |
|---|---|---|
| Prif Weinidog | £132,861 | 2.50 |
| Dirprwy Brif Weinidog | £94,478 | 1.78 |
| Llywydd | £94,478 | 1.78 |
| Gweinidogion Cymru | £94,478 | 1.78 |
| Cwnsler Cyffredinol / Arweinydd y Tŷ | £94,478 | 1.78 |
| Arweinydd y Brif Wrthblaid | £94,478 | 1.78 |
| Arweinydd y gwrthbleidiau eraill | £64,650 | 1.22 |
| Dirprwy Lywydd | £79,129 | 1.49 |
| Dirprwy Weinidogion | £79,129 | 1.49 |
| Prif Chwip y Llywodraeth | £79,129 | 1.49 |
| Prif Chwip yr Wrthblaid | £64,650 | 1.22 |
| Comisiynwyr y Cynulliad | £64,650 | 1.22 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (Craffu, Deddfwriaeth, Cyllid ac Archwilio) | £64,650 | 1.22 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (Eraill) | £59,147 | 1.11 |

5.65 Cred y Panel y dylai cadeiryddion pwyllgorau allweddol dderbyn tâl atodol o £12,000 y flwyddyn ac y dylai cadeiryddion pwyllgorau eraill (heblaw am y rhai sy'n cwrdd yn anaml iawn) gael tâl atodol o £8,000 y flwyddyn. Mater i Gomisiwn y Cynulliad yw penderfynu pa dâl atodol ddylai fod yn berthnasol i bob cadeirydd pwyllgor.

5.66 Er mwyn bod yn gyson, cred y Panel y dylai'r deiliaid swyddi ychwanegol eraill sydd ar hyn o bryd yn cael yr un lefel o gyflog atodol â'r cadeiryddion pwyllgorau ddal i fod yn gyfartal â hwy. Felly byddai Comisiynwyr y Cynulliad, arweinwyr y gwrthbleidiau eraill (heblaw am Arweinydd y Brif Wrthblaid) a Phrif Chwip yr Wrthblaid yn cael tâl atodol o £12,000.

5.67 Cred y Panel y dylid gweithredu'r codiadau bychain hyn cyn gynted â phosibl ac y dylid eu talu am weddill tymor cyfredol y Cynulliad.

**Argymhelliad 13: Dylai cadeiryddion pwyllgorau dderbyn tâl atodol swydd-ddeiliad o naill ai £12,000 y flwyddyn neu £8,000 y flwyddyn. Dylai Comisiwn y Cynulliad benderfynu pa dâl atodol sy'n berthnasol i bob cadeirydd pwyllgor, a hwnnw'n berthnasol am weddill tymor y Cynulliad. Dylai deiliaid swyddi ychwanegol sydd ar hyn o bryd â hawl i'r un tâl atodol â chadeiryddion pwyllgorau ddal i fod yn gyfartal â hwy.**

5.68 Unwaith y bydd y corff annibynnol wedi cadarnhau'r cyflog sylfaenol newydd a gaiff ei weithredu ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad, dylai'r deiliaid swyddi ychwanegol dderbyn cyflogau atodol a fynegir fel canran o'r swm yma. Disgwylir y bydd y cyfrannau'n debyg i'r rhai yn y tabl uchod, wedi'u haddasu i ystyried yr addasiad yn y tâl atodol i gadeiryddion pwyllgorau. Bydd y cyfrannau hyn yn cael eu hadolygu gan y Corff Adolygu Annibynnol o bryd i'w gilydd.

**Argymhelliad 14: Yn dilyn etholiad nesaf y Cynulliad, dylai deiliaid swyddi ychwanegol dderbyn taliadau atodol ar ben eu cyflog sylfaenol yn ôl yr un gyfran â'r un a fydd yn berthnasol yn dilyn yr addasiadau a ddisgrifir yn argymhelliad 13. Bydd y cyfrannau hyn yn cael eu hadolygu gan y Corff Adolygu Annibynnol o bryd i'w gilydd.**

### Cyflogaeth arall

5.69 Ystyriodd y Panel y sefyllfa pan fo gan yr Aelodau gyflogaeth arall, ac fe nododd ei bod eisoes yn ofynnol i Aelodau gofnodi'r wybodaeth hon yn y Gofrestr Buddiannau. Er mwyn cael mwy o dryloywder a chynyddu ffydd y cyhoedd, teimla'r Panel y dylid darparu mwy o wybodaeth; yn arbennig yr amser a gaiff ei dreulio mewn perthynas â chyflogaeth arall.

**Argymhelliad 15: Yn ogystal â chofnodi gwybodaeth am gyflogaeth arall ar y Gofrestr Buddiannau, dylai fod yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad nodi manylion yr amser y maent yn ei dreulio yn y gyflogaeth ychwanegol hon.**

### Pensiynau

5.70 Mae gan bob Aelod Cynulliad hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Tybir fod pob Aelod Cynulliad yn aelod o'r cynllun o ddyddiad yr etholiad. Nid yw'r cynllun yn orfodol a gall Aelodau ddewis peidio ag ymuno, er nad oes unrhyw un wedi gwneud hynny hyd yma.

5.71 Ceir crynodeb o Lawlyfr Pensiwn yr Aelodau yn **Atodiad 10**.

### Materion allweddol

5.72 Mae'r cynllun pensiwn i Aelodau'r Cynulliad yn seiliedig ar fodel San Steffan. Yn ei adolygiad o Gyflogau a Phensiynau Seneddol yn 2008, fe gyfeiriodd Syr John Baker at adroddiad SSRB yn 2007 ar bensiynau; yn benodol y ddau argymhelliad canlynol:

- "That the Exchequer contribution to the cost of accrual of benefits for MPs in service in the Parliamentary Contributory Pension Fund (PCPF) (excluding payments to amortise the accumulated deficit identified in the 2005 valuation of the Fund) should in principle be limited to 20 per cent of the payroll of Scheme Members; and

- that if it becomes likely that, unless action is taken, the Exchequer contribution to the cost of accrual of benefits for MPs in service in the PCPF (excluding payments to amortise the accumulated deficit identified in the 2005 valuation of the Fund) would rise above 20 per cent of payroll, then there should be a major review of the Fund."

5.73 Fe wnaeth Syr John Baker y sylw canlynol:

> "It is difficult to envisage an automatic up rating mechanism on how determinations on pensions could be made under the current system given the legal responsibilities of the Trustees and the funding role of the Government. I therefore believe that the best solution would be for the Independent Body to continue to consider MPs' pension arrangements bearing in mind the unusual career pattern of MPs and the evolution of pensions in the public sector and wider economy. The Independent Body will need to examine whether features of the PCPF are necessary and justified for recruitment and retention and whether the scheme's costs and benefits are reasonable in comparison to pensions elsewhere in the public sector. It should then make recommendations to the Fund Trustees and Government. Although those recommendations could not be applied automatically, they should be regarded as compelling in principle. It would be for the Government and Trustees jointly to consider and act on them as they saw fit, with the consent of the House. However, in any event, the Independent Body must continue to take account of the value of MPs' pensions as part of the total reward."

5.74 Mae'r Panel yn cefnogi sylwadau Syr John, ac maent yr un mor berthnasol i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Cynllun yn gynllun 'cyflog terfynol' ac mae ar hyn o bryd yn seiliedig ar un rhan o ddeugain am bob blwyddyn o wasanaeth, y mae'r aelodau'n cyfrannu 10 y cant o'u cyflog tuag ato. Mae gan rai aelodau o'r cynllun lefel is o fudd – un rhan o hanner cant am bob blwyddyn o wasanaeth, y gwneir cyfraniad is ar ei gyfer.

5.75 Cafodd adroddiad ar gynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad ei gyhoeddi'n ddiweddar gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Hwn oedd y prisiad actiwaraidd ar 1 Ebrill 2008, a gaiff ei baratoi bob tair blynedd yn unol â Deddf Pensiynau 2004. Canfu'r adroddiad hwn fod y cynllun

cyfredol yn cael ei ariannu 99.7 y cant, a oedd yn arwain at ddiffyg o tua £40,000. Fe gynhaliodd yr actiwari asesiad o'r cyfraniadau y mae eu hangen am y cyfnod hyd at yr adolygiad nesaf ym mis Ebrill 2011 ac fe argymhellodd y dylid addasu cyfradd y cyfraniadau safonol (er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei ariannu 100 y cant) i 33.8 y cant. Mae'r Aelodau'n cyfrannu 10 y cant, gyda'r Comisiwn yn ariannu'r gweddill o 23.8 y cant.

5.76 Yn ddiweddar mae Prif Weinidog Prydain wedi comisiynu adolygiad o gynllun pensiwn San Steffan am fod cyfraniad y Trysorlys trwy'r gyflogres wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn o 20 y cant. Mae'r adolygiad hwn yn debygol o gael ei gysylltu â'r adolygiad ehangach o gyflogau a lwfansau Aelodau Seneddol a gomisiynwyd gan y Prif Weinidog i'w gyflawni gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Nid ydym yn teimlo bod angen disgwyl am ganlyniad yr ystyriaethau yn San Steffan cyn dod i'n casgliadau ein hunain.

5.77 Mae cynlluniau pensiwn cyflog terfynol yn gyffredin yn y sector cyhoeddus, gyda tua 90 y cant o'r cyflogeion yn y sector cyhoeddus yn rhan o drefniadau o'r fath. Fodd bynnag, maent yn llai cyffredin yn y sector preifat, gyda 12 y cant yn unig o'r cyflogeion yn rhan o drefniadau o'r fath – ac maent yn mynd yn fwy anghyffredin, wrth i fusnesau geisio gostwng eu costau gweithredol.

5.78 Gan fabwysiadu safbwynt tebyg i San Steffan, a dilyn tueddiadau yn y sector preifat, roedd y Panel yn bryderus ynghylch y cynnydd yn y gost i'r Cynulliad a fyddai'n deillio o barhau i ddarparu'r cynllun pensiwn gyda'i ystod gyfredol o fuddion. Roedd y Panel o'r farn na ddylai hon fod yn gyllideb ben-agored.

5.79 Ni chawsom lawer o sylwadau ar bensiynau yn ein galwad am dystiolaeth. Nid oedd y mater yn peri pryder arbennig i'r Aelodau ychwaith. Rydym yn teimlo bod hyn yn adlewyrchiad cyffredinol o'r difaterwch cyffredin ynghylch y mater hwn.

5.80 Dylai Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad fod yn briodol i anghenion Aelodau'r Cynulliad a chynnig gwerth eu harian iddynt ac i'r trethdalwr. I'r perwyl hwn, mae'r Panel yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad ac Ymddiriedolwyr y Gronfa'n cyfyngu ar lefelau cyfraniadau a ariennir gan y Comisiwn yn y dyfodol i uchafswm o 23.8 y cant, sef lefel gyfredol y cyfraniadau gan Gomisiwn y Cynulliad. Ystyrir fod hon yn lefel hael o gymorth a ddylai fod yn gymesur â darpariaeth resymol mewn perthynas â buddion.

**Argymhelliad 16✳: Dylai Comisiwn y Cynulliad ac Ymddiriedolwyr y Gronfa gymryd cyngor cyfreithiol ac actiwaraidd gyda golwg ar gadw cyfradd y cyfraniadau safonol a ariennir gan y Comisiwn ar lefel sy'n ddim uwch na'r lefel gyfredol, sef 23.8 y cant, ac y dylid adolygu'r lefel hon o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried yr hyn sy'n digwydd mewn cynlluniau pensiwn mewn sefydliadau eraill.**

5.81 Dylai'r amcan cyffredinol ymwneud â chael mwy o gysondeb rhwng y cynllun a'r hyn sy'n digwydd mewn sefydliadau eraill, er mwyn rhoi gwerth am arian ac er mwyn iddo weddu i anghenion Aelodau'r Cynulliad. Gyda golwg ar leihau costau mae gan y Panel rai syniadau o ran ble gellid ystyried newidiadau, a chaiff y rhain eu rhestru isod.[8]

- Mae'r Panel yn teimlo y dylai'r sylfaen ar gyfer cyfrifo buddion fod yn seiliedig ar un rhan o chwedeg o'r cyflog terfynol, nid un rhan o ddeugain fel ar hyn o bryd. Wedyn gellid gostwng cyfraniadau'r Aelodau'n briodol i lefel sy'n seiliedig ar gyngor actiwaraidd. Byddai rhwydd hynt, wrth gwrs, i'r Aelod wneud cyfraniadau ychwanegol a chael pensiwn uwch o ganlyniad. Gellid cadw buddion ar gyfer aelodau presennol y cynllun.

- Mae cynllun y Cynulliad yn fach ac nid yw'n cwrdd â'r cyfan o'r gost o'i weinyddu. Teimlwn y dylid archwilio'r dewis o uno â chynllun mwy, yn amodol wrth gwrs ar gyngor cyfreithiol ac actiwaraidd llawn.

- Nodwedd arall ar y Cynllun, sy'n ddrud ym marn y Panel, yw'r arian rhodd 'marwolaeth mewn swydd' ar ffurf cyfandaliad sy'n cyfateb i bedair gwaith y cyflog. Hwn oedd yr uchafswm a ganiateid dan reolau TChEM a oedd yn berthnasol cyn 2006 ac ar y pryd roedd yn gyson â rhai cynlluniau cyflog terfynol a ariennir yn y sector preifat. Er hynny, mae hyn yn ddrud ac yn hael o'i gymharu â chynlluniau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn enwedig o dan yr amgylchiadau ar hyn o bryd. Cred y Panel y dylai hyn fod yn seiliedig ar ddwywaith y cyflog blynyddol, yn hytrach na phedair gwaith y cyflog blynyddol dan y trefniadau cyfredol.

- Ar hyn o bryd, os oes rhaid i Aelod ymddeol oherwydd afiechyd, caiff unrhyw bensiwn sy'n ddyledus ei gynyddu fel pe bai'r Aelod wedi gweithio tan ei fod yn 65 mlwydd oed. Teimla'r Panel y dylid haneru nifer y blynyddoedd a ychwanegir. Dylid cyfrifo'r pensiwn

[8] Yng nghyd-destun y drafodaeth hon, bu i Dafydd Wigley ddatgan cysylltiad fel un o Ymddiriedolwyr Cronfa Bensiwn yr Aelodau ac fel un sy'n derbyn pensiwn fel Cyn-aelod Cynulliad ac fe ymataliodd rhag cymryd rhan mewn trafodaethau ar y mater.

afiechyd ar sail gwir nifer y blynyddoedd o wasanaeth cyfrifadwy a hanner y gwahaniaeth rhwng oedran yr Aelod pan ei fod yn ymddeol oherwydd afiechyd a'r oedran ymddeol enwol, sef 65.

- Yn ogystal, cred y Panel y dylid terfynu neu ostwng y pensiwn ymddeol oherwydd afiechyd os bydd y derbynnydd yn cael swydd arall wedyn, er y byddai'r hawl arferol i bensiwn yn berthnasol wrth gwrs pan fyddai'r Aelod yn cyrraedd oedran ymddeol arferol yn y pen draw. Rydym yn deall bod Ymddiriedolwyr y Pensiwn wedi bod yn ystyried y materion hyn ac y gallent gyflwyno darpariaeth iechyd ac iddi ddwy haen yn seiliedig ar Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac rydym yn hyderus y byddant yn ystyried ein safbwyntiau.

5.82 Mae pensiynau'n fater cymhleth. Am resymau da mae gan yr Ymddiriedolwyr rwymedigaethau cyfreithiol penodol, a chaiff y cynllun ei ariannu gan ei aelodau ac arian cyhoeddus. Felly ni ellir gweithredu'r un o'r awgrymiadau uchod yn awtomatig. Fodd bynnag, cyfrifoldeb Ymddiriedolwyr y Gronfa a Chomisiwn y Cynulliad fydd gweithredu arnynt fel y barnant yn ddoeth gyda chydsyniad Aelodau'r Cynulliad lle y bo'n briodol.

5.83 Dylai'r Corff Adolygu Annibynnol barhau i ystyried gwerth cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad fel rhan o'r pecyn tâl cyfan i Aelodau Cynulliad.

**Trefniadau wrth adael y swydd**

5.84 Caiff y trefniadau ar gyfer dirwyn materion Aelod i ben pan mae'n rhoi'r gorau i fod yn Aelod Cynulliad eu nodi yn Adrannau 14 a 15 Penderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009.

5.85 Mae dwy brif elfen; Lwfans Dirwyn-i-ben a Grant Ymaddasu. Diben y Lwfans Dirwyn-i-ben yw gofalu am y costau sy'n gysylltiedig â chau'r swyddfa yn yr etholaeth neu'r rhanbarth. Mae'r Grant Ymaddasu i bob pwrpas yn dâl dileu swyddi, ac mae'n gyfran o gyflog blynyddol yr Aelod sy'n gysylltiedig â'i oedran a nifer y blynyddoedd o wasanaeth ar adeg ymddeol. Mae'r gyfran a ddefnyddir yn amrywio rhwng 50 y cant a 100 y cant o'r cyflog blynyddol a chaiff ei mynegi ar ffurf tabl ym mharagraff 15.1.4 ym Mhenderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009 yn **Atodiad 1.**

5.86 Yn dilyn etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2007, bu i gyfanswm o 13 o Aelodau naill ai ymddeol neu fethu â chael eu hailethol. Cawsant gyfanswm o tua £340,000 mewn Grant Ymaddasu a chafodd £319,000

arall ei wario i'w helpu i ddirwyn eu materion i ben, gan gynnwys costau dileu swyddi staff a chostau swyddfa.

**Lwfans dirwyn i ben**

5.87 O dan y trefniadau presennol, mae'r swm y gall Aelod ei hawlio o'r Lwfans dirwyn i ben yn cynnwys tair elfen fel y nodir isod.

1. Hyd at draean o'r Lwfans Costau Staff Eraill blynyddol (mae hwn wedi'i bennu ar lefel o £5,801 ar hyn o bryd felly £1,933 fyddai'r Lwfans dirwyn i ben).

2. Hyd at draean o'r gwir gyflogau blynyddol a dalwyd i staff y Cyn-aelod Cynulliad. Mae'r lwfans hwn yn ariannu'r taliadau dileu swyddi a roddir i staff.

3. Hyd at draean o'r taliadau cyflogau blynyddol gwirioneddol a wnaed i staff y cyn Aelod Cynulliad. Mae'r lwfans hwn yn ariannu't raliadau diswyddo a wneir i'r staff.

5.88 Caiff y symiau a delir yn y Lwfans dirwyn i ben a ddisgrifir uchod eu gostwng yn unol â swm unrhyw orwariant yn y lwfans perthnasol.

5.89 Mewn perthynas at eitem 2 uchod, mae'r Panel wedi nodi ym **Mhennod 8** bod y Costau Staff Eraill ar gyfer teithio a toramser yn unig ac o ganlyniad mae wedi argymell lwfans blynyddol gostyngol o £2,000.

5.90 Mewn perthynas â thaliadau dileu swyddi a thaliadau rhybudd i staff Aelodau'r Cynulliad (eitem 3 uchod), dylai'r gyllideb ar gyfer hyn gael ei dal yn ganolog a dylai gwariant gael ei ddyrannu yn erbyn yr Aelod Cynulliad ymadawol yn yr un modd â thaliadau Yswiriant Gwladol. Mae argymhellion y Panel ynghylch lefel y taliadau dileu swyddi i staff Aelodau'r Cynulliad i'w cael ym **Mhennod 8**.

5.91 Telir hyd at draean o'r lwfans costau swyddfa blynyddol ar hyn o bryd am y byddai hyn yn caniatáu hyd at 4 mis o wariant mewn perthynas â chostau cau swyddfa. Barn y Panel oedd y gellid dirwyn materion i ben mewn cyfnod llawer byrrach. O ran prydlesu swyddfa yn yr etholaeth byddai hyn fel arfer wedi'i raglennu fel ei fod yn dod i ben ar ddiwedd Tymor y Cynulliad, ac felly ni ddylai fod llawer o gostau ar ôl y dyddiad pan fo Aelod Cynulliad yn gadael. Cred y Panel y dylid cwblhau'r broses dirwyn i ben o fewn tri mis ac y gellir felly ostwng y lwfans dirwyn i ben uchaf o un rhan o dair o'r lwfans Costau Staff Eraill ac un rhan o dair o'r lwfans Costau Swyddfa i chwarter y lwfansau hyn. Caiff hyn ei roi ar waith yn dilyn etholiad nesaf y Cynulliad.

**Argymhelliad 17*: Yn dilyn etholiad nesaf y Cynulliad, dylid gostwng y Lwfans dirwyn i ben i uchafswm o chwarter y lwfans Costau Staff Eraill a'r Lwfans Costau Swyddfa ac ni ddylai gynnwys taliadau dileu swyddi i staff cymorth, y bwriedir darparu ar eu cyfer mewn cyllideb ar wahân.**

5.92 Cred y Panel bod y trefniadau cyfredol lle mae gan Aelodau hawl i dderbyn Grant Ymaddasu a phensiwn yn rhy hael.

5.93 Cred y Panel y dylai'r Grant Ymaddasu gael ei fwriadu er mwyn galluogi Aelod sy'n methu â chael ei ailethol i gael incwm tra'n chwilio am gyflogaeth newydd. Mae'r grant yn cyflawni swyddogaeth debyg i dâl dileu swydd. Nid yw'r taliadau hyn yn cael eu gwneud fel arfer i gyflogeion sy'n ymddiswyddo neu'n ymddeol. Felly, ar gyfer Aelodau a etholir o'r newydd yn 2011 ac wedi hynny, mae'r Panel o'r farn na ddylai fod gan y rhai sy'n ymddiswyddo neu'n ymddeol hawl i Grant Ymaddasu. Byddai hyn hefyd yn berthnasol yng nghyswllt y grant ymddeol oherwydd afiechyd; nad yw'n briodol ym marn y Panel gan y byddai'r Aelod Cynulliad yn derbyn pensiwn a darpariaeth berthnasol trwy gyfandaliad.

5.94 Ystyriodd y Panel amryw o ddewisiadau mewn perthynas â swm y Grant Ymaddasu y dylai fod gan aelodau presennol hawl iddo. Mae'r trefniadau cyfredol yn groes i ysbryd deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail oedran. Byddai'r rhai sy'n derbyn y grant mwyaf rhwng 55 a 65 mlwydd oed ac wedi rhoi mwy na 15 mlynedd o wasanaeth.

5.95 Cred y Panel y dylai'r trefniadau presennol barhau i fod yn weithredol mewn perthynas â'r Cynulliad hwn a chanlyniadau etholiad nesaf y Cynulliad. Yn y dyfodol, fodd bynnag, gan ddechrau gyda'r Cynulliad nesaf, dylai'r Grant Ymaddasu fod yn gysylltiedig â nifer y blynyddoedd o wasanaeth yn unig ac ni ddylai roi ystyriaeth i oedran. Dylid ei gyfrifo ar sail un mis am bob blwyddyn lawn o wasanaeth hyd at uchafswm o chwe mis o gyflog.

5.96 Byddai un eithriad yn ymwneud ag Aelodau cyfredol, y dylid caniatáu iddynt ddewis a ydynt yn dymuno ymuno â'r system newydd ai peidio. Nid oedd y Panel yn dymuno gorchymyn y dylai hawl yr aelodau cyfredol gael ei newid ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad, er y byddai hwn yn ddewis derbyniol yn gyfreithiol. Fodd bynnag, roedd yn cael ei ystyried yn bwysig bod y rheolau ar gyfer y Grant Ymaddasu'n cael eu newid er mwyn eu cysoni'n fwy ag ysbryd deddfwriaeth gwahaniaethau ar sail oedran. Trwy ganiatáu i'r cynllun cyfredol redeg ei gwrs gyda'r Aelodau presennol, mae'r Panel yn cydnabod y bydd system ac iddi

ddwy haen yn bodoli i bob pwrpas. Ond cred y gallai fod yn annheg serch hynny amddifadu Aelodau o'r hyn y byddent hwy o bosibl yn eu hystyried yn fuddion cronedig.

5.97 Barn y Panel yw nad oes unrhyw beth i atal Aelodau'r Cynulliad cyfredol rhag dewis cael eu trin yn unol â'r rheolau newydd, naill ai fel unigolion neu fel grŵp.

5.98 Mae gan Aelodau'r Cynulliad sydd wedi bod yn Swydd-ddeiliaid ar unrhyw adeg hawl i gael taliad ychwanegol o dri mis o'r tâl atodol a delir iddynt am y cyfrifoldeb ychwanegol hwn. Roedd y Panel o'r farn ei bod yn briodol cydnabod y cyfrifoldeb ychwanegol hwn ac felly y dylai'r trefniadau cyfredol ar gyfer Grant Ymaddasu ychwanegol i Aelodau Cynulliad sydd wedi bod yn Swydd-ddeiliaid barhau.

**Argymhelliad 18✳: Bydd Aelodau presennol y Cynulliad yn parhau, cyhyd ag y bônt yn dal i roi gwasanaeth parhaus, i fod â hawl i Grant Ymaddasu pan maent yn ymddiswyddo neu'n ymddeol. O ran yr Aelodau a gaiff eu hethol i'r Cynulliad yn 2011 neu wedi hynny, dim ond y Grand Ymaddasu y byddant hwy'n gymwys iddo pan na fyddant yn cael eu hailethol mewn etholiad Cynulliad y bu iddynt sefyll ynddo.**

**Argymhelliad 19: Dylai'r Grant Ymaddasu i Aelodau newydd y Cynulliad fod yn seiliedig ar hyd gwasanaeth yr Aelod Cynulliad yn unig. Dylid cyfrifo'r grant ar sail un mis am bob blwyddyn lawn o wasanaeth hyd at uchafswm o chwe mis o dâl. Gall Aelodau'r Cynulliad cyfredol, os ydynt yn dymuno, barhau i gael eu trin yn ôl y rheolau a nodir ym Mhenderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009, cyhyd â'u bod yn dal i roi gwasanaeth parhaus. Fodd bynnag, gall unrhyw Aelod Cynulliad cyfredol ddewis cael ei drin yn unol â'r rheolau newydd.**

# Pennod 6: Llety preswyl

## Rhagymadrodd

6.1 Caiff darpariaethau presennol y Lwfans Costau Ychwanegol eu nodi yn Adran 3 Penderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009 yn **Atodiad 1**. Pwrpas y lwfans yw galluogi ystod eang o unigolion i sefyll fel Aelodau Cynulliad trwy roi ad-daliad i Aelodau am y treuliau a ysgwyddir wrth aros dros nos o'u prif gartref er mwyn cyflawni'u dyletswyddau mewn perthynas â'r Cynulliad.

6.2 Mae dwy lefel o lwfans i'w chael, sef y lefel is a'r lefel uwch.

6.3 Mae'r lefel is yn berthnasol i Aelodau sy'n byw yn y naw etholaeth ganlynol; Caerffili, Canol Caerdydd, Gogledd Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth, Gorllewin Caerdydd, Dwyrain Casnewydd, Gorllewin Casnewydd, Pontypridd a Bro Morgannwg. Gall aelodau sy'n byw yn yr etholaethau hyn hawlio hyd at £4,135 y flwyddyn. Mae'r lefel is yn daladwy mewn perthynas â chostau unrhyw lety dros nos oddi cartref.

6.4 Gall y 51 Aelod arall hawlio lefel uwch y lwfans, sef hyd at £13,115. Mae hyn yn cymharu â'r £24,000 y mae gan Aelodau Seneddol hawl iddo ar hyn o bryd.

6.5 Mae lefel uwch y lwfans yn daladwy mewn perthynas â chostau unrhyw lety dros nos oddi cartref. Fe'i telir hefyd i helpu â chostau'r Aelod i ddarparu ail gartref yng Nghaerdydd gan gynnwys eitemau megis dodrefn, llog morgais a rhent. Mae'r lwfans hefyd yn cynnwys costau ychwanegol, na fyddent yn dod i ran yr Aelod Cynulliad pe na bai'n gorfod byw a gweithio mewn dau le, megis trwydded deledu ychwanegol, cyswllt band eang, trethi lleol, trethi dŵr a charthffosiaeth, yswiriant, ac ail set o offer a dodrefn.

6.6 Er mwyn prynu eitemau unigol o ddodrefn, sy'n costio mwy na £2,000, mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau. Cyflwynwyd y lwfans hwn yn San Steffan i sicrhau nad oedd cyfyngiad ar allu Aelodau Seneddol i wneud eu gwaith, o'u cymharu ag Aelodau Seneddol sydd ag incwm preifat.

6.7 Mae'n rhaid i Aelodau sy'n hawlio ad-daliad mewn perthynas â llog morgais ar ail gartref gyflwyno datganiad o'r llog a dalwyd o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hyn yn galluogi swyddogion y Cynulliad ystyried unrhyw newid a fu yng nghyfraddau llog.

6.8 Yn ogystal, gall Aelodau hawlio taliad safonol o £30.65 am dreuliau y bu'n rhaid eu hysgwyddo wrth aros dros o'u prif gartref er mwyn cyflawni'u dyletswyddau fel Aelodau. Mewn difrif, taliad safonol ar gyfer bwyd a diod yw hwn. Gellir hawlio'r swm hwn heb fod angen cyflwyno derbynneb. Mae'n rhaid cyflwyno derbynneb ddilys i gyd-fynd â phob hawliad arall.

6.9 Bydd prif gartref Aelod fel arfer wedi'i leoli yn, neu'n agos at ei etholaeth neu ranbarth. Yn wahanol i San Steffan, ni all Aelodau ddynodi pa eiddo yw eu 'prif' gartref a pha un yw eu 'hail' gartref, er mwyn gwneud y mwyaf o'u hawl am lwfansau neu er mwyn osgoi treth enillion cyfalaf. Mae'n rhaid i'w hail gartref fod o fewn pum milltir i'r Cynulliad. Roedd y Panel o'r farn y dylid canmol y Cynulliad am ei fod mor drwyadl yn y maes hwn. Mae'r dull hwn yn allweddol i gynnal cywirdeb a thryloywder, yn yr un modd ag y mae penderfyniad y Cynulliad i gyhoeddi'r treuliau a gaiff eu hawlio o dan y Lwfans Costau Ychwanegol.

6.10 Mae'r Panel o'r farn y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod system ddealladwy a thryloyw'n bodoli. Mae hyn yn rhagofyniad i sicrhau hyder y cyhoedd yn y trefniadau hyn ac yn elfen allweddol o'n hegwyddorion arweiniol a amlinellir ym **Mhennod 3**.

### Ffeithiau a ffigyrau

6.11 Yn ystod blwyddyn ariannol 2008-09, talwyd rhyw £430,000 i Aelodau mewn perthynas â hawliadau am y Lwfans Costau Ychwanegol. Tua £464,000 oedd y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer y lwfans hwn – felly, hawliwyd tua 92 y cant o'r gyllideb.

### Sylwadau a dderbyniwyd

6.12 Mae ail gartrefi'n fater sydd wedi denu beirniadaeth gref gan y cyhoedd a sylw negyddol eang yn y cyfryngau, ym Mae Caerdydd a San Steffan fel y'i gilydd. Nid lle'r Panel yw gwneud sylwadau ar y sefyllfa yn San Steffan, gan fod hynny'n amlwg y tu hwnt i'n cylch gwaith. Yr unig beth yr hoffem ei nodi yw bod gweithredoedd rhai Aelodau Seneddol o ran y treuliau a hawlir ganddynt wedi adlewyrchu'n wael ar wleidyddion yn gyffredinol, a'i bod yn anochel bod Aelodau'r Cynulliad wedi cael eu cysylltu'n agos â hwy yng ngolwg y cyhoedd.

6.13 Gobeithiwn y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, wrth fynd i'r afael â'r pryderon gwirioneddol hyn, yn argyhoeddi pobl Cymru bod y Cynulliad eisoes wedi rhoi trefn ar bethau a bod Aelodau'r Cynulliad a'r sefydliad a wasanaethant yn haeddu ymddiriedaeth y cyhoedd.

6.14 O ystyried mai pwrpas y lwfans hwn yw galluogi Aelodau'r Cynulliad i wneud eu gwaith yn effeithiol a chynnig gwerth am arian, roedd y Panel o'r farn na ddylid beirniadu Aelodau am ei ddefnyddio i hwyluso'u gwaith.

6.15 Ar y cyfan, roedd Aelodau o'r farn bod y trefniadau presennol yn rhesymol ond roeddent yn cydnabod y gall fod angen gwneud rhai newidiadau er mwyn cael gwared ar unrhyw bosibilrwydd o gamddefnydd ac i ymateb i bryderon y cyhoedd.  Yn ei sylwadau, fe nododd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig fod y Lwfans Costau Ychwanegol:

> "Yn debyg i ddarpariaethau tebyg yn San Steffan" ac fe argymhellodd, "Dylai hwn gael ei ailenwi'n Wariant Llety Personol er mwyn cael gwared ar y canfyddiad bod hwn yn cael ei ddyrannu ni waeth a oes gwariant ai peidio."
>
> "Mewn perthynas â'r elfen sy'n ymwneud â phellter, rydym yn credu y dylai'r egwyddor fod yn seiliedig ar y pellter o'r Cynulliad Cenedlaethol ar hyd y ffordd fwyaf priodol (y ffordd fyrraf fel arfer) i'r prif gartref.  O ran pa bellter sy'n deg, mae hwn yn amlwg yn fater dadleuol ac mae'n rhaid i'r cyfrifiad hwnnw hefyd ystyried yr oriau y mae Aelodau'n eu gweithio gyda'r nos er mwyn mynychu cyfarfodydd briffio gwleidyddol a chyfarfodydd grwpiau lobïo, grwpiau trawsbleidiol ac er mwyn noddi digwyddiadau."

6.16 Roedd sylwadau nodweddiadol gan Aelodau'n cynnwys:

> "Mae'r swydd yn golygu bod gofyn i bobl fod â dau gartref i bob pwrpas; mae'n unigryw yn hynny o beth, oni bai eich bod yn dymuno cael sefyllfa sy'n golygu mai dim ond pobl gyfoethog allai ddod yn Aelod Cynulliad."
>
> "Rwy'n credu y dylai pob Aelod newydd, os ydynt yn dewis rhentu cartref, gael fflat ac un taliad lwfans adleoli, fel y gall yr Aelod brynu dodrefn a phopeth arall y mae arno ei angen.  Wedyn, bob blwyddyn byddech yn dweud, fe dalwn ni eich rhent, eich trethi lleol, eich biliau am gyfleustodau, eich trwydded deledu a'ch bil ffôn – a dyna'r oll mwy na thebyg."
>
> "Rwy'n credu bod y dewis i ddarparu bloc o fflatiau, a bod yn onest, yn un a fyddai'n fethiant o'r cychwyn, a byddech yn wynebu protestiadau

chwyrn gan fy grŵp i pe bai unrhyw un yn ystyried y peth; nid o safbwynt diogelwch personol yn unig, ond mae gan lawer o bobl drefniadau sydd wedi bodoli am naw mlynedd – byddai ceisio datod a datrys y rheiny'n waith y gallwn wneud hebddo!"

"Yn y pen draw, os yw'r Cynulliad yn barod i dalu £800 y mis am rent, pam ddim talu £800 y mis am log ar forgais? A'r rheswm am hynny yw cenfigen."

"Dewis rhentu wnaethom ni – pe baech yn caniatáu i bobl brynu, am a wn i gallent ddweud – wel, a dweud y gwir, byddai'n addas i'm teulu fod â'r math hwn o eiddo. Felly rwy'n mynd i brynu hwn a defnyddio cyfraniad y Cynulliad i wrthbwyso peth 'r llall - oherwydd mae a wnelo'r cwbl â cheisio galluogi pobl i wneud y swydd gan gadw oriau sy'n ystyriol o deuluoedd, rhywbeth y gwn y mae'r Cynulliad yn awyddus iawn i'w wneud."

"Yn gyffredinol, rydym o blaid cadw'r system fel ag y mae, ond dylai Aelodau allu defnyddio rhan o'r lwfans ar gyfer gofalu. Rydym yn hapus i fod â chymaint o ganllawiau llym ag y gallech ddymuno'u cyflwyno er mwyn sicrhau fod y lwfans yn cael ei ddefnyddio'n briodol."

"Mae'n rhaid i ni fod yn fwy didwyll gyda'r cyhoedd ynghylch hyn. Rwy'n credu bod rhaid i ni fod yn realistig a dweud bod Aelodau'n mynd i orfod byw yn rhywle ac na allwch ddisgwyl iddynt fyw mewn hostelau."

"Y peth arall sy'n cael ei golli'n aml yn y cyfryngau yw bod y lwfans costau ychwanegol hefyd yn cael ei ddefnyddio pan ydych i ffwrdd o'ch man gweithio arferol. Caiff y cwbl ei grynhoi gyda'i gilydd. Gall fod achos dros ddweud bod un rhan ar gyfer llety yng Nghaerdydd a rhan arall ar gyfer teithio a threuliau."

"Rwy'n credu bod lwfans "per diem" (lwfans dros nos) mewn gwirionedd gyfystyr â dweud ewch i fyw mewn carafán, neu arhoswch mewn carafán y noson honno a chadwch yr arian. Nid yw hynny'n rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr."

"Rwy'n dod o ogledd Cymru, felly mae'n hanfodol cael lwfans llety. Rwyf wedi dewis rhentu yn hytrach na thalu llog ar forgais. Pe bawn wedi cyrraedd ym 1999, fe allwn fod wedi gwneud yr hyn a wnaeth y rhan fwyaf o'r Aelodau a phrynu; hyd yn oed gyda phrisiau tai ar hyn o bryd, byddai'n golygu enillion cyfalaf da. Mater i'r Canghellor yw a ddylai hynny fod yn drethadwy ai peidio. Mae'n hynod o amhoblogaidd ond yr un yw'r gost i'r wladwriaeth y naill ffordd neu'r llall – talu rhent neu dalu llog ar forgais."

"Os yw rhywun yn gallu cymudo'n rhwydd i'w gartref o'r gwaith, ni ddylent gael arian i rentu fflat parhaol neu brynu eiddo parhaol. Fodd bynnag, rhaid gweithio'n hwyr yn aml, neu weithio mewn rhannau eraill o'ch etholaeth neu ranbarth, lle mae angen i chi aros dros nos; a chyn belled â bod hynny'n ddilys a bod tystiolaeth ar ffurf derbynebion ac yn y blaen, yna'n amlwg mae angen cynnal lwfans."

6.17 Yn ei ymateb i'r mater hwn, dywedodd grŵp Plaid Cymru:

"Y peth pwysicaf yw na ddylai unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol gosbi Aelodau sy'n byw y tu allan i ardal Caerdydd, nad oes dewis ganddynt ond aros dros nos yng Nghaerdydd am o leiaf ran o'r wythnos. Am y rheswm hwn rydym yn teimlo bod y system bresennol, cyn belled â bod treuliau'n adlewyrchu gwir gostau o fewn terfynau rhesymol, yn deg ac yn syml i'w gweithredu."

6.18 Soniodd grŵp Plaid Cymru hefyd am bryderon ynghylch bywyd teuluol a diogelwch:

"Cafwyd awgrym y dylai'r Cynulliad efallai ddarparu bloc llety ar gyfer Aelodau y mae'u hetholaethau y tu allan i ardal Caerdydd. Wrth wneud unrhyw drefniadau mewn perthynas â Llety i Aelodau dylid cofio bod angen parchu preifatrwydd Aelodau, a bod gan rai Aelodau deuluoedd sydd yng Nghaerdydd gyda hwy. Bydd methu â gwneud hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i bobl ag ymrwymiadau teuluol fod yn Aelodau Cynulliad, ac ar fenywod y bydd hynny'n effeithio fwyaf wrth gwrs. Mae materion diogelwch i'w hystyried hefyd."

6.19 Tra'r oedd Aelodau'r Cynulliad a grwpiau'r pleidiau'n weddol fodlon ar y trefniadau presennol, ni ellid dweud yr un peth am y cyhoedd. Roedd sylwadau nodweddiadol yn cynnwys:

"Yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei gael yw rhywle i aros ynddo, nid cartref oddi cartref."

"Dylid rhoi'r gorau i ddodrefnu llety Aelodau'r Cynulliad ar gost y trethdalwyr."

"Rwy'n credu y dylent gael rhywle i aros yng Nghaerdydd ac nid ased. Mae'n rhaid mai dyma'r unig swydd yn y byd lle mae rhywun yn cael cadw fflat y cwmni ar ddiwedd y swydd. Dydw i ddim yn credu y dylem fod yn talu morgeisi pobl eraill."

"Yn ôl pob tebyg, ni ddylai unrhyw un sy'n byw'n ddigon agos i allu cyrraedd yn gyflym ar y trên gael lwfans tai: mae taith gymudo sy'n cymryd rhwng awr ac awr a hanner yn rhesymol."

"Os nad ydych yn talu'ch rhent na'ch morgais eich hun, nid ydych yn agored i fympwyon y farchnad dai.  Os nad ydych yn talu'ch rhent, eich treth gyngor ac ati eich hun, nid oes modd gweld a yw pobl yn cael gwerth am arian."

"Mae treuliau teithio a llety'n gwbl ddilys; ond nid felly costau dodrefnu cartrefi a phrynu bwyd."

"Rwy'n teimlo'n gryf iawn y dylai Aelodau'r Cynulliad fyw yn eu hetholaethau, fel eu bod yn gallu gwrando'n uniongyrchol ar y problemau sydd i'w cael ar lawr gwlad."

"Pam na all y Cynulliad Cenedlaethol ddarparu'r llety'i hun, efallai fel llety "gwely a brecwast"?  Byddai'r adeiladau'n cael eu prynu gan y Cynulliad, ac felly gan bobl Cymru, a byddai'r adeilad hwnnw yno am byth i alluogi Aelodau'r Cynulliad i fod yn fwy cynhyrchiol a defnyddio'u hamser orau y gellir pan eu bod yng Nghaerdydd, heb orfod trafferthu gyda'r holl lwfansau a gofalu am yr adeilad."

"Mae'n hurt bod Aelodau yn prynu ail dŷ gyda'n harian treth ni; yn enwedig os ydych yn ystyried y ffaith bod cartrefi llawer o bobl yn cael eu hadfeddiannu ar hyn o bryd".

"Os oes angen aros dros nos, dylid archebu'r llety trwy swyddfeydd y Cynulliad, a dylai'r swyddfa drafod telerau ffafriol."

"Dylid gwneud trefniadau ar gyfer y dyfodol gan wneud cymhariaeth lawn rhwng costau morgeisi, rhenti a gwestai; ac os caiff yr Aelodau presennol eu gorfodi i werthu'u tai, dylid rhoi digon o amser iddynt wneud hynny – dwy flynedd, dyweder."

"Mae'r arfer o brynu lle i fyw'n anodd i'w gyfiawnhau, a gallai darparu llety rhent sy'n eiddo i'r Cynulliad ddiwallu anghenion Aelodau."

"Mae angen parchu preifatrwydd Aelodau ac ystyried materion diogelwch."

"Gallai fod yn werth ymchwilio i'r posibilrwydd o lety a ariennir gan y Cynulliad, yn debyg i lety ar gyfer barnwyr, fel dewis rhatach yn lle'r system bresennol, sy'n caniatáu i aelodau gael enillion cyfalaf."

"Byddai'n rhatach i'r Cynulliad brynu nifer fach o fflatiau, a'u dyrannu i Aelodau yn unol â'r angen."

"Mae'r lwfansau'n rhy hael a dylid eu gostwng."

**Materion allweddol**

6.20 Gan weithredu ein hegwyddor arweiniol y dylai 'ffurf ddilyn swyddogaeth', aethom ati i adolygu'r math o weithgareddau y byddai disgwyl i Aelodau'r Cynulliad eu cyflawni fel rhan o'u dyletswyddau seneddol. Caiff y rhain eu hamlinellu ym **Mhennod 4 a 9** yn yr adroddiad hwn. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r pryderon dilys ynghylch diogelwch a phreifatrwydd a fynegwyd gan Aelodau'r Cynulliad ac eraill yn ystod ein hymchwiliad. Roedd y Panel yn ystyriol o'r angen i roi gwerth am arian, a hefyd y dylai ein hargymhellion gael eu hystyried yn deg a rhesymol gan Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.

6.21 Mae'r Panel yn ystyried, yn ddelfrydol, y dylai prif gartref pob Aelod Cynulliad fod yn ei etholaeth neu ranbarth, neu o fewn pum milltir i'r ffin. Mae ymwneud â'r etholwyr, annerch cyfarfodydd cyhoeddus, ymwneud â materion lleol, cynnal cymorthfeydd ac ymdrin â gwaith achos i gyd yn ddyletswyddau pwysig i wleidyddion. Er mwyn cyflawni'r rôl hon yn effeithiol, rydym yn teimlo'i bod yn hanfodol bod Aelodau'n byw yn eu hetholaeth neu ranbarth. Mae'n dilyn y dylai'r system o gymorth ariannol alluogi Aelodau'r Cynulliad i fyw yn eu hardal leol ond hefyd eu galluogi i gyflawni'u rôl yn y Cynulliad ym Mae Caerdydd.

6.22 Trodd y Panel ei sylw wedyn at y ffin rhwng yr ardaloedd mewnol ac allanol, sy'n penderfynu pa Aelodau sy'n gymwys i hawlio'r lwfans is neu'r lwfans uwch dan y rheolau presennol. Rydym yn teimlo bod y system bresennol yn rhy hael gan ei bod yn caniatáu i rai Aelodau sy'n byw o fewn pellter cymudo rhesymol i Fae Caerdydd hawlio cymorth ar gyfer prynu neu rentu ail gartref.

6.23 Gwrandawodd y Panel ar safbwyntiau'r cyhoedd a'r Aelodau, a daeth i'r casgliad fod amser cymudo o ryw awr yn y ddau gyfeiriad yn rhesymol. Mae nifer o bobl sy'n gweithio yn ac o amgylch Caerdydd yn teithio gymaint â hyn bob dydd.

6.24 Credwn y dylid symud ffiniau'r ardaloedd mewnol ac allanol, fel bod yr ardal fewnol yn cynnwys hen siroedd Morgannwg a Gwent a'r ardal allanol yn cynnwys gweddill Cymru. Mae hyn yn golygu bod yr etholaethau a'r rhanbarthau canlynol bellach yn yr ardal fewnol: Gŵyr, Gorllewin Abertawe, Dwyrain Abertawe, Castell-nedd, Aberafan, Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr, Gorllewin De Cymru, Rhondda, Cwm Cynon,

Pontypridd, Bro Morgannwg, Gorllewin Caerdydd, Gogledd Caerdydd, Canol Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth, Canol De Cymru, Merthyr Tudful a Rhymni, Blaenau Gwent, Torfaen, Mynwy, Caerffili, Islwyn, Gorllewin Casnewydd, Dwyrain Casnewydd a Dwyrain De Cymru.

6.25 Dylai'r ardal allanol gynnwys gweddill Cymru.

**Argymhelliad 20✳: Dylai'r Lwfans Costau Ychwanegol presennol, gan gynnwys y gallu i hawlio llog morgais ar ail gartrefi, gael ei ddiddymu o ddiwedd y Cynulliad hwn ym mis Mai 2011. Dylai fod darpariaeth ar gyfer y costau a ysgwyddir o ganlyniad i aros oddi cartref. Dylai hyn gynnwys darpariaethau gwahanol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n byw yn yr ardaloedd mewnol ac allanol, fel a ddisgrifir ym mharagraffau 6.24 a 6.25 ac a ddangosir yn Atodiad 11.**

6.26 Byddai disgwyl i Aelodau sy'n byw yn yr ardal fewnol gymudo i ac o Fae Caerdydd yn ddyddiol. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd angen o bryd i'w gilydd iddynt fynychu digwyddiadau a chyfarfodydd gyda'r nos sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau yn y Cynulliad os yw hi'n anymarferol dychwelyd adref y noson honno. Ar yr achlysuron hyn, mae'r Panel yn credu ei bod yn rhesymol y dylai'r Aelodau allu hawlio ad-daliad am lety dros nos a phryd gyda'r nos, heb gynnwys diodydd alcoholaidd. Dylai'r hawliadau hyn fod yn amodol ar gyflwyno derbynebion am filiau gwestai a bwytai gyda'r ffurflenni hawlio. Credwn fod cyfartaledd o un hawliad o'r fath bob pythefnos yn ystod y tymor a hawliadau o bryd i'w gilydd yn ystod toriad yn rhesymol. Rydym felly'n cynnig cyfyngiad o 20 arhosiad dros nos bob blwyddyn. Wrth gyflwyno hawliad, yn ogystal â'r derbynebion perthnasol, dylai Aelodau orfod cyflwyno nodyn byr yn egluro pam oedd yr arhosiad dros nos yn angenrheidiol.

6.27 Edrychodd y Panel ar y cyfraddau presennol ar gyfer llety dros nos y tu allan i Lundain. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dyfynnu prisiau gwestai â disgownt a heb ddisgownt ar gyfer Llundain ac ardaloedd eraill fel a ganlyn:

**Tabl 6.1 Prisiau ar gyfer llety dros nos**

| | | |
|---|---|---|
| Prisiau â disgownt | Llundain | £65.15 |
| | Ardaloedd eraill | £62.40 |
| Prisiau heb ddisgownt | Llundain ac ardaloedd eraill | £86.20 |
| Pris mewn llety heblaw gwesty | Arhosiad dros nos yn nhŷ ffrind neu berthynas | £25.00 |

6.28 Roedd y Panel o'r farn y byddai cynnig cyfraniad bach tuag at aros yn rhywle arall, fel a gynigir gan Wasanaeth Erlyn y Goron, yn arbed arian ac yn cynnig hyblygrwydd. Pe bai'n cael ei hawlio, byddai hwn yn cyfrif fel un o'r arosiadau dros nos hynny a ganiateir yn y cyfyngiad cyffredinol o 20 hawliad y flwyddyn.

6.29 Gall Aelodau Senedd yr Alban hawlio hyd at £128.60 y noson y tu allan i Lundain, gan gynnwys pryd gyda'r nos, a hyd at gyfanswm o £150.20 yn Llundain.

6.30 Credwn fod cyfradd dros nos ar gyfer gwely a brecwast yng Nghaerdydd o £95.00 y noson gan gynnwys parcio car yn rhesymol, ac £20.00 am bryd gyda'r nos.

**Argymhelliad 21✳: Dylai Aelodau'r Cynulliad sy'n byw o fewn yr ardal fewnol a ddiffinnir ym mharagraff 6.24 allu hawlio hyd at 20 arhosiad dros nos y flwyddyn yng Nghaerdydd. Gallant hawlio hyd at £95.00 y noson am ystafell mewn gwesty, gan gynnwys parcio car, a hyd at £20.00 am bryd gyda'r nos. Dylid cyflwyno derbynebion perthnasol a nodyn esboniadol byr gyda phob hawliad. Ar gyfer y cyfradd o £25.00 y noson am lety 'heblaw gwesty', sef aros gyda ffrind neu berthynas, dim ond nodyn esboniadol byr fyddai'n ofynnol.**

6.31 Cred y Panel y dylai Comisiwn y Cynulliad ddefnyddio'i allu i brynu er mwyn sicrhau cyfraddau arbennig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad wrth aros mewn gwestai enwebedig. Dylai fod yn ofynnol i Aelodau ond defnyddio'r gwestai a ddynodwyd gan Wasanaeth Cymorth Busnes yr Aelodau, sy'n cynnig prisiau â disgownt, oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

**Argymhelliad 22: Dylai Comisiwn y Cynulliad sicrhau cyfraddau gwestai â disgownt ar gyfer Aelodau Cynulliad a swyddogion y Cynulliad. Dylai fod yn ofynnol i Aelodau a swyddogion ond defnyddio'r gwestai hynny sy'n cynnig prisiau â disgownt, oni bai fod amgylchiadau eithriadol.**

6.32 Fel y soniwyd eisoes, dan y Lwfans Costau Ychwanegol, gall Aelodau hawlio taliad safonol o £30.65 am dreuliau dros nos yn ychwanegol at eu rhent, ystafell mewn gwesty neu log morgais. Nid oes rhaid iddynt gyflwyno derbynneb, a gall yr holl Aelodau – y rhai sy'n byw yn yr ardal fewnol a'r ardal allanol – ei hawlio wrth aros dros nos o'u prif gartref. Mewn difrif, lwfans ar gyfer bwyd a diod yw hwn. O ystyried bod gan Aelodau fynediad at gyfleusterau arlwyo cymorthdaledig yn y Senedd, credwn fod yr elfen hon o'r Lwfans Costau Ychwanegol yn anodd i'w

chyfiawnhau ac rydym yn argymell y dylid ei diddymu cyn gynted ag sy'n ymarferol.

**Argymhelliad 23✳: Dylai'r taliad safonol o £30.65 a hawlir gan Aelodau'r Cynulliad wrth aros dros nos o'u prif gartref gael ei diddymu cyn gynted â phosibl.**

6.33 O ran yr Aelodau sy'n byw yn yr ardal allanol, bu beirniadaeth gyson eu bod yn gallu hawlio am y taliadau llog morgais i roi cymorth iddynt brynu ail gartref ym Mae Caerdydd. Mae canfyddiad bod cyn-Aelodau sydd wedi ymddeol neu wedi colli'u seddau ac a gafodd gymorth i brynu ail gartrefi wedi gwneud elw ar gefn arian cyhoeddus. Yn yr un modd, mae gan Aelodau presennol sydd wedi prynu ail gartrefi y potensial i wneud elw.

6.34 Yn 2007-08, hawliwyd £10,897 ar gyfartaledd mewn costau rhentu blynyddol gan Aelodau a wnaeth hawliadau o'r fath; a hawliwyd £11,515 ar gyfartaledd am daliadau llog morgais blynyddol gan Aelodau a wnaeth hawliadau o'r fath.

6.35 Yn ôl Adroddiad yr Alban ar Lwfansau Seneddol, yn yr Alban yn 2006-07, hawliodd Aelodau £6,960 ar gyfartaledd mewn costau prydlesu blynyddol a hawliodd yr Aelodau £5,783 ar gyfartaledd mewn costau llog morgais blynyddol.

6.36 Er mwyn rhoi'r ffigyrau uchod yn eu cyd-destun, edrychodd y Panel ar y costau rhentu cyfartalog ar gyfer fflatiau ag un a dwy ystafell wely ym Mae Caerdydd. Tua £650 y mis oedd y gost gyfartalog o rentu fflat ag un ystafell wely, a £750 oedd y gost gyfartalog o rentu fflat â dwy ystafell wely.

6.37 Rydym yn cydnabod, gan ddibynnu ar faint o flaendal y mae Aelod yn barod i'w dalu ar y dechrau, y gallai caniatáu hawlio llog morgais fod yn rhatach na rhentu fflat. Rydym hefyd yn cydnabod, yn yr hinsawdd economaidd bresennol, bod risg y gallai Aelodau sy'n dewis prynu ail gartref wneud colled wrth werthu'r eiddo.

6.38 Wrth ddod i benderfyniad ar y mater hwn, rydym wedi ceisio llunio system sy'n darparu rhywle rhesymol yng Nghaerdydd i'r Aelodau fyw ynddo, ac sydd hefyd yn adfer hyder y cyhoedd bod system o'r fath yn deg ac yn rhesymol. Mae cynnal trefniant lle gall Aelodau wneud elw sylweddol ar gefn arian cyhoeddus yn debygol o erydu hyder y cyhoedd ymhellach.

6.39 Yn unol â hynny, credwn na ddylai taliadau llog morgeisi gael eu had-dalu i Aelodau newydd na phresennol y Cynulliad, yn dilyn etholiad nesaf y Cynulliad ym mis Mai 2011.

6.40 Rhoddodd y Panel ystyriaeth ddifrifol i'r dewis o lwfans 'per diem' neu lwfans dros nos heb ddarparu derbynebion. Y dull hwn sy'n cael ei ddefnyddio mewn nifer o seneddau eraill ar gyfandir Ewrop ac mewn gwledydd eraill. Fodd bynnag daeth y Panel i'r casgliad y byddai lwfans 'per diem' o'r fath hyd yn oed yn fwy amhoblogaidd â'r cyhoedd na'r system bresennol gan y byddai'n caniatáu taliadau heb unrhyw drefniadau i wirio'r modd y mae'n cael ei wario a byddai felly'n galluogi Aelodau'r Cynulliad i wneud elw. Byddai hefyd yn groes i'r egwyddorion a nodwyd gennym ym **Mhennod 3**.

6.41 Cafodd trefniant o'r fath ei grybwyll yn ddiweddar gan Brif Weinidog Prydain ond cafodd ei feirniadu. Tra bo'r rhan fwyaf o ddeddfwrfeydd mewn gwledydd eraill yn defnyddio naill ai lwfans, sy'n debyg i'r trefniadau presennol yng Nghymru, neu daliadau per diem, mae rhai'n darparu llety ar gyfer eu haelodau. Darperir fflat ar gyfer Aelodau'r Stortinget yn Norwy, ac yn Seland Newydd a De Cymru Newydd darperir llety aelodau'r llywodraeth yn unig.

6.42 Ystyriodd y Panel hefyd y gost o ddarparu fflatiau â gwasanaeth, sy'n costio tua £600 i £700 yr wythnos. Gwrthodwyd y dewis hwn oherwydd y gost.

6.43 Yn ogystal ag ymchwilio i'r gost o rentu fflatiau ym Mae Caerdydd, ystyriodd y Panel hefyd y costau arferol o brynu fflatiau ag un neu ddwy ystafell wely. Mae fflat ag un ystafell wely'n costio tua £140,000, a fflat â dwy ystafell wely'n costio tua £180,000.

6.44 Rhoddodd y Panel ystyriaeth i'r hyn a awgrymwyd gan nifer a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth, sef y dylai'r Cynulliad brynu amrywiaeth o fflatiau priodol yng Nghaerdydd a'u gosod i Aelodau. Pe bai'r llety i gyd yn cael ei ddarparu trwy'r trefniant hwn byddai angen i Gomisiwn y Cynulliad brynu tua 25 eiddo, gan wario tua £4 miliwn ar y cyfan, gan ddibynnu ar y math o eiddo sy'n cael ei brynu. Yn ogystal, byddai costau parhaus o ran cynnal a chadw, dodrefnu a rheoli.

6.45 Byddai hwn yn wariant cyfalaf sylweddol i'r Cynulliad, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Byddai problem hefyd gyda'r dewis hwn, sef y diffyg posibl o ran hyblygrwydd neu ddewis. Fodd bynnag, gallai darparu rhywfaint o lety fel hyn fod yn ateb cost-effeithiol.

Byddai angen ymchwilio ymhellach i hyn a chynnal dadansoddiad o'r costau a'r manteision.

6.46 Roedd ar y Panel eisiau dod o hyd i atebion a fyddai'n diwallu anghenion yr Aelodau o ran rhywle diogel a chyfforddus i fyw ynddo, ond a fyddai hefyd yn mynd i'r afael â phryder y cyhoedd ynghylch gwariant gormodol ar ddodrefn ac ati, a'r potensial i wneud elw personol.

6.47 Mae'r Panel yn argymell, ar gyfer y rheiny sy'n gymwys, y dylai'r Cynulliad ddarparu fflat wedi'i ddodrefnu. Byddai'r Cynulliad un ai'n berchen ar yr eiddo, neu'n ei rentu. Byddai'r unedau hyn o fewn radiws o bum milltir i'r Senedd. Os mai'r Cynulliad fyddai'n berchen ar yr unedau, gallai cwmni rheoli eiddo eu rheoli ar ran y Cynulliad. Os mai eu rhentu fyddai'r Cynulliad, gellid dod i drefniant drwy gontract ag asiantaeth neu asiantaethau gosod. Byddai amodau'r contract hwn yn nodi mai'r perchennog/asiantaeth fydd yn gyfrifol am ddodrefnu'r fflatiau â'r holl amwynderau modern, gan gynnwys gwelyau, carpedi, soffa, cypyrddau, teledu, ffwrn, peiriant sugno llwch, haearn smwddio, oergell/rhewgell, offer cegin ac ati (byddai rhestr gynhwysfawr yn cael ei llunio). Yr Aelod fyddai'n gyfrifol am ddarparu popeth arall. Byddai hyn yn osgoi unrhyw achosion o ailadrodd y sylw niweidiol yn y cyfryngau'n ddiweddar i eitemau 'moethus' a brynwyd gan Aelodau i ddodrefnu'u hail gartref.

6.48 Byddai Aelodau'n cael y rhyddid i ddewis lleoliad eu fflat, yn amodol ar y terfyn o bum milltir, ond byddent dan gyfyngiad i ddefnyddio un neu ddwy o asiantaethau eiddo a enwebwyd gan y Cynulliad; a dylid dewis y cwmnïau hyn bob pedair blynedd, trwy dendr cystadleuol. Gall Aelodau yn y dyfodol fod ag amrywiaeth o amgylchiadau personol, a bydd yr ateb hwn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd wrth ddarparu ar eu cyfer. Byddai cost flynyddol y dewis hwn, wedi'i chyfrifo ar sail fflat ag un ystafell wely, oddeutu £210,000 (a biliau cyfleustodau a biliau eraill).

6.49 Byddai amodau'r cytundeb tenantiaeth yn nodi na chaniateir is-osod.

6.50 Cred y Panel y dylai dau Aelod Cynulliad sy'n cael perthynas â'i gilydd fel partneriaid, ac sy'n gymwys i gael ail gartref yng Nghaerdydd, gael eu hystyried yn un aelwyd at ddibenion darparu llety preswyl.

6.51 Ni fyddai Aelodau sy'n dewis prynu ail gartref neu rentu ail gartref gan asiant nad yw wedi'i gymeradwyo yn cael hawlio unrhyw lwfans llety. Ond gallent hawlio'u biliau cyfleustodau a'u treth cyngor.

**Argymhelliad 24✳: Dylai Comisiwn y Cynulliad ddarparu llety addas ar gyfer Aelodau cymwys, a'r rheiny wedi'u dodrefnu'n unol â safonau modern ac wedi'u lleoli o fewn radiws o bum milltir i'r Senedd. Dylai'r Comisiwn ystyried y dull mwyaf cost-effeithiol o ddarparu'r llety hwn.**

**Argymhelliad 25: Dylai dau Aelod Cynulliad sy'n cael perthynas â'i gilydd fel partneriaid, ac sy'n gymwys i gael ail gartref yng Nghaerdydd, gael eu hystyried yn un aelwyd at ddibenion darparu llety preswyl.**

6.52 Er y byddai'r eiddo a ddarperir yn y rhan fwyaf o achosion yn fflat ag un ystafell wely, efallai y bydd gan Aelod Cynulliad amgylchiadau cartref a allai warantu darpariaeth wahanol. Mewn achosion o'r fath, lle Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau fydd penderfynu ar yr hyn sy'n rhesymol. Fodd bynnag, mae'r Panel o'r farn y byddai Comisiwn y Cynulliad yn dymuno capio'r swm y mae'n ei dalu mewn rhent.

**Argymhelliad 26: Efallai y bydd Comisiwn y Cynulliad yn dymuno ystyried capio cost rhentu eiddo ar gyfer Aelodau cymwys.**

**Argymhelliad 27✳: O hyn ymlaen ni ddylai Aelodau'r Cynulliad hawlio am ddodrefn ac ati ar gyfer eu hail gartrefi.**

**Argymhelliad 28: Ni ddylai Aelodau'r Cynulliad sy'n dewis prynu ail gartref neu rentu ail gartref gan asiant nad yw wedi'i gymeradwyo gael hawlio lwfans llety.**

6.53 Nodir nad yw Aelodau Senedd yr Alban erioed wedi gallu hawlio am ddodrefnu'u hail gartrefi. Fodd bynnag, rydym yn teimlo'i bod yn rhesymol y dylai Aelodau Cynulliad allu hawlio ad-daliad am filiau cyfleustodau, treth y cyngor a thrwydded deledu. Os defnyddir asiantaeth rheoli gosodiadau, yr asiantaeth ddylai wneud gwaith cynnal a chadw a'r Cynulliad ddylai dalu am y gwaith hwnnw, a'r Cynulliad hefyd ddylai dalu am daliadau rhent tir a thaliadau am wasanaethau.

**Argymhelliad 29✳: Dylai Aelodau Cynulliad cymwys allu hawlio, lle y bo'n briodol, ad-daliad am filiau cyfleustodau, treth y cyngor, band eang, yswiriant a thrwydded deledu ar gyfer yr ail gartref a ddarperir gan y Cynulliad.**

**Argymhelliad 30: Dylai'r Aelodau Cynulliad hynny sy'n dewis rhentu neu brynu eiddo'n annibynnol allu hawlio ad-daliad am filiau cyfleustodau, trwydded deledu, yswiriant, treth y cyngor a chyswllt band eang.**

6.54 Cred y Panel y dylai'r arfer o hawlio dodrefn a gosodiadau ddod i ben cyn gynted â phosibl.

6.55 Bydd rhaid gwneud trefniadau pontio ar gyfer Aelodau presennol y Cynulliad presennol. Mater i Gomisiwn y Cynulliad yw hwn.

## Pennod 7: Swyddfeydd

### Rhagymadrodd

7.1 Mae'r ddarpariaeth sylfaenol wedi ei gosod allan yn Adran 9 o Benderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009.

7.2 Mae'r Lwfans Costau Swyddfa yn rhoi hawl i Aelodau'r Cynulliad hawlio hyd at £15,135 o lwfans y flwyddyn i gynnwys y gost iddynt hwy o ddodrefnu a chynnal swyddfa etholaeth. Gall Aelodau hefyd hawlio swm ychwanegol o'r lwfans hwn ar gyfer unrhyw wariant dros £2,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar gyfer diogelwch neu ddulliau diogelu a gwella mynediad i'w swyddfeydd. Mae gan Aelodau Etholaeth ac Aelodau Rhanbarthol hawl i gael yr un lefel o gostau swyddfa.

7.3 Ni ellir hawlio costau ad-dalu morgais, gan gynnwys llog morgais, dan y lwfans hwn. Rhaid i anfonebau am rent swyddfa gynnwys cyfeiriad yr eiddo sy'n cael ei rentu, ac enw'r person neu'r sefydliad y rhentir y swyddfa wrtho.

7.4 Gall Aelod ddewis trosglwyddo neu symud hyd at 25 y cant o'u Lwfans Costau Swyddfa i'w Lwfans Cyflogau Staff Ychwanegol (gweler **Pennod 8**) neu i'r gwrthwyneb, cyn belled â'u bod yn rhoi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau.

### Ffeithiau a ffigurau

7.5 Yn ystod y flwyddyn ariannol 2008-09, gwariodd Aelodau tua £780,000 allan o gyllideb o £874,000 ar gyfer eu Lwfans Costau Swyddfa, felly, gwariwyd tuag 89 y cant o'r gyllideb. Hawliodd pob Aelod rywfaint tuag at gostau sefydlu a chynnal swyddfa yn eu hetholaeth neu ranbarth. Deallir bod pob un o'r swyddfeydd hyn yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, er na chedwir gwybodaeth ganolog am oriau agor, ac ni roir arweiniad i Aelodau'r Cynulliad ar arfer gorau – sy'n syndod i ni. Hawliodd 39 fwy na thri chwarter y lwfans uchaf, gan gynnwys 13 o Aelodau a benderfynodd fod y lwfans yn annigonol ar gyfer eu hanghenion, gan symud arian o'u Lwfans Cyflogau Staff Ychwanegol.

### Tystiolaeth

7.6 Bydd pobl a gyflogir gan y Cynulliad o Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau neu o'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn

ymweld â swyddfeydd etholaeth a swyddfeydd rhanbarthol yr Aelodau. Dywedasant wrthym fod yna amrywiaeth mawr yn ansawdd y swyddfeydd hyn, o ran hygyrchedd, diogelwch a chyfforddusrwydd. Cadarnhawyd hyn gan yr Aelodau hynny a roddodd dystiolaeth.

7.7 Bydd Comisiwn y Cynulliad yn trefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer pob swyddfa etholaeth a swyddfa ranbarthol. Mae hyn yn sicrhau bod y cyhoedd a staff yr Aelodau wedi eu diogelu rhag unrhyw anaf yn deillio o ddamweiniau sy'n digwydd yn y swyddfeydd hyn. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd dim archwiliadau i sicrhau bod y swyddfeydd yn cydymffurfio ag arfer da o ran iechyd a diogelwch neu anabledd, er y gall Aelodau ddefnyddio rhywfaint o'u Lwfans Costau Swyddfa i gael cyngor yn y maes hwn. Pan fydd Aelod yn dewis swyddfa, mae'n bwysig gosod mynediad i bobl anabl yn uchel ar y rhestr o flaenoriaethau.

7.8 Yn union ar ôl etholiad, bydd Aelodau'r newydd yn wynebu costau cychwynnol i sefydlu eu swyddfa, fel: prynu dodrefn ac offer; talu blaendal; a ffi chwilio i asiantau tai; ffioedd cyfreithiol rhesymol; trefnu yswiriant cynnwys, ac o bosibl drefnu addurno a mân waith trwsio yn yr adeilad. Cadarnhawyd hyn gan swyddogion sy'n gyfrifol am weinyddu'r system bresennol, ond dywedwyd wrthym fod y costau hyn, ar ôl cyrraedd brig cychwynnol, wedi lefelu yn yr ail flwyddyn a blynyddoedd dilynol.

7.9 Rydym o'r farn y dylai Aelodau Cynulliad ddilyn arfer da wrth sefydlu eu swyddfeydd, a sicrhau bod y rhenti a dalant yn rhesymol o gofio'r gyfradd arferol yn yr ardal honno.

7.10 Dyma rai sylwadau nodweddiadol gan Aelodau:

> "Mae democratiaeth yn costio, a chredaf fod cost y sefydliad yn gyffredinol yn gost sy'n amlwg yn llawer iawn o arian. Ond credaf, er mwyn cael system sydd lawer yn fwy democrataidd na'r hen un, ei bod yn rhaid inni fod yn barod i dalu am hynny."

> "Gyda'r symudiadau o fewn y farchnad tai yn ddiweddar a'r diffyg lle manwerthu sydd ar gael, yn enwedig ledled y rhanbarth, rwyf wedi fy nghyfyngu o ran gallu cael swyddfa."

7.11 O'i holi ynglŷn â'r anhawster i Aelod rhanbarthol weithio mewn ardal mor fawr yn ddigonol, meddai un Aelod wrthym:

> "Rhaid i chi gael cymorthfeydd rheolaidd yn yr un lleoliad yn yr un man bob mis iddynt fod yn effeithiol ac i bobl wybod eich bod yno. Pe bae angen i etholwr gyfarfod â mi, yna byddwn ar gael yn y swyddfa ym Mae Caerdydd, neu byddwn yn ymweld ag ef yn ein gartref, pe bae angen, ar ddydd Llun a dydd Gwener."

7.12 Dyma oedd disgrifiad yr Aelod o'i swyddfa:

> "Nid yw'n un grand, ond dyna rwyf yn medru ei fforddio fel Aelod Cynulliad, ac mae'n gyfleus i'r anabl, a gallwch daro i mewn o'r stryd … ond mae arnoch angen yr hyblygrwydd hwnnw, yn hytrach na bod rhywun yn penderfynu …(ble) y dylech gael swyddfa."

7.13 Darparwyd gwybodaeth i'r Panel am y rhent blynyddol a delir gan Aelodau am eu swyddfeydd. Roedd dwy ffaith yn amlwg; yn gyntaf, roedd ystod sylweddol o £1,800 i £8,400 y flwyddyn; yn ail, mae tua hanner yr holl Aelodau'n rhentu eu swyddfeydd oddi wrth bleidiau gwleidyddol neu unbedau llafur.

7.14 Wrth ofyn iddo roi sylwadau am yr arfer o rentu oddi ar bleidiau gwleidyddol, meddai un Aelod:

> "Cyhyd ag y bydd eglurder o ran y rhent a delir, ni chredaf fod hynny'n anhawster."

7.15 Wrth ei holi pa mor gyfleus ydoedd i etholwr anabl ddod i'r swyddfa, meddai'r un Aelod:

> "Mae hynny'n amhosib: rhaid imi fynd i'w gweld nhw. Rydym wedi ystyried gosod lifft cadair, ond roedd yr isaf o dri dyfynbris yn £10,000."

7.16 Wrth ofyn i Aelod etholaeth roi awgrym pa mor brysur oedd ei swyddfa yn ystod sesiwn gymhorthfa nodweddiadol, atebodd:

> "Bydd fy nghymhorthfa ddwyawr ar fore Sadwrn fel rheol yn cymryd tua thair awr a hanner. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod Aelodau Cynulliad yno a'r ffaith, po fwyaf o gymorthfeydd fyddwch yn eu cynnal, mwya'n y byd o bobl sy'n dueddol o ddod, ac felly mae'n fwy prysur."

7.17 Dywedodd yr un Aelod wrthym:

> "Mae'r lwfans costau swyddfa yn cael ei wario ar y swyddfa'n llwyr Mae'n cael ei wario ar y ffôn, y nwy, y trydan, y rhent, ac yn y blaen: mae popeth sy'n ymwneud â'r swyddfa yn adnodd sydd ar gael i'r holl

etholwyr, beth bynnag yw eu gwleidyddiaeth. Os nad oes lwfans cyflogau staff, na lwfans costau swyddfa, nid oes dim swyddfa ac nid oes gan bobl ddim un modd i gysylltu â'u Haelod Cynulliad"

7.18 Atebodd Aelod rhanbarthol, pan ofynnwyd yr un cwestiwn iddo:

> "Ar fore Llun bydd tua dwsin wedi trefnu a bydd chwech arall (yn cerdded i mewn) oddi ar y stryd. Yna, yn y prynhawn, byddaf yn mynd allan i gynnal ambell gymhorthfa yn y llyfrgell, canolfan gymunedol, beth bynnag, ar ôl dosbarthu taflenni yr wythnos flaenorol, a bydd tua hanner dwsin yn dod i bob un. Dwy gymhorthfa yr wythnos ar ddydd Llun, a byddaf yn cynnal cymhorthfa stryd ar fore dydd Gwener. Felly, rydym yn cysylltu â thua chant o dai, fel rheol mewn awr a hanner. Ar ben hynny, mae yna lythyron a negeseuon e-bost sydd, fel yr wyf yn dweud, yn cael eu crynhoi; tua hanner dwsin o bob un bob dydd o ran gwaith achos."

7.19 Ychwanegodd yr un Aelod:

> "Rhaid gwneud gwaith gyda'r cyfryngau i esbonio, pan gaiff fy lwfans swyddfa ei gyhoeddi, sef tua £64,000, dywedwch, neu beth bynnag, mai dyna sut yr wyf yn cyflogi tri aelod o staff, ac ni fyddaf yn gweld yr arian hwnnw o gwbl."

7.20 Gofynnwyd i Aelod etholaeth fynegi barn am werth swyddfa etholaeth i'w hetholwyr, a'i ateb oedd:

> "Cant y cant. Mae gennyf gymhorthfa yno bob dydd Llun yn ddieithriad o 1.00 o'r gloch tan 5.00 o'r gloch, neu nes i'r person olaf adael o'r diwedd. Byddaf yn agor y gymhorthfa bob tri neu bedwar dydd Sadwrn ar gyfer cymhorthfa etholaeth, ac yn ogystal â hynny byddaf yn cynnal cymorthfeydd drwy deithio o gwmpas fy etholaeth ar ddydd Sadwrn. Rwy'n credu bod y gost yn un o'r costau hynny lle mae arnoch angen democratiaeth. Rwyf wedi gosod fy swyddfa etholaeth yn union yng nghanol yr etholaeth. Roedd Aelodau'r Cynulliad blaenorol wedi ei gosod yn un pen."

7.21 Roedd Aelod arall yn bryderus am fod yr amrywiol lwfansau hyn ar gyfer llety preswyl, swyddfa a chyflogau staff yn aml yn cael eu crynhoi ynghyd yn llygaid y cyfryngau a'r cyhoedd ac yn cael eu hystyried fel mân fantais yn ychwanegol at y gyflog sylfaenol.

7.22 Un mater y cyfeiriwyd ato'n aml oedd swyddogaethau Aelodau etholaeth ac Aelodau rhanbarthol, yn y drefn honno. Mae manylion y trefnoadau etholiadol presennol wedi eu nodi ym **Mhennod 4.**

7.23 Dywedodd Aelod etholaeth wrthym:

> "Nid wyf yn tanbrisio anawsterau swyddogaeth yr Aelodau rhanbarthol. Mae'n eithaf unigryw i wleidyddiaeth Prydain, felly, rhaid iddynt ddechrau o'r dechrau, a dweud y gwir. Nid oes ganddynt neb i'w ddilyn. Byddwn yn cyfaddef y gall fod yn eithriadol o rwystredig fel Aelod etholaeth i gael Aelodau rhanbarthol yn taro i mewn ac allan o'ch etholaeth, yn pigo ambell achos lle maent yn credu y gallant gael mantais wleidyddol, heb ddelio â'r galwadau o ddydd i ddydd sydd ar amser Aelodau etholaeth. Fel Aelod etholaeth, mae'r cyhoedd yn sicr lawer yn fwy ymwybodol ohonoch."

7.24 Er ein bod yn cydnabod bod gan y ddau fath o Aelod Cynulliad yr un statws, fel sydd wedi ei ymgorffori yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a'i gynnwys yn y Rheolau Sefydlog, rydym wedi dysgu eu bod yn dueddol o weithio'n annibynnol. Mae hyn yn seiliedig ar sylwadau gan Aelodau a gyflwynodd dystiolaeth yn bersonol, a hefyd o'r gwaith o gysgodi Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol a wnaed gan aelodau o'r Panel.

7.25 Yn gyffredinol, gwelsom fod gan Aelodau etholaeth fwy o waith achos nag sydd gan Aelodau rhanbarthol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod Aelodau etholaeth yn dueddol o gael proffil uwch yn eu hardal nag Aelodau rhanbarthol, er ein bod yn derbyn nad felly y mae bob amser. Yn wir, dywedwyd wrthym fod rhai Aelodau rhanbarthol, yn y gorffennol, yn fwriadol wedi mynd ati i wella'u proffil mewn rhan benodol o'u rhanbarth, gyda'r nod o ennill y sedd etholaeth yn yr etholiad nesaf.

7.26 Dywedodd Aelodau rhanbarthol wrthym eu bod yn fwy tebygol o ymwneud â materion a oedd yn croesi ffiniau etholaethol, fel llinellau rheilffordd newydd, lleoliad ysbytai ac ysgolion.

7.27 Clywsom fod rhai Aelodau rhanbarthol yn rhannu eu staff cymorth gydag Aelodau o'r un grŵp gwleidyddol ac o fewn yr un rhanbarth. Dywedwyd wrthym am Aelodau etholaeth sy'n rhannu staff ond nid swyddfeydd, ond deallwn mai prin yw hynny. Mae'n fwy cyffredin i Aelodau etholaeth rannu swyddfa gydag Aelod Seneddol lleol os yw ef neu hi o'r un blaid wleidyddol. Gall fod manteision i hynny o ran staffio a sicrhau darpariaeth barhaus, a hefyd o ran rhannu rhai gorbenion.

7.28 Bydd Aelodau Seneddol yn cael lwfans mwy hael ar gyfer darparu a chynnal swyddfa nag a gaiff Aelodau Cynulliad; ym mis Ebrill 2009, y Lwfans Gweinyddol a Gwariant Swyddfa ar gyfer Aelodau Seneddol

oedd £22,393. Mae hyn yn achosi ychydig o ddrwgdeimlad, a gall weithiau olygu bod y trefniadau rhannu swyddfa yn methu os bydd yr Aelod Seneddol yn dymuno symud i swyddfa sydd mewn man gwell neu sy'n fwy cyffyrddus nag y gall yr Aelod Cynulliad ei fforddio. Ar y llaw arall, os bydd yr Aelod Cynulliad a'r Aelod Seneddol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, gellir cytuno ar drefniant rhent sy'n dderbyniol i'r naill a'r llall.

7.29 Meddai un unigolyn wrth ymateb i'n cais am dystiolaeth:

> "Yn fy mhrofiad i, mae Aelodau Cynulliad rhanbarthol wedi cyfrannu'n fawr at waith y Cynulliad, at broffil y sefydliad, ac at gynrychioli achosion sy'n bwysig. Cynrychiolaeth ranbarthol yw'r norm hefyd yn Ewrop."

7.30 Meddai un arall:

> "Dylai swyddfeydd etholaeth fod yn gyfleus yn gorfforol i bawb ac yn hawdd eu cyrraedd ar gludiant cyhoeddus."

7.31 Mae map yn dangos lleoliad swyddfeydd rhanbarthol a swyddfeydd etholaethol i'w weld yn **Atodiad 11.**

7.32 Wrth drafod gydag Aelodau, cyflwynwyd y syniad gennym o hyrwyddo mwy o rannu swyddfeydd, yn enwedig ar gyfer Aelodau rhanbarthol. Gofynnwyd am eu barn hefyd am fwy o ddefnyddio adeiladau sydd eisoes yn bod, megis swyddfeydd cyngor. Gofynasom hefyd a fyddai'n well ganddynt i'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu swyddfa iddynt yn eu hetholaeth neu ranbarth, fel y gwneir eisoes ym Mae Caerdydd. Wrth ymateb, dywedodd pob un o'r Aelodau hynny a siaradodd â ni y byddai'n well ganddynt wneud eu trefniadau swyddfa eu hunain, ac ni fyddent o blaid defnyddio swyddfeydd cyngor. I gefnogi eu barn, cyfeirient at faterion diogelwch, hygyrchedd (mae nifer o swyddfeydd cyngor nad ydynt ar agor ar ddydd Sadwrn, er enghraifft); a hefyd y ffaith, pe baent yn swyddfa'r cyngor lleol, y gallai hynny achosi dryswch ym meddwl y cyhoedd rhwng swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r cyngor lleol.

7.33 Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr Aelodau'n derbyn bod angen gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau sydd eisoes yn bod, gan gynnwys o bosibl rannu swyddfeydd lle mae hynny'n briodol er mwyn darparu gwerth am yr arian a gwell gwasanaeth i'w hetholwyr.

**Cysgodi**

7.34 Fel y soniwyd ym **Mhennod 2**, bu aelodau o'r Panel yn cysgodi chwe Aelod Cynulliad. Mae'r tri Aelod etholaeth a gysgodwyd yn rhannu swyddfa gyda'u Haelod Seneddol lleol, a chytunodd dau o'r Aelodau Seneddol hynny yn garedig iawn i gael cyfweliad gan aelod o'r Panel.

7.35 Dyma oedd y prif bwyntiau a gododd o'r ymarfer cysgodi:

- roedd y cysylltiad TG â gwybodaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn araf o'i gymharu â gallu mynd i mewn i'r system gyfatebol yn San Steffan

- nid yw pob swyddfa etholaeth ar hyn o bryd yn defnyddio systemau rheoli gwaith achos

- nid oedd mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn bob tro, a phrin oedd cyfleusterau eraill i bobl anabl

- yn gyffredinol, roedd swyddfeydd yn gyfyng ac ychydig breifatrwydd oedd ar gyfer cyfweliadau sensitif

- mewn rhai achosion roedd yn bosibl i'r Aelod gerdded i gyfarfodydd yn yr ardal leol, ond yn gyffredinol roedd car yn hanfodol i allu mynd i apwyntiadau: nid oedd trafnidiaeth gyhoeddus yn ddewis realistig

- am resymau hanesyddol, roedd gan un Aelod ddwy swyddfa, ond nid hynny sy'n arferol

- teimlai'r Aelodau i gyd, yn rhai rhanbarthol ac etholaeth, ei bod yn bwysig iawn cael presenoldeb yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth, i gael eu gweld yn cynrychioli'r etholwyr ac i fod yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â phobl leol

- roedd yn amlwg bod cryn barch i Aelodau ymhlith yr etholwyr a'r cyrff lleol y byddent yn eu cyfarfod; ymhlith y gweithgareddau beunyddiol nodweddiadol, roedd mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, cyfarfodydd ag etholwyr unigol, grwpiau'r sector gwirfoddol, busnesau lleol, cynrychiolwyr a swyddogion wedi eu hethol gan yr awdurdod lleol, ymweld ag ysgolion a rhoi cyfweliadau i'r cyfryngau lleol

7.36 Lle cyfwelodd y Panel Aelodau Seneddol a oedd yn rhannu swyddfa gydag Aelodau Cynulliad, teimlai'r naill ochr a'r llall fod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda ac yn meithrin dull mwy cydweithredol o ddelio â materion yn ymwneud â'u hetholwyr. Roedd hefyd yn galluogi'r naill a'r llall i gael dealltwriaeth gliriach o'u swyddogaeth ei gilydd a'u dull o weithio – a hefyd sut roedd sefydliad y naill a'r llall yn gweithio. Byddent yn ceisio cynorthwyo'i gilydd a'u hetholwyr drwy gyfeirio achosion a oedd yn amlwg yn ymwneud â materion sydd heb eu datganoli (er enghraifft, yr heddlu a nawdd cymdeithasol) at yr Aelod Seneddol. Roedd hyn yn wahanol i'n trafodaethau ag Aelodau Cynulliad, nad oedd ganddynt gysylltiad mor agos â'u Haelod Seneddol ac a ddywedodd wrthym na fyddent fel rheol yn cyfeirio gwaith achos at yr Aelod Seneddol, hyd yn oed os oedd yn amlwg heb ei ddatganoli. Ac nid fyddai'r Aelod Seneddol yn cyfeirio materion wedi eu datganoli atynt hwy.

**Gwaith achos**

7.37 O ran gwaith achos, roedd un Aelod wedi delio â rhyw saith gant o achosion yn ystod blwyddyn galendr 2008; dyma oedd y dadansoddiad yn ôl maes pwnc:

| | |
|---|---|
| Menter ac arloesi | 31 y cant |
| Yr amgylchedd, tai a chynllunio | 27 y cant |
| Addysg | 11 y cant |
| Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol | 10 y cant |
| Diwylliant | 7 y cant |
| Cyllid a llywodraeth leol | 3 y cant |
| Eraill | 11 y cant |
| | 100 y cant |

7.38 Deliodd Aelod arall â nifer tebyg o achosion rhwng mis Mai 2007 a mis Ionawr 2009. Roedd tua chwarter yr achosion hyn yn dal yn agored. O gymryd yr holl achosion gyda'i gilydd, dyma oedd y dadansoddiad yn ôl maes pwnc:

| | |
|---|---|
| Llywodraeth leol | 27 y cant |
| Iechyd | 24 y cant |
| Tai | 22 y cant |
| Addysg | 14 y cant |
| Heddlu, Trafnidiaeth ac Eraill | 13 y cant |
| | 100 y cant |

**Lwfans costau swyddfa**

7.39 Archwiliodd y Panel sampl o hawliadau Aelodau am Lwfans Costau Swyddfa am 2007-08. Roeddem yn synnu at swm a natur rhai o'r hawliadau hyn; er enghraifft, miloedd lawer o bunnoedd am brydlesu peiriannau llungopïo, prynu nifer o ffonau symudol a BlackBerries, (ar gyfer staff cymorth, tybiwn), yswiriant cynnwys, cardiau busnes, darparu gwasanaethau'r cyfryngau a chyfrifo, gwariant ar offer TG ac amrywiaeth eang o ran cost hysbysebu cymorthfeydd.

7.40 Nid yw'r Panel yn dymuno gwneud sylwadau am hawliadau penodol, ond cred y dylai'r arweiniad gael ei atgyfnerthu i ddangos y math o wariant a ystyrir yn dderbyniol, gan gynnwys eitemau penodol o offer swyddfa, a'r math o bethau nad ydynt yn dderbyniol. Awgrymwn fod yr eitemau canlynol yn perthyn i'r categori cyntaf: desgiau, byrddau, cadeiriau, cypyrddau ffeiliau/sêff, teledu, ac yn y blaen. Sylweddolwn fod y Cynulliad yn darparu ar wahân ar gyfer ffônau symudol a BlackBerries ar gyfer Aelodau Cynulliad. Dylid rhoi sylw arbennig i reoli costau peiriannau llungopïo er mwyn sicrhau nad yw'r rheini'n cynnwys eu defnyddio at ddibenion gwleidyddol plaid.

7.41 Yn ogystal â darparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer pob swyddfa ranbarthol a swyddfa etholaeth, mae'r Panel yn ystyried y dylai'r Cynulliad hefyd archwilio trefnu yswiriant cynnwys er mwyn sicrhau cysondeb darpariaeth ac i gael cyfraddau mwy ffafriol. Dylai cardiau busnes gael eu darparu'n ganolog er mwyn sicrhau gwerth da am yr arian, ac i sicrhau safon gyson uchel o frandio ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Credwn fod mantais glir o brynu'r eitemau hyn yn ganolog.

7.42 Cred y Panel y dylid cael rhywfaint o hyblygrwydd i adlewyrchu amgylchiadau lleol. Ystyriwn fod lefel gyfredol y lwfans fwy neu lai'n iawn, ond teimlwn fod lle i arbed arian drwy fwy o brynu neu brydlesu rhai eitemau'n ganolog (er enghraifft, peiriannau llungopïo) a thrwy leihau'n sylweddol y gwariant ar eitemau eraill (er enghraifft, ffonau symudol).

**Argymhelliad 31: Dylai'r Lwfans Costau Swyddfa i Aelodau'r Cynulliad barhau ar y lefel bresennol ar gyfer costau swyddfa a hysbysebu cymorthfeydd.**

**Argymhelliad 32✳: Dylai'r ddarpariaeth costau swyddfa leol alluogi Aelodau Cynulliad i gael ad-daliad am yr holl gostau rhesymol, yn amodol ar argymhelliad 31, yn ymwneud â rhedeg swyddfa leol ac ymwneud ag etholwyr. Dylid cyflwyno derbynebau neu brawf o'r gwariant gyda phob hawliad, a dylai'r trefniadau misol newydd ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am dreuliau Aelodau barhau.**

**Materion allweddol**

7.43 Mae'r Panel yn ystyried y dylid cael arweiniad cadarnach ynglŷn â defnyddio'r Lwfans Costau Swyddfa. Teimlwn ei bod yn bwysig y dylai Aelodau etholaeth ac Aelodau rhanbarthol gynnal swyddfa yn eu hetholaeth ac y dylai hynny gydymffurfio â chanllawiau anabledd, bod yn rhesymol o gyfleus yn ystod y diwrnod gweithio, yn ganolog ac yn hwylus i'w hetholwyr. Yn ddelfrydol dylai pob swyddfa etholaeth gynnwys ystafell lle gall Aelodau Cynulliad drafod materion cyfrinachol gydag etholwyr yn breifat.

7.44 Dylai'r Cynulliad ystyried darparu, mewn adeilad cyhoeddus addas ym mhrif ganolfan pob etholaeth, 'Swyddfa Aelodau Cynulliad' barhaol gyda'r offer angenrheidiol, ac y caiff y swyddfa honno ei chymryd wedyn gan bwy bynnag yw'r Aelod Cynulliad i ddod o fewn 'cyfnod arafu' o bythefnos yn union ar ôl etholiad y Cynulliad. Ni ddylid defnyddio adeiladau cyhoeddus sy'n cael eu darparu fel swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad fel swyddfeydd pleidiau gwleidyddol yn ogystal.

7.45 Hwyrach yr hoffai'r Cynulliad ystyried trafod er mwyn i Aelodau rhanbarthol gael swyddfa briodol wedi ei darparu ar eu cyfer mewn adeilad cyhoeddus addas neu yn swyddfeydd Llywodaeth Cynulliad Cymru o fewn eu rhanbarth (ee Cyffordd Llandudno, Aberystwyth, Merthyr Tudful); dylai penderfyniad ar ddarparu swyddfa felly ar gyfer Aelodau rhanbarthol gael ei ystyried yn annibynnol ar unrhyw benderfyniad i osod Aelodau etholaeth mewn swyddfeydd cyhoeddus parhaol.

7.46 Rydym yn fodlon, yn niffyg unrhyw Swyddfa Aelodau Cynulliad wedi ei darparu'n gyhoeddus, y dylai Aelodau barhau i wneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â ble i leoli eu swyddfa. Teimlwn, fodd bynnag, y dylai Comisiwn y Cynulliad wneud mwy i helpu dod o hyd i swyddfeydd addas, naill ai yn y sector preifat ynteu drwy drafod prydlesu swyddfeydd oddi wrth gynghorau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill. Credwn hefyd y dylid cael cymhelliad ariannol i Aelodau rannu swyddfeydd gyda'i gilydd neu gyda'r Aelod Seneddol lleol.

7.47 Mae'r Panel yn cydnabod bod sefydlu swyddfa newydd yn ddrutach na chynnal un sydd eisoes yn bod. Dylai grant o £5,000 fod ar gael pryd bynnag y caiff swyddfa newydd ei sefydlu, ond unwaith yn unig yn ystod gyrfa'r Aelod Cynulliad hwnnw; dylai'r grant hwnnw ddod i lawr i £2,000 os bydd Aelod yn defnyddio swyddfeydd etholaeth sydd wedi eu darparu gan y Cynulliad.

**Argymhelliad 33: Dylai grant o £5,000 fod ar gael tuag at eitemau unwaith-am-byth sy'n angenrheidiol i ddarparu offer mewn swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol yn ystod y deuddeg mis cyntaf yng nghyfnod Aelod Cynulliad newydd yn y swydd. Dylai'r swm hwnnw ostwng i £2,000 os darperir y swyddfa mewn adeilad sy'n eiddo cyhoeddus.**

7.48 Pan nad oes swyddfeydd sy'n cael eu darparu'n gyhoeddus, a phan fydd yr Aelod Cynulliad yn rhentu'r swyddfa'n breifat, dylai'r rhent a delir am y swyddfa honno gael ei adolygu gan brisiwr annibynnol wedi ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ni ddylai swm y rhent a gaiff ei ad-dalu fod yn fwy na'r prisiad. Dylai'r adolygiadau hyn gael eu hailadrodd o leiaf unwaith bob pedair blynedd.

7.49 Er ein bod yn disgwyl i bob Aelod agor swyddfa leol, derbyniwn y gall fod yn well gan rai ddefnyddio'u swyddfa Cynulliad ym Mae Caerdydd. Ni fydd yr Aelodau hyn yn tynnu dim costau'n gysylltiedig â phrydlesi, cyfleustodau na threthi, ac felly ni ddylent allu cael yr un lefel o gymorth ariannol ag Aelodau sydd â swyddfeydd lleol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn yr Alban. Teimla'r Panel y dylai'r ddarpariaeth costau swyddfa, dan amgylchiadau felly, ostwng 75 y cant, fel y gwneir ar hyn o bryd yn Senedd yr Alban.

**Argymhelliad 34: Lle bydd Aelod Cynulliad yn penderfynu peidio â rhentu swyddfa leol, ond yn dewis cyflawni dyletswyddau etholaethol neu ranbarthol o swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd, yna dylai'r gost o ddarparu swyddfa ostwng 75 y cant.**

7.50 Dylid gosod arwyddion priodol y tu allan i swyddfeydd etholaethol neu swyddfeydd rhanbarthol er budd y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys yr oriau agor penodedig. Dylai swyddfeydd etholaethol Aelodau gael eu staffio i'w galluogi i fod ar agor i'r cyhoedd am o leiaf bum awr y dydd, a dylai mynediad corfforol i'r swyddfeydd hynny fod yn ddigonol i hwyluso'u defnyddio gan bobl anabl. Ar hyn o bryd, gall Aelodau hawlio dros £2,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol i'w wario yn eu swyddfeydd lleol ar ddiogelwch o bob math ac ar fynediad i bobl anabl; a chaiff y swm gormodol hwn ei ad-dalu'n ychwanegol at y

Lwfans Costau Swyddfa sylfaenol. Rydym yn fodlon y dylid cadw'r ddarpariaeth hon.

7.51 Dangosai'r hyn a welsom amrywiaeth sylweddol yn safon swyddfeydd rhanbarthol a swyddfeydd etholaeth. Hoffem weld gwaith yn cael ei wneud i ystyried sut i wella safonau.

7.52 Un o'n hegwyddorion allweddol yw gonestrwydd. Mae defnyddio'r egwyddor hon yn golygu y dylai swyddfeydd lleol gael eu defnyddio ar gyfer busnes y Cynulliad yn unig, wrth ddarparu gwasanaeth i etholwyr. Dylai pob Aelod sicrhau bod trefniadau ar gyfer swyddfeydd yn cydymffurfio â'r egwyddor hon.

**Argymhelliad 35: Gyda chymeradwyaeth Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau, gall Aelodau'r Cynulliad hawlio darpariaeth Lwfans Costau Swyddfa ychwanegol o ran y swm dros £2,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol a gaiff ei wario yn eu swyddfeydd lleol ar ddiogelwch o bob math a mynediad i bobl anabl; a chaiff y swm gormodol hwn ei ad-dalu yn ychwanegol at y Lwfans Costau Swyddfa sylfaenol.**

7.53 Mae prydlesu swyddfa oddi wrth blaid wleidyddol yn dderbyniol cyn belled ag y bydd yno drefniadau diogelwch angenrheidiol. Lle bydd Aelodau'r Cynulliad yn rhentu ystafelloedd oddi wrth eu plaid wleidyddol i'w defnyddio fel swyddfeydd, dylai rheolau sylfaenol gael eu gosod ar gyfer gwahanu dyletswyddau cyhoeddus yr Aelod Cynulliad yn llwyr oddi wrth unrhyw weithgarwch plaid wleidyddol; dylai gweithdrefnau a sefydlir felly fod yn agored i'w harchwilio, a dylai hawl yr Aelod Cynulliad i gael ad-daliad am y rhent (neu i'r rhent gael ei ad-dalu'n uniongyrchol ar ei ran ef neu hi i'r landlord) olygu bod yr Aelod yn cadw'n gaeth at brotocol felly.

7.54 Os bydd Aelod Cynulliad yn cyflogi mewn swyddfa etholaeth rywun ar sail ran-amser sydd hefyd yn cael ei dalu am weithio'n rhan-amser i blaid wleidyddol o'r swyddfa honno, dylai'r amser a dreulir ar ei ddyletswyddau ef neu hi gael eu gwahanu'n llwyr a dylai'r trefniant fod yn agored i'w archwilio. Dylai swyddfeydd a rennir gan Aelod Cynulliad a'i blaid wleidyddol ef neu hi gael llinellau ffôn ar wahân ar gyfer gwaith etholaethol yr Aelod ac ar gyfer gwaith y blaid wleidyddol. Ni chaiff dim offer a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol i'w ddefnyddio gan Aelodau'r Cynulliad mewn swyddfa etholaethol, neu y telir amdano gan y Cynulliad, ei ddefnyddio at ddibenion gwleidyddol plaid.

7.55 Mater i bob Aelod yw penderfynu sut orau i ddarparu swyddfa sy'n bodloni anghenion etholwyr. Ni ddylid gwrthod swyddfeydd addas dim ond am fod y landlord yn perthyn i blaid neu i undeb llafur. Fodd bynnag, er lles gonestrwydd a chywirdeb teimlwn ei bod yn hanfodol y dylai fod yn ofynnol i'r Aelod, dan amgylchiadau felly, gael prisiad annibynnol gan aseswr wedi ei ddewis gan y Cynulliad, i ddangos bod y rhent a gytunir gyda'r blaid wleidyddol neu'r undeb llafur yn rhent rhesymol am yr ardal honno ac am y gyfran o le swyddfa y mae'n ei ddefnyddio. Os na all Aelod fodloni'r gofyniad hwn, yna ni ddylid creu prydles.

7.56 Dylai'r un egwyddor fod yn gymwys os bydd Aelod yn penderfynu isosod rhan o'i swyddfa i blaid wleidyddol. Rhaid peidio â defnyddio'r swyddfa a ddefnyddir gan yr Aelod at ddibenion plaid wleidyddol, sy'n cynnwys ymgyrchu.

7.57 Lle bydd Aelod Cynulliad yn bwriadu prydlesu swyddfa oddi wrth sefydliad plaid wleidyddol neu undeb llafur, neu isosod rhan o'i swyddfa i sefydliad plaid wleidyddol, undeb llafur neu unrhyw sefydliad neu fusnes arall, yna rhaid i'r Aelod gael prisiad annibynnol gan aseswr wedi ei ddewis gan y Cynulliad, i ardystio nad yw'r rhent a gynigir yn fwy na rhent teg ar y farchnad ar gyfer yr eiddo dan sylw. Dylid cyflwyno'r prisiad annibynnol hwn i swyddogion perthnasol y Cynulliad Cenedlaethol cyn cwblhau unrhyw drefniadau contractiol, a dylid gwneud archwiliadau'n awr ac yn y man i sicrhau bod rhenti'n parhau'n rhesymol.

**Argymhelliad 36✳: Rhaid i Aelod Cynulliad sy'n bwriadu prydlesu swyddfa oddi wrth sefydliad plaid wleidyddol neu undeb llafur, neu isosod rhan o'i swyddfa i sefydliad plaid wleidyddol, undeb llafur neu unrhyw sefydliad neu fusnes arall, gael prisiad annibynnol gan aseswr wedi ei ddewis gan y Cynulliad. Rhaid cyflwyno'r prisiad annibynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn cwblhau unrhyw drefniadau contractiol. Dylid gwneud archwiliadau'n awr ac yn y man i sicrhau bod rhenti'n parhau'n rhesymol.**

**Argymhelliad 37: Gall Aelodau'r Cynulliad isosod rhan o'u swyddfa i sefydliadau plaid wleidyddol, undeb llafur neu unrhyw sefydliad neu fusnes arall, ond dim ond pan fydd trefniadau felly'n eglur. Dylai Comisiwn y Cynulliad osod rheolau clir ynglŷn â sut i ddelio ag incwm a gynhyrchir dan drefniadau felly. Rhaid peidio ar unrhyw gyfrif â defnyddio'r swyddfa a ddefnyddir gan yr Aelod ar gyfer gweithgarwch plaid wleidyddol, gan gynnwys ymgyrchu.**

7.58 Bydd rhai Aelodau'n prydlesu swyddfeydd oddi wrth sefydliadau masnachol, a bydd yn well gan eraill rannu swyddfa gyda'u Haelod Seneddol lleol neu eu Haelod lleol o Senedd Ewrop. Rydym yn ddigon bodlon â threfniadau felly, cyn belled â'u bod yn eglur. Fodd bynnag, rydym yn bryderus os yw trefniadau prydlesu'n cynnwys aelodau o'r teulu neu gydweithwyr busnes.

**Argymhelliad 38: Ni ddylid prydlesu swyddfa oddi wrth bartner Aelod Cynulliad, aelodau o'i deulu, cydweithwyr busnes nac unrhyw sefydliad, gan gynnwys ymddiriedolaeth y mae gan yr Aelod, partner, aelod teulu neu gydweithiwr busnes fudd ariannol ynddi, gydag eithriadau i gynnwys daliadau bach iawn mewn cwmnïau wedi eu rhestru a buddiolwyr cronfeydd pensiwn mawr.**

**Argymhelliad 39: Lle bydd Aelod Cynulliad yn rhannu swyddfa gydag Aelod Seneddol neu Aelod o Senedd Ewrop, dylid sefydlu cytundeb ffurfiol sy'n gosod allan sut y caiff y costau eu gwahanu, a dylai Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau gymeradwyo hyn a'i gyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad.**

7.59 Rydym wedi ystyried a all Aelod ddefnyddio'i gartref ei hun fel swyddfa neu beidio, a hefyd a all staff cymorth ddefnyddio'u tŷ eu hunain fel swyddfa. Byddai goblygiadau treth mewn trefniadau felly, a hefyd rai materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol y dylai Aelod allu hawlio costau swyddfa dan yr amgylchiadau hyn, ac ni wyddom am yr un Aelod sydd yn y sefyllfa hon.

**Argymhelliad 40: Ni ddylai Aelodau'r Cynulliad allu hawlio o'r lwfans costau swyddfa am ddefnyddio'u cartref fel swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol.**

7.60 Nid ydym mor glir ynglŷn â staff cymorth sy'n gweithio gartref. Gallwn weld y gall hyn fod yn llesol i'r Aelod ac i'r staff dan sylw. Mae Comisiwn y Cynulliad yn hwyluso gweithio gartref gan rai o'i staff ei hun, ac ni welwn ddim rheswm o ran egwyddor pam na ddylid cynnig hynny i staff cymorth yr Aelodau. Fod bynnag, rhaid i drefniant felly beidio ag atal na chyfyngu'r swyddfa etholaeth rhag bod ar agor i'r cyhoedd ar adegau penodedig.

7.61 Gall Aelodau'r Cynulliad eu hunain ddewis gweithio gartref o bryd i'w gilydd, ond eto ni ddylent allu hawlio am wneud hyn.

## Cyfathrebu

7.62 Gall Aelodau Seneddol wario hyd at £10,400 y flwyddyn ar gyfathrebu â'u hetholwyr. Clywsom dystiolaeth gan Aelodau'r Cynulliad eu bod yn teimlo'n ddig am hyn, gan ei fod yn caniatáu i Aelodau Seneddol hyrwyddo'u gweithgareddau eu hunain a chodi eu proffil yn eu hetholaethau. Ystyrir bod hyn yn annheg, yn annemocrataidd ac yn gallu golygu camddefnyddio arian cyhoeddus. Sylwn fod San Steffan ar hyn o bryd yn ystyried dileu'r lwfans hwn fel rhan o'r arolwg cyfredol o lwfansau seneddol, a byddai'r Panel yn cymeradwyo'r camau hyn.

7.63 Mae'r Panel wedi sylwi bod Aelodau Cynulliad yn defnyddio'r Lwfans Costau Swyddfa i gyhoeddi llythyron newyddion, cylchlythyron ac adroddiadau blynyddol. Gall Aelodau Cynulliad ddefnyddio'u Lwfans Costau Swyddfa i roi cyhoeddusrwydd i gymorthfeydd ac i gyhoeddi cylchlythyrau, cyn belled nad ydynt o natur wleidyddol. Gwyddom fod pryderon wedi eu mynegi ynglŷn â chynnwys cylchlythyron felly, a derbyniwn y gall y ffin rhwng gwybodaeth ffeithiol a phropaganda gwleidyddol fod yn denau. Ni ddylid ariannu'r olaf o arian cyhoeddus. Teimlwn y dylai Comisiwn y Cynulliad adolygu'r arweiniad a roir i Aelodau ar gyfer yr argymhellion hyn, ac o bosibl gynnwys enghreifftiau o'r hyn a ystyrir a'r hyn nad ystyrir yn dderbyniol.

7.64 Mae'r Panel wedi sylwi bod amrywiaeth mawr ar hyn o bryd yng ngwariant Aelodau'r Cynulliad ar hysbysebu eu cymorthfeydd a gweithgareddau eraill; gan gynnwys cynhyrchu cylchlythyrau, posteri, taflenni a hysbysebu o fathau eraill. Mae'r Panel yn ystyried bod rhai o'r pethau hyn yn rhoi gwerth amheus am yr arian. Mae'r Panel yn argymell gwneud dosbarthiad ar wahân i'r diben hwn, i ddod o'r ddarpariaeth costau swyddfa. Mae yna ddarpariaeth debyg yn Senedd yr Alban, gydag uchafswm o £1,500. Cred y Panel fod hynny tua'r lefel iawn, ac y mae'n argymell gwneud darpariaeth gyffelyb ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

**Argymhelliad 41: Bydd costau Aelodau'r Cynulliad am hysbysebu cymorthfeydd yn cael eu had-dalu hyd at derfyn uchaf o £1,500 mewn unrhyw flwyddyn, a hwnnw i'w dalu o'r ddarpariaeth costau swyddfa.**

## Offer swyddfa

7.65 Er mwyn cyflawni eu dyletswyddau yn y Cynulliad, mae ar yr holl Aelodau angen offer a dodrefn swyddfa. Caiff dodrefn ac offer yn swyddfeydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd eu darparu'n ganolog. Yr

Aelodau sy'n gyfrifol am brynu neu brydlesu dodrefn a ffitiadau ar gyfer eu swyddfeydd lleol.

7.66 Darperir offer technoleg gwybodaeth yn ganolog ar gyfer Bae Caerdydd ac ar gyfer swyddfeydd lleol, ac ystyrir hyn ym **Mhennod 10.**

7.67 Credwn ei bod yn briodol y dylai gosodiadau a ffitiadau, boed ym Mae Caerdydd ynteu mewn swyddfeydd lleol, gael eu cofnodi a'u monitro. Teimla'r Panel y dylai'r holl ddodrefn a'r eitemau o offer swyddfa sy'n costio £50 neu fwy mewn swyddfeydd etholaeth neu swyddfeydd rhanbarthol, ac sydd wedi eu darparu ag arian cyhoeddus, gael eu cofnodi ar unwaith mewn rhestr eitemau, a honno'n agored i'w harchwilio ar hap. Pan fydd Aelod Cynulliad yn gadael ei swydd, dylai'r asedion hynny gael eu dychwelyd i Gomisiwn y Cynulliad neu eu cymryd yn swyddogol gan yr Aelod Cynulliad newydd dros yr etholaeth honno neu'r rhanbarth hwnnw.

**Argymhelliad 42: Ar unwaith, dylai'r holl eitemau unigol o offer swyddfa sy'n costio £50 neu fwy gael eu cofnodi mewn rhestr eitemau. Dylai pob eitem ar y rhestr gael ei dychwelyd i Gomisiwn y Cynulliad pan fydd Aelod Cynulliad yn rhoi'r gorau i'r sedd; oni wneir cytundeb lle bydd yr Aelod yn cynnig prynu'r eitemau am bris wedi ei gytuno; neu eu trosglwyddo i ofal yr Aelod sydd i ddod, a ddylai lofnodi wrth eu cymryd i'w feddiant.**

7.68 Dan y trefniadau presennol, rhaid cyfeirio eitemau unigol sy'n costio dros £2,000 at Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau i'w cymeradwyo cyn eu prynu. Mae'r Panel yn sylwi, fodd bynnag, fod yr archwilwyr annibynnol, yn ystod eu harchwiliad yn ddiweddar o lwfansau Aelodau, wedi awgrymu y dylid ystyried gostwng y terfyn hwn i atal prynu eitemau drud diangen, ac awgrymodd ffigur o £750. Mae'r Panel yn argymell y dylai hyn fod yn ofyniad a chael ei gynnwys mewn unrhyw arweiniad newydd, ynghyd ag enghreifftiau o'r hyn a ystyrir yn wariant derbyniol ac yn wariant annerbyniol.

**Argymhelliad 43: Bydd eitemau unigol o ddodrefn swyddfa neu eitemau unigol eraill sy'n costio dros £750 yn cael eu cyfeirio at Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau i'w cymeradwyo, cyn tynnu'r gost.**

7.69 Mae'r Panel yn ystyried y dylid defnyddio prynu canolog gan y Cynulliad Cenedlaethol yn fwy helaeth, er mwyn cael gwerth am arian a hefyd i gael rhywfaint o gysondeb darpariaeth. Er enghraifft, dylai prynu neu brydlesu peiriannau llungopïo ac offer tebyg gael ei drefnu drwy brynu'n ganolog neu oddi wrth gyflenwyr wedi eu cymeradwyo.

Dylai unrhyw wasanaeth offer sy'n cael ei ddarparu'n ganolog fod yn ddigon hyblyg i roi rhywfaint o ddewis i Aelodau ynglŷn â'r offer sy'n addas at eu hanghenion. Ar gyfer offer na chaiff ei brynu'n ganolog, a derbyniwn na fydd hyn bob amser yn addas, mae'r Panel yn argymell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi rhestr o gyflenwyr offer swyddfa sydd wedi eu cymeradwyo ac sy'n barod i gynnig gostyngiad pris mewn gwahanol rannau o Gymru.

**Argymhelliad 44: Lle mae'n briodol, dylid trefnu'n ganolog ar gyfer darparu offer, dodrefn a chyflenwadau swyddfa i Aelodau'r Cynulliad. Dylai'r Cynulliad hefyd roi i Aelodau enwau cyflenwyr offer swyddfa sydd wedi eu cymeradwyo ac sy'n barod i gynnig gostyngiadau pris mewn gwahanol rannau o Gymru, waeth ble mae eu canolfan.**

7.70 O ystyried patrwm daearyddol swyddfeydd ac amrywiadau cost mewn gwahanol rannau o Gymru, mae'r Panel yn ystyried ei bod yn briodol y dylai Comisiwn y Cynulliad ofyn i'r Corff Adolygu (a ddisgrifir ym **Mhennod 5**) adolygu'r ddarpariaeth costau swyddfa o bryd i'w gilydd. Mater i'r Comisiwn fydd amseriad yr adolygiadau hynny. Cred y Panel y dylai Aelodau Cynulliad gael digon o adnoddau i sefydlu swyddfa yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth. Mater i Aelodau unigol yw sefydlu unrhyw swyddfeydd ychwanegol, o'u poced eu hunain.

7.71 Ymdrinnir â materion yn ymwneud â ffonau ac offer technoleg gwybodaeht ym **Mhennod 10.**

**Argymhelliad 45: Dylai'r Corff Adolygu Annibynnol gael pwerau i gymeradwyo newidiadau yn y ddarpariaeth costau swyddfa.**

## Pennod 8: Staff Aelodau'r Cynulliad

### Rhagymadrodd

8.1 Mae'r ddarpariaeth sylfaenol wedi'i chynnwys yn Adran 10 o Benderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009 – gweler **Atodiad 1**.

8.2 O dan y trefniadau presennol, mae Aelodau'r Cynulliad yn cyflogi eu staff eu hunain.

8.3 Caiff Aelod hawlio Lwfans Cyflogau Staff i dalu costau cyflogi pobl mewn swyddi gweinyddol, clerigol neu ysgrifenyddol, neu i wneud gwaith ymchwil. Dylai'r costau hynny ddeillio'n llwyr, yn benodol ac o raid o'r dyletswyddau sydd ynghlwm wrth fod yn Aelod o'r Cynulliad.

8.4 Ers 1 Ebrill 2009, gall Aelod Cynulliad hawlio lwfans i dalu'r hyn sy'n cyfateb i gyflog hyd at dri aelod o staff amser llawn, ynghyd â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr sy'n gysylltiedig â hynny. Ni chaiff mwy na'r hyn sy'n cyfateb i un aelod o staff amser llawn ddod o Fand 1 fel y diffinnir isod. Ni chaiff mwy na'r hyn sy'n cyfateb i fwy nag un aelod o staff amser llawn ddod o Fand 2, a dylai'r gweddill ddod o Fand 3.

**Tabl 8.1 Bandiau cyflog staff cymorth Aelodau'r Cynulliad**

| Band | Swyddi |
|---|---|
| 1 | Rheolwr Swyddfa |
| 2 | Uwch-ysgrifennydd<br>Uwch-weithiwr Achos<br>Cynorthwyydd Ymchwil<br>Swyddog y Wasg |
| 3 | Gweithiwr Achos<br>Ysgrifennydd Iau |

8.5 O dan amgylchiadau penodol, gall Aelod hawlio swm ychwanegol o'r Lwfans Cyflogau Staff o hyd at £5,801 yn ystod y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2009, a hynny i dalu costau goramser, hyfforddiant, teithio, taliadau bonws ac ati (gan gynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr mewn perthynas â'r taliadau hyn). Bydd y swm hwn yn codi'n flynyddol yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

8.6 Mae gofyn i Aelodau roi datganiad ysgrifenedig i holl aelodau eu staff yn nodi prif delerau ac amodau eu cyflogaeth. Dylid rhoi copi o hwn i

swyddfa Tîm Adnoddau Dynol a Lwfansau'r Aelodau o fewn mis iddynt ddechrau yn eu swydd.

8.7 Fel arfer, bydd yr Aelodau'n defnyddio contract safonol ar gyfer eu staff, a hwnnw wedi'i ddarparu gan Wasanaeth Adnoddau Dynol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau yn rhan o'r adran hon, ac yn rhoi cyngor i'r Aelodau am faterion adnoddau dynol sy'n ymwneud â'u staff. Mae'r adran Aelodau Dynol hefyd yn ymdrin â'r holl faterion sy'n ymwneud â'r gyflogres mewn perthynas â staff cymorth yr Aelodau, gan gynnwys talu cyflogau'n electronig, yswiriant gwladol a'r cynllun talu wrth ennill. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio mai'r Aelodau eu hunain sy'n cyflogi eu staff, ac nid y Cynulliad na Chomisiwn y Cynulliad.

8.8 Caniateir i'r Aelodau drosglwyddo hyd at 25 y cant o'u Lwfans Cyflogau Staff Ychwanegol i'w Lwfans Costau Swyddfa (neu'r ffordd arall) ar ôl hysbysu Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau yn ysgrifenedig ymlaen llaw.

8.9 Ynghyd â'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gan Aelodau'r Cynulliad, mae gan grwpiau gwleidyddol o dri Aelod neu ragor hawl i gael lwfans i'w cynorthwyo i gyflawni eu gwaith yn y Cynulliad. Mae'r lwfans hwn yn cyfateb i 'Arian Short' yn Nhŷ'r Cyffredin.

8.10 Cyllid yw 'Arian Short' ar gyfer y gwrthbleidiau yn Nhŷ'r Cyffredin, ac fe'i cyflwynwyd ym 1975. Fe'i henwyd ar ôl y Gwir Anrhydeddus Ted Short AS, Arweinydd Tŷ'r Cyffredin ar y pryd. Caiff y cynllun presennol ei weinyddu o dan Benderfyniad Tŷ'r Cyffredin ar 26 Mai 1999. Mae'r arian ar gael i'r holl wrthbleidiau yn Nhŷ'r Cyffredin sydd wedi ennill o leiaf ddwy sedd (neu un sedd a chael dros 150,000 o bleidleisiau) yn yr Etholiad Cyffredinol blaenorol. Mae tair rhan i'r cynllun:

- arian i gynorthwyo'r gwrthbleidiau i gyflawni eu gwaith Seneddol
- arian ar gyfer treuliau teithio a threuliau cysylltiedig y gwrthbleidiau
- arian ar gyfer costau rhedeg swyddfa Arweinydd yr Wrthblaid

8.11 Mae gan Senedd yr Alban system debyg i system Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y gwahaniaeth sylfaenol rhwng y systemau yng Nghymru a'r Alban a'r system yn San Steffan yw mai dim ond y gwrthbleidiau sy'n cael 'Arian Short' yn San Steffan, ond yng Nghymru a'r Alban caiff ei rannu rhwng yr holl grwpiau gwleidyddol, er mai'r

gwrthbleidiau sy'n cael y rhan fwyaf ohono. Yn ei hanfod, mae'r arian yn sicrhau bod gan yr holl bleidiau ddigon o adnoddau i'w helpu i baratoi at ddadleuon, cyfarfodydd pwyllgorau a'u dyletswyddau swyddogol eraill.

8.12 O dan Adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i Gomisiwn y Cynulliad, yn unol â chymeradwyaeth y Cynulliad, drefnu i dalu'r holl grwpiau gwleidyddol, a hynny er mwyn cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad sy'n perthyn i'r grwpiau hynny i gyflawni eu gwaith.

8.13 O dan Benderfyniad Lwfansau'r Aelodau 2006, mae gan grwpiau o dri Aelod neu ragor yr hawl i gael lwfans i'w helpu i gyflawni eu gwaith yn y Cynulliad. Fel rheol, gelwir y lwfans hwn yn 'Lwfans Arweinwyr y Pleidiau'. Dim ond mewn perthynas â chostau a ysgwyddwyd yn llwyr, yn unig ac o raid at ddiben eu dyletswyddau y caiff y lwfans hwn ei dalu. Gellir gweld yr adran berthnasol o Benderfyniad 2006 yn **Atodiad 1**. Mae'n nodi:

> "Nid oes modd darparu rhestr gynhwysfawr o'r eitemau a ganiateir. Ond, gall yr enghreifftiau canlynol fod o gymorth i'r Aelodau benderfynu a allant gyflwyno cais ai peidio:
>
> - cyflogi staff i wneud gwaith gweinyddu, clercio neu waith ysgrifenyddol;
> - cyflogi staff i wneud gwaith ymchwil;
> - prynu offer swyddfa.
>
> Os dymunir prynu eitemau unigol o ddodrefn neu eitemau unigol eraill sy'n costio mwy na £2,000, dylid gofyn am gymeradwyaeth y Swyddfa Ffioedd ymlaen.
>
> Ni ellir hawlio costau ad-dalu morgais, na'r llog arno, o dan y lwfans hwn."

8.14 Nid yw Penderfyniad 2009 wedi disodli Penderfyniad 2006 mewn perthynas â'r taliadau hyn i grwpiau'r pleidiau. Mae'r anghysonder hwn yn bodoli gan fod Adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi'r pŵer a ganlyn i'r Comisiwn:

> "to make such payments as the Assembly from time to time determines for the purpose of assisting Assembly Members who belong to those political groups to perform their functions as Assembly Members."

8.15 Y Cynulliad Cenedlaethol ei hun sydd i wneud unrhyw benderfyniadau ar y taliadau hyn, ac mae adran 24(3) o'r Ddeddf yn golygu bod yn

rhaid cael mwyafrif o ddwy ran o dair o blaid unrhyw benderfyniadau o'r fath. Er hynny, credwn y dylid cael gwared ar yr anghysonder hwn ar unwaith. Dylai'r rheolau ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad gael eu cynnwys mewn un ddogfen.

**Argymhelliad 46: Dylai'r rheolau ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad gael eu cynnwys mewn un ddogfen.**

8.16 Gall grwpiau'r pleidiau ddewis i'w lwfans gael ei gyfrifo yn unol ag un o'r dulliau a nodir yn Adran 18 o Benderfyniad 2006. Ar hyn o bryd, mae'r holl grwpiau yn ffafrio dewis 2.

8.17 Yn baradocsaidd, tra mai ym Mand 3 y ceir y cyflog isaf ac ym Mand 1 y ceir y cyflog uchaf yn ôl yr hyn a ddisgrifir ar ddechrau'r bennod hon, ceir band newydd yn sgil y dewis hwn (Band 4 – uwch ymchwilydd), lle mae'r cyflog yn uwch nag ym Mand 1. Mae hyn yn achosi dryswch a dylid cael gwared ar yr anghysonder pan gaiff y canllawiau eu diweddaru y tro nesaf.

8.18 Mae'r graddfeydd cyflog sy'n cyfateb i swyddi amser llawn o dan Ddewis 2 ym Mhenderfyniad 2009 fel a ganlyn:

**Tabl 8.2 Graddfeydd cyflog sy'n cyfateb i swyddi staff cymorth amser llawn**

| Band presennol | Pwynt 1 | Pwynt 2 | Pwynt 3 | Pwynt 4 | Pwynt 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | £25,808 | £27,154 | £28,571 | £30,060 | £31,629 |
| 1 | £21,250 | £23,204 | £25,337 | £27,667 | £30,212 |
| 2 | £18,072 | £19,931 | £21,982 | £24,244 | £26,739 |
| 3 | £16,314 | £17,618 | £19,025 | £20,544 | £22,185 |

**Argymhelliad 47: Pan gaiff y canllawiau ar fandiau cyflog y staff eu diwygio y tro nesaf, dylid rhifo'r bandiau yn eu trefn.**

### Ffeithiau a ffigurau

8.19 Yn 2008-09, y gwariant ar gyflogau staff yr Aelodau oedd £5,606,000.

8.20 Gwariwyd tua £628,600 ar gyflogi staff yn unedau cymorth canolog pob un o grwpiau'r pleidiau. Mae manylion y gwariant hwn i'w weld yn y tabl isod.

**Tabl 8.3 Gwariant ar staff cymorth canolog**

| Grŵp gwleidyddol | Gwariant ar staff cymorth canolog 2008-09 |
|---|---|
| Y Ceidwadwyr Cymreig | £193,100 |
| Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | £164,600 |
| Plaid Cymru | £169,100 |
| Llafur Cymru | £101,800 |
| **Cyfanswm** | £628,600 |

*Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Lwfans Aelodau 2008-09*

8.21 Caiff tua 270 o bobl eu cyflogi fel staff cymorth. Mae hyn yn cyfateb i tua 200 o staff amser llawn. Mae pob Aelod Cynulliad yn cyflogi tri pherson, sy'n cyfateb i 180 o staff amser llawn, a chaiff y gweddill eu cyflogi gan grwpiau'r pleidiau.

8.22 Mae nifer y staff cymorth sydd ar bob band i'w weld yn Nhabl 8.4 (mae hyn yn cynnwys staff amser llawn a staff rhan amser).

**Tabl 8.4 Nifer y staff cymorth ar bob band cyflog**

| Band cyflog | Y nifer a gyflogir gan yr Aelodau | Y nifer a gyflogir gan y pleidiau |
|---|---|---|
| Band 4 | 0 | 2 |
| Band 1 | 76 | 6 |
| Band 2 | 78 | 12 |
| Band 3 | 92 | 4 |
| **Cyfanswm** | **246** | **24** |

**Tabl 8.5 Nifer y staff yn ôl disgrifiad eu swyddi**

| Categori | Y nifer a gyflogir gan yr Aelodau | Yn nifer a gyflogir gan y pleidiau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Uwch-ymchwilwyr | 1 | 1 | 2 |
| Rheolwyr swyddfa | 34 | 0 | 34 |
| Uwch-ysgrifenyddion | 1 | 0 | 1 |
| Uwch-weithwyr achos | 3 | 0 | 3 |
| Cynorthwywyr ymchwil | 37 | 0 | 37 |
| Swyddogion y wasg | 14 | 1 | 15 |

| Categori | Y nifer a gyflogir gan yr Aelodau | Yn nifer a gyflogir gan y pleidiau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr achos | 25 | 0 | 25 |
| Ysgrifenyddion iau | 2 | 0 | 2 |
| Gweinyddwyr | 25 | 5 | 30 |
| Cyfathrebu | 6 | 3 | 9 |
| Cynorthwywyr personol | 34 | 0 | 34 |
| Ymchwilwyr | 29 | 6 | 35 |
| Swyddogion gwleidyddol | 2 | 4 | 6 |
| Swyddogion cyswllt â'r gymuned | 7 | 1 | 8 |
| Swyddogion ymgyrch | 2 | 0 | 2 |
| Arall | 0 | 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | **222** | **24** | **246** |

**Tystiolaeth**

8.23 Wrth fwrw golwg ar swyddi presennol y staff sy'n gweithio i Aelodau'r Cynulliad, gwelwyd bod amrywiaeth eang o deitlau gwahanol ar swyddi sy'n ymddangos yn debyg. Oherwydd hynny, mae'n anodd gwybod beth yw cydbwysedd y staff sy'n rhoi cymorth strategol a chymorth gweithredol. Er mwyn canfod faint o gymorth strategol sy'n cael ei roi, bydd angen ad-drefnu'r teitlau a'r swyddi hyn. Dylai Comisiwn y Cynulliad roi sylw i'r mater hwn.

8.24 Cafodd y Panel gyflwyniadau ysgrifenedig gan staff cymorth sy'n gweithio i bob un o'r pedwar prif grŵp gwleidyddol. Bu cynrychiolwyr o bob un o'r grwpiau hyn yn trafod eu papurau â ni. At hynny, ymddangosodd dau aelod o staff, y naill yn gweithio ym Mae Caerdydd a'r llall mewn swyddfa etholaeth, i gynrychioli'u hunain. Yn ystod y broses 'gysgodi' y cyfeirir ati yn y bennod ddiwethaf, cafodd aelodau'r Panel gyfle i siarad â staff cymorth sy'n gweithio yn swyddfeydd yr etholaethau a'r swyddfeydd rhanbarthol.

8.25 Cyfeiriodd nifer o Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth at y ffaith bod y system o raddio staff yn anhyblyg. Cwynodd un o Aelodau'r

Cynulliad fod yn rhaid brwydro â'r adran Adnoddau Dynol i ddyrchafu staff. Cytunai'r mwyafrif nad oeddent am ddychwelyd i'r dyddiau lle gellid cyflogi nifer fawr o staff ar gyflogau isel iawn, ond teimlent y dylid cael mwy o hyblygrwydd nag ar hyn o bryd.

8.26 Clywodd y Panel rywfaint o dystiolaeth a awgrymai nad oedd y graddfeydd cyflog presennol ar gyfer staff yn annog datblygiad yn y tymor hir, a bod tuedd i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad gael eu colli i weithio ar faterion cyhoeddus am gyflogau gwell gyda chyrff allanol. Er bod cyflogau Aelodau'r Cynulliad wedi codi i adlewyrchu pwerau newydd y Cynulliad, nododd rhai o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad nad oedd eu cyflogau hwy wedi codi yn yr un modd. Tua 25 y cant yw'r trosiant blynyddol ymhlith staff cymorth, sy'n uwch na'r gyfradd o 13.5 y cant yn y sector cyhoeddus yn y DU[9].

8.27 Clywodd y Panel am nifer o brofiadau'n ymwneud â recriwtio staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Lle'r oedd y swyddi wedi cael eu hysbysebu'n allanol, y duedd oedd dilyn yr arferion recriwtio priodol. Fodd bynnag, ceid enghreifftiau lle'r oedd staff cymorth Aelodau'r Cynulliad wedi cael eu 'hetifeddu' ar ôl i Aelodau eraill adael, lle'r oedd staff rhan amser wedi cael swyddi amser llawn, neu lle'r oedd asiantau etholiadol wedi cymryd yr awenau yn swyddfa'r etholaeth ar ôl etholiad. Pwysleisiodd Aelodau'r Cynulliad pa mor bwysig oedd eu bod yn gallu ymddiried yn eu staff cymorth, yn enwedig oherwydd natur wleidyddol y swydd. Dywedodd Cynghrair y Trethdalwyr wrth y Panel y dylid annog yr Aelodau ym mhob ffordd bosibl i beidio â chyflogi aelodau o'r teulu.

8.28 Clywodd y Panel am y gwahanol fathau o staff cymorth. Roedd nifer helaeth o'r Aelodau a ymddangosodd gerbron y Panel yn cyflogi swyddogion y wasg, ond prin oedd y rheini a gyflogai ymchwilwyr ac roedd hynny'n syndod. Roedd yn ymddangos bod profiadau'r staff yn yr etholaethau a'r staff ym Mae Caerdydd yn eithaf gwahanol. Roedd teimlad ymhlith rhai o'r staff yn yr etholaethau nad oeddent yn cael eu trin cystal â'u cydweithwyr ym Mae Caerdydd. Gwelodd y Panel hefyd fod sgiliau adnoddau dynol Aelodau'r Cynulliad fel cyflogwyr yn amrywio.

8.29 Mae'r cyflwyniadau ysgrifenedig ar gael i'w gweld ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, felly nid oes angen eu cynnwys eto yn yr adroddiad hwn. Mae rhai o'r dyfyniadau i'w gweld isod er mwyn dangos natur y pryderon.

---

[9] Arolwg y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu 2008

"Dylai cadw staff fod yn rhan allweddol o'r adolygiad hwn. Ar hyn o bryd, bydd y staff yn dringo un pwynt o fewn eu band cyflog bob blwyddyn, oni bai y cyfarwyddir y Swyddfa Ffioedd yn wahanol gan yr Aelod Cynulliad dan sylw. Fodd bynnag, ar ôl cyrraedd y pwynt uchaf yn y band, ni ellir gwobrwyo'r staff am berfformio'n dda nac am eu teyrngarwch ac eithrio drwy'r cynnydd blynyddol ar gyfer costau byw."

"Credwn y dylai Aelodau'r Cynulliad gael mwy o hyblygrwydd i roi mwy nag un aelod o'u staff mewn un band... Byddai hyn yn helpu i ddenu ymgeiswyr mwy profiadol a chymwys i weithio yn eu swyddfeydd."

"Mae natur anfoddhaol y system bresennol yn amlwg pan fydd yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad roi bonws 'ychwanegol' i staff profiadol er mwyn eu hannog i aros yn hwy na rhyw ddwy flynedd, a hynny drwy ddefnyddio'r system drosglwyddo arian. Mae'r ffaith bod hynny'n digwydd ynddo'i hun yn dangos yn glir bod Aelodau'r Cynulliad yn teimlo nad yw eu staff yn cael yr hyn sy'n ddyledus iddynt am eu gwaith da."

"Gan fod y codiad cyflog blynyddol yn cael ei roi'n awtomatig, nid oes unrhyw gymhelliad dros reoli perfformiad yn iawn, ac nid yw staff yn ymroi i ddatblygu'n broffesiynol."

"Rydym yn cyflogi staff ar lefel graddedigion, gan ein bod yn credu bod y swyddi'n rhai sy'n gofyn am y lefel honno o allu ac aeddfedrwydd. Dylai'r cyflog adlewyrchu cyfrifoldeb y swydd."

"Mae pedwar prif fater yr hoffem iddynt gael sylw:

- Lefelau'r cyflog yn gyffredinol
- Annhegwch y system fandio
- Taliadau bonws
- Y cyfyngiad o bum mlynedd ar godiadau cyflog"

"Credwn y dylid sefydlu cyllideb hyfforddi ar wahân, a honno wedi'i neilltuo fel nad oes modd i gyllidebau eraill ddwyn ohoni. Byddai hyn yn hynod o werthfawr i staff sy'n gweithio i Aelodau'r Cynulliad a byddai'n dilyn polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddysgu seiliedig ar waith a dysgu gydol oes. Byddai hefyd yn helpu i gyrraedd y nod o gadw mwy o staff ac argymhellwn y dylid edrych ar hyn yn ofalus."

"Er bod hyfforddiant yn ffordd dda o ddatblygu gyrfaoedd staff sy'n gwasanaethu am gyfnod hir, ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd gan staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ynghylch sut i fanteisio arno. Ychydig yn unig o hyfforddiant cynefino a roddir i aelodau newydd o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad."

8.30 Rhoddwyd gwybod i'r Panel hefyd nad yw Comisiynwyr y Cynulliad yn cael cymorth ychwanegol i gyflawni eu dyletswyddau penodol.

**Materion allweddol**

**Cyfrifoldeb dros gyflogaeth**

8.31 Gwyddom fod Tŷ'r Cyffredin yn ystyried o ddifrif a ddylai staff cymorth yr Aelodau gael eu cyflogi'n uniongyrchol gan awdurdodau'r Senedd. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried yr opsiwn hwn ac wedi'i wrthod. Rydym wedi gwrando ar yr Aelodau, a ddywedodd wrthym bron yn unfrydol na fyddent yn derbyn system o'r fath gan y byddai'n tanseilio eu hymddiriedaeth yn eu staff cymorth, ac yn effeithio ar eu rhyddid i wasanaethau eu hetholwyr fel y dymunant wneud hynny. Teimlai'r Panel y byddai'r costau'n uwch, y byddai llai o hyblygrwydd, ac na fyddai unrhyw fanteision amlwg i'w cael pe bai Comisiwn y Cynulliad yn cyflogi staff cymorth yn uniongyrchol.

8.32 Yn y sefyllfa sydd ohoni, credwn mai'r trefniant gorau yw'r un presennol, lle caiff y staff eu cyflogi gan yr Aelodau ond eu talu gan y Cynulliad, ac ni ddylid newid hynny. Fodd bynnag, credwn fod problemau sylweddol ynghlwm wrth reoli, hyfforddi a datblygu'r staff cymorth hyn. Mae'r materion hyn yn cael sylw'n ddiweddarach yn y bennod hon ac hefyd ym **Mhennod 9**.

**Argymhelliad 48: Dylai Aelodau'r Cynulliad barhau i gyflogi eu staff eu hunain.**

**Argymhelliad 49: Dylai gwasanaethau cyflogres y Cynulliad Cenedlaethol barhau i weinyddu costau cyflogau'r holl staff, gan nodi ar ran pa Aelodau y gwneir hynny.**

**Y staff cymorth y mae eu hangen ar Aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu dyletswyddau**

8.33 Yn 2007, cynyddwyd nifer y staff cymorth sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad o'r hyn sy'n cyfateb i 2.5 aelod o staff amser llawn i 3.0 aelod o staff amser llawn, a chyfiawnhawyd hynny yn sgil y cyfrifoldebau ychwanegol y tybiwyd y byddai gan y Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad uniongyrchol i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

8.34 Fel Panel, daethom i'r casgliad bod capasiti'r Cynulliad i ymdopi â'i gyfrifoldebau yn ganolog i'n trafodaethau. Rhoddir rhagor o sylw i hyn ym **Mhennod 4**.

8.35 Effeithiodd y newidiadau a ddaeth yn sgil Deddf 2006 ar y capasiti strategol mewn dwy ffordd. Rhannwyd y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa, gan newid yn sylfaenol sut y mae'r Cynulliad yn gweithio. Byddai Aelodau'r Cynulliad hefyd yn llawer mwy dibynnol ar eu staff eu hunain a staff y Comisiwn.

8.36 Yn ail, rhoddodd y Ddeddf bwerau i'r Cynulliad wneud deddfwriaeth sylfaenol. Am y tro cyntaf, roedd hyn yn golygu bod gofyn i Aelodau'r Cynulliad weithio'n drwyadl ar droi syniadau polisi yn fframwaith deddfwriaethol a phrofi pa mor eglur a chadarn yw deddfwriaeth ddrafft. Mae gofyn sicrhau hefyd bod deddfwriaeth yn addas at ei diben a'i bod wedi'i drafftio mewn ffordd y gall y llysoedd ei dehongli. Mae'r cyfrifoldeb ychwanegol sydd ynghlwm wrth y ddyletswydd ddeddfwriaethol hon yn sylweddol, ac nid yw'r Panel yn credu bod y Cynulliad wedi profi'r holl oblygiadau hyd yn hyn.

8.37 Er mwyn ymdopi â'r cyfrifoldebau newydd hyn, byddai Aelodau'r Cynulliad yn elwa o gael hyfforddiant proffesiynol parhaus mewn meysydd sy'n ymwneud â'r gyfraith a'r broses ddeddfwriaethol. Ceir argymhellion o blaid cynyddu'r adnoddau ar gyfer hyfforddi a datblygu ym **Mhennod 9**. Mae datblygiad personol yn allweddol er mwyn cynyddu capasiti a phroffesiynoldeb y Cynulliad.

8.38 Yn 2007, penderfynwyd bod angen staff cymorth gyda'r sgiliau perthnasol ar Aelodau'r Cynulliad. Yn dilyn yr asesiad hwn, roedd modd cyfiawnhau cynyddu nifer y staff i'r hyn sy'n cyfateb i dri aelod o staff amser llawn ar ôl etholiad 2007, pan ddaeth Deddf 2006 i rym.

8.39 Mae'r rhesymeg y tu ôl i gynyddu nifer y staff yn awgrymu y dylai'r rheini fod yn darparu'r cymorth strategol sydd ei angen ar Aelodau'r Cynulliad i ymdrin â deddfwriaeth, ac nid cynyddu nifer y staff gweinyddol a chlerigol cyffredinol oedd y nod. Fodd bynnag, yn groes i'r disgwyl, mae'n ymddangos na fu unrhyw gynnydd gwirioneddol yn nifer y staff ymchwil sy'n cynorthwyo â'r broses ddeddfwriaethol. Mae tabl 8.5 uchod yn dangos y dystiolaeth a oedd ar gael i'r Panel ynghylch cydbwysedd y staff strategol a gweithredol.

8.40 Mae natur y staff sy'n cael eu cyflogi gan Aelodau'r Cynulliad yn unigol, ac yn ganolog gan grwpiau'r pleidiau, yn nodedig. Mae'r Panel yn pryderu nad yw'r cydbwysedd presennol yn rhoi digon o gapasiti strategol i'r Cynulliad ymdopi â'i faich gwaith. Nid yw'n

argyhoeddedig mai'r ffordd orau i Aelodau'r Cynulliad gyflawni hyn yw drwy gyflogi cynorthwywyr ymchwil yn unigol, a hynny am y rhesymau a ganlyn:

- mae gan yr ymchwilwyr arbenigedd mewn meysydd penodol – a allai fod yn berthnasol i ran gyfyngedig yn unig o waith neu ddiddordebau'r Aelod. Gallai'r gwaith neu'r diddordebau hynny newid, pe bai'r Aelod yn symud o un Pwyllgor i un arall, er enghraifft

- os bydd Aelodau'r Cynulliad yn recriwtio staff ymchwil yn unigol, gallai grŵp y blaid fod â gormod o arbenigedd ymchwil mewn rhai meysydd, a dim digon mewn meysydd eraill

- efallai na fydd yr ymchwilwyr a benodir gan Aelodau unigol yn meddu ar sgiliau generig penodol – fel gwybodaeth am y broses ddeddfu

8.41 I ryw raddau, mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr, yn darparu ar gyfer anghenion ymchwil technegol Aelodau'r Cynulliad. Trwy ddiffiniad, fodd bynnag, ni all Aelodau'r Cynulliad ddefnyddio'r gwasanaeth hwn i wneud gwaith ar ran y blaid er mwyn datblygu polisi, llunio ddeddfwriaeth a phrofi deddfwriaeth ddrafft y Llywodraeth, a hynny o safbwynt pleidiol.

8.42 Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, mae'r Panel yn credu mai'r ffordd orau o ddarparu cymorth ymchwil i Aelodau'r Cynulliad nad ydynt yn Weinidogion yn y Llywodraeth yw drwy grwpiau'r pleidiau.

8.43 Mae'r Panel yn nodi bod rhai o'r grwpiau eisoes yn cydnabod y ffaith hon yn ymarferol, drwy drosglwyddo rhywfaint o Lwfans Staff yr Aelodau er mwyn cyflogi ymchwilwyr ar gyfer y grŵp. Mae'r Panel yn credu bod hyn yn ffordd synhwyrol o fanteisio i'r eithaf ar y Lwfans Staff ac y dylid addasu'r system fel bod modd i'r Aelodau unigol drosglwyddo'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cyflogi ymchwilwyr i'w grwpiau.

8.44 Nid yw hyn yn golygu na ddylai'r Aelodau unigol allu comisiynu cymorth ymchwil penodol at ddiben arbennig – er enghraifft, Aelod Cynulliad sydd angen arbenigedd dechnegol wrth gyflwyno Mesur Arfaethedig Aelod. Yn ei dystiolaeth lafar, pwysleisiodd un Aelod Cynulliad wrthym pa mor ddefnyddiol yw gallu comisiynu gwaith ymchwil gan arbenigwyr allanol. Dylai'r system ganiatáu defnyddio rhan o'r Lwfans Staff a/neu'r Lwfans Costau Swyddfa at y diben hwn.

8.45 Nid yw'r Panel yn argyhoeddedig y dylai Aelodau'r Cynulliad ddefnyddio'u Lwfans Staff i gyflogi swyddogion y wasg sy'n gweithio iddynt hwy'n unig. Mae'r Panel yn cydnabod bod angen rhoi gwybodaeth i'r wasg, y cyfryngau a'r cyhoedd am waith Aelodau'r Cynulliad. Er hynny, teimla'r Panel fod perygl sylweddol i swyddi o'r fath fod o natur wleidyddol – ac oherwydd hynny, mae'n anodd cyfiawnhau defnyddio arian cyhoeddus i dalu am lawer ohonynt. Sylwodd y Panel nad oedd swyddogion y wasg wedi'u henwi yn y rhestr wreiddiol o staff y gallai Aelodau'r Cynulliad eu cyflogi o'u Lwfans Staff.

8.46 Mae'n ymddangos bod y defnydd o arian yn y modd hwn wedi cynyddu ar yr un pryd ag y cyflwynwyd lwfans cyfathrebu o £10,400 y flwyddyn ar gyfer Aelodau Seneddol yn San Steffan – ac mae hynny i'w resynu, ym marn y Panel. Mae'r Panel yn credu bod datganiadau i'r wasg leol yn faich gwaith cymharol fychan. Gallai'r gwaith hwnnw gael ei gyflawni gan staff swyddfeydd yr etholaethau neu'r swyddfeydd rhanbarthol, fel gweithwyr achos neu gynorthwywyr personol, neu gan Aelodau'r Cynulliad eu hunain.

8.47 Mae'r Panel yn teimlo bod cyfathrebu gyda'r wasg a'r cyfryngau am waith holl Aelodau'r Cynulliad, a dehongli eu cyfraniadau i'r Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau, yn rhywbeth y gellir ei wneud yn well ar lefel y grŵp.

8.48 O ran y gwaith ymchwil a'r gwaith cyfathrebu, mae'r Panel yn teimlo y byddai'r Cynulliad yn elwa pe bai'r adnoddau ar gyfer hynny'n cael eu trosglwyddo o'r Aelodau unigol i grwpiau'r pleidiau, gan alluogi'r grwpiau i gael y strwythur staff a ganlyn:

- un Rheolwr Grŵp
- un Pennaeth Polisi ac Ymchwil
- pedwar ymchwilydd
- tri o swyddogion y wasg (dau i grwpiau o ddeg neu lai o Aelodau'r Cynulliad)
- dau staff clerigol (gan gynnwys hyfforddai)

**Y Pennaeth Polisi ac Ymchwil**

8.49 Yn fras, mae'r Panel yn credu y dylai swydd y Pennaeth Polisi ac Ymchwil fod fel a ganlyn:

**Swyddogaeth**

- arwain a datblygu polisi ar gyfer un o grwpiau gwleidyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- arwain wrth ddatblygu polisïau cynaliadwy yn y sector economaidd, y sector amgylcheddol, y sector cymunedol a sectorau eraill
- meithrin perthnasau a phenderfynu ar strategaeth
- datblygu amrywiaeth eang o bartneriaethau
- casglu tystiolaeth ymchwil a gwybodaeth yn sail i bolisïau

**Atebolrwydd**

- rheoli tîm o staff ymchwil polisi, staff pwyllgor a staff cyfathrebu
- rheoli datblygiad y tîm gyda chyfrifoldeb dros y gyllideb
- gofalu am reoli perfformiad y tîm

**Manyleb y person**

- y gallu i ddylanwadu a rhoi gwybodaeth ar lefelau gweithredol uwch
- ymwybyddiaeth wleidyddol
- y gallu i fod yn ddadansoddol, yn greadigol ac yn arloesol
- y gallu i weithio i amserlenni tyn
- y gallu i ateb gofynion gwleidyddol, fel briffio Gweinidogion
- cymhwyster graddedig

- profiad o ddatblygu polisi yn y sector cyhoeddus a/neu'r sector preifat

8.50 Dylai'r strwythur staffio hwn fod ar gael i grwpiau'r pleidiau sy'n rhan o'r Llywodraeth yn ogystal ag i'r gwrthbleidiau, gan nad yw'r Aelodau unigol yn y grwpiau hynny yn gallu defnyddio mwy ar weision sifil na'r gwrthbleidiau. Dylai'r pleidiau sydd â llai na thri o Aelodau gael un aelod o staff cymorth ychwanegol.

8.51 Gallai'r strwythur cymorth a argymhellir uchod ar gyfer y grwpiau gyfrannu'n sylweddol tuag at ehangu capasiti strategol y Cynulliad, a hynny drwy sicrhau bod y dyletswyddau ymchwil a pholisi'n cael eu cyflawni mewn ffordd fwy cydlynol ac effeithiol. Dylai'r pedwar ymchwilydd gysgodi prif bwyllgorau polisi'r Cynulliad, fel bod pob Aelod yn gallu manteisio ar arbenigedd ymchwil (gan gynnwys yr Aelodau sy'n perthyn i blaid neu bleidiau'r Llywodraeth).

8.52 Mae'r strwythur uchod yn golygu y byddai nifer y staff amser llawn sy'n gweithio i grwpiau'r pleidiau ac yn cael eu hariannu gan Lwfans Arweinwyr y Pleidiau'n cynyddu o 24 i 44. Dylai'r cyllid ar gyfer yr 20 aelod ychwanegol o staff amser llawn ddod yn sgil lleihau nifer y staff sydd ar gael i'r Aelodau unigol.

8.53 Awgrymwn, o 2011 fan bellaf, y dylai holl grwpiau'r pleidiau ystyried ailwampio'r swyddi cymorth gweithredol a sefydlwyd ers 2007 er mwyn cynyddu nifer y swyddi sydd eu hangen ar gyfer cynnal capasiti strategol y Cynulliad. Un dewis fyddai dychwelyd at y patrwm o gael yr hyn sy'n cyfateb i 2.5 aelod o staff cymorth amser llawn i Aelodau'r Cynulliad, gan ryddhau cyllid cyfatebol i gyflogi 30 o staff amser llawn. Byddai hyn yn arbed tua £840,000 y flwyddyn. Byddai'n ddigon i dalu am gostau'r strwythur ehangach arfaethedig ar gyfer staff y grwpiau (tua £640,000 y flwyddyn), ac i gyfrannu tua £200,000 y flwyddyn tuag at lefelau uwch o hyfforddiant, a amlinellir ym **Mhennod 9.**

8.54 Yn ogystal â darparu'r cymorth canolog hwn, teimlwn y dylai'r Comisiwn geisio codi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad Cenedlaethol drwy ddarparu adnoddau i gyflogi grŵp o brentisiaid i gryfhau unedau cymorth canolog pob grŵp plaid. Rhagwelir y bydd y grŵp hwn yn amrywio mewn maint yn dibynnu ar y galw, ac na fyddai'r prentisiaid o anghenraid yn cael eu cyflogi mewn swyddi amser llawn. Tua £50,000 fyddai'r gost, a gellid talu am hynny o'r cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 50: Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu grŵp o brentisiaid i gryfhau unedau cymorth canolog pob grŵp plaid.**

8.55 Cred y Panel fod y ffaith bod Aelodau etholaeth yn gorfod ymdrin â mwy o waith achos nag Aelodau rhanbarthol yn effeithio ar nifer y staff sydd ei angen ar y ddau gategori gwahanol o Aelodau.

8.56 Mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn gallu cysylltu ag Aelodau'r Cynulliad. Mae hyn yn golygu bod angen swyddfa yn eu hardal ar Aelodau Etholaeth ac Aelodau Rhanbarthol fel ei gilydd. Dylai'r swyddfa fod ar agor yn ystod oriau swyddfa arferol, gan gyflogi un person penodol sy'n gyfrwng i'r cyhoedd gysylltu â'r Aelod Cynulliad. Yn yr un modd, dylai fod person penodol ar gael yn y Cynulliad i ymdrin ag ymholiadau dros y ffôn, negeseuon e-bost, llythyrau ac ymwelwyr, yn ogystal â chadw dyddiadur yr Aelod Cynulliad a gofalu am faterion gweinyddol cysylltiedig. Yn y Cynulliad, mae'n debygol y gall un aelod o staff weithio ar ran dau (neu fwy) o Aelodau.

8.57 Mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu y gallai Aelodau etholaeth ac Aelodau rhanbarthol weithredu gyda 1.5 o staff cymorth ar gyfer dibenion gweinyddol. Oherwydd y byddai cyfathrebu â'r wasg a gwaith ymchwil yn cael ei gyflawni gan y grŵp, dim ond gweithwyr achos fyddai ei angen ar Aelodau – ac mae'r Panel yn cydnabod bod y rheini'n hanfodol er mwyn ymdrin â gwaith achos yn yr etholaeth.

8.58 Mae'r Panel yn derbyn bod cyfanswm gwaith achos Aelodau etholaeth yn ddigon i gyfiawnhau gallu cyflogi'r hyn sy'n cyfateb i un gweithiwr achos amser llawn. Fodd bynnag, nid yw'r Panel yn credu bod angen mwy na'r hyn sy'n cyfateb i 0.5 gweithiwr achos amser llawn ar Aelodau rhanbarthol.

8.59 Gallai'r ffaith fod gan Aelodau rhanbarthol y Cynulliad lai o waith achos eu galluogi i ysgwyddo ychydig mwy o faich gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad, gan helpu i fynd i'r afael â'r cwestiwn canolog o gynyddu capasiti'r Cynulliad yn y maes allweddol hwn. Nid yr oriau a dreulir mewn Pwyllgor o angenrheidrwydd sy'n rhwystro Aelodau'r Cynulliad rhag ymgymryd â rhagor o waith, ond yr amser a dreulir yn darllen ac yn ymgynghori ymlaen llaw, sy'n hanfodol os yw'r Aelod am gyfrannu'n llawn at waith y Pwyllgor. Petai Aelodau rhanbarthol yn ymgymryd â rhagor o'r gwaith hwn, gellid rhoi hanner aelod staff ychwanegol yr un iddynt, trwy greu swydd newydd, 'Gweithiwr Cymorth Pwyllgor'.

8.60 Nid oes rheswm pam na all Aelodau etholaeth hefyd ddewis defnyddio'r hyn sy'n cyfateb i 0.5 aelod o staff amser llawn, sy'n gweithio yn y Cynulliad, fel gweithwyr cymorth pwyllgor, ar yr amod eu bod yn trefnu system o rannu cyfrifoldebau sy'n sicrhau bod y cymorth

gweinyddol a'r gwaith 'cyswllt' a amlinellwyd uchod ar gael iddynt. Byddai hynny'n sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd.

8.61 Mae hyn yn rhoi nifer o ddewisiadau i'r Comisiwn. Mae'r penderfyniad ynghylch pa ddewis a gaiff ei wneud gan Aelodau'r Cynulliad yn ei hanfod yn un gwleidyddol i'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r Panel yn argyhoeddedig bod yn rhaid darparu'r cymorth angenrheidiol a fyddai'n rhoi gwell adnoddau i'r Cynulliad mewn perthynas â'i gapasiti strategol i gyflawni ei gyfrifoldebau deddfwriaethol cynyddol.

**Argymhelliad 51: Er mwyn rhoi gwell adnoddau i'r Cynulliad mewn perthynas â'i gapasiti strategol, dylai Comisiwn y Cynulliad drafod y mater ag arweinwyr y pleidiau gwleidyddol er mwyn dod i gytundeb ar y lefel o gymorth a fyddai'n dderbyniol. Dylai'r Comisiwn hefyd adolygu darpariaeth pob grŵp plaid er mwyn gallu sefydlu uned gymorth ganolog. Bydd yr uned honno'n cynnwys un rheolwr grŵp, un pennaeth polisi ac ymchwil, pedwar ymchwilydd, dau swyddog y wasg a dau aelod o staff gweinyddol ar gyfer grwpiau sydd â rhwng tri a deg Aelod, a'r un trefniant ond gydag un swyddog y wasg ychwanegol ar gyfer grwpiau sydd ag un Aelod ar ddeg neu ragor.**

**Argymhelliad 52: Dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried sefydlu swydd gweithiwr cymorth pwyllgor, gydag Aelodau'r Cynulliad yn eu cyflogi o'u Lwfans Cyflogau Staff.**

**Materion cyffredinol**

8.62 Mae gan Aelodau ddyletswydd i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon, a dylai staff gael eu penodi ar y raddfa gyflog briodol. Rydym yn gwybod bod gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cynulliad wrthi'n paratoi canllawiau i gynorthwyo'r Aelodau i benderfynu ar ba raddfeydd cyflog y dylid penodi staff newydd, a bod y canllawiau hefyd yn rhoi rhagor o hyblygrwydd iddynt. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn.

8.63 O gofio'r uchafswm cyflog a argymhellir gennym, nid yw'r Panel yn gweld y bydd angen i'r Aelodau roi taliadau bonws i'w staff yn y dyfodol. Rydym o'r farn fod taliadau o'r fath wedi peri rhwyg yn y gorffennol ac wedi bod yn wrthgynhyrchiol. Defnyddiwyd hwy gan rai hefyd fel ffordd o sicrhau eu bod yn gwario'u lwfans cyflogau staff i gyd.

**Argymhelliad 53: Er cysondeb, dylai holl staff Aelodau'r Cynulliad gael eu cyflogi yn unol ag amodau contract cyflogaeth safonol.**

**Argymhelliad 54: Dylai Comisiwn y Cynulliad lunio canllawiau i Aelodau'r Cynulliad er mwyn ystyried y graddfeydd cyflog a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Dylai cyflogau cychwynnol adlewyrchu swyddogaethau, cyfrifoldebau a phrofiad staff a dylid cytuno arnynt gyda gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cynulliad cyn cynnig y swydd.**

**Argymhelliad 55: Ni ddylid caniatáu i Aelodau'r Cynulliad roi taliadau bonws i'w staff o'r lwfansau a ariennir gan y Cynulliad.**

8.64 Ystyriodd y Panel y trefniadau presennol ar gyfer codiadau cyflog sy'n gysylltiedig â chostau byw a dringo'r band cyflog. Ymddengys fod y rhain yn gweithio'n ddidrafferth ac felly rydym yn argymell parhau â'r trefniadau. Fodd bynnag, pe bai cynnydd sylweddol yng nghyfrifoldebau'r staff, neu newidiadau eraill a fyddai'n effeithio ar swyddogaethau staff Aelodau'r Cynulliad, cyfrifoldeb y Corff Adolygu Annibynnol fyddai comisiynu gwerthusiad swydd neu adolygiad o fanyleb y swydd. Gallai'r Corff Adolygu Annibynnol wneud hyn yn dilyn cais gan Gomisiwn y Cynulliad neu o'i wirfodd ei hun.

**Argymhelliad 56: Bydd cyflogau staff yn parhau i godi bob blwyddyn yn unol â'r rheolau presennol ynghylch codiadau graddol a dyfarniadau 'costau byw'. Fodd bynnag, os bydd newidiadau sylweddol, gall y Corff Adolygu Annibynnol gynnal adolygiad o'r sefyllfa, neu gall Comisiwn y Cynulliad wneud cais am adolygiad o'r fath.**

8.65 Mae'r Panel wedi nodi pryderon staff cymorth yr Aelodau ynghylch eu cyflogau, yn enwedig yng ngoleuni'r cyfrifoldebau ychwanegol a roddwyd i'r Cynulliad yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Nododd y Panel hefyd y problemau presennol ynghylch cadw staff profiadol unwaith y byddant yn cyrraedd brig eu band cyflog.

8.66 Yn unol â hyn, pan gaiff y bandiau cyflog eu hadolygu nesaf ym mis Ebrill 2010, mae'r Panel yn argymell y dylai'r Comisiwn ystyried un ai ychwanegu pwynt arall ar frig pob band, neu gynyddu pwynt uchaf presennol pob band.

**Argymhelliad 57: Pan gaiff bandiau cyflog y staff cymorth eu hadolygu nesaf ym mis Ebrill 2010, dylai'r Comisiwn ystyried un ai ychwanegu pwynt arall ar frig pob band, neu gynyddu pwynt uchaf presennol pob band.**

**Costau cyfraniadau cyflogwr**

8.67 Yn ogystal â chostau sylfaenol y cyflog, mae'n rhaid i'r cyflogwr dalu costau ychwanegol, sef cyfraniadau yswiriant a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr. Rhaid ystyried y costau hyn fel rhan o unrhyw gynllun a chytunwn y dylai Comisiwn y Cynulliad barhau i dalu'r rhain yn ganolog, gan nodi ar ran pa Aelodau y gwneir hynny.

**Argymhelliad 58: Dylai Comisiwn y Cynulliad barhau i dalu cyfraniadau yswiriant cenedlaethol y cyflogwr, a hynny allan o lwfans cyflogau staff Aelodau'r Cynulliad. Dylid nodi ar ran pa Aelodau y gwneir hynny.**

8.68 Cred y Panel y dylai costau cyfraniadau'r cyflogwr barhau i gael eu talu gydag arian cyhoeddus a'u cyfyngu i 10 y cant o'r cyflog gwirioneddol blynyddol. Dylid nodi mai cynllun rhanddeiliaid yw'r cynllun pensiwn ac y gwneir cyfraniad iddo ar ran y gweithiwr. Nid oes gan yr Aelod Cynulliad na Chomisiwn y Cynulliad unrhyw gyfrifoldeb dros y cynllun hwn ar ôl cyfrannu'r 10 y cant cyntaf.

**Argymhelliad 59: Dylai uchafswm cyfraniadau pensiwn y cyflogwr barhau i fod yn 10 y cant o'r cyflog blynyddol gwirioneddol.**

**Rhannu staff**

8.69 Mae rhai Aelodau Cynulliad ar hyn o bryd yn cyfuno eu lwfansau gyda lwfansau Aelod neu Aelodau eraill er mwyn rhannu staff. Mae hyn yn iawn, cyhyd â bod un o'r Aelodau'n cael eu henwi fel y cyflogwr. Lluniwyd cytundebau fframwaith cyfreithiol i'r Aelodau sydd â threfniadau o'r fath er mwyn eu gwneud yn ffurfiol. Credwn fod hwn wedi bod yn gam angenrheidiol a defnyddiol. Rydym yn deall yr angen am drefniadau rhannu a'r manteision i'r Aelodau dan sylw.

**Argymhelliad 60: Dylid caniatáu i Aelodau'r Cynulliad barhau â'u trefniadau ar gyfer rhannu staff cymorth. Dylid gosod y trefniadau hyn o fewn fframwaith cyfreithiol addas.**

**Staff dros dro**

8.70 O dro i dro, rydym yn ymwybodol y bydd angen i Aelodau'r Cynulliad ysgwyddo costau pan fydd gweithiwr yn absennol o'r gwaith, er enghraifft oherwydd salwch (am gyfnod parhaus o fwy na phythefnos), absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth, neu wasanaeth rheithgor.

8.71 Dim ond er mwyn talu am staff llanw yn lle aelod parhaol o staff y dylid gwneud darpariaeth o'r fath. Ni ddylid talu am staff llanw yn lle staff dros dro. Bydd yn rhaid cyflwyno tystysgrifau meddygol neu ddogfennau eraill yn cadarnhau'r rhesymau dros yr absenoldeb i gyd-fynd â'r cais. Gan y bydd goblygiadau ariannol hyn yn deillio o'r galw, credwn nad oes modd pennu uchafswm ariannol ar gyfer y ddarpariaeth hon. Awgrymwn y dylai'r Aelodau sydd angen staff llanw dros dro wneud cais i'r Tîm Cymorth i Aelodau a bydd Comisiwn y Cynulliad yn talu am hynny o gronfa ganolog.

**Argymhelliad 61: Mewn achosion dilys, dylid caniatáu defnyddio'r gronfa ganolog i dalu am gostau staff llanw dros dro. Dim ond ar gyfer swyddi parhaol y dylid gwneud taliadau am staff llanw o'r fath. Ni ddylid caniatáu taliadau am staff llanw os yw'r swydd yn un dros dro.**

**Costau staff eraill**

8.72 Ar hyn o bryd, gall Aelodau hawlio swm ychwanegol o hyd at £5,801 ar gyfer costau hyfforddiant, taliadau goramser, treuliau teithio a thaliadau bonws. Rydym eisoes wedi argymell y dylid dileu taliadau bonws i staff.

8.73 Trafodir hyfforddiant ym **Mhennod 9**, lle rydym yn argymell sefydlu cyllideb ganolog i ymdrin â'r holl agweddau ar hyfforddiant i Aelodau a'u staff.

8.74 Trafodir teithio yn fanylach ym **Mhennod 11**.

8.75 O ystyried na fydd angen cynnwys taliadau bonws a hyfforddiant yn y gyllideb hon, rydym yn argymell y dylid lleihau'r gyllideb i £2,000 er mwyn talu am gostau goramser a theithio i staff. Pan fydd y staff cymorth wedi gorfod ysgwyddo costau teithio uchel wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Cynulliad, gall Aelodau wneud cais i gynyddu'r lwfans hwn i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau.

**Argymhelliad 62: Dylai Aelodau'r Cynulliad allu hawlio swm ychwanegol o hyd at £2,000 er mwyn talu treuliau teithio a thaliadau goramser i staff, gan gynnwys cyfraniadau yswiriant cenedlaethol y cyflogwr sy'n berthnasol i daliadau o'r fath. Pan fydd y staff cymorth wedi gorfod ysgwyddo costau teithio uchel wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Cynulliad, gall Aelodau wneud cais i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau er mwyn cynyddu'r lwfans hwn.**

**Arferion da o ran cyflogaeth**

8.76 Un ffordd o sicrhau bod y broses o recriwtio a chyflogi staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn broffesiynol a chyson fyddai trefnu iddynt gael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Gomisiwn y Cynulliad yn hytrach na chan Aelodau'r Cynulliad. Byddai hyn yn gyson â'r modd y darperir llety i Aelodau'r Cynulliad. Ystyriwyd y dewis hwn yn ofalus. Fodd bynnag, ar y cyfan, teimlwyd y byddai mwy o broblemau'n deillio o wneud hyn. Ystyriwyd bod y berthynas agos rhwng Aelodau'r Cynulliad â'u staff yn ffactor pwysig sy'n rhoi manteision cyffredinol i'r ddwy ochr. Ategwyd hyn gan y dystiolaeth a ddaeth i law.

8.77 Ni fyddai cael nifer fawr o staff yn ddaearyddol bell o'r rhai sy'n gyfrifol amdanynt yn gweithio'n dda. Ni fyddai ychwaith o fantais i staff Aelodau'r Cynulliad. Yn ogystal, yr Aelod Cynulliad sydd yn gwybod orau yr hyn sydd ei angen arno er mwyn cyflawni gofynion ei swydd. Teimlwyd, pe bai staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn dod yn staff Comisiwn y Cynulliad, y byddai llai o hyblygrwydd a mwy o gostau. Penderfynodd y Panel mai'r ffordd orau ymlaen fyddai cadw'r berthynas rhwng y cyflogwr a'r staff, ond y dylid cyflwyno canllawiau mewn nifer o feysydd a oedd yn achosi pryder.

8.78 Mae'r penawdau a ganlyn yn dynodi'r meysydd y mae'r Panel yn credu y dylid eu hystyried. Dylid gweithredu'r polisïau hyn mor fuan â phosibl, ond efallai na fydd yn briodol gweithredu rhai ohonynt tan y bydd etholiadau nesaf y Cynulliad wedi'u cynnal. Dylid cynnwys y staff cymorth a'r Aelodau presennol yn y broses hon hefyd.

**Llawlyfr i staff, cod ymddygiad a pholisi recriwtio**

8.79 Mae angen y rhain er mwyn:

- sicrhau cysondeb ymhlith holl Aelodau'r Cynulliad wrth reoli eu staff. Cododd y mater hwn yn aml wrth gasglu tystiolaeth
- sicrhau gwerth am arian i Aelodau'r Cynulliad, a thrwy hynny, i bobl Cymru
- adeiladau ar arferion da ym maes Adnoddau Dynol a thrin staff yn deg a chyda pharch
- cydymffurfio ag egwyddorion Nolan a deddfwriaeth ym meysydd cyfle cyfartal ac iechyd a diogelwch

- hybu delwedd gyhoeddus broffesiynol i'r Cynulliad a'i Aelodau, gan ennyn ffydd yn y broses ddemocrataidd yng Nghymru

8.80 Mae'r Panel o'r farn bod staff cymorth yr Aelodau yn cyflawni gwaith pwysig a defnyddiol. Maent yn darparu arbenigedd gweinyddol ac arbenigedd polisi er mwyn helpu'r Aelodau i gyflawni eu gwahanol swyddogaethau. Maent yn gyswllt rhwng Aelodau a staff Comisiwn y Cynulliad, ac yn bwysicaf, rhwng yr Aelodau a'u hetholwyr.

8.81 Mewn sawl rhan o Gymru, y staff cymorth yw wyneb cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol. Maent yn adnodd gwerthfawr ond clywsom nad ydynt yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi bob amser.

8.82 Dylent gael cefnogaeth briodol gan yr Aelodau sy'n eu cyflogi, grwpiau'r pleidiau a'r Cynulliad Cenedlaethol. Rydym yn gwybod eu bod yn weithwyr ffyddlon ond dywedwyd wrthym fod pobl yn manteisio ar y ffyddlondeb hwn weithiau.

8.83 Dylent gael cynlluniau hyfforddi a datblygu o'r radd flaenaf. Trafodir hyn ymhellach ym **Mhennod 9**.

8.84 Teimlwn ei bod yn hanfodol y dylid rhoi llawlyfr staff i bob aelod newydd o staff wrth iddynt ddechrau yn eu swydd. Dylai hyn wneud iddynt deimlo bod croeso iddynt. Dylai'r llawlyfr roi syniad cadarn iddynt o'r ffordd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio a'i amcanion allweddol, ac am y modd y gallant gyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth sylfaenol am gyflogau, graddfeydd cyflog, oriau gwaith, trefniadau gwyliau, gweithdrefnau salwch, cyfnodau prawf a gweithdrefnau disgyblu a chwyno.

8.85 Mae'r Panel wedi paratoi fframwaith arfaethedig ar gyfer y llawlyfr staff yn nodi'r math o wybodaeth y teimlwn y dylid ei chynnwys. Gellir gweld y fframwaith hwn yn **Atodiad 12**.

**Argymhelliad 63: Wrth iddynt ddechrau yn eu swydd, dylid rhoi llawlyfr i bob un o staff Aelodau'r Cynulliad. Dylai Comisiwn y Cynulliad baratoi'r llawlyfr hwn, yn seiliedig ar y fformat a welir yn Atodiad 12 o'r adroddiad hwn. Dylid adolygu'r llawlyfr yn rheolaidd a darparu copïau caled ac electronig ohono.**

**Polisi recriwtio**

8.86 Dylid dilyn yr egwyddor o benodi ar sail teilyngdod ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae hon yn nodwedd allweddol o ran amddiffyn enw da'r Cynulliad a sicrhau gwerth am arian. Mae hefyd yn hanfodol er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac egwyddorion Nolan.

**Argymhelliad 64: Dylid llunio Polisi Recriwtio ar gyfer penodi staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Dylai hwn ymdrin â'r materion a ganlyn:**
**i) pam ei bod yn bwysig dilyn arferion da, crynodeb o'r fframwaith deddfwriaethol – o ran hil, rhyw, anabledd ac ati**
**ii) y dyletswyddau penodol ar gyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf – hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob dim a wnânt**
**iii) llunio manyleb person cyn hysbysebu'r swydd**
**iv) hysbysebu'n agored ar y wefan ac yn y wasg leol**
**v) ni ddylid cynnwys amod ynghylch y rheidrwydd i fod yn aelod o blaid wleidyddol benodol**
**vi) rheolau'n cyfyngu ar gyflogi aelodau o'r teulu**
**vii) defnyddio ffurflen gais gyffredin sy'n cynnwys gwybodaeth am fonitro cyfle cyfartal**
**viii) dylai Aelodau'r Cynulliad a'r adran Adnoddau Dynol benderfynu pwy sy'n cael cyfweliad**
**ix) cofnodi'r rhesymau dros wrthod ymgeiswyr pan lunnir y rhestr fer (gan roi atborth os gofynnir am hynny)**
**x) cyfweliad proffesiynol gan yr Aelod Cynulliad gan ddilyn canllawiau'r adran Adnoddau Dynol. Dylai hyn gynnwys trafodaeth ar egwyddorion Nolan a Chod Ymddygiad y Staff**

**Cyflogi aelodau'r teulu**

8.87 Mae Adran 36(7)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn drosedd, a all arwain at ddirwy, i Aelod gymryd rhan mewn unrhyw un o drafodion y Cynulliad os nad yw'n cydymffurfio â'r Ddeddf neu'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chofrestru a datgan buddiannau, pleidleisio a lobïo er mwyn cael gwobr neu ystyriaeth, ac mae'n drosedd gweithredu'n groes i hynny.

8.88 Yn y canllawiau a roddir i'r Aelodau ar gyfer datgan buddiannau, a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn 2006, mae mwyafrif y buddiannau a nodir yn cynnwys cyfeiriad at eiddo a ddeil y partner neu unrhyw rai o blant dibynnol yr Aelod yn annibynnol arnynt neu a roddwyd iddynt, a rhaid eu cofrestru hefyd os yw'r Aelod yn gwybod amdanynt.

8.89 Diffinnir partner fel:

> "priod iddo ef neu iddi hi neu un o gwpl p'un ai o'r un rhyw neu o'r rhyw arall sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod."

8.90 Ar hyn o bryd, mae 16 o Aelodau wedi datgan eu bod yn cyflogi priod neu blentyn dibynnol. Mae hyn yn cynrychioli tua chwarter yr holl Aelodau. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad newid y Rheolau Sefydlog er mwyn ymdrin â'r pryderon hyn. Gellir gweld copi drafft o'r Rheol Sefydlog yn **Atodiad 13**. Mae'r Panel yn fodlon y bydd y newidiadau arfaethedig yn tynhau'r rheolau presennol ac argymhellir y dylai'r Comisiwn wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Rheolau Sefydlog mor fuan â phosibl. O ran egwyddor, rydym yn gwrthwynebu'r arfer o gyflogi aelodau'r teulu a chredwn y dylid osgoi hyn.

8.91 Mae'r Panel yn cydnabod y gall y trefniadau presennol weithio'n iawn ar rai achlysuron. Fodd bynnag, fel egwyddor gyffredinol, cred y Panel y dylai'r arfer hwn ddod i ben dros amser, a hynny er budd y cyhoedd ac er mwyn gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus.

8.92 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gan aelodau'r teulu sydd ar hyn o bryd yn gweithio i Aelodau'r Cynulliad hawliau cyflogaeth y dylid eu diogelu.

**Argymhelliad 65✳: Dylai Aelodau'r Cynulliad sy'n cyflogi aelodau'r teulu, fel y'u diffinnir hwy yn y Rheol Sefydlog ddrafft yn Atodiad 13, fod â'r hawl i barhau i wneud hynny. Fodd bynnag, credwn na ddylai'r Aelodau benodi unrhyw aelodau o'r teulu o hyn allan.**

**Argymhelliad 66: Wrth recriwtio unrhyw staff cymorth newydd, dylid dilyn gweithdrefnau recriwtio tryloyw yn unol â'r polisi newydd ac egwyddorion Nolan.**

### Diweddaru'r contract cyflogaeth

8.93 Dylid llunio contract cyflogaeth newydd ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, a hwnnw'n cynnwys y diwygiadau a nodir isod. Ar y cyfan, dylid nodi mai addasiadau'n unig yw'r rhain, yn hytrach na newidiadau sylfaenol. Y nod yw gofalu bod y contract yn gyson â newidiadau eraill a wnaed yn yr adroddiad hwn a sicrhau ei fod yn dilyn arferion da:

- dylai'r contract gyfeirio at y ffaith bod yn rhaid dilyn y Cod Ymddygiad – byddai hyn yn cynnwys egwyddorion Nolan ac yn rhoi manylion ynghylch beth y mae hyn yn ei olygu yn ymarferol, yn debyg i God y Gwasanaeth Sifil. Byddai hefyd yn cynnwys rheolau ar gyfrinachedd a diogelu data

- Cod Ymarfer Technoleg Gwybodaeth – unwaith eto, dylai'r contract nodi bod yn rhaid cydymffurfio â'r rheolau hyn

- dylai'r cyfeiriad at absenoldeb mamolaeth gynnwys y rheolau diweddaraf a dylid cyfeirio at y cynllun aberthu cyflog mewn perthynas â gofal plant

- dylai'r contract cyflogaeth nodi bod hawl i ddilyn polisi 'datgelu er bydd y cyhoedd' Comisiwn y Cynulliad

- Yn ystod y broses gwyno a'r broses ddisgyblu, dylid cynnig yr hawl i gael cydweithiwr neu gyfaill yn gwmni, yn hytrach nag aelod o'r un blaid wleidyddol neu swyddog o undeb llafur. Dylid rhoi'r dewis i'r gweithiwr, yn enwedig mewn achos o gŵyn, gan y gallai'r gweithiwr fod â chŵyn yn erbyn ei blaid wleidyddol. Os nad ydynt yn perthyn i Undeb Llafur, nid yw'r rheol bresennol yn eu galluogi i gael cymorth addas

**Argymhelliad 67: Dylai'r Comisiwn lunio contract cyflogaeth wedi'i ddiweddaru i staff cymorth presennol Aelodau'r Cynulliad, gan ystyried y diwygiadau a awgrymir ym mharagraff 8.93.**

8.94 Dylid llunio contract cyflogaeth newydd ar gyfer yr holl staff cymorth newydd a benodir gan Aelodau'r Cynulliad. Dylai'r contract hwn gynnwys y newidiadau a restrir isod:

- cynllun taliadau salwch – cyfyngu ar yr hawliau pan fydd patrwm annerbyniol o absenoldeb neu absenoldeb cyson. Dylid atgoffa Aelodau'r Cynulliad o'u dyletswydd i reoli absenoldeb salwch, er mwyn rhwystro pobl rhag camddefnyddio'r cynllun ac i gadw costau'n isel

- cyfnod hysbysu – 12 wythnos yn hytrach na 13 wythnos

- cyfnod prawf o 6 mis ar gyfer pob gweithiwr newydd, gan gadarnhau'r swydd ar ôl perfformiad boddhaol am y 6 mis cyntaf

**Argymhelliad 68: Dylai'r Comisiwn lunio contract cyflogaeth newydd ar gyfer yr holl staff cymorth newydd a benodir gan Aelodau'r Cynulliad.**

### Trefniadau gofal plant

8.95 Fel rhan o'i waith, edrychodd y Panel ar bolisïau cyflogaeth sy'n ystyriol o deuluoedd.

8.96 Bu'r Panel yn ystyried y cynnig i ddarparu cyfleusterau crèche ym Mae Caerdydd. Awgrymwyd hyn fel posibilrwydd pan sefydlwyd y Cynulliad yn wreiddiol. Fodd bynnag, am sawl rheswm, gan gynnwys y gost a'r defnydd tebygol o'r cyfleuster, penderfynodd y Panel beidio ag argymell gwneud rhagor o waith ar yr opsiwn hwn.

8.97 Mae Comisiwn y Cynulliad yn cynnig cynllun aberthu cyflog mewn perthynas â gofal plant i'w holl staff. Mae'r cynllun ar gael hefyd i Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Fodd bynnag, ychydig yn unig o'r rheini sy'n gymwys sy'n manteisio ar y cynllun hwn; nid oes unrhyw Aelodau Cynulliad yn gwneud hynny, a dim ond pedwar o staff yr Aelodau ac un ar bymtheg o staff y Cynulliad Cenedlaethol sy'n ei ddefnyddio. Nid oedd rhai o'r rheini a roddodd dystiolaeth yn ymwybodol o fodolaeth y cynllun. Mae'r cynllun talebau gofal plant yn galluogi'r staff i aberthu rhan o'u cyflog yn gyfnewid am dalebau y gellir eu defnyddio i dalu am ofal plant cofrestredig. Mantais y cynllun yw nad oes yn rhaid talu yswiriant gwladol na threth incwm ar y swm a aberthir, hyd at uchafswm misol. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Panel yn teimlo bod y cynllun yn effeithlon o ran y gost i'r Cynulliad ac yn ddefnyddiol i rieni sy'n gweithio, a dylid rhoi rhagor o gyhoeddusrwydd iddo.

### Taliadau dileu swyddi

8.98 O dan y trefniadau presennol, pan fydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod Cynulliad am ba bynnag reswm, gall hawlio cost taliadau dileu swyddi i'r staff sy'n gymwys. Er mwyn iddynt fod yn gymwys, rhaid i'r staff fod wedi gweithio i'r Aelod ers o leiaf ddwy flynedd, ac ni ddylent fod yn hunangyflogedig. Cyfrifir y taliadau dileu swyddi ar sail y ddeddfwriaeth gyflogaeth bresennol. Y swm uchaf y gellir ei hawlio yw'r swm sy'n daladwy o dan y rheolau dileu swyddi statudol.

8.99 Clywodd y Panel dystiolaeth fod y broses o ymdrin â thaliadau dileu swyddi yn anghyson. Gan ystyried yr arferion presennol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, casglodd y Panel y byddai taliad ychwanegol o 50 y cant yn briodol.

8.100 Mae'r Panel yn credu y dylid cyfrifo taliadau dileu swyddi i staff cymorth yr Aelodau ar sail y cynllun statudol, yn ogystal â hanner hynny eto. Felly, bydd gweithiwr sy'n 30 oed ac wedi gwasanaethu am 8 mlynedd yn cael cyflog 8 wythnos (eu cyflog wythnosol, gyda chyfyngiad ar yr uchafswm) ynghyd â 4 wythnos ychwanegol, sy'n golygu taliad dileu swydd o 12 wythnos. Mae hyn yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer taliadau dileu swyddi presennol staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, sef y lleiafswm statudol yn unig.

**Argymhelliad 69: Dylid cyfrifo taliadau dileu swyddi staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn unol â'r cynllun taliadau dileu swyddi statudol ynghyd â thaliad ychwanegol o 50 y cant.**

8.101 Mae'n rhaid i Aelodau'r Cynulliad ddilyn canllawiau Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cynulliad ynghylch dileu swyddi, a chydymffurfio â'r rheini er mwyn sicrhau bod yr arferion cyflogaeth cywir yn cael eu dilyn.

8.102 Bydd yn rhaid i Gomisiwn y Cynulliad gytuno ei bod yn rhesymol talu costau dileu swyddi.

**Argymhelliad 70: Dylai Comisiwn y Cynulliad fod yn fodlon bod ceisiadau a wneir am gostau dileu swyddi yn rhesymol, yn dibynnu ar y sefyllfa benodol dan sylw. Mae'n rhaid i'r Comisiwn gytuno bod modd cyfiawnhau dileu'r swyddi a bod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn, a hynny er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol.**

8.103 Mae nifer o Aelodau'r Cynulliad yn cyflogi staff ar y cyd, ac oherwydd hynny, pan fydd un Aelod neu ragor yn gadael ei swydd, gallai swyddi rhai o'r gweithwyr a oedd yn rhan o'r grŵp hwnnw o staff gael eu dileu. Os bydd hyn yn digwydd, dylai'r cyn-Aelodau a oedd yn cyflogi'r staff fod yr un mor gyfrifol â'i gilydd am y costau dileu swyddi. Bydd yr Aelodau Cynulliad sy'n parhau yn eu swyddi yn gorfod ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y staff sydd ar ôl.

8.104 O gofio nad oes gan yr Aelodau Cynulliad sy'n parhau yn eu swyddi unrhyw reolaeth dros y grŵp o staff sy'n chwalu pan fydd Aelodau eraill yn gadael eu swyddi, credwn y dylid gallu gwneud cais i Gomisiwn y Cynulliad i dalu'r cyfan neu rywfaint o'r costau dileu swyddi sy'n rhaid i'r Aelodau sy'n parhau yn eu swyddi eu hysgwyddo.

**Argymhelliad 71: Dylai fod gan Gomisiwn y Cynulliad yr awdurdod i dalu, o gronfa ganolog, y cyfan neu rywfaint o'r costau dileu swyddi sy'n rhesymol eu talu pan fydd grŵp o staff yn chwalu ar ôl i un Aelod Cynulliad neu ragor adael ei swydd.**

# Pennod 9: Hyfforddi a datblygu

## Rhagymadrodd

9.1 Er nad oedd briff y Panel Adolygu Annibynnol cyntaf yn cynnwys ymchwilio i drefniadau hyfforddiant Aelodau'r Cynulliad a'u staff, roedd gan y Panel hwn gylch gwaith ehangach. Daethom i'r casgliad yn fuan fod hyfforddi a datblygu'n elfen allweddol o'r cymorth sydd ar gael i Aelodau a'u gallu i gyflawni eu swyddi, a hynny oherwydd eu baich gwaith, materion capasiti ehangach (a drafodwyd ym **Mhennod 4**), ynghyd â chynnydd yn nisgwyliadau'r cyhoedd y dylent gynnig 'gwerth am arian'.

## Arfer presennol – hyfforddi a datblygu Aelodau'r Cynulliad

9.2 Mae cyllideb hyfforddi a datblygu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad i'w chael o fewn cyllideb hyfforddiant yr adran Adnoddau Dynol. Yn 2008-09, cyfanswm y gyllideb oedd £41,000 ar gyfer y 60 Aelod Cynulliad. Roedd hyn yn cyfateb i lai na £700 y flwyddyn i bob Aelod, ac yn llai nag 1 y cant o'r gyflogres, o gymharu â hyd at 5 y cant yn y gorau o'r sector preifat. Er gwaethaf y gyllideb gymharol fechan, dim ond £24,000 ohoni a wariwyd yn 2008-09 – gyda'r cyfan yn cael ei wario ar wersi dysgu Cymraeg i 11 o Aelodau'r Cynulliad. Ychydig o hyfforddiant a gafwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol hefyd, ar wahân i wersi Cymraeg a'r hyfforddiant cynefino a roddir i Aelodau ar ôl iddynt gael eu hethol am y tro cyntaf. Mae hyn yn ein synnu a'n pryderu.

## Arfer presennol mewn deddfwrfeydd eraill

9.3 Ychydig o dystiolaeth a gafwyd o raglenni hyfforddiant cryf i Aelodau mewn gwledydd eraill, ac nid oes yr un model y gallwn ei gynnig fel delfryd. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfle i ddatblygu'n wir sefydliad sy'n dysgu gan gynnig patrwm i eraill ei ddilyn o ran hyfforddi a datblygu'i staff.

9.4 Mae'r hyfforddiant a roddir i aelodau yn neddfwrfa Gorllewin Awstralia, a ddaeth i sylw'r Panel, yn cynnwys rhai o'r pynciau y byddem yn dymuno eu gweld yn cael eu cynnig i Aelodau'r Cynulliad. Mae memorandwm a anfonwyd at y Panel gan Glerc y Cyngor Deddfwriaethol yno yn nodi:

> "Mae'r diwrnod cyntaf yn canolbwyntio ar faterion fel cyflogau a lwfansau, swyddfeydd etholaethol yr Aelodau a staffio. Mae'r

diwrnod canlynol yn ymdrin â gweithdrefnau'r Tŷ ac mae'r diwrnod olaf yn ymdrin â gweithdrefnau'r pwyllgorau. Rydym wedi cael ceisiadau am hyfforddiant ychwanegol, yn enwedig ar fraint seneddol. Pwnc arall cyffredin yw codau ymddygiad, er nad oes gan ein Tŷ godau o'r fath, heblaw am y rhai sydd i'w cael yn Rheolau Sefydlog y Tŷ. Mae'n swyddfa pwyllgorau hefyd yn trefnu seminarau hyfforddiant i Aelodau a disgwyliwn y bydd rhain yn cael eu hehangu eleni. Y seminar olaf a drefnwyd ar gyfer un o'n pwyllgorau sefydlog oedd un ar dechnegau ymchwilio, a ddarparwyd gan asiantaeth allanol. Teimlodd yr Aelodau fod y seminar yn ddefnyddiol a chaiff ei chynnal eto eleni ar gyfer yr holl bwyllgorau sefydlog."

9.5 Yn Senedd Genedlaethol Awstralia, cynhelir sesiynau 'Briffio'r Tŷ' sy'n ymwneud ag amrywiaeth o bynciau, o gynnal dadleuon i fuddiannau'r Aeldoau a phroses y gyllideb, er y rhoddwyd gwybod i ni mai ychydig o Aelodau sy'n eu mynychu ac, yn aml, bod mwy o staff yno nag Aelodau. Mae Cynorthwywyr y Clercod hefyd yn cynnig gwasanaeth ymgynghorol galw heibio i Aelodau pan fydd y Tŷ yn eistedd.

9.6 Yn Seland Newydd, rhoddir peth hyfforddiant ffurfiol ar themâu fel y ffordd y mae pwyllgorau dethol yn gweithredu, cynnal Amser Cwestiynau, pasio Mesurau ac ati. Caiff hyn ei ddarparu gan y Gwasanaethau Seneddol, ac mae'n ychwanegol at yr hyfforddiant cynefino a drefnir ac a gynhelir gan Swyddfa'r Clercod. Trefnir unrhyw fentora neu sesiynau ysgol haf ar sail ad hoc gan yr Aelodau eu hunain ar y cyfan neu gan eu grwpiau pleidiau.

9.7 Un o nodweddion sefydliadau llwyddiannus yw ymrwymiad i hyfforddi a datblygu o'r brig. Ac, fel y dywedodd un Aelod Cynulliad wrth y Panel:

> "Mae rhai pobl ifanc dalentog iawn yn cyrraedd yma bron iawn yn syth o'r ysgol. Mae'n deg y dylent gael yr hyfforddiant y byddai eraill yn ei gael yn gymesur â datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'n rhan hanfodol o broffesiynau eraill, felly pam nad yw'n rhan o'r proffesiwn ni?"

9.8 Mae datganiadau cenhadaeth llawer o sefydliadau sector preifat yn cynnwys hyfforddi a datblygu fel elfennau allweddol, ac yn rhoi pwyslais ar ddatblygu a gwella parhaus, ac ar gynnig y cyfleoedd gorau i'w staff.

**Tystiolaeth**

9.9 Un agwedd ar hyfforddiant y cafwyd tystiolaeth bod bwlch sgiliau sylweddol yn bodoli oedd hyfforddiant rheoli staff a swyddfa i Aelodau'r Cynulliad nad oedd â phrofiad yn y maes. Gwnaed y sylwadau isod gan staff yr Aelodau:

> "Dylid darparu hyfforddiant gorfodol ar reoli staff mewn meysydd allweddol fel recriwtio, rheoli staff a chyflogau i Aelodau newydd. Dylid hefyd gynnig rhagor o hyfforddiant rheoli os yw'r Aelodau'n dymuno."

> "Credaf nad yw mwyafrif Aelodau'r Cynulliad erioed wedi rheoli pobl yn ffurfiol ac efallai y gellid helpu i wella eu dealltwriaeth o'r mater. Un diwrnod, bydd trychineb yn digwydd pan fydd rhywun, yn anfwriadol efallai, yn gwneud rhywbeth na ddylent."

> "Mae rhai ohonynt wedi gweithio ym myd busnes...ac yn gwybod sut i reoli staff, ond nid yw llawer ohonynt erioed wedi cyflogi staff ac ddim yn gwybod lle i ddechrau..."

9.10 Mae'r pwynt olaf yn tanlinellu'r ffaith fod Aelodau'r Cynulliad yn dod o gefndiroedd gwahanol iawn i'w gilydd, a bod ganddynt brofiadau a sgiliau gwahanol. Mae'r Panel yn cydnabod gwerth yr amrywiaethau hyn. Ond mae'n golygu hefyd, os nad oes system hyfforddiant gadarn wedi ei llunio sy'n caniatáu mynd i'r afael ag anghenion dysgu penodol, y bydd diffyg cysondeb a bylchau sgiliau o hyd, sy'n gallu effeithio ar allu (gweler **Pennod 4**) a materion eraill.

9.11 Mae'r meysydd a nodwyd gan Aelodau'r Cynulliad eu hunain yn cynnwys: 'craffu'; 'rheoli amser'; 'cynefino'; 'TG'; 'cyfraith Ewropeaidd', a 'hyfforddiant Adnoddau Dynol':

> "Mae craffu ar ddeddfwriaeth yn faes newydd i ni, ac rwy'n teimlo weithiau ein bod yn ymbalfalu ein ffordd drwyddi...."

> "Credaf fod materion ynghylch hyfforddiant ar graffu i Aelodau."

> "Eleni, mae gennym o bosibl 13 darn o ddeddfwriaeth i ymdrin â hwy. Felly, mae'n bwysig bod Aelodau'n sylweddoli bod craffu ar ddeddfwriaeth yn llawer pwysicach efallai, na chraffu ar bolisïau. Mae hynny'n golygu bod angen datblygu sgiliau newydd."

> "Rhaid cynnal democratiaeth. I mi, dyma'r elfen bwysicaf, a ... byddai peth hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn."

> “Chefais i ddim hyfforddiant Adnoddau Dynol o gwbl...”

> “Credaf fod ei angen ar rai [rheoli amser].”

> “Yn sicr, gallai’r Comisiwn gynnig mwy o hynny [hyfforddiant cynefino], ond credaf y dylai peth o hynny ddod gan y grwpiau pleidiau ac efallai bod ffyrdd y gall y Comisiwn rhoi cymorth i hynny.”

> “Credaf y gellid edrych ar hyfforddiant TG; gellid edrych ar rai materion Adnoddau Dynol; gellid edrych ar faterion cydraddoldeb, cyfathrebu...rheoli, safonau.”

9.12 Ymddengys mai ychydig o ddiddordeb, y tu allan i’r Cynulliad ei hun, sydd mewn hyfforddiant a datblygu fel agwedd ar y cymorth a roddir i Aelodau a’u staff. Dim ond un o’r ymatebion i’r ymgynghoriad cyhoeddus a gafwyd gan rywun nad oedd yn Aelod neu’n un o staff yr Aelodau a oedd â sylwadau am y mater hwn, ac roedd yn ategu’r dystiolaeth gan Aelodau eu hunain fod rhaglen gynefino’n bwysig:

> “O’r eiliad y cewch eich ethol yn Aelod Cynulliad, disgwylir i chi fod yn arbenigwr ar bopeth.”

9.13 Roedd tystiolaeth gan yr adran Adnoddau Dynol yn ategu barn Aelodau’r Cynulliad a’u staff nad oes strwythur ar gyfer y trefniadau hyfforddi a datblygu ar hyn o bryd a bod y raddfa y cânt eu darparu’n dibynnu’n fawr ar ddymuniadau’r unigolyn a’r grwpiau pleidiau.

**Proffiliau swyddi**

9.14 Fel y soniwyd ym **Mhennod 4**, nid oes gan Aelodau’r Cynulliad ddisgrifiad swydd. Mae hyn yn ei gwneud yn anos i nodi’r sgiliau a fyddai’n galluogi’r Aelodau i wneud eu swydd yn effeithiol. Clywsom dystiolaeth gan Aelodau’r Cynulliad nad oedd llunio disgrifiad swydd naill ai’n bosibl na’n briodol, o gofio natur unigryw ac unigolyddol eu swyddi. Fodd bynnag, credwn y gellid annog rheolwyr a chwipiau’r pleidiau i lunio ‘proffiliau swyddi’ ar gyfer Aelodau etholaethol a rhanbarthol, gan gydnabod gwahanol bwyslais y ddwy swydd.

| |
|---|
| **Argymhelliad 72: Dylid annog grwpiau’r pleidiau i lunio proffiliau swyddi ar gyfer eu Haelodau Cynulliad a’u defnyddio’n adeiladol er mwyn nodi bylchau sgiliau ac anghenion datblygu.** |

**Ymrwymiad y grwpiau pleidiau**

9.15 Ar wahân i hwyluso dod o hyd i fylchau mewn sgiliau ac, yn sgil hynny, anghenion hyfforddiant, gallai llunio proffiliau o'r fath fod yn ddefnyddiol i'r pleidiau wrth ddewis ymgeiswyr. Rhywbeth arall a allai fod yn ddefnyddiol i'r grwpiau pleidiau wrth ddod o hyd i anghenion hyfforddiant i Aelodau fyddai gofyn iddynt gynnal hunanasesiad o'u sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Gadawn yr awgrym hwn i'r grwpiau eu hunain ei ddatblygu, gan nad yw'r Panel am fod yn rhy gaeth. Fodd bynnag, credwn fod ymrwymiad cryf gan bob un o'r grwpiau pleidiau i hyfforddi a datblygu eu Haelodau yn allweddol bwysig. Felly, rydym yn argymell, ar ddiwedd pob blwyddyn, y dylai pob plaid gyhoeddi adroddiad byr (dylai dwy dudalen fod yn ddigon) yn amlinellu pa hyfforddiant a gafodd pa Aelod yn ystod y cyfnod.

**Argymhelliad 73: Dylai pob un o'r grwpiau pleidiau lunio adroddiad byr, unwaith y flwyddyn, yn rhoi crynodeb o gyflawniadau hyfforddiant ei Aelodau, a'i gyhoeddi ar wefan y Cynulliad.**

9.16 Er mwyn dangos ymrwymiad pellach o ran gwneud y Cynulliad yn ganolfan ragoriaeth, rydym yn argymell bod pob grŵp plaid yn penodi 'hyrwyddwr hyfforddiant' – sef, aelod o'r grŵp a fyddai'n gyfrifol, nid yn unig am lunio'r adroddiad, ond hefyd am sicrhau bod y rhaglen hyfforddiant yn esblygu dros amser er mwyn bodloni anghenion yr Aelodau.

**Argymhelliad 74: Dylai pob grŵp plaid benodi 'hyrwyddwr hyfforddiant' er mwyn rhoi cefnogaeth ac annog dysgu a datblygu parhaus ymysg yr Aelodau a'u staff.**

**Anghenion hyfforddiant – Aelodau'r Cynulliad**

9.17 Ar ôl i Aelodau gael eu hethol, byddai'n ddefnyddiol i grwpiau'r pleidiau ddefnyddio peth o'r gyllideb a ddyrannwyd iddynt er mwyn cyflogi dadansoddydd anghenion hyfforddiant proffesiynol er mwyn dod o hyd i fylchau mewn sgiliau neu wybodaeth y gellir eu hymdrin â hwy drwy hyfforddiant. Hyd yn oed heb broffil swydd, byddai'n hawdd dod o hyd i rai sgiliau neu wybodaeth gyffredinol y dylai Aelodau'r Cynulliad feddu arnynt er mwyn cyflawni eu swydd:

- datblygiadau deddfwriaeth/datblygu polisïau
- craffu ar ddeddfwriaeth ddrafft

- craffu ar wariant/polisi
- dyletswyddau etholaethol/rhanbarthol (gweler hefyd **Pennod 4**)

9.18 Hefyd, nododd y Panel rai sgiliau sylfaenol a meysydd gwybodaeth y teimlwn y mae angen i'r Aelodau eu datblygu, gan gynnwys:

- rheoli amser
- craffu/holi
- cyfathrebu/gwrando
- datrys problemau
- negodi
- ymgynghori
- rheoli newid
- creadigrwydd
- sgiliau TG
- rheoli staff a swyddfa (gan gynnwys iechyd a diogelwch, a chyfle cyfartal)
- sgiliau ymchwil hyd at lefel ôl-raddedigion
- cyfeillio/mentora/hyfforddi
- deall gwaith gweision sifil
- gwybodaeth am Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006
- gwaith achos a gwaith dilynol
- rheoli gohebiaeth
- gwybodaeth am rôl Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â deddfwriaeth

- gwybodaeth am y cod ymddygiad; llywodraethu; disgwyliadau ynghylch gwaith etholaethol

- gwybodaeth am fraint seneddol

- cyfathrebu â'r cyfryngau

- prosesau (sut mae pwyllgor effeithiol yn gwneud ei waith)

- craffu cyhoeddus

- gwybodaeth am lywodraeth leol, swyddogaethau ac arferion awdurdodau iechyd, gwaith cyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad

- darllen cyflym

9.19 Mae gan Aelodau, yr hen bennau a'r newydd-ddyfodiaid fel y'i gilydd, lefelau gwahanol o sgiliau, yn dibynnu ar eu cefndir a'r profiad. Fodd bynnag, ni ddylai'r un ohonynt orffwys ar ei rwyfau. Bydd yr ymarfer hunanasesiad y cyfeiriwyd ato uchod yn helpu i ganolbwyntio'r meddwl wrth i Aelodau a grwpiau'r pleidiau nodi eu hanghenion hyfforddiant.

9.20 Mae'r Panel yn annog y pencampwyr hyfforddiant a'r Aelodau eu hunain, fel y gwna rhai eisoes, i gymryd mantais ar y nifer o sefydliadau ac arbenigwyr rhagorol sydd ar gael a all eu helpu i wella eu sgiliau neu eu gwybodaeth dechnegol. Ymhlith y rhai y soniwyd amdanynt yn y dystiolaeth fel sefydliadau a allai gynnig cynlluniau da yn eu meysydd arbenigol oedd Cyngor ar Bopeth, a'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. Gallai darparwyr hyfforddiant eraill gynnwys: y Ganolfan ar Graffu Cyhoeddus; yr Ymddiriedolaeth Diwydiant a Seneddol; Cymru'r Gyfraith; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Swyddfa Archwilio Cymru; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth; yr Asiantaeth Gwella a Datblygu; y Sefydliad Materion Cymreig; Sefydliad Roffey Park; Coleg Rheoli Brooklands a sector y prifysgolion. Mae llawer eraill i'w cael hefyd.

**Ymrwymiad Aelodau'r Cynulliad**

9.21 Rydym wedi pwysleisio bod angen i grwpiau'r pleidiau ymrwymo i gael hyfforddiant, ond mae'r un mor bwysig cael yr ymrwymiad hwn gan yr Aelodau eu hunain. Er bod eithriadau nodedig, roedd rhai a oedd yn amheus ynghylch cael hyfforddiant ac yn pryderu y byddai'r ffaith eu bod yn achub ar gyfleoedd hyfforddi a datblygu'n cael ei ddefnyddio

mewn ffordd negyddol gan eu gwrthwynebwyr gwleidyddol i dynnu sylw at eu diffyg gallu. Nid yw'r Panel yn credu bod lle o gwbl i agwedd o'r fath mewn sefydliad democrataidd modern a blaengar:

> "Pe baech yn gorfodi pob Aelod i fynd ar gwrs hyfforddi, gan ddweud: 'Ar 30 Tachwedd, byddwn yn cynnal cwrs hyfforddi ar reoli adnoddau ariannol rhwng 9 a 5. Byddwch i gyd yn bresennol' – byddai reiat."

> "Nid ydych eisiau ymddangos fel eich bod yn cosbi Aelodau neu ymgeiswyr, neu'n peidio â'u cymell, yn fwy nag mewn unrhyw Senedd neu Gynulliad arall, nac ymddangos fel eich bod yn ein trin mewn ffordd fwy plentynnaidd."

9.22 Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn fwy na pharod i gael hyfforddiant:

> "Mae lle i roi rhagor o hyfforddiant bob amser. Nid wyf yn credu y gallwch roi gormod o hyfforddiant i neb."

9.23 Er hynny, ar ôl y cwrs cynefino gwreiddiol, mae'r dystiolaeth yn dangos mai prin iawn yw'r Aelodau sydd wedi cael hyfforddiant rheolaidd. Pan gawsant eu holi ynghylch hyn, dywedodd y rhan fwyaf mai prinder amser oedd y broblem:

> "Rwy'n credu y byddai hynny'n isel iawn ar restr flaenoriaethau Aelodau'r Cynulliad, o gofio bod ganddynt domen o waith i'w wneud a'i bod yn anodd iawn i rywun yn eu sefyllfa gyfaddef bod bylchau yn eu gwybodaeth."

9.24 Er bod y Panel yn cydnabod yr anawsterau, o gael ymrwymiad grwpiau'r pleidiau a'r Aelodau eu hunain, credwn nad yw'r problemau hyn yn anorchfygol. Credwn fod ymrwymo i ddysgu yn y fath fodd yn hanfodol er mwyn troi'r Cynulliad yn sefydliad sy'n manteisio i'r eithaf ar arbenigedd ei Aelodau ac yn datblygu hynny. Ar yr un pryd, deallwn yn llwyr pa mor brysur yw gwleidyddion etholedig a'r holl alw sydd am eu hamser. Y peth hawsaf i'w anwybyddu yw hyfforddiant pan fydd y dyddiadur yn brysur iawn. Felly, mae angen i'r ddarpariaeth roi gwir werth ychwanegol i allu gwleidyddion unigol a gwella effeithlonrwydd cyffredinol y Cynulliad. Mae angen i'r ddarpariaeth fod yn benodol iawn i'r proffesiwn, a lle mae hynny'n briodol, dylai fod yn hyblyg. Mae nifer o brifysgolion yn cynnig eu rhaglenni Meistr mewn modiwlau sydd â chredydau ac heb gredydau, a hynny ar ffurf datblygiad proffesiynol parhaus i bobl sy'n gweithio mewn swyddi uwch yn y llywodraeth, mewn seneddau ac mewn asiantaethau cyhoeddus eraill. Fel arfer, caiff rhaglenni o'r fath eu datblygu er mwyn i'r sefydliadau

sy'n cyflogi'r bobl elwa hefyd, drwy gyfrwng cyrsiau dysgu ar lefel uwch sy'n ymateb i flaenoriaethau a phroblemau penodol y sefydliad dan sylw. Mae lle i fod yn hyblyg wrth ddarparu hyfforddiant, fel cyrsiau y gellir eu cynnig mewn cyfnodau byr, cyrsiau ar-lein, neu gyrsiau dysgu o bell.

9.25 Canfu'r Panel fod tri math gwahanol o hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Cynulliad y gellir eu datblygu ymhellach:

- hyfforddi sgiliau generig mewn meysydd fel rheoli amser, cyfathrebu a gwrando, TGCh, rheoli swyddfa a staff, gwasanaeth i gwsmeriaid, cyfathrebu â'r cyfryngau, eiriolaeth, cwnsela a darllen cyflym (gallai hyn ddatblygu'n organig pe bai grwpiau'r pleidiau yn derbyn ac yn defnyddio matrics sgiliau cyffredinol)

- sgiliau sy'n berthnasol yn benodol i'r proffesiwn dan sylw, megis dulliau ymchwil pellach, craffu cyllidebol, ariannol a deddfwriaethol, archwilio sylfaenol, prosesau deddfwriaethol a pholisi, dadansoddi deddfwriaeth ddrafft, tueddiadau newydd mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ac ati

- lefel uwch o ddatblygu proffesiynol, gyda chymwysterau cysylltiedig ar lefelau uwchraddedig, diploma a meistr

9.26 Teimlai'r Panel yn gryf na ddylai fod llawer o hyblygrwydd o ran hyfforddiant cynefino. Dylai fod yn gynhwysfawr ac yn gyson. Credwn y dylid seilio unrhyw hyfforddiant o'r fath ar roi gwybodaeth am rwymedigaethau cyfreithiol Aelodau fel cyflogwyr, y Cod Ymddygiad, prosesau llywodraethu, a phynciau fel y disgwyliadau wrth gyflawni gwaith yn yr etholaeth. Ni ddylai Aelodau profiadol betruso cyn cymryd rhan ychwaith. Gan fod hynny mor bwysig, argymhellwn y dylai wythnos gynefino fod yn orfodol yn ystod y mis cyntaf ar ôl etholiad Cynulliad.

**Argymhelliad 75✳: Yn y mis cyntaf ar ôl cael eu hethol i'w swyddi, dylai pob Aelod Cynulliad newydd fynd ar gwrs wythnos i gael hyfforddiant cynefino.**

9.27 Dim ond dechrau cylch hyfforddi a datblygu parhaus fydd yr hyfforddiant cynefino, a bydd y cylch hwnnw'n para drwy gydol y cyfnod o bedair blynedd yn y swydd. Bydd disgwyl i'r Aelodau wneud popeth o fewn eu gallu i fanteisio ar y cyfleoedd datblygu hyn a dylent drefnu eu dyddiaduron yn unol â hynny. Dylai grwpiau'r pleidiau gofio hyn wrth drefnu cyfarfodydd wythnosol eu pleidiau.

**Argymhelliad 76: Dylai grwpiau'r pleidiau gytuno i neilltuo un prynhawn bob mis ar gyfer hyfforddiant (er enghraifft, ar brynhawn dydd Llun neu brynhawn dydd Iau) a sicrhau bod pob Aelod Cynulliad yn bresennol yn y sesiynau ar feysydd allweddol, y meysydd a ddaeth i'r amlwg ar ôl dadansoddi'r anghenion hyfforddi, a'r meysydd a bennwyd gan yr 'hyrwyddwr hyfforddi' a thrwy'r broses hunanasesu.**

**Argymhelliad 77: Dylai'r Comisiwn gyhoeddi gwybodaeth a data ar ei wefan am y cyfleoedd hyfforddi a datblygu y bydd yr Aelodau unigol wedi manteisio arnynt, ynghyd â chyhoeddi hynny yn y Pwyllgorau. Bydd hynny'n rhoi gwell gwybodaeth i'r etholwyr am yr Aelodau Cynulliad a etholwyd ganddynt.**

**Yr arfer presennol – hyfforddi staff Aelodau'r Cynulliad**

9.28 Ar hyn o bryd, caiff costau hyfforddi staff eu talu o lwfans cyflogau'r staff. Mae swm o £5,801 ar gael i bob Aelod ar gyfer hyn, ond mae'r gyllideb honno hefyd yn cael ei defnyddio i dalu am eitemau eraill fel taliadau goramser, taliadau bonws a rhywfaint o gostau teithio staff. Ym mlwyddyn ariannol 2008-09, hyfforddiant iaith Gymraeg oedd y prif fath o hyfforddiant a roddwyd, gyda 26 aelod o staff cymorth yn cymryd rhan.

9.29 Fodd bynnag, mae staff yr Aelodau hefyd yn cael hyfforddiant gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sy'n cynnal seminarau rheolaidd ar y broses seneddol. Nid yw Aelodau'r Cynulliad yn gorfod talu am gost yr hyfforddiant hwn o'u cyllidebau.

9.30 Yn 2008-09, bu nifer o staff ar sesiynau 'blasu' byr Iaith Arwyddion Prydain. Talwyd y gost o gyllideb hyfforddi corfforaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

9.31 Mae gan Aelodau'r Cynulliad a'u staff systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a byddant yn cael hyfforddiant i'w defnyddio, gan gynnwys ymweliadau gan y tîm TGCh i swyddfeydd yn yr etholaethau. Os bydd angen hynny, rhoddir hyfforddiant un-i-un. Trafodir datblygiadau mewn TGCh a'r cymorth a'r hyfforddiant a roddir ar wahân ym **Mhennod 10** yr adroddiad hwn.

9.32 Ynghyd â'r hyfforddiant a nodir uchod, bydd Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau yn rhoi cyngor, pan ofynnir amdano, ar faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys hyfforddiant. Bydd staff y tîm hwn yn ymweld â swyddfeydd yn yr etholaethau hefyd.

9.33 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod lefel yr hyfforddiant a roddir i'r staff yn dibynnu'n fawr ar yr Aelod ac agweddau'r Aelod hwnnw tuag at fanteision datblygu'r tîm. Mae'n dibynnu hefyd ar yr aelod o staff ei hun ac ar yr arian sydd ar gael yn y gyllideb.

> "Rwy'n gofyn i'r staff weithio gyda'r rheolwr swyddfa er mwyn canfod eu hanghenion hyfforddi. Byddwn yn ceisio darparu ar gyfer hynny cystal ag y gallwn."
>
> "Rwyf wedi gofyn i fy staff nodi pa hyfforddiant a fyddai'n addas iddynt yn eu barn hwy, ac yna byddaf yn edrych ar beth y gallwn ei fforddio..."
>
> "Ychydig yn unig o hyfforddiant cynefino a gynigir i aelodau newydd o Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad cyn iddynt ddechrau yn eu swyddi. Mae'r hyfforddiant anffurfiol yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol swyddfeydd, a thameidiog iawn yw'r hyfforddiant swyddogol."
>
> "Os wyf wedi teimlo bod angen hyfforddiant arnaf, rwyf wedi'i gael ac wedi cael fy ad-dalu am hynny".

**Anghenion hyfforddi – cyflogwyr**

9.34 Bydd anghenion hyfforddiant staff cymorth yn amrywio yn dibynnu ar eu swyddi. Ceir manylion am y swyddi hyn ym **Mhennod 8.** Gan y bydd gan yr holl staff cymorth ddisgrifiadau swyddi, ni ddylai fod yn anodd i bob Aelod ganfod beth yw anghenion datblygu eu staff, a gall yr hyrwyddwr hyfforddi eu helpu i wneud hynny. Bydd rhai o'r anghenion hynny'n adlewyrchu anghenion hyfforddi'r Aelodau eu hunain.

**Argymhelliad 78: Ynghyd â chael hyfforddiant a ddarperir gan grŵp y blaid ac unrhyw hyfforddiant arbenigol angenrheidiol, dylai staff Aelodau'r Cynulliad allu manteisio ar unrhyw hyfforddiant perthnasol sydd ar gael ar hyn o bryd i staff y Cynulliad Cenedlaethol.**

**Llawlyfr y staff**

9.35 Mae'r Panel yn credu ei bod yn bwysig bod Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn gwybod pa hyfforddiant sydd ar gael a sut i wneud defnydd ohono. Bydd y wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn Llawlyfr y Staff (gweler **Atodiad 12**) y cyfeirir ato ym **Mhennod 8.** Argymhellwn fod pob aelod o staff yn cael copi caled o'r llawlyfr pan fyddant yn ymuno â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Argymhellwn y dylid rhoi copi i'r

Aelodau hefyd. Bydd y llawlyfr ar gael mewn fformat electronig yn ogystal.

**Y gyllideb**

9.36 Os bydd arian ar ôl yng nghyllideb y staff ar ddiwedd y flwyddyn, sef y gyllideb a ddefnyddir i dalu am hyfforddiant, mae'r Panel yn ymwybodol ei bod yn arfer gan rai Aelodau i ddefnyddio'r arian hwnnw er mwyn rhoi taliadau bonws i'w staff. Gall hyn beri anniddigrwydd, gan mai'r Aelod Cynulliad sy'n penderfynu a fydd y taliadau hyn yn cael eu gwneud ai peidio. Gall olygu hefyd na fydd y staff yn awyddus i ofyn am hyfforddiant. Felly, rydym yn argymell bod y gyllideb ar gyfer hyfforddi staff yn cael ei phennu ar wahân i'r gyllideb ar gyfer costau staff, a dylid ei neilltuo'n gyfan gwbl ar gyfer hyfforddi.

**Argymhelliad 79: Dylid talu am hyfforddiant i'r staff cymorth o gyllideb hyfforddi Aelodau'r Cynulliad, a dylai honno gael ei rheoli'n ganolog.**

9.37 Nid yw'r Panel yn credu bod y gyllideb hyfforddiant bresennol yn ddigonol er mwyn darparu'r hyfforddiant penodol o ansawdd uchel sy'n angenrheidiol. Credwn y dylid pennu cyllideb sy'n dilyn arferion gorau'r sector preifat a'i neilltuo'n gyfan gwbl ar gyfer hyfforddi a datblygu Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r Panel yn argymell y dylid cynyddu'r gyllideb hyfforddi ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn sylweddol i tua £200,000 bob blwyddyn, ond gyda £350,000 ym mlwyddyn gyntaf y Cynulliad nesaf (pan fydd y costau'n debygol o fod yn uwch). Er bod hyn yn gynnydd o bum gwaith, mewn gwirionedd, dim ond £1,000 y person y flwyddyn ydyw, a chredwn y gellid canfod yr arian drwy wneud arbedion mewn mannau eraill.

**Argymhelliad 80✳: Dylid cynyddu cyllideb hyfforddi Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn sylweddol, a'i phennu ar gyfer pob cyfnod o bedair blynedd.**

**Argymhelliad 81: Dylai'r gyllideb hyfforddi fod yn uwch yn y flwyddyn gyntaf gan mai dyna pryd y bydd angen y mwyaf o hyfforddiant ar Aelodau newydd y Cynulliad a'u staff. Argymhellwn gyfanswm o £350,000 yn y flwyddyn gyntaf, a £200,000 ym mhob un o'r tair blynedd ddilynol.**

9.38 Mae'r Panel yn cydnabod y bydd grwpiau'r pleidiau, ar ôl llunio'r 'proffiliau swyddi' y cyfeirir atynt yn **Mhennod 4** ac yn 9.14 uchod, yn awyddus i fod yn rhan o'r broses o benderfynu ar y math o hyfforddiant a ddarperir. Rydym yn cydnabod y dylai rhywfaint o hyfforddiant gael ei ddarparu'n ganolog, yn enwedig i staff cymorth,

a'i bod yn well i fathau eraill o gyfleoedd datblygu gael eu darparu gan grwpiau'r pleidiau. Fodd bynnag, er mwyn cael system wedi'i strwythuro, ac i sicrhau bod yr holl gyfleoedd hyfforddi a datblygu a ariennir o'r gyllideb hon o ansawdd uchel, argymhellwn fod y gyllideb hon yn cael ei rheoli'n ganolog gan yr adran Adnoddau Dynol. Dylai grwpiau'r pleidiau orfod gwneud cais am arian os ydynt am gymryd unrhyw gamau hyfforddi neu ddatblygu eu hunain.

**Argymhelliad 82: Dylai Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau sefydlu system lle bydd grwpiau'r pleidiau'n gwneud cais am arian o'r gyllideb hyfforddi, er mwyn darparu hyfforddiant penodol i Aelodau'r Cynulliad a'u staff.**

## Casgliad

9.39 Mae'r Panel yn credu y dylid buddsoddi mewn hyfforddiant o ansawdd uchel er mwyn sicrhau bod modd i'n Haelodau etholedig ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Cymru. Credwn y byddai hyfforddiant perthnasol o'r radd flaenaf yn helpu i fynd i'r afael â rhywfaint o'r materion sy'n ymwneud â chapasiti strategol a drafodwyd ym **Mhennod 4**. Bydd hynny hefyd yn creu egni ac yn meithrin rhagoriaeth yn y broses lywodraethu. At hynny, byddai darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu da, ynghyd â'r 'gwerth am arian' y mae'r cyhoedd am ei weld, yn galluogi pobl i ddatblygu'n bersonol a gwella'u sgiliau, eu portffolios a'u cymwysterau. Byddai hynny'n cyfrannu at ba mor effeithiol yw'r Cynulliad drwyddo draw.

## Pennod 10: Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

### Rhagymadrodd

10.1 Caiff Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ei defnyddio'n helaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu offer TGCh ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn eu swyddfa ym Mae Caerdydd, eu swyddfa yn yr etholaeth neu eu swyddfa ranbarthol a'u cartref. Ceir rhestr o'r offer a ddarperir yn ddiweddarach yn y bennod hon.

10.2 Mae offer TGCh hefyd wedi'u gosod yn Siambr y Senedd ac fe'u defnyddir gan Aelodau yn ystod y Cyfarfod Llawn i ddarllen gwybodaeth, negeseuon e-bost a'r rhyngrwyd; a hefyd i gyfathrebu â'u staff, swyddogion y Cynulliad a'i gilydd. Caniateir i'r Aelodau ddefnyddio gliniaduron yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau, gyda chaniatâd y Cadeirydd. Mae technoleg diwifr wedi cael ei osod yn y Senedd i hwyluso hyn.

10.3 Mae'r Panel yn cymeradwyo'r defnydd cyffredinol o TGCh ym mhob rhan o'r Cynulliad i hwyluso mynediad at wybodaeth, defnyddio amser yn effeithiol ac arferion gweithio cynaliadwy. Er enghraifft, caiff yr holl bapurau ar gyfer y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau eu dosbarthu'n electronig.

10.4 Ers mis Mai 2004, mae Merlin Alliance (consortiwm TGCh preifat) wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Cynulliad i ddarparu a rhoi cymorth gyda'r gweithrediad TGCh.

10.5 Comisiwn y Cynulliad sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyfleusterau TGCh yn cwrdd â gofynion Aelodau'r Cynulliad ac am fonitro'r defnydd ohonynt. Rhoddir cefnogaeth a chyngor i'r Comisiwn yn y swyddogaeth hon gan ei dîm TGCh ac arbenigwyr o fewn Merlin. Mae'r tîm TGCh hefyd yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad. Caiff arweiniad cynhwysfawr i ddefnyddwyr ei ddarparu ar gyfer yr holl Aelodau, fel rhan o'u pecyn cynefino.

10.6 Darperir TGCh ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth er mwyn rhoi cymorth iddynt yn eu gwaith. Fel gyda holl wasanaethau eraill y Cynulliad, mae'n ddyletswydd ar yr Aelodau i sicrhau eu bod hwy a'u staff yn defnyddio'r cyfleusterau TGCh yn briodol. Yr Aelodau sy'n gyfrifol am y defnydd o'r holl galedwedd a meddalwedd TGCh gan eu staff ac fe'u cynghorir ar hyn o bryd i gynnwys datganiad ar y defnydd priodol o systemau cyfrifiadurol yn eu contractau ar gyfer staff.

10.7 Er mwyn diogelu hygrededd y rhwydwaith cyfrifiadurol a gwasanaethau TGCh eraill, mae gan yr Aelodau gyfrifoldeb am sicrhau eu bod hwy a'u staff yn cadw at y Cod ar gyfer Defnyddio Cyfleusterau TGCh y Cynulliad.

10.8 Cred y Panel y dylai fod yn orfodol i Aelodau a'u cyflogeion lofnodi'r Cod hwn cyn defnyddio offer TGCh. Yn ddelfrydol dylai hyn fod yn rhan o'r broses sefydlu.

**Argymhelliad 83: Dylai fod yn orfodol i Aelodau'r Cynulliad a'u cyflogeion lofnodi'r Cod TGCh cyn defnyddio offer TGCh. Yn ddelfrydol dylai hyn fod yn rhan o'r broses sefydlu.**

10.9 Roedd y Panel yn pryderu y gallai gwirfoddolwyr sy'n gweithio mewn swyddfeydd yn yr etholaethau neu swyddfeydd rhanbarthol ddefnyddio systemau cyfrifiadurol y Cynulliad. Eto, Aelodau'r Cynulliad sy'n gyfrifol am sicrhau bod y codau TGCh a chyfrinachedd priodol yn cael eu llofnodi a'u dilyn.

**Monitro**

10.10 Caiff yr holl wybodaeth gyfathrebu a storio a'r holl wybodaeth a gaiff ei hanfon, ei derbyn, ei chreu a'i chynnwys o fewn systemau'r Cynulliad eu hystyried yn breifat ond gellir ei gwirio'n unol â'r gyfraith neu am y rhesymau a nodir isod:

- er mwyn helpu i gydymffurfio ag arferion rheoliadol neu hunan-reoliadol
- er mwyn canfod ffeithiau a diogelu buddiannau'r Cynulliad ac unigolion
- er mwyn atal defnydd heb ei awdurdodi o system telathrebu neu system TGCh gorfforaethol y Cynulliad
- er mwyn atal cyfryngau a firysau amhriodol/tramgwyddus rhag cyrraedd y gweithle
- er mwyn anfon negeseuon e-bost ymlaen i'r man cywir
- er mwyn cynorthwyo i ymchwilio i drosedd

- er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r Cynulliad o ran defnyddio gwybodaeth a chyfrinachedd o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

**Ffeithiau a ffigyrau**

10.11 Dyrennir offer TGCh i aelodau a grwpiau'r pleidiau ar gais fel y disgrifir isod. Mae gan bob Aelod Cynulliad hawl i'r canlynol:

- cyswllt band eang o'i swyddfa yn yr etholaeth
- cyswllt band eang o'i gartref
- un gliniadur
- pum cyfrifiadur personol a ddyrennir i swyddfeydd yn y Cynulliad ac/neu swyddfeydd yn yr etholaeth
- un cyfrifiadur personol yn y Senedd (Siambr)
- un argraffydd laser yn swyddfeydd y Cynulliad ac un yn y swyddfa yn yr etholaeth
- un argraffydd/sganiwr/peiriant ffacs aml-swyddogaeth yn y swyddfa yn y Cynulliad ac un yn y swyddfa yn yr etholaeth
- un ddyfais cyfathrebu symudol (BlackBerry ar hyn o bryd)

10.12 Mae gan grŵp plaid sydd â thri neu fwy o Aelodau Cynulliad nas cynrychiolir gan Aelod yng Nghabinet y Cynulliad hawl i'r nifer canlynol o gyfrifiaduron yn ôl maint grŵp y blaid:

**Tabl 10.1: Cyfrifiaduron personol a ddyrennir yn ôl maint y grŵp**

| **Maint y Grŵp** | **3-10 Aelod** | **11-15 Aelod** | **16-20 Aelod** | **21-25 Aelod** | **26-30 Aelod** | **31+ Aelod** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifiaduron personol** | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |

10.13 Mae gan grŵp plaid sydd â mwy na dau Aelod Cynulliad ac a gynrychiolir gan Aelod yng Nghabinet y Cynulliad hawl i chwe chyfrifiadur personol.

10.14 Mae gan grŵp pob plaid hawl hefyd i'r canlynol:

- un argraffydd A3 niferoedd-uchel du a gwyn yn y swyddfa yn y Cynulliad
- un argraffydd laser yn y swyddfa yn y Cynulliad
- un argraffydd/sganiwr/peiriant ffacs aml-swyddogaeth yn y swyddfa yn y Cynulliad ac un yn y swyddfa yn yr etholaeth

10.15 Caiff uchafswm costau blynyddol pob Aelod eu nodi isod yn seiliedig ar lefelau staffio ym mis Mehefin 2009. Dylid nodi nad yw pob Aelod yn defnyddio'i ddyraniad llawn. Mae'r costau'n cynnwys swm am ddarparu gwasanaeth yn ogystal â chost yr offer. Hefyd, mae'r costau band eang yn cynnwys elfen o gymorth a rheoli gan gyflenwyr trydydd-parti a'r contract TGCh.

**Tabl 10.2 Uchafswm costau TGCh blynyddol pob Aelod Cynulliad**

| **Offer** | **Costau** |
|---|---|
| Dau gyswllt band eang (fel arfer yng nghartref yr Aelod a'r swyddfa yn yr etholaeth, ond caniateir hyblygrwydd) | £5,540 |
| Un gliniadur (naill ai'r model safonol neu'r model ysgafn) | £810 |
| Pum cyfrifiadur personol, i'w dyrannu i'r swyddfeydd yn y Cynulliad ac/neu'r swyddfeydd yn yr etholaeth | £2,800 |
| Un cyfrifiadur personol yn y Senedd (Siambr) | £550 |
| Un argraffydd laser yn y swyddfa yn y Cynulliad | £270 |
| Un argraffydd laser yn y swyddfa yn yr etholaeth | £270 |
| Un argraffydd/sganiwr/peiriant ffacs aml-swyddogaeth yn y swyddfa yn y Cynulliad | £130 |
| Un argraffydd/sganiwr/peiriant ffacs aml-swyddogaeth yn y swyddfa yn yr etholaeth | £130 |
| Un ddyfais cyfathrebu symudol, sef BlackBerry ar hyn o bryd | £600 |
| **Cyfanswm** | **£11,100** |

10.16 Felly uchafswm y dyraniad blynyddol ar gyfer yr offer TGCh a ddarperir yw £11,100 ar gyfer pob Aelod, sy'n rhoi cost flynyddol ar y cyfan o £666,000 – gan gymryd bod pob Aelod yn defnyddio'i ddyraniad yn llawn.

10.17 Mae'r £600 ar gyfer y ddyfais BlackBerry'n cynnwys dyraniad o £50 y mis, sy'n cynnwys tua £40 ar gyfer cymorth technegol gan y darparwr gwasanaeth a £10 i dalu am unrhyw gostau gormodol mewn perthynas â lawrlwytho data neu alwadau busnes. Os yw'r bil misol yn uwch na £50, caiff y tâl ychwanegol ei drosglwyddo i Dîm Cymorth Busnes yr

Aelodau i'w brosesu, a chodir am hwn yn erbyn y lwfans costau swyddfa.

10.18 Gall Aelodau hefyd hawlio cost prynu ffôn symudol a chostau cysylltiedig y galwadau gan ddefnyddio'r lwfans costau swyddfa. Cafwyd ar ddeall nad yw'n beth anghyffredin i Aelodau brynu nifer o ffonau symudol fel hyn a'u rhoi i'w staff cymorth. Ymddiriedir yn yr Aelodau i hawlio am alwadau busnes yn unig. Nododd y Panel fod nifer o Aelodau wedi cyflwyno hawliadau am filiau ffôn symudol a oedd dros £2,000 y flwyddyn.

10.19 Mae'r Panel yn fodlon ar yr offer TGCh a ddarperir ond yn credu bod y trefniadau cyfredol ar gyfer prynu a defnyddio ffonau symudol yn rhy llac. Nid yw'r Panel wedi'i argyhoeddi bod angen darparu ffonau symudol ar gyfer staff cymorth. Yn ogystal â'r cyfrifiaduron ac offer TGCh a ddarperir yn y swyddfa ym Mae Caerdydd a'r swyddfa yn yr etholaeth, dylai pob aelod ddal i gael un ddyfais BlackBerry, un ffôn symudol, un gliniadur, un llinell dir a chysylltiad â band eang.

10.20 Cred y Panel bod yr offer TGCh a ddarperir yn briodol ac nid yw'n credu y dylid bod angen prynu offer TGCh ychwanegol o'r lwfans costau swyddfa.

**Argymhelliad 84: Yn ogystal â'r cyfrifiaduron a'r offer TGCh arall a ddarperir yn y swyddfa ym Mae Caerdydd a'r swyddfa yn yr etholaeth, dylai pob Aelod Cynulliad barhau i gael un ddyfais BlackBerry (neu ddyfais debyg), un ffôn symudol, un gliniadur, un llinell dir a chysylltiad â band eang.**

10.21 Er mwyn hwyluso'r broses o hawlio ad-daliad am gost galwadau ffôn symudol, cred y Panel y dylai Aelodau gael dewis un o ddau opsiwn; yr opsiwn cyntaf fyddai cyflwyno'r bil gyda galwadau preifat wedi'u dileu; yr ail ddewis fyddai cyfrannu cyfradd unffurf o 50 y cant o gyfanswm y bil mewn perthynas â galwadau personol. Er ei bod yn anodd rhagweld, cred y Panel bod y dull hwn yn adlewyrchiad teg o'r cydbwysedd rhwng defnydd personol a defnydd busnes. Byddai disgwyl i Aelodau ddewis un o'r opsiynau hyn ar ddechrau pob Cynulliad.

**Argymhelliad 85: Dylai Aelodau'r Cynulliad fod yn gymwys i hawlio ad-daliad am gost galwadau busnes a wnaed ar eu ffôn symudol. Dylent gael dewis naill ai i gyflwyno bil eitemedig neu gyfrannu cyfradd unffurf o 50 y cant tuag at gyfanswm y bil. Byddai disgwyl i Aelodau ddewis un o'r opsiynau hyn ar ddechrau pob Cynulliad.**

10.22 Mae'r Panel yn deall bod yr holl offer TGCh a roddir i Aelodau eisoes yn cael eu cofnodi ar gofrestr asedau ac mae'n canmol y polisi hwn. Eiddo'r Cynulliad Cenedlaethol yw'r offer hyn a dylid eu dychwelyd pan fo Aelod yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod Cynulliad.

**Argymhelliad 86: Dylai'r holl offer TGCh a roddir i Aelodau'r Cynulliad barhau i gael eu cofnodi ar gofrestr asedau a dylid eu dychwelyd i Gomisiwn y Cynulliad pan fo Aelod yn gadael.**

**Hyfforddiant**

10.23 Crëwyd argraff ar y Panel gan ymrwymiad y tîm TGCh i hyfforddiant. Mae hyfforddiant a chymorth o ansawdd uchel sy'n ymateb i anghenion yr Aelodau, eu staff cymorth a swyddogion y Cynulliad ar gael ar fyr rybudd. Cred y Panel bod yr hyfforddiant a ddarperir gan yr adran TGCh yn fodel y dylid ei fabwysiadu mewn perthynas â hyfforddiant ar gyfer Aelodau a'u staff ar faterion eraill. Rhoddir ystyriaeth i faterion sy'n ymwneud â hyfforddiant a datblygiad ym **Mhennod 9**.

10.24 Rhoddir enghraifft isod o'r math o hyfforddiant a ddarperir.

10.25 Mae hyfforddwr IT Skills Academy (ITSA) ar gael yn y swyddfa ym Mae Caerdydd (Tŷ Hywel) bob dydd Iau a gall ddarparu hyfforddiant naill ai yn yr Ystafell Hyfforddiant TG (Ystafell A1/01) neu yn swyddfa'r Aelod. Gellir darparu hyfforddiant personol neu mewn grŵp o hyd at bum aelod o staff arall.

10.26 Mae hyfforddwr ar gael bob dydd Iau; gyda'r dydd Iau cyntaf yn bennaf yn cael ei neilltuo ar gyfer Hyfforddiant Sefydlu i Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys hanfodion megis mewngofnodi yn y parth cywir, cyfrineiriau, rheoli ffeiliau ac ati. Argymhellir hyn yn fawr i ddechreuwyr newydd gan ei fod yn rhoi cipolwg ar sut i ddefnyddio systemau TG y Cynulliad.

10.27 Caiff dydd Mawrth cyntaf pob mis ei neilltuo ar gyfer hyfforddiant sefydlu i Staff y Cynulliad sy'n cynnwys yr un meysydd ond ar gyfer parth gwahanol.

10.28 Dim ond yn y swyddfa ym Mae Caerdydd y darperir yr hyfforddiant hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gellir trefnu hyfforddiant mewn swyddfeydd yn yr etholaethau neu swyddfeydd rhanbarthol neu leoliadau eraill addas.

10.29 Darperir hyfforddiant ar feddalwedd penodol, megis:

- **Microsoft Excel – Arbed Amser**
  Hyfforddiant sy'n addas ar gyfer y rhai sydd am ddysgu sut i ddefnyddio technegau a fydd yn cyflymu gweithrediadau ailadroddus

- **Microsoft Excel – Didoli a Hidlo Data**
  Hyfforddiant sy'n addas ar gyfer y rhai sydd â swmp sylweddol o wybodaeth yn eu taenlenni ac y mae angen iddynt gael ystadegau ohonynt

- **Microsoft Access – Dylunio Cronfa Ddata**
  Mae'r hyfforddiant hwn yn addas ar gyfer y rhai sy'n gyfarwydd ag Access a chronfeydd data ond sydd am ddysgu am y damcaniaethau, y canllawiau a'r egwyddorion dan sylw

- **Microsoft Project – Trosolwg**
  Hyfforddiant sy'n addas ar gyfer y rhai sy'n debygol o fod yn defnyddio Microsoft Project fel arf i reoli prosiectau

**Prosiect 'i-Change'**

10.30 Dywedwyd wrth y Panel am gynlluniau i wella'r modd y mae Comisiwn y Cynulliad yn cyflenwi gwasanaethau i Aelodau, staff ac, yn fwyaf pwysig, i'r cyhoedd. Proses ymgynghori oedd 'i-Change', a oedd yn cynnwys Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, ynghylch gwelliannau arfaethedig i galedwedd a meddalwedd TGCh y Cynulliad. Arweiniodd hyn at y Rhaglen Newid a fydd yn galluogi'r Cynulliad i gyfathrebu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd, lledaenu gwybodaeth a gwrando ar yr hyn y mae pobl yn disgwyl i'r Cynulliad Cenedlaethol ei wneud drostynt a sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni.

10.31 Cwmpas y Rhaglen Newid yw cynnig trosolwg rheoli ar gyfer pob prosiect sy'n cwrdd ag un neu fwy o'r meini prawf canlynol:

- prosiectau sydd â chostau sylweddol
- prosiectau sy'n effeithio ar fwy nag un gyfarwyddiaeth
- prosiectau sy'n cynnwys Aelod Cynulliad neu'r cyhoedd
- prosiectau sydd â manteision busnes diffiniedig

10.32 Bydd y Rhaglen Newid yn sefydlu, ac yn rheoli i ddechrau, fframwaith cyffredin ar gyfer trefnu, cyflawni a chofnodi newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithio.

10.33 Dywedwyd wrth y Panel am ddau brosiect TGCh penodol sy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd o fewn y Rhaglen Newid. Bydd y prosiect cyntaf yn darparu meddalwedd gwell ar gyfer Aelodau a'u staff, yn enwedig yn y swyddfeydd yn yr etholaethau a'r swyddfeydd rhanbarthol, i wella'r modd y rheolir ac y gweinyddir gwaith achos. Mantais hyn yw y bydd yn darparu system gyson ar gyfer yr holl Aelodau, o'i chymharu â'r trefniadau ad hoc sydd wedi'u mabwysiadu ar hyn o bryd gan y prif grwpiau gwleidyddol. Dros amser, bydd yn cynnig ail fantais, sef darparu cronfa ddata o waith achos, i hwyluso gwaith ymchwil a gwelliannau pellach, gan hefyd barchu cyfrinachedd.

10.34 Mae'r ail brosiect yn ymwneud â newid sylfaenol i systemau TGCh fel bod Aelodau, staff cymorth a swyddogion y Cynulliad i gyd ar yr un rhwydwaith cyfathrebu. Ar hyn o bryd, caiff yr holl rwydweithiau eu gweinyddu o dan gontract Siemens, a reolir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

10.35 Bydd angen buddsoddiad ar gyfer y ddau brosiect hyn (nid yw'r union gostau wedi'u pennu eto) ond mae'r Panel yn croesawu'r gwelliannau hyn sydd ar y gweill a chyn belled ag y gellir dangos eu bod yn gost-effeithiol, y gobaith yw y gellir canfod yr adnoddau angenrheidiol.

## Pennod 11: Teithio

### Rhagymadrodd

11.1 Ceir canllawiau ar deithiau arferol Aelodau'r Cynulliad o fewn Cymru eu nodi yn Adran 4 o Benderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009 yn **Atodiad 1.**

11.2 Ar ben hynny, gall Aelod Cynulliad deithio i fannau eraill yn y Deyrnas Unedig ar draul y cyhoedd, ar yr amod bod y daith yn ymwneud â busnes y Cynulliad neu fusnes yr etholaeth. Gelwir hyn yn deithio estynedig a nodir y trefniadau yn Adran 5 o Benderfyniad 2009.

11.3 Caniateir i Aelod hawlio am gostau 12 taith unffordd bob blwyddyn ar gyfer aelodau'r teulu; a diffinnir hyn fel partner neu blentyn o dan 18 oed. Gellir hawlio ar gyfer ad-dalu costau teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu filltiroedd priodol rhwng Caerdydd a'r etholaeth neu rhwng Caerdydd a phrif gartref yr Aelod. Ceir disgrifiad o'r trefniadau hyn yn Adran 6 o Benderfyniad 2009.

11.4 Yn ogystal, caniateir i bob Aelod Cynulliad hawlio costau teithio eu staff ar gyfer 18 o deithiau yn ôl ac ymlaen ar drafnidiaeth gyhoeddus bob blwyddyn rhwng Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod. Gall yr Aelod hefyd hawlio costau ar gyfer teithiau a wneir gan ei staff mewn car yn ôl ac ymlaen i'r etholaeth neu'r rhanbarth ond caiff y teithiau hyn eu cynnwys yn y cyfanswm o'r 18 taith y gellir hawlio amdanynt. Nodir y trefniadau hyn yn Adran 7 o Benderfyniad 2009.

11.5 Bob blwyddyn, mae gan Aelod yr hawl i wneud cyfanswm o dair taith yn ôl ac ymlaen rhwng y Deyrnas Unedig ac unrhyw un o sefydliadau'r Gymuned Ewropeaidd ym Mrwsel. Yn ogystal, mae gan Aelod hefyd yr hawl i wneud un daith yn ôl ac ymlaen i unrhyw un o sefydliadau'r Gymuned Ewropeaidd yn Lwcsembwrg neu yn Strasbwrg neu ymweld â senedd genedlaethol unrhyw Aelod-wladwriaeth arall o'r Undeb Ewropeaidd. Disgrifir y trefniadau hyn yn Adran 8 o Benderfyniad 2009.

11.6 Disgwylir i Aelodau'r Cynulliad ddefnyddio'r modd mwyaf cost-effeithiol o deithio, gan ystyried costau gwirioneddol y daith a chostau unrhyw dreuliau aros dros nos. Fodd bynnag, gellir ystyried yr amser a gymerir i gwblhau'r daith hefyd. Pan mae'n bosibl dangos arbedion o ran amser teithio, mae'n bosibl y gellir hawlio cyfradd uwch o ad-daliad. Mae'n bosibl y caiff swm penodol o'r cais a wneir gan Aelod ei

leihau os nad yw, ym marn y Prif Weithredwr a'r Clerc, yn defnyddio'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o deithio.

**Cyfraddau teithio fesul milltir**

11.7 Gall yr Aelodau hawlio'r cyfraddau teithio fesul milltir fel rhai a ganiateir at ddibenion treth incwm gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi. Y cyfraddau presennol yw:

**Tabl 11.1 Cyfraddau teithio fesul milltir**

| | |
|---|---|
| Cerbydau modur | 40 ceiniog y filltir ar gyfer y 10,000 o filltiroedd cyntaf mewn blwyddyn dreth; 25 ceiniog y filltir am bob milltir ychwanegol dros 10,000 o filltiroedd |
| Beiciau modur | 24 ceiniog y filltir |
| Beiciau | 20 ceiniog y filltir |
| Cludo teithwyr | 5 ceiniog y filltir |

11.8 Pan gyhoeddwyd y cyfraddau hyn gan Gyllid y Wlad yn 2000, y bwriad oedd y byddai unigolion sydd â cherbydau mwy ar gyfer teithiau busnes yn gosod gwell esiampl o ran materion amgylcheddol. Yn y canllawiau a ddarparwyd pan gyflwynwyd y cyfraddau hyn, eglurwyd bod y cyfraddau'n seiliedig ar gyfran o gostau gweithredu arferol, fel dibrisiant, gwasanaethu, yswiriant a threth cerbyd, a'r holl gostau rhedeg fel tanwydd sy'n gysylltiedig â'r milltiroedd busnes a deithir.

11.9 Mae'r tablau sy'n dangos costau gweithredu cerbydau ar gyfer cerbydau petrol a cherbydau disel i'w gweld yn **Atodiad 14**. Mae'r tablau hyn yn defnyddio'r costau prynu fel dirprwy ar gyfer maint yr injan a pherfformiad cerbydau. Er ein bod yn derbyn nad yw pob car drud yn llyncu tanwydd, rydym yn fodlon bod y tablau hyn yn rhoi syniad rhesymol bod y cyfraddau milltiroedd yn rhesymol os yw Aelod yn dewis gyrru cerbyd llai costus. Fodd bynnag, os yw'r Aelod yn dewis cerbyd drud, dim ond tua hanner i ddwy ran o dair y costau llawn ar gyfer y daith y bydd y costau hyn yn eu had-dalu.

11.10 Gofynnwyd i gynrychiolwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a ydynt yn bwriadu diwygio'u cyfraddau, sydd wedi cael eu derbyn yn eang yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Yn benodol, gofynnwyd a oeddent yn bwriadu newid eu cyfraddau i annog pobl i ddefnyddio cerbydau sy'n fwy amgylcheddol-gyfeillgar; er enghraifft drwy gysylltu cyfraddau teithio fesul milltir ag allyriadau carbon deuocsid. Yr ymateb oedd bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi ystyried y materion hyn ond mai'r penderfyniad oedd eu gadael fel y maent. Nodwyd bod y cyfraddau

wedi cael eu gosod, mewn gwirionedd, gan Drysorlys ei Mawrhydi ac mai mater polisi Llywodraeth y DU ydynt. Dywedwyd:

> "Mae'n addas i bawb ac mae'n gweddu i'r rhan fwyaf o gyflogwyr … mae'n system syml iawn sy'n gymharol rhwydd i'w deall a'i gweinyddu."

11.11 Dywedodd llefarydd ar ran y Trysorlys:

> "Gosodir y cyfraddau er mwyn annog pobl i ddefnyddio ceir llai a mwy amgylcheddol-gyfeillgar ac anelu at leihau unrhyw gymhelliant i gyflogeion ddefnyddio'u ceir mwy a llai effeithlon yn ormodol."

11.12 Mae'r Penderfyniad yn caniatáu i Aelodau dalu costau i'w staff deithio â char yn amodol ar uchafswm sy'n gyfartal â'r hyn a ganiateir ar gyfer yr Aelod ar gyfer yr un daith - cyfraddau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar hyn o bryd. Felly, y gwir yw y gallai pob Aelod ddewis defnyddio unrhyw gyfradd hyd at gyfradd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Nid oes gennym dystiolaeth fod Aelodau yn dewis talu cyfraddau is ond er mwyn bod yn deg, mae'r Panel o'r farn y dylai staff cymorth gael yr un ad-daliad ag Aelodau.

11.13 Mae'r Panel hefyd o'r farn bod cyfraddau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, a ddefnyddir gan y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd, yn ddealladwy ac yn cael eu defnyddio'n eang ac nad oes unrhyw reswm dros argymell unrhyw newid. Er ein bod yn cydnabod y gall y system bresennol gymell pobl i ddefnyddio cerbydau sy'n llygru llai, credwn y dylai'r Comisiwn, Trysorlys Ei Mawrhydi a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi drafod y syniad o ddatblygu cynllun mwy cynhwysfawr sy'n seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf, gyda'r nod o fod yn fwy cadarnhaol wrth annog Aelodau'r Cynulliad a'u staff i ddefnyddio cerbydau sy'n fwy amgylcheddol-gyfeillgar.

**Argymhelliad 87: Dylai cyfraddau teithio fesul milltir barhau i fod yn seiliedig ar y rhai a osodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi a dylent fod yn berthnasol i Aelodau'r Cynulliad a'u staff.**

**Argymhelliad 88: Dylai Comisiwn y Cynulliad gynnal trafodaethau â Thrysorlys Ei Mawrhydi a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i ystyried datblygu system newydd o gyfraddau teithio fesul milltir sy'n seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf, gyda'r nod o fod yn fwy cadarnhaol wrth annog pobl i ddefnyddio cerbydau sy'n fwy amgylcheddol-gyfeillgar.**

**Ffeithiau a ffigurau (2008-09)**

**Tabl 11.2 Gwariant ar gostau teithio Aelodau'r Cynulliad 2008-09**

| | **Cyllideb (£)** | **Gwariant (£)** |
|---|---|---|
| Costau teithio Aelodau yn eu cerbydau eu hunain | 160,000 | 162,400 |
| Costau teithio Aelodau wrth logi ceir | 21,250 | 16,700 |
| Costau teithio Aelodau ar y trên/mewn awyren | 150,000 | 32,500 |
| Costau teithio'r Aelodau i'r Undeb Ewropeaid | 60,000 | 12,000 |
| **Cyfanswm** | **391,250** | **223,600** |

**Sylwadau a gafwyd**

11.14 Dyma rai o'r sylwadau a gafwyd:

> "Efallai bod gorfodi Aelodau i deithio ar y trên o'r etholaeth i'r Cynulliad yn ymddangos fel opsiwn cynaliadwy. Fodd bynnag, mae Aelodau'r Cynulliad yn mynd i gyfarfodydd eraill wrth deithio i'w hetholaeth ac yn ôl, ac nid yw'r rhwydwaith rheilffordd yn ddigon cynhwysfawr mewn llawer o ardaloedd o ran amseroedd a gorsafoedd. Mae ein horiau'n anghymdeithasol ac mae ein llwybrau teithio'n amrywio o hyd, yn ôl gofynion yr etholaeth. Mae'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad yn penderfynu o un wythnos i'r llall ar y dull gorau o deithio iddynt hwy. Dylid gadael iddynt hwy wneud y penderfyniad er ein bod o'r farn y dylid chwilio am ddewisiadau mwy cynaliadwy ond ymarferol."

> "Mae'r gweithiwr cyffredin yn talu ei gostau teithio ei hun i'r gwaith a gall hyn fod yn gyfran sylweddol o'i gyflog mewn ardaloedd gwledig, felly mae dadl bod Aelodau'r Cynulliad wedi dewis eu galwedigaeth ac y dylent, felly, dalu eu costau teithio eu hunain."

> "Buaswn yn fodlon iawn â chymhellion i bobl leihau allyriadau carbon deuocsid. Fel rhywun sy'n cefnogi'r gyfundrefn bresennol a thrwyddedu cerbydau, byddai'n anghywir i ni beidio â gwneud hynny drosom ni ein hunain."

## Materion allweddol

11.15 Roedd tystiolaeth gan Aelodau'r Cynulliad yn pwysleisio pa mor bwysig yw gwahaniaethu rhwng teithio o'r etholaeth neu'r rhanbarth i Fae Caerdydd a theithio o fewn yr etholaeth neu'r rhanbarth. Pan ofynnodd y Panel ai costau trafnidiaeth gyhoeddus safonol yn unig ddylai gael eu hawlio o ran y cyntaf, roedd rhai Aelodau Cynullid yn cefnogi hynny, ond nid oedd eraill yn cytuno. Roedd y rhan fwyaf yn pwysleisio ei bod yn amhosibl dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus o fewn eu hetholaeth neu eu rhanbarth a nodwyd y gallai teithio adref o'r Cynulliad gynnwys oedi ar y ffordd i fynd i ddigwyddiad arall.

11.16 Nodwyd bod rhai Aelodau'r Cynulliad, yn arbennig y rhai sy'n cynrychioli rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn cronni mwy o gostau teithio wrth deithio o fewn eu rhanbarthau.

11.17 Ystyriodd y Panel hefyd a fyddai'n bosibl ysgogi Aelodau'r Cynulliad i ddefnyddio ceir 'gwyrdd'. Roedd rhai Aelodau yn ansicr o hyn. Dywedodd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig:

> "Mae'r pwysoliad dros geir gwyrdd yn ymddangos fel polisi cynaliadwy ond efallai nad oes gan Aelod Cynulliad newydd-etholedig gar gwyrdd ac efallai na all fforddio newid ei gar presennol. Mae hyn yn wir hefyd am staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Efallai y bydd y buddsoddiad sydd ei angen i brynu car newydd yn peri anfantais i rai Aelodau'r Cynulliad. Os yw'r Cynulliad am fynd ar drywydd yr agenda hon, efallai y byddai'n werth ystyried ceir cwmni neu fenthyciadau rhad. Byddai angen sicrhau, wedyn, na chaiff staff cymorth Aelodau'r Cynulliad eu cosbi os ydynt yn defnyddio'u ceir ar fusnes y Cynulliad/Etholaeth."

11.18 Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i'r Panel bod y cynllun ad-daliadau ar gyfer costau teithio yn cael ei gamddefnyddio. Mae cyfanswm yr holl gostau teithio a gaiff eu hawlio gan yr Aelodau a'u staff yn is na £250,000 y flwyddyn, felly mae'n debygol mai ychydig iawn o arbedion fyddai'n bosibl.

## Teithio rhwng yr etholaeth neu'r rhanbarth a Bae Caerdydd

11.19 Mae rheolau presennol y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch costau teithio yn llawer mwy llym na'r rhai yn San Steffan, gan ei bod yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad nodi bob taith a wneir yn eu hetholaeth neu ranbarth ar y ffurflen hawlio costau. Er hynny, yr argraff sydd gan y cyhoedd yw bod ad-dalu costau teithio yn un enghraifft arall o Aelodau yn manteisio ar system na chaiff ei rheoli'n gaeth. O dan yr

amgylchiadau hyn, efallai y byddai o fudd i'r Aelodau Cynulliad eu hunain fod y system yn cael ei thynhau – hyd yn oed os mai ychydig iawn o arbedion a wneir mewn gwirionedd.

11.20 Rhaid ystyried hefyd a yw'r Aelodau'n byw eu proffes eu hunain o ran ymrwymiad y Cynulliad i bolisi amgylcheddol cynaliadwy. Ymddengys mai ychydig iawn o gymhelliant, os oes cymhelliant o gwbl, i Aelodau ddefnyddio modd o deithio sy'n ddarbodus yn ariannol, a hefyd yn ystyried yr angen i leihau cymaint â phosibl ar yr ôl troed carbon wrth iddynt deithio.

11.21 Roedd yr opsiynau a ystyriodd y Panel yn cynnwys:

- system sy'n annog Aelodau'r Cynulliad i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na thrafnidiaeth breifat - fel ad-dalu costau ar sail teithio ar y trên yn hytrach na cherbyd preifat

- system sy'n sicrhau mai'r costau teithio isaf sydd ar gael a gaiff eu defnyddio wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

- pan ddefnyddir trafnidiaeth breifat, dylid rhoi cymaint o ystyriaeth â phosibl i annog Aelodau i rannu car

- wrth gydnabod ei bod yn bosibl y bydd angen i Aelodau'r Cynulliad ddibynnu ar gar preifat i deithio o fewn etholaeth neu ranbarth, rhaid ystyried a yw'r system o hunan-ardystio'r rhesymau dros y daith yn ddigon diogel

11.22 Roedd rhai sylwadau a gafwyd yn awgrymu na ddylid ad-dalu swm y daith fesul milltir rhwng cartref yr Aelod a'u lle gwaith.

11.23 Y ddadl a gyflwynwyd dros hyn yw mai cymudo yw hyn ac nad yw'r sector preifat na'r sector cyhoeddus yn ad-dalu'r costau hyn i'w cyflogeion am deithio rhwng eu cartref a'u lle gwaith.

11.24 Mae'r Panel yn derbyn y ddadl na chaiff cyflogeion eu had-dalu fel arfer am gymudo. Nid cyflogeion yw'r Aelodau, fodd bynnag, ond cynrychiolwyr etholedig a ddaw i'r Cynulliad ar ran eu hetholwyr ac a fydd yn ymweld â swyddfeydd lleol i gynorthwyo etholwyr gydag unrhyw broblemau a gaiff eu dwyn i sylw'r Aelod. O ganlyniad i weithredu ei argymhelliad ynglŷn â'r ffin rhwng yr ardaloedd mewnol a'r ardaloedd allanol (gweler **Pennod 6**), mae'r Panel yn derbyn ei bod yn bosibl y bydd peth cynnydd yn y costau ad-dalu costau teithio fesul

milltir ar gyfer yr Aelodau hynny yr effeithir arnynt, ond credwn fod y gyllideb bresennol yn ddigon i ymdopi ag unrhyw gynnydd o'r fath.

11.25 Nodwn y ffaith bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn defnyddio rheolau trethiant arbennig ar gyfer Aelodau yn benodol mewn perthynas â theithio rhwng eu cartref a ffin yr etholaeth neu'r ffin rhanbarthol, a chredwn nad oes rheswm dros newid y trefniadau presennol.

**Argymhelliad 89: Dylai Aelodau'r Cynulliad barhau i fod yn gymwys i hawlio costau teithio rhwng eu cartref, y Cynulliad a swyddfeydd lleol.**

**Annog Aelodau i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus**

11.26 Edrychodd y Panel ar yr arbedion mwyaf y byddai'n bosibl eu sicrhau wrth gyflwyno system o ad-dalu costau teithio ar y trên rhwng yr etholaeth a Bae Caerdydd. Roedd hyn yn seiliedig ar Aelodau'r Cynulliad yn defnyddio'r orsaf drenau agosaf a mwyaf cyfleus a defnyddio un tocyn 'saver-return' bob wythnos ar gyfer y rhai sy'n byw yn eu hail gartref yng Nghaerdydd, a phedwar tocyn felly ar gyfer y rhai sy'n byw yn lleol. Uchafswm yr arbediad fyddai tua £25,000 y flwyddyn ar y mwyaf; ac i'r graddau bod llawer o'r Aelodau eisoes yn defnyddio'r trên yn rheolaidd, byddai'r arbediad posibl yn is. Ar ben hynny, nid oes modd sicrhau y byddai'r Aelodau yn defnyddio'r trên yn hytrach na'r car, hyd yn oed pe bai'r ad-daliad yn is. Felly efallai mai twyllodrus fyddai'r budd gwyrdd.

11.27 Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno cynllun ar gyfer ad-dalu costau teithio fel yr un a ddisgrifir, dywedodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wrth y Panel y byddai'r Aelod Cynulliad yn gallu hawlio yn erbyn treth incwm am y gwahaniaeth rhwng unrhyw deithiau yn y car ond eu had-dalu gan y Cynulliad am gyfradd is na'r gyfradd safonol o 40 ceiniog y filltir.

11.28 Waeth pa mor ganmoladwy fyddai cyflwyno cymhelliant o'r fath o ran teithio gwyrdd, barn y Panel yw nad yw'n ymddangos y byddai system o'r fath yn effeithiol a'i bod yn fwy realistig edrych ar newid rheoliadau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel ffordd o annog teithio gwyrdd ymhlith Aelodau'r Cynulliad.

11.29 Roedd ychydig o feirniadaeth yn ystod ein hymgynghoriad ynglŷn â defnyddio arian y trethdalwr i dalu am gostau teithio aelodau o deulu agos yr Aelodau. Nodwn, fodd bynnag, mai dim ond 12 Aelod a ddefnyddiodd y cyfleuster hwn yn ystod 2008-09 ac mai dim ond am gyfanswm o 26 taith o'r fath y flwyddyn honno y gwnaethant yr

hawliadau.  Mae'r Panel yn fodlon, felly nad yw'r cynllun hwn yn cael ei gamddefnyddio.

11.30 Ar ben hynny, mae'r Panel o'r farn ei bod yn bwysig parhau i gefnogi'r math hwn o deithio fel rhan o bolisïau'r Cynulliad tuag at fod yn ystyriol o deuluoedd.  Felly, rydym yn argymell bod y trefniadau teithio presennol ar gyfer partneriaid a phlant yr Aelodau yn aros fel y maent.

**Argymhelliad 90: Dylai'r trefniadau teithio presennol ar gyfer partneriaid a phlant Aelodau'r Cynulliad, fel y nodir yn Adran 6 o Benderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009, aros fel y maent.**

11.31 Roedd ymrwymiad y Cynulliad i ymgorffori cynaliadwyedd ym mhob maes gweithredu, gan gynnwys rheoli ei drefniadau teithio, wedi gwneud argraff ar y Panel.  Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn aelod o gynllun y 'Ddraig Werdd', sy'n hybu polisïau cynaliadwy yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.  Enillodd y Cynulliad yr achrediad uchaf yn ddiweddar.  Hyd yn hyn, mae ymdrechion y Cynulliad wedi canolbwyntio ar bolisïau sy'n ymwneud â'u staff ond nid oes rheswm pam na ellir ymestyn hyn i gynnwys yr Aelodau a'u staff cymorth.

**Argymhelliad 91: Dylai Adran 4.2 o Benderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009 gael ei ddiwygio i annog trafnidiaeth gynaliadwy a chynllun y Ddraig Werdd.**

11.32 Ar hyn o bryd, caniateir i'r Aelodau logi ceir i'w defnyddio ar gyfer teithio o fewn Cymru.  Mae'r Panel yn derbyn nad yw Aelodau'r Cynulliad yn gwneud defnydd eang o geir wedi'u llogi.  Er hynny, credwn y dylai'r arweiniad gael ei gyfyngu fel na chaniateir gwario ar logi ceir, ac mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu hynny; i'w benderfynu gan Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau.

**Argymhelliad 92✳: Dylai Aelodau'r Cynulliad a'u staff roi'r gorau i logi ceir ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.**

11.33 Dylai Aelodau'r Cynulliad ymdrechu i brynu'r tocynnau rhataf posibl ar gyfer teithio ar y trên; yn arbennig er mwyn teithio ar y trên rhwng eu hetholaeth a Chaerdydd.  Dylai'r Aelodau sy'n gymwys i gael 'tocynnau rheilffordd i bobl hŷn' neu gostau teithio rhad eraill gael eu hannog i'w defnyddio.

11.34 Dylai teithiau Aelodau'r Cynulliad a gaiff eu had-dalu at ddibenion etholaeth ac ar gyfer teithio y tu allan i'r etholaeth fod yn seiliedig ar docynnau safonol.

11.35 Mae'r Panel yn cydnabod ei bod yn bosibl mai defnyddio'r awyren sy'n hedfan ddwywaith y dydd rhwng Ynys Môn a Chaerdydd yw'r dull teithio mwyaf cost-effeithiol i rai o'r Aelodau sy'n byw yn y Gogledd.

**Argymhelliad 93: Dylai Aelodau'r Cynulliad chwilio am y tocyn teithio rhataf posibl ac ystyried unrhyw ostyngiadau sydd ar gael; gan gynnwys y rhai sydd ar gael i Aelodau sy'n ddeiliaid 'tocynnau rheilffordd i bobl hŷn' neu gostau teithio rhad eraill.**

**Rhannu car**

11.36 Dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried cynllun sy'n rhoi cymhelliant cadarnhaol i Aelodau'r Cynulliad rannu car wrth deithio ac a fyddai'n cael ei ad-dalu gan y Cynulliad.

11.37 Mae'n bosibl mai isel iawn fyddai'r arbedion hyn oherwydd goblygiadau'r cynllun ad-dalu a amlinellir uchod. Fodd bynnag, barn y Paenl yw ei fod yn rhywbeth y dylid ymchwilio iddo ymhellach, gan ei fod yn anfon neges gadarnhaol o ran cefnogi polisïau cynaliadwyedd y Cynulliad.

**Argymhelliad 94: Dylai Comisiwn y Cynulliad geisio annog Aelodau'r Cynulliad i rannu car pan fo hynny'n briodol, efallai drwy gynnig cymhelliant ariannol.**

**Argymhelliad 95: Dylai Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau geisio cynnal trafodaethau â gweithredwyr trenau a darparwyr gwasanaethau hedfan i gytuno ar gostau gostyngol i Aelodau'r Cynulliad sy'n defnyddio'u gwasanaethau ar gyfer busnes y Cynulliad.**

**Teithio o fewn etholaethau neu ranbarthau**

11.38 Dylai Aelodau'r Cynulliad, wrth gwrs, fod yn gymwys i gael eu had-dalu am gostau teithio ar drên neu fws oherwydd eu dyletswyddau cyhoeddus o fewn eu hetholaethau. Fodd bynnag, mae'r Panel yn derbyn mai car a ddefnyddir ar gyfer y rhan fwyaf o'r achosion hyn am resymau ymarferol a logistaidd.

11.39 Mae system y Cynulliad Cenedlaethol o fynnu cyfiawnhad manwl dros hawlio costau am bob taith mewn car yn llawer mwy cadarn na'r system a weithredir ar hyn o bryd yn Nhŷ'r Cyffredin.

11.40 Awgrymir y dylai pob Aelod, fel rhan o'r cyfnod sefydlu, gael eu hannog i gadw dyddiadur yn y swyddfa o bob taith a wneir mewn car o fewn yr etholaeth (neu i Swyddfeydd y Llywodraeth sy'n gwasanaethu'r etholaeth) os yw'n bwriadu hawlio ad-daliad amdani. Dylai'r ffurflenni a gyflwynir (yn fisol) sy'n hawlio costau teithio felly, fod yn seiliedig ar y cofnodion o'r dyddiadur hwnnw, a dylai'r dyddiadur fod ar gael i'w archwilio ar hap.

11.41 Ystyriodd y Panel osod uchafswm ar gyfanswm blynyddol y milltiroedd a fyddai'n gymwys i'w had-dalu i Aelod, yn seiliedig ar faint eu hetholaeth neu ranbarth. Mae gan Dŷ'r Cyffredin eisoes system sy'n cydnabod y dylai etholaethau bach olygu hawliadau teithio llai nag etholaethau mawr. Fodd bynnag, penderfynwyd peidio ag argymell yr opsiwn hwn gan nad yw'n ymddangos bod y system bresennol yn cael ei chamddefnyddio. Mae'r Panel yn cydnabod bod ymgysylltiad gwirioneddol yr Aelodau â'r etholwyr yn bwysig ac y dylai gwir gostau'r teithiau hyn gael eu had-dalu.

11.42 Ar y cyfan, dylai'r Aelodau ystyried defnyddio'u hamser yn effeithiol wrth deithio, a gofyn – 'A yw'r daith hon yn angenrheidiol mewn gwirionedd?'

**Teithio y tu allan i Gymru**

11.43 Rydym yn cydnabod y bydd rhai achlysuron yn codi lle y bydd yn ofynnol i Aelodau deithio o fewn y Deyrnas Unedig (ond y tu allan i Gymru) neu dramor mewn perthynas â'u dyletswyddau fel Aelodau Cynulliad. Enghreifftiau o deithiau felly yw cyfarfodydd â sefydliadau sydd â'u pencadlys yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon a chyfarfodydd ym Mrwsel neu Strasbourg â chynrychiolwyr etholedig Senedd Ewrop neu sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

11.44 Credwn fod teithiau o'r fath o fewn y Deyrnas Unedig, ar yr amod eu bod yn ymwneud â dyletswyddau'r Cynulliad, yn swyddogaeth ddilys i Aelodau'r Cynulliad ac y dylai costau teithio felly gael eu had-dalu i'r Aelod dan sylw.

11.45 Rydym o'r un farn o ran teithio i gyfarfodydd ag Aelodau o Senedd Ewrop a/neu gynrychiolwyr sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar fusnes y Cynulliad.

11.46 O ran yr holl waith teithio arall ar ddyletswydd y Cynulliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, credwn y dylid cytuno ar y teithiau hyn ymlaen llaw gyda Thîm Cymorth Busnes yr Aelodau er mwyn sicrhau atebolrwydd priodol.

**Argymhelliad 96: Dylai teithiau y tu allan i'r DU barhau i gael eu cymeradwyo ymlaen llaw gan Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau (ac eithrio teithiau i Frwsel a Strasbourg).**

11.47 Ni ddylai darpariaeth teithio heb unrhyw uchafswm costau olygu nad oes llai o dryloywder ac atebolrwydd. Mae'r Panel yn falch o nodi ei bod yn ofynnol i'r holl dreuliau teithio gael eu hardystio ar hyn o bryd fel rhai sydd wedi digwydd ar gyfer busnes y Cynulliad a chânt eu cyhoeddi'n rheolaidd fel y gall y cyhoedd weld pa deithiau sydd wedi digwydd. Yn hynny o beth, mae unrhyw deithiau gan yr Aelodau unigol eisoes yn dryloyw. Rydym yn cefnogi parhad y trefniadau hyn yn llwyr.

11.48 Cred y panel fod y canllawiau presennol ar y cyrchfannau a ganiateir ar gyfer teithio o fewn Ewrop yn rhy gaeth. Ni chawsom dystiolaeth i ddangos bod y system bresennol yn cael ei chamddefnyddio. Yn wir, dim ond tua £12,000 o gyllideb o £60,000 a gafodd ei wario y llynedd ar deithiau i Ewrop. Nid ydym yn argymell cynyddu nifer y teithiau ar gyfer pob Aelod Cynulliad ond nid ydym yn gweld pam y dylid eu cyfyngu i sefydliadau ym Mrwsel neu seneddau cenedlaethol. Cred y Panel y dylid caniatáu i Aelodau fynd ar hyd at bedair taith y flwyddyn rhwng Cymru ac Aelod-wladwriaethau neu ranbarthau eraill yr Undeb Ewropeaid ar fusnes sy'n ymwneud â'r Cynulliad.

**Argymhelliad 97: Mewn unrhyw flwyddyn ariannol, dylid caniatáu i bob Aelod Cynulliad fynd at hyd ar bedair taith y flwyddyn rhwng Cymru ac Aelod-wladwriaeth, neu ranbarth, o'r Undeb Ewropeaidd ar fusnes sy'n ymwneud â'r Cynulliad.**

## Parcio

11.49 Mae'r Panel yn ymwybodol o'r ffaith bod y Comisiwn yn darparu cyfleusterau parcio am ddim i'r Aelodau, eu staff cymorth a staff y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. Cawsom rai sylwadau am hyn, ond gan ei fod, ar y cyfan, yn fater sydd y tu hwnt i'n cylch gwaith ni, mae'r Panel yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad adolygu'r drefn hon; er mwyn sicrhau tegwch, cynaliadwyedd, tryloywder a gwerth am arian. Fodd bynnag, ni fyddai disgwyl i'r Aelodau na'u staff hawlio costau parcio pan fyddant yn gweithio yn eu swyddfeydd etholaeth neu ranbarthol, a gallent fod yn gyfrifol am dreth incwm ar yr hawliadau hyn os ydynt yn gwneud hynny.

**Argymhelliad 98: Dylai Comisiwn y Cynulliad adolygu'r polisi presennol ar gyfer trefniadau parcio yn swyddfeydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd o ran Aelodau'r Cynulliad, eu staff a staff y Cynulliad – o ran tegwch y ddarpariaeth, polisi cynaliadwyedd ac effaith ar adnoddau.**

## Pennod 12: Gweinyddu, archwilio a safonau

### Rhagymadrodd

12.1 Rhaid sicrhau bod fframwaith cadarn yn sail i'r trefniadau newydd ar gyfer cyflog a threuliau Aelodau'r Cynulliad a amlinellir yn yr adroddiad hwn, a dylid defnyddio'r fframwaith hwn ar gyfer gwirio a phrosesu hawliadau, trefniadau archwilio mewnol ac allanol, ac ymdrin â materion sy'n ymwneud â safonau, a hynny er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ei ystyried yn ddogfen annibynnol a thryloyw. Wrth ystyried y fframwaith hwn, mae angen deall y gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau'n glir.

12.2 Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol am sicrhau y defnyddir adnoddau'r Cynulliad yn gywir ac yn y ffordd arferol, gan ystyried yr angen i sicrhau gwerth am arian. Fel rhan o'r cyfrifoldebau hyn, mae'n ddyletswydd ar y Prif Swyddog Cyfrifyddu i sefydlu system rheoli mewnol briodol (gan gynnwys trefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risgiau) a sicrhau ei bod yn gweithio'n effeithiol. Gellir cael sicrwydd o'r systemau (y gweithdrefnau a'r dulliau rheoli) sydd ar waith a'r trefniadau archwilio mewnol ac allanol.

12.3 Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau (y Swyddfa Ffioedd) sy'n gyfrifol am weithredu systemau a dulliau rheoli allweddol mewn perthynas â lwfansau a threuliau Aelodau'r Cynulliad. Yn hyn o beth, un o'i brif swyddogaethau yw cael, gwirio a thalu hawliadau a wneir gan Aelodau. Mae staff y swyddfa honno'n gweithredu ar ran y Prif Swyddog Cyfrifyddu er mwyn sicrhau bod yr arian a delir yn gywir ac yn arferol a bod ystyriaeth yn cael ei roi i'r angen i sicrhau gwerth am arian.

12.4 Disgrifir y trefniadau archwilio fel:

> "an independent, objective assurance and consulting activity designed to add value and improve an organisation's operations. It helps an organisation accomplish its objectives by bringing a systematic, disciplined approach to evaluate and improve the effectiveness of risk management, control and governance processes"[10].

12.5 Caiff gwaith archwilio mewnol naill ai ei wneud yn fewnol neu ei osod ar gytundeb, ond naill ffordd, ei brif rôl yw rhoi cyngor annibynnol a gwrthrychol, yn bennaf i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu. Felly, mae'n dilyn

[10] Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth

na ddylai fod gan archwilwyr mewnol rôl weithredol, hynny yw, ni ddylai gweithredu systemau a rheolau fod yn rhan o'r gwaith hwn. Yn arbennig, ni ddylai'r trefniadau hyn drawsfeddiannu na gwanhau rôl Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau drwy gymryd rhan yn y broses o wirio a thalu hawliadau.

12.6 Archwilydd Cyffredinol Cymru (y cyfeirir ato fel yr Archwilydd Cyffredinol) yw archwilydd allanol Comisiwn y Cynulliad. Mae'n ddyletswydd arno i gofnodi'r hyn sy'n wir ac yn deg yn y cyfrifon blynyddol ac ar reoleidd-dra trafodion ariannol. Caiff hefyd gyflwyno adroddiadau ar faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a gwerth am arian. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiadau'n uniongyrchol i'r Cynulliad ac efallai y gofynnir i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ymddangos gerbron y Pwyllgor Archwilio i ateb cwestiynau ar sail adroddiadau o'r fath.

12.7 Gall trefniadau archwilio mewnol ac allanol gydweithredu er mwyn lleihau'r achosion o ddyblygu diangen ar y rheini a gaiff eu harchwilio ond rhaid deall yn glir beth yw swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd y naill a'r llall.

12.8 Mae Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn yn rhoi sicrwydd i'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar:

- y prosesau strategol o ran risgiau, dulliau rheoli a llywodraethu a'r Datganiad Rheolaeth Fewnol
- y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno ar gyfer eu harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd a llythyr o sylwadau'r rheolwyr i'r Archwilydd Cyffredinol
- y gwaith arfaethedig a'r canlyniadau o ran y trefniadau archwilio mewnol ac allanol
- pa mor ddigonol yw ymateb rheolwyr i'r materion a nodwyd yn y gwaith archwilio, gan gynnwys llythyrau archwilio allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru
- gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y Comisiwn
- cynigion ar gyfer tendro ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio

- pholisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig

12.9 Mae Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad yn ystyried adroddiadau a osodir gerbron y Cynulliad gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn casglu tystiolaeth gan Swyddogion Cyfrifyddu ac yn cyflwyno ei gasgliadau a'i argymhellion ei hun i'r Cynulliad.

12.10 Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yn ystyried cynigion manwl ar gyfer defnyddio adnoddau, cyllidebau, incwm a gwariant a osodir gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru neu'r Comisiwn a'r Ombwdsmon.

12.11 Mae'r Comisiynydd Safonau yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad a chyfeirio materion priodol at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

12.12 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor ymchwilio i unrhyw gŵyn yn erbyn Aelod y cyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau, cyflwyno adroddiad arno ac, os yw'n briodol, argymell camau i'w cymryd mewn perthynas ag ef.

**Materion yn ymwneud ag Aelodau'r Cynulliad**

12.13 Nod y Panel yw sefydlu system dreuliau sy'n gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw. Mae Aelodau'r Cynulliad yn atebol i'w hetholwyr drwy'r blwch pleidleisio, ond cred y Panel ei bod yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad gyflawni'u rôl gyda'r un diwydrwydd drwy gydol cyfnod y Cynulliad er mwyn cyflawni'u dyletswyddau'n iawn.

12.14 Mae'r Panel wedi ceisio sefydlu'r drefn newydd fel un sy'n seiliedig ar egwyddor fel bod ffurf yn dilyn swyddogaeth. Mae'r Panel yn credu y dylai fod gan Aelodau Cynulliad unigol y rhyddid i gyflawni'u rôl gynrychioliadol yn y ffordd sydd orau yn eu barn hwy o ran gwasanaethau eu hetholwyr. Fodd bynnag, mae angen creu dulliau gweithio a systemau cymorth wedi'u safoni er mwyn sicrhau na fydd gwallau anfwriadol yn cael eu gwneud ac er mwyn sicrhau perfformiad effeithlon.

12.15 Mae'r Panel wedi cael tystiolaeth sy'n awgrymu bod y term 'lwfansau' yn gwneud rhai Aelodau'r Cynulliad i deimlo fel pe bai'n rhaid iddynt wario pob ceiniog o'u cyllideb. Mae'r Panel yn credu y dylid gwneud ad-daliadau ar sail treuliau gwirioneddol sydd wedi'u derbynebu yn unig. Mae'r Panel wedi ceisio newid arferion drwy adolygiad o'r gwraidd i'r brig o gostau cymwys a therfynau cyllideb.

12.16 Ym marn y Panel, mae'r trafodaethau yn y cyfryngau ac ymhlith y cyhoedd yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf yn pwysleisio'r angen am system cymorth ariannol i Aelodau sydd wedi'i seilio ar dderbynebau ac sy'n system gadarn yn gyffredinol. Mae'n bwysig rheoli'r drefn ar gyfer treuliau yn dynn er mwyn adfer ffydd y cyhoedd o ran gwariant ar y broses ddemocrataidd. Nod y dull rhagweithiol hwn o archwilio a nodir yn yr adroddiad hwn yw dechrau adfer ffydd y cyhoedd.

12.17 Y grant bloc a roddir yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth y DU yw tua £15 biliwn. O'r swm hwn, mae tua £48 miliwn yn ariannu gwasanaethau seneddol y Cynulliad, ac o'r swm hwn, defnyddir tua £13 miliwn i roi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad.

**Y dystiolaeth a gasglwyd**

**Yn gyffredinol**

12.18 Yn ystod yr ymgynghoriad, roedd aelodau'r cyhoedd a thystion unigol yn cefnogi'r angen am ddull archwilio cadarn er mwyn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda ac er mwyn annog atebolrwydd.

12.19 Croesawodd y Panel yr ymateb a gafodd gan un Aelod Cynulliad mewn tystiolaeth:

> "Pan fyddaf yn ystyried a ddylwn hawlio rhywbeth, fy nghwestiwn cyntaf yw: "A fyddwn yn prynu hwn oni bai fy mod yn Aelod Cynulliad?" Os mai'r ateb yw "byddwn", ni fyddaf yn ei brynu. Fy ail gwestiwn yw: "A yw hwn yn rhywbeth rydym ei wir angen?" Y trydydd cwestiwn yw: "Sut y bydd pobl yn beirniadu hyn?""

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

12.20 Cafodd y Panel dystiolaeth gref gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y sicrwydd sydd ei angen i sicrhau mai dim ond hawliadau dilys a gaiff eu cyflwyno a'u talu.

12.21 Mewn dogfen 20 pwynt, gweler **Atodiad 16**, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r safon meincnod rhagoriaeth y dylai'r Cynulliad ei dilyn o ran y materion hyn.

12.22 Mae'r safon ragoriaeth yn cynnwys y cwestiynau a ganlyn:

- beth yw sicrwydd?
- beth yw cydrannau hanfodol trefn sicrwydd?
- pwy all roi'r sicrwydd hwn?
- pwy sy'n rhoi'r sicrwydd hwn ar hyn o bryd?
- pa archwiliadau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu gwneud?
- pwerau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
- y gallu i gynnal archwiliadau sicrwydd ychwanegol o lwfansau Aelodau

12.23 Nododd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd rai materion cychwynnol i'r Panel eu hystyried. Dywedodd y dylai:

- benderfynu ai prif nod y trefniadau newydd yw helpu Aelodau'r Cynulliad i wneud eu gwaith neu i roi sicrwydd i'r cyhoedd
- nodi bod ffydd y cyhoedd mewn gwleidyddion wedi dirywio'n sylweddol wrth i'r adolygiad hwn fynd yn ei flaen

12.24 Mae'r Panel wedi trafod y ddau fater. Prif nod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yw cefnogi Aelodau mewn ffordd dryloyw ac ariannolddoeth, gyda'r ail nod o roi sicrwydd i'r cyhoedd bod yr arian yn cael ei wario mewn ffordd effeithiol a chyfrifol.

**Y Comisiynydd Safonau**

12.25 Cafodd y Panel dystiolaeth gan y Comisiynydd Safonau ac roedd yn falch clywed gan y Comisiynydd mai dim ond nifer cymharol fach o gwynion a gafwyd a oedd yn dderbyniadwy o dan delerau trefn gwyno'r Cynulliad. Er mwyn cael ei hystyried fel cwyn dderbyniadwy, rhaid iddi gynnwys digon o sylwedd i awgrymu achos posibl o dorri'r cod, sy'n cynnwys camddefnyddio adnoddau cyhoeddus.

12.26 Dim ond ar gyfer ychydig iawn o gwynion roedd angen trefnu gwrandawiad gerbron Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Cynulliad lle y caiff Aelodau'r Cynulliad eu beirniadu gan eu cyd-Aelodau. Ni chafwyd

unrhyw gwynion ffurfiol ynghylch camddefnyddio lwfansau Aelodau am daliadau personol nac ynghylch costau staff. Mae Aelodau'r Cynulliad yn cadw at God Ymddygiad a phrotocolau ategol. Pe bai achos dibwys wedi digwydd o ran torri'r cod, dywedodd y Panel mai'r rheswm tebygol dros hyn fyddai anwybodaeth o'r rheolau yn hytrach na chamddefnyddio lwfansau.

12.27 Mae camau'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i wneud rôl y Comisiynydd Safonau yn un statudol, ac mae'r Panel yn croesawu hyn.

12.28 Roedd y Comisiynydd yn gweld ei rôl fel y person a allai helpu i ddatblygu'r fframwaith moesegol ar gyfer y Cynulliad, diogelu'r fframwaith hwnnw a sicrhau bod pobl yn cadw ato.

**Canfyddiadau archwilio diweddar**

12.29 Swyddfa Archwilio Cymru sy'n darparu'r strategaeth ar gyfer archwilio cyfrifon blynyddol Comisiwn y Cynulliad i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

12.30 Caiff y strategaeth ei llywio gan asesiad risg sydd wedi'i seilio ar gofrestr o risgiau strategol a gweithredol posibl. Caiff cyflog a threuliau Aelodau'r Cynulliad eu nodi fel risg o'r fath yn flynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru am y rhesymau a amlinellir isod:

12.31 Risg:

> "Mae cyflog a lwfansau Aelodau'r Cynulliad yn dal yn berthnasol o ran natur, a hynny yn fy marn i, oherwydd eu sensitifrwydd cynhenid i ddarllenwyr datganiadau ariannol y Comisiwn. O gofio'r sensitifrwydd hwn a'm hasesiad o berthnasedd, mae camddatganiad a methu â chydymffurfio â'r Penderfyniad yn risg gynhenid. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod dulliau rheoli yn y maes hwn, yn hanesyddol, wedi bod yn gryf ac felly rwyf wedi asesu'r risg unigol fel risg isel."

12.32 Camau archwilio:

> "Byddaf yn cynnal profion dadansoddol a chynhwysfawr o gyflog a lwfansau Aelodau'r Cynulliad, ynghyd â'm hadolygiad cynhwysfawr o bob datgeliad perthnasol o fewn y datganiadau ariannol."

12.33 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael adroddiadau rheolaidd ar yr adolygiad o'r Gofrestr Risgiau Strategol a'r Gofrestr Risgiau Gweithredol Sylweddol a gynhelir gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr. Yn ôl y Panel, mae'r arfer da hwn yn rhoi cyd-destun

priodol ar gyfer adolygu'r cymorth a roddir i Aelodau'n rheolaidd, a hynny ar lefel strategol a gweithredol.

12.34 Cwmni allanol sy'n gwneud y gwaith archwilio mewnol ar hyn o bryd, sef cwmni RSM Bentley Jennison, ac mae ei gontract ar fin dod i ben ar ôl cwblhau gwaith archwilio 2009-10.

12.35 Rhagwelir y caiff trefniadau archwilio mewnol newydd a mwy cadarn eu rhoi ar waith o fis Ebrill 2010 a bydd y trefniadau hyn yn cynnwys penodi Pennaeth Archwilio Mewnol newydd yn ystod tymor y gwanwyn 2009.

**Trefniadau archwilio mewnol i lwfansau Aelodau'r Cynulliad - Mai 2007**

12.36 Y prif negeseuon a gafwyd yn sgil y gwaith archwilio mewnol i lwfansau Aelodau'r Cynulliad ym mis Mai 2007 oedd:

> "Mae yna system gadarn yn bodoli ar gyfer talu lwfansau Aelodau'r Cynulliad ac mae'n rhoi lefel ddigonol o reolaeth."
>
> "Mae'r system yn cynnwys gwybodaeth gywir i'w chynnwys yn adroddiad blynyddol Pwyllgor y Tŷ ac mewn ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth."
>
> "Mae'r system yn dibynnu ar gynnal cofnodion sydd wedi'u seilio ar daenlenni electronig ar gyfer cofnodi a rheoli hawliada,u a byddai manteision i gyfuno'r system yn gyfan gwbl â system ariannol CODA yn y dyfodol."

12.37 Y Prif negeseuon a gafwyd yn sgil adroddiad archwilio mewnol RSM Bentley Jennison ym mis Ionawr 2008 (wedi'i ddiweddaru ym mis Gorffennaf 2008) oedd:

> "Gan ystyried y materion a nodwyd yng ngweddill yr adroddiad hwn ac yn unol â'n diffiniadau, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gwneud cynnydd da wrth roi'r camau y cytunwyd arnynt ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion o ran trefniadau archwilio mewnol."
>
> "Dylid nodi nad oedd tri o'r argymellion yn barod i gael eu gweithredu ar adeg yr adolygiad."
>
> "Rydym wedi ailadrodd argymhellion os nad ydynt wedi'u rhoi ar waith hyd yn hyn. Yn ogystal, rydym wedi gwneud argymhellion newydd lle y bo'n briodol."

**Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol**

12.38 Cafodd y Panel dystiolaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol a gymeradwyodd yr egwyddorion canlynol o ran dulliau llywodraethu corfforaethol cadarn:

- rheolau cyhoeddedig sydd wedi'u mynegi'n glir, eu cymhwyso'n gyson a'u hategu gan ganllawiau eglur

- darparu hyfforddiant a chymorth priodol ac amserol i bawb sy'n gysylltiedig â'r dasg o weithredu'r trefniadau newydd

- threfniadau archwilio mewnol ac allanol cynhwysfawr a chadarn

12.39 Mae gan y Panel gyfres o argymhellion sy'n ymwneud â rheoli'r pecyn cymorth pedair blynedd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ac fe'u hamlinellir yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 99: Dylai Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, roi systemau ar waith i sicrhau trefn lywodraethu gorfforaethol briodol.**

**Argymhelliad 100: Dylid cynnal yr egwyddorion o lywodraethu corfforaethol cadarn fel a ganlyn:**

**i) rheolau cyhoeddedig sydd wedi'u mynegi'n glir, eu cymhwyso'n gyson a'u hategu gan ganllawiau eglur**
**ii) os derbynnir yr adroddiad hwn, rhaid i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau nodi'n glir mewn un ddogfen sydd ar gael i'r cyhoedd yr holl gostau y gall Aelod Cynulliad eu hawlio, gan gynnwys cyflogau, treuliau a lwfansau, sydd hefyd yn cynnwys costau staff cymorth**
**iii) rhaid cael canllawiau eglur i ategu'r ddogfen honno sy'n nodi'n fanwl y rheolau a'r gweithdrefnau penodol y dylai Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth eu dilyn wrth nodi costau lwfans y gellir eu hawlio, wrth baratoi hawliadau i'w cyflwyno a chadw papurau ategol**
**iv) rhaid paratoi hefyd ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer staff Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau i'w cynorthwyo i wirio a phrosesu hawliadau i gael eu cymeradwyo a'u talu**
**v) hyfforddiant a chymorth priodol ac amserol i bawb sy'n gysylltiedig â'r dasg o weithredu'r trefniadau newydd**
**vi) rhaid i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau ddatblygu deunydd hyfforddiant priodol ar y trefniadau newydd a chynnig yr hyfforddiant hwn i holl Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Dylai fod yn orfodol iddynt fynd ar y cyrsiau hyfforddi hyn**

**vii) rhaid gwneud addasiadau priodol i'r trefniadau sefydlu presennol ar gyfer pob Aelod Cynulliad a staff cymorth newydd, a hynny er mwyn sicrhau bod digon o amlygrwydd yn cael ei roi i'r materion hyn o'r cychwyn**
**viii) rhaid hefyd sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff y Comisiwn yn cael hyfforddiant, yn cynnwys staff Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau, ar sut i roi'r trefniadau newydd hyn ar waith**
**ix) rhaid sicrhau bod trefniadau archwilio mewnol ac allanol cynhwysfawr a chadarn yn bodoli**

**Y model systemau**

12.40 Mae dull gweithredu'r Panel wedi'i seilio ar y rhesymeg bod 'atal yn well na gwella' a dengys hyn isod.

**Mewnbwn-Proses-Allbwn-Canlyniad**

12.41 Yn ystod pob cam, mae'r model yn ceisio cau allan hawliadau a thaliadau amhriodol yn hytrach na dibynnu ar ddatrys problemau wrth iddynt godi.

**Y mewnbwn**

12.42 Byddai mewnbynnau nodweddiadol yn cynnwys:

- nodi cyllidebau ar gyfer gwasanaethau cymorth, gan gynnwys swyddfa, hyfforddiant a datblygiad, TG ac offer cyfathrebu symudol
- nodi lefel y staff cymorth a lefel y gyllideb ar gyfer Aelodau etholaethol a rhanbarth
- Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau yn pennu canllawiau gweithdrefnol clir ar gyfer hawlio costau a dyrannu cyllidebau
- ariannu a rhaglenni amser ar gyfer gwneud gwaith archwilio mewnol ac allanol i sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei warchod yn gywir

12.43 Credwn fod agwedd systematig at raglen waith archwilio mewnol ac allanol ar y trefniadau newydd, yn hanfodol er mwyn rhoi sicrwydd, sicrhau gwelliant parhaus a chynorthwyo trefn lywodraethu gorfforaethol gadarn. Fel rhan o ddull archwilio rhagweithiol, mae angen sicrhau bod swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol yn

amlwg iawn a rhaid rhoi blaenoriaeth uchel iawn i adolygiadau o'r gwaith o archwilio'r trefniadau newydd.

**Argymhelliad 101✳: Dylai Comisiwn y Cynulliad ddefnyddio trefniadau archwilio allanol (yr Archwilydd Cyffredinol) i roi sicrwydd annibynnol i'r Comisiwn ac i bobl Cymru fod gwariant ar hawliadau a lwfansau yn cael ei wneud yn unol â gofynion y trefniadau newydd.**

**Y broses**

12.44 Byddai'r Panel yn cefnogi sylwadau ac agwedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol 'nad yw digon da yn ddigon da i Gymru o ran rheoli'r cymorth ariannol o fewn y Cynulliad mewn ffordd briodol. Nod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw arwain y ffordd o ran safonau systemau, dulliau gweinyddu, trefniadau archwilio a'r sicrwydd sydd ei angen i sicrhau bod Aelodau'n cyflwyno ac yn cael eu talu am hawliadau dilys yn unig.

12.45 Mae gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi edrych ar y gofynion o ran iechyd ariannol, dulliau rheoli risg systemau craidd, archwilio cyfrifon, twyll a diogelwch gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor yn debygol o ystyried mwy o waith 'gwerth am arian' yn y dyfodol wrth i systemau gael eu hymgorffori mwy yng ngwaith y Cynulliad.

12.46 Mae angen cymorth ar Aelodau'r Cynulliad ym maes busnes strategol y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd ac ym maes rheoli achosion/materion gweithredol yn lleol.

12.47 Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

- gwaith mewn swyddfa etholaethol, swyddfa Caerdydd, y Senedd a gwaith arall oddi ar y safle, ystyried proffil swydd Aelod Cynulliad ac unrhyw gyfrifoldebau arbennig
- y defnydd a wneir o staff cymorth, lwfansau; treuliau teithio ac unrhyw dreuliau eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer cwblhau'r rhestr o weithgareddau

12.48 Er mwyn rheoli'r gwaith hwn, bydd angen:

- i Aelodau'r Cynulliad gynnal proses dderbynebu, casglu a chyflwyno hawliadau

- i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau gynnal proses o weinyddu hawliadau

- archwilio samplau yn fewnol ac yn allanol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth

12.49 Mae'r Panel wedi ceisio sicrhau bod gan y rheini sy'n gweinyddu'r system yr awdurdod i ddweud 'na' drwy argymell bod canllawiau clir yn cael eu rhoi a bod Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau yn cynnwys tîm hyfedr yn fewnol, sy'n cael hyfforddiant a datblygiad priodol yn barhaus. Mae'r Panel yn ffyddiog bod Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau yn cael ei reoli mewn ffordd gadarn ac effeithiol ar hyn o bryd.

12.50 Mae rôl i archwilio o ran edrych ar effeithiolrwydd y prosesau. Ceir rhaglen arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio mewnol ac allanol ar gyfer y cyfnod 2009-10 tan 2014-15 yn **Atodiad 16** i'w gymeradwyo gan Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn. Er mwyn osgoi achosion o ddyblygu ymdrech ac er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, dylai'r archwilydd allanol ystyried dibynnu ar waith yr archwilydd mewnol lle y bo hynny'n ymarferol.

**Argymhelliad 102: Dylai Comisiwn y Cynulliad ddefnyddio trefniadau archwilio mewnol er mwyn rhoi sicrwydd i Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, fod y fframwaith rheoli mewnol ar gyfer y trefniadau newydd yn un gadarn ac yn gweithredu yn ôl y bwriad.**

**Yr allbwn**

12.51 Mae canlyniadau nodweddiadol yn cynnwys:

- nifer yr achosion a gafodd eu datrys

- materion etholaethol a gafodd eu prosesau

- y polisïau cenedlaethol a ddatblygwyd

- yr asesiadau craffu a gwblhawyd

- yr ad-daliadau a wnaed gan Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau i Aelodau'r Cynulliad yn amserol ac mewn ffordd briodol

- cyhoeddi hawliadau pob Aelod Cynulliad ar wefan y Cynulliad bob mis/chwarter

- adroddiadau archwilio mewnol/allanol cadarn ar y ffordd gywir o reoli'r mathau o gymorth a'r taliadau priodol i Aelodau'r Cynulliad

12.52 Bydd canlyniadau blynyddol y gwaith archwilio a nodir yn **Atodiad 16** yn rhoi sicrwydd gwerthfawr i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, y mae'n ofynnol iddo gyhoeddi Datganiad Rheolaeth Fewnol yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.

**Argymhelliad 103: Er mwyn sicrhau tryloywder, dylai Datganiad Rheolaeth Fewnol blynyddol y Comisiwn ar gynnwys cyfeiriad pendant at effeithiolrwydd y fframwaith rheoli mewnol o ran y trefniadau newydd.**

12.53 Rhaid cyflwyno adroddiad amserol ar ganlyniadau'r holl waith archwilio mewnol, ynghyd ag unrhyw argymhellion ac ymatebion gan reolwyr, i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn.

12.54 Yn yr un modd, rhaid cyflwyno adroddiad amserol ar ganlyniadau'r holl waith archwilio allanol, ynghyd ag unrhyw argymhellion ac ymatebion gan reolwyr, i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn.

12.55 Rydym yn cydnabod bod gan yr Archwilydd Cyffredinol hefyd bwerau statudol i gyflwyno adroddiadau cyhoeddus ar ganlyniadau ei waith, gan gynnwys unrhyw waith archwilio allanol y bydd yn ymgymryd ag ef yn y maes hwn. Caiff adroddiadau o'r fath eu hystyried gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyffredinol.

### Canlyniadau

12.56 Mae'r Panel yn awyddus i leihau'r cyfleoedd ar gyfer camddefnyddio'r system dreuliau. Fodd bynnag, mae'r Panel yn cydymdeimlo rhywfaint ag Aelodau'r Cynulliad sydd wedi ceisio cydymffurfio â'r gweithdrefnau presennol ac sydd erbyn hyn yn euog drwy gysylltiad oherwydd y drafferth yn San Steffan.

12.57 Nid yw'r Panel wedi dod ar draws unrhyw achosion sylweddol, eang na bwriadol o gamddefnyddio system dreuliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ategwyd y farn hon gan dystiolaeth a gafwyd gan y Comisiynydd Safonau.

12.58 Mae'r Panel hefyd yn cydnabod nad yw'n gywir dweud mai'r Aelodau Cynulliad sy'n costio'r lleiaf neu sy'n hawlio'r swm isaf o ran treuliau sy'n rhoi gwerth gorau am arian.

12.59 Fodd bynnag, dylai'r canlyniadau o'r newidiadau arfaethedig gynnwys:

- mwy o ffydd ymhlith y cyhoedd
- natur agored a thryloyw o ran y drefn warchod
- cynnydd wrth gyflawni blaenoriaethau strategol y Cynulliad
- defnyddio arian cyhoeddus mewn ffordd briodol ac effeithlon

**Y gyfundrefn enwi**

12.60 Mae enwau presennol y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ddryslyd ym marn y Panel, o gofio eu swyddogaethau fel y'u disgrifiwyd uchod. Ym marn y Panel, byddai'r teitl 'Pwyllgor Archwilio' yn cyfleu'n well swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Yn yr un modd, byddai'r teitl 'Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Cymru)' yn cyfleu'n well swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio presennol. Mae'r Panel wedi cael cyngor cyfreithiol sy'n cadarnhau bod gan y Cynulliad yr awdurdod i wneud y newidiadau hyn.

**Argymhelliad 104: Y Pwyllgor Archwilio ddylai fod yr enw newydd ar y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.**

**Argymhelliad 105: Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Cymru) ddylai fod yr enw newydd ar y Pwyllgor Archwilio presennol.**

**Materion yn ymwneud â safonau**

12.61 Rydym yn cydnabod rôl y Comisiynydd Safonau o ran cyflwyno adroddiadau cyhoeddus ar honiadau penodol o gamymddwyn.

**Argymhelliad 106: Dylai fod yn ddyletswydd ar Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gyfeirio materion perthnasol at y Comisiynydd Safonau i ymchwilio iddynt.**

**Argymhelliad 107: Er mwyn gwella effeithiolrwydd y broses archwilio, byddai'r Panel yn cefnogi'r penderfyniad i ehangu pwerau'r Comisiynydd Safonau i ymchwilio i achosion eraill posibl, y maent yn berthnasol i'r ymchwiliad i un mater penodol neu'n gysylltiedig ag ef ym marn y Comisiynydd.**

## Y Corff Adolygu Annibynnol

12.62 Yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol o'r adroddiadau archwilio mewnol a'r canlyniadau diweddaraf sydd ar gael o'r sampl o hawliadau a gafodd eu harchwilio'n allanol, dylai'r Prif Swyddog Cyfrifyddu fod mewn sefyllfa i argymell unrhyw welliannau pellach i'r trefniadau newydd yn ystod cyfarfod adolygu blynyddol y Corff Adolygu Annibynnol.

12.63 Dylai fod gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu y gallu i alw cyfarfod arbennig gan y Corff Adolygu Annibynnol ar unrhyw adeg, a hynny i roi cyngor allanol diduedd mewn perthynas ag apêl unigol ac i geisio eglurhad neu ddehongliad o unrhyw fater cysylltiedig.

**Argymhelliad 108: Dyali'r Corff Adolygu Annibynnol gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Gall Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Cenedlaethol, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, alw cyfarfod arbennig gan y Corff Adolygu Annibynnol ar unrhyw adeg.**

12.64 Gan ystyried yr argymhellion hyn gyda'i gilydd, cred y Panel y gall y cyhoedd fod yn hyderus bod trefn lywodraethu cynhwysfawr a chadarn, gan gynnwys trefniadau archwilio annibynnol, yn ategu agwedd gref at y ffordd y caiff y cymorth ariannol i elodau'r Cynulliad ei reoli.

# Pennod 13: Gweithredu, trefniadau pontio a materion ariannol

## Rhagymadrodd

13.1 Mae'r bennod hon yn cynnwys sylwadau'r Panel am y trefniadau ar gyfer rhoi'n hargymhellion ar waith, gan gynnwys pa bryd i'w cyflwyno a pha mor raddol y dylid gwneud hynny. Mae'r bennod hefyd yn rhoi braslun o oblygiadau ariannol ein hargymhellion. Fodd bynnag, mater i Gomisiwn y Cynulliad fydd asesu'r costau a'r arbedion cyn addasu ei gyllideb yn unol â hynny. Nod cyffredinol y Panel oedd darparu pecyn o gamau y gellid eu cymryd yn llawn gyda'r cyllidebau presennol, gyda phosibilrwydd o arbed arian maes o law.

## Gweithredu a'r trefniadau pontio

13.2 Mae'r Panel yn bendant ei farn y dylai Comisiwn y Cynulliad fynd ati i roi'r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn ar waith yn gyflym ac yn gadarn. Yn y meysydd hyn, rydym wedi nodi bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn sefyllfa gryfach na chyrff eraill mewn sawl ffordd. Fodd bynnag, er mwyn aros ar flaen y gad a dangos i'r cyhoedd yng Nghymru fod y Cynulliad o ddifrif ynghylch sefydlu system ddi-fai o roi cymorth ariannol, rhaid cymryd camau'n ddiymdroi mewn nifer o feysydd. Ar ôl dweud hynny, rydym yn cydnabod yn llwyr bod yr Aelodau Cynulliad sydd wedi'u hethol ar hyn o bryd wedi dechrau yn eu swyddi o dan y trefniadau presennol, ac y dylent gael digon o amser i wneud newidiadau. Mewn ambell achos, credwn ei bod yn briodol i'r Aelodau Cynulliad presennol gadw'r trefniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd, cyn belled â'u bod yn parhau i wasanaethu'n ddi-dor. Os hynny, rydym wedi pwysleisio'r ffaith yn yr adroddiad a'r argymhellion. Mae ein hadroddiad hefyd yn cynnwys nifer o argymhellion lle bydd angen cymryd rhagor o gamau cyn y gellir eu rhoi ar waith, a bydd rhai o'r camau hyn yn gofyn am wneud newidiadau drwy ddeddfwriaeth.

13.3 Felly, ym **Mhennod 1**, rydym wedi nodi i ba gategori y mae'n holl argymhellion yn perthyn:

- yr argymhellion y dylid eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'n hadroddiad

- yr argymhellion y dylid eu rhoi ar waith yn syth ar ôl yr etholiad nesaf yn 2011

**Materion ariannol**

13.4 Nid oes unrhyw ffordd syml o ganfod effaith ein cynigion ar gostau yn y dyfodol. Yn rhannol, mae hyn gan ei bod yn anochel y byddai rhai o'r newidiadau wedi cael eu cyflwyno pe bai'n hadroddiad a'n hargymhellion wedi cael eu cyhoeddi ai peidio. Felly, ni fyddai unrhyw linell sylfaen yn rhoi man cychwyn cwbl ddilys i ni er mwyn asesu'n cynigion.

13.5 Fodd bynnag, gallwn ddweud bod ein cynigion, os cânt a phan gânt eu rhoi ar waith, yn arwain at lefel o wariant sy'n is na'r lefel y cyllidwyd ar ei chyfer ar hyn o bryd, ac yn is na'r gwir lefel ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-09. Dros gyfnod y tymor pedair blynedd nesaf yn y Cynulliad, 2011-15, credwn y gallai'r arbedion hyn fod yn £1 miliwn.

13.6 Fodd bynnag, dylem bwysleisio mai nad arbed arian oedd prif nod ein gwaith – er bod hynny'n ddigon derbyniol os mai dyna a ddaw yn ei sgil. Ein nod oedd creu strwythur cymorth dichonadwy, tryloyw a derbyniol, a hwnnw'n ennyn ffydd pobl Cymru yn y modd y defnyddir adnoddau ariannol cyhoeddus. Byddai'r strwythur hefyd yn rhoi'r adnoddau ymarferol sydd eu hangen ar Aelodau'r Cynulliad i gyflawni'u gwaith, ac yn galluogi'r Cynulliad i fanteisio i'r eithaf ar ei gapasiti i wasanaethu Cymru.

**Cyflogau**

13.7 Mae trafodion y Panel ar gyflogau i'w gweld ym **Mhennod 5**. Y prif argymhellion yw y dylai'r cysylltiad uniongyrchol rhwng cyflogau Aelodau'r Cynulliad a chyflogau Aelodau Seneddol ddod i ben, ac y dylid pennu cyflog sylfaenol sefydlog i Aelodau'r Cynulliad dros dymor pedair blynedd y Cynulliad nesaf. Mae'r Panel wedi argymell y dylid sefydlu Corff Adolygu Annibynnol drwy Fesur Cynulliad, a hynny cyn gynted â phosibl. Dylai'r corff hwnnw wedyn fynd ati i bennu cyflogau Aelodau'r Cynulliad ar gyfer holl gyfnod y Pedwerydd Cynulliad, a hynny drwy gymryd y cyflog sylfaenol o £53,108 a'i addasu yn unol â'r newid canrannol yn 75ain ganradd yr enillion cyfartalog yng Nghymru yn 2009-10. Mae disgwyl i'r ffigurau hyn gael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2010. At hynny, dylid ychwanegu lwfans tybiannol at y cyflog yn sgil y rhagolygon ar gyfer chwyddiant, a hynny drwy ragweld y cynnydd tebygol dros ddwy flynedd gyntaf y Cynulliad, yn seiliedig ar gyfradd y chwyddiant pan gaiff y cyflog ei bennu.

13.8 Gan fod y broses hon wedi'i seilio ar gyfrifiadau sy'n defnyddio dangosyddion nad ydynt eto ar gael, nid yw'n bosibl cyfrifo cost y

trefniadau ar hyn o bryd. Nid yw'n bosibl ychwaith asesu'r goblygiadau o ran cost gymharol yr argymhellion ar gyfer cyflogau'r Aelodau, a hynny gan nad oes modd gwybod pa godiadau cyflog a fyddai wedi cael eu rhoi dros y tymor nesaf o bedair blynedd, pe bai'r trefniadau presennol yn parhau. Fodd bynnag, drwy gysylltu cyflogau Aelodau'r Cynulliad gydag enillion cyfartalog Cymru a chwyddiant, mae'r Panel yn credu y bydd modd sicrhau bod y codiadau cyflog yn dilyn cyflwr cyffredinol yr economi. At hynny, tra nad yw'n bosibl dangos y byddai'r argymhellion yn arbed arian, mae'r Panel yn credu bod iddynt dair mantais sylweddol o gymharu â'r trefniadau presennol. Yn gyntaf, maent yn osgoi'r posibilrwydd o godiadau mawr a allai ddeillio o'r cysylltiad presennol gyda chyflogau San Steffan, a'r problemau a fyddai ynghlwm wth hynny; yn ail, byddant yn creu sylfaen gadarnach o lawer wrth i'r Comisiwn sefydlu ei gyllideb ar gyfer y Cynulliad nesaf; ac yn drydydd, ni fydd Aelodau'r Cynulliad o hyn ymlaen yn rhan o'r broses o bennu eu cyflogau eu hunain.

**Pensiynau**

13.9 Mae'r Panel yn teimlo bod y trefniadau pensiwn presennol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn hael, ac na fyddai cynyddu cost y ddarpariaeth honno'n gynaliadwy yn y dyfodol. Prif argymhelliad y Panel, a welir ym **Mhennod 5**, yw y dylai Comisiwn y Cynulliad ac ymddiriedolwyr y gronfa bennu targed i gyfyngu ar gyfraniad sylfaenol y Comisiwn i ddim mwy na'r lefel bresennol o 23.8 y cant. Dylid adolygu hyn yn rheolaidd er mwyn ystyried yr hyn sy'n digwydd i gynlluniau pensiynau eraill. Dros amser, bydd hyn yn sicrhau nad yw cost y cynllun pensiwn yn cynyddu i'r Cynulliad.

**Grant adsefydlu**

13.10 Mae'r Panel wedi argymell tynhau'r rheolau sy'n ymwneud â'r grant adsefydlu, fel y disgrifir ym **Mhennod 5**. Bydd y trefniadau presennol yn dal yn berthnasol i'r Aelodau presennol, cyn belled â'u bod yn parhau i wasanaethu'n ddi-dor.

13.11 Ar ôl etholiad mis Mai 2011, ni fydd gan Aelodau Cynulliad newydd yr hawl i gael grant adsefydlu oni bai eu bod yn methu â chael eu hailethol mewn etholiad y byddant yn sefyll ynddo. Os hynny, bydd y rheini sy'n gymwys yn cael grant adsefydlu o fis am bob blwyddyn gyflawn o wasanaeth, hyd at uchafswm o chwe mis.

13.12 Bydd y newidiadau hyn yn sicr yn arwain at arbedion, ond mae'n anochel y bydd y swm a arbedir yn dibynnu ar faint o Aelodau'r Cynulliad fydd yn gadael eu swyddi ar ôl etholiad 2011.

**Llety preswyl**

13.13 Mae argymhellion y Panel ynghylch llety preswyl i'w gweld ym **Mhennod 6.** Mae'r trefniadau presennol yn costio tua £430,000 y flwyddyn. Y ddau brif argymhelliad yw cael gwared ar y ffin rhwng yr ardaloedd "mewnol" ac "allanol" ymhellach i ffwrdd; a chael gwared ar y gallu i hawlio am gost llog morgais ar ail gartrefi ym Mae Caerdydd. Mae'r Panel yn disgwyl y gellir arbed tuag 20 y cant yn sgil ei argymhellion ar gyfer llety rhent a threuliau eraill a fydd yn galluogi Aelodau'r Cynulliad i aros oddi cartref wrth gyflawni eu dyletswyddau.

**Swyddfeydd**

13.14 Mae argymhellion y Panel ynghylch swyddfeydd i'w gweld ym **Mhennod 7.** Nid oes disgwyl i'r argymhellion hyn arwain at unrhyw arbedion sylweddol, ond ni ddylid gorfod gwario mwy na'r lefel bresennol ychwaith. Mae'r Panel yn credu bod yr argymhellion hyn yn niwtral o ran y gost.

**Staff Aelodau'r Cynulliad**

13.15 Mae argymhellion y Panel ynghylch staff yr Aelodau i'w gweld ym **Mhennod 8.** Ar hyn o bryd, caiff tua £5.60 miliwn ei wario ar gyflogau staff cymorth. Prif nod argymhellion y Panel yw cryfhau unedau cymorth canolog grwpiau'r pleidiau a lleihau nifer y staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Aelodau. Gyda'i gilydd, credir bod argymhellion y Panel ynghylch staff Aelodau'r Cynulliad yn niwtral o ran y gost.

**Hyfforddi a datblygu**

13.16 Mae argymhellion y Panel i'w gweld ym **Mhennod 9.** Ar hyn o bryd, tua £41,000 yw'r gyllideb flynyddol ar gyfer hyfforddi a datblygu, gan gynnwys arian a drosglwyddir at y diben hwn o'r lwfans 'costau staff eraill' yng nghyllideb cyflogau'r staff – a dim ond tua hanner hynny a gaiff ei wario.

13.17 Mae'r Panel yn credu ei bod yn hanfodol cynyddu'r adnoddau a'r ymrwymiad i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu o'r radd flaenaf, a hynny er mwyn galluogi Aelodau'r Cynulliad a'u staff i wynebu'r heriau sydd o'u blaenau. Mae'r Panel yn argymell cynnydd sylweddol i £350,000 ym mlwyddyn gyntaf y Cynulliad newydd a £200,000 yn y blynyddoedd dilynol. Fodd bynnag, gan ystyried yr arbedion y gellir eu

gwneud mewn meysydd eraill, mae'r Panel yn credu y gellir gwneud hyn gyda'r adnoddau ariannol sy'n bodoli'n barod.

**Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu**

13.18 Mae argymhellion y Panel i'w gweld ym **Mhennod 10.** Yn y pen draw, mae argymhellion y Panel yn y maes hwn yn niwtral o ran y gost.

13.19 Mae'r Panel yn cefnogi'r prosiectau TGCh arfaethedig ar gyfer y dyfodol, o dan y rhaglen 'i-Change', cyn belled â bod y Comisiwn yn fodlon eu bod yn darparu gwerth da am arian.

**Teithio**

13.20 Mae argymhellion y Panel ar gyfer teithio i'w gweld ym **Mhennod 11**.

13.21 Mae'r Panel yn credu y byddai modd arbed arian drwy wneud defnydd effeithiol o system brynu ganolog a gostyngiadau, ond ar y cyfan mae'r argymhellion yn niwtral o ran y gost.

**Cefnogi nod strategol y Comisiwn ar gyfer gweithio'n gynaliadwy**

13.22 Mae nifer o sylwadau ac argymhellion y Panel yn cyd-fynd â nod strategol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer gweithio'n gynaliadwy. Mae'r rhain i'w gweld yn Nhabl 13.1 ac yn seiliedig ar y darn perthnasol o Gofrestr Risgiau Strategol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2009-10. Bwriedir i argymhellion y Panel gael eu hymgorfforri yng ngwaith y Cynulliad fel y dangosir.

**Tabl 13.1 Darn o Gofrestr Risgiau Strategol y Comisiwn**

| **Nod strategol** | **Beth yw'r risg / bygythiad** | **Yr effaith os caiff y risg ei gwireddu** | **Y systemau rheoli sy'n bodoli** | **Camau pellach i reoli risg** | **Effaith argymhellion y Panel** |
|---|---|---|---|---|---|
| <u>Nod strategol 4</u> Byddwn yn gweithio'n gynaliadwy | Beirniadaeth gyhoeddus am fethu â dangos ein bod yn gweithio'n gynaliadwy | **Canlyniadau** (Niwed i'r amgylchedd / enw da)<br>• Dealltwriaeth y cyfryngau a'r cyhoedd o faterion yn wallus, yn fylchog neu'n annymunol<br>• Effeithio ar frwdfrydedd ac ar yr hyder mewn cyngor a roddir<br>• Targedau'n mynd yn wannach ac heb eu | • Cynllun gweithredu'r Ddraig Werdd | • Gosod a chyrraedd targedau i fod yn niwtral o ran carbon | **Camau i'w cymryd yn y Penodau ar y canlynol:** Llety preswyl, Swyddfeydd, Hyfforddi a datblygu, TGCh, Teithio.<br>Yn cynnwys cynnig i gwtogi hyd y toriadau er mwyn defnyddio adeiladau'r Cynulliad yn fwy effeithlon |

| Nod strategol | Beth yw'r risg / bygythiad | Yr effaith os caiff y risg ei gwireddu | Y systemau rheoli sy'n bodoli | Camau pellach i reoli risg | Effaith argymhellion y Panel |
|---|---|---|---|---|---|
| | | cyrraedd | | | |
| | | • Yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r nod yn fwy na'r manteision – beirniadaeth o du'r cyhoedd<br>• Nid yw trefniadau contractau yn arwain at welliannau | • Y Comisiwn a'r Bwrdd Rheoli wedi arwyddo'r Strategaeth a'r Datganiad Amgylcheddol. | • Datblygu ein dull tryloyw / agored | Cefnogi datganiad y Panel ar gynllun y Ddraig Werdd |
| | | • Defnyddio mwy o ynni os nad oes cyflenwadau ar gael | • Tîm Gwyrdd brwdfrydig ac aelodau dylanwadol | • Helpu i wneud penderfyniadau anodd er mwyn cyrraedd y targedau | Cefnogi datganiad y Panel ar gynllun y Ddraig Werdd |
| | | **Cyfleoedd**<br>• Grŵp Awyr Las y Cynulliad – defnyddio arbenigedd a phrofiad<br>• Adolygu pa mor gost-effeithiol yw ffynonellau ynni<br>• Hyrwyddo adnoddau cynyddol i gynllunio canlyniadau | • Mwy o allu o ran rheoli ynni a'r Ddraig Werdd | • Cyflwyno cynllun teithio | Ym Mhennod 11, mae'r Panel yn argymell camau penodol i'w cymryd ar deithio, a gellir cynnwys y rhain yn y Cynllun Teithio. Yn eu plith mae'r angen i annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, adolygu'r lwfans tanwydd i annog pobl i ddefnyddio cerbydau sy'n ecogyfeillgar a rhannu ceir. Adolygu'r cymhorthdal a threfniadau parcio. |
| | | | • Gweithredwyd argymhellion yr Ymddiriedolaeth Garbon – ailgynllunio rhaglen rheoli adeiladau i leihau'r ynni a ddefnyddir | • Adolygu Cynllun Gweithredu'r Ddraig Werdd (Cynaliadwyedd) a'i gostio mewn ffordd fwy cadarn. | Mae'r Panel yn nodi camau i'w cymryd yn y penodau ar Lety preswyl a Swyddfeydd. Dylai'r dull adlewyrchu ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy wrth ddod o hyd i lety preswyl a swyddfeydd addas.<br>Yr angen i leihau ôl troed carbon ail gartrefi |
| | | | • Sefydlu system rheoli ynni i fonitro'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio'n | • Y grŵp Awyr Las i gynnig awgrymiadau | Ailgylchu offer a nodwyd yn y bennod ar TGCh. Angen ystyried gweithio gyda rhith-swyddfeydd a |

| Nod strategol | Beth yw'r risg / bygythiad | Yr effaith os caiff y risg ei gwireddu | Y systemau rheoli sy'n bodoli | Camau pellach i reoli risg | Effaith argymhellion y Panel |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | well<br>• Sefydlwyd grŵp Awyr Las er mwyn manteisio ar arbenigedd cyrff allanol<br>• Cynaliadwyedd wedi'i gynnwys yn y prosesau caffael, gan ystyried gwelliannau amgylcheddol ar gyfer cytundebau sydd eisoes yn bodoli. | | thechnoleg symudol. |

### Archwilio

13.23 Mae argymhellion y Panel ar archwilio i'w gweld ym **Mhennod 12.** Yn y pen draw, mae'r Panel yn ffyddiog y gall y cyhoedd deimlo'n sicr y bod yr adroddiad hwn yn argymell dull cryfach o reoli'r system ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, a'r dull hwnnw wedi'i seilio ar lywodraethu corfforaethol cadarn a threfniadau archwilio annibynnol.

# Atodiad 1: Penderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009

**ADRAN 1: RHAGARWEINIAD, DIFFINIADAU A DARPARIAETHAU CYFFREDINOL**


1.1. Rhagarweiniad

1.2. Diffiniadau

1.3. Lwfansau Aelodau

1.4. Penderfyniad y Prif Weithredwr a'r Clerc

1.5. Lwfans ar gyfer Rhan o Flwyddyn

1.6. Codiadau Blynyddol

1.7. Talebau a Derbynebau

1.8. Cyflwyno Cais yn Brydlon

1.9. Os bydd Aelod yn marw neu'n methu â chymryd y llw oherwydd salwch


**ADRAN 2: CYFLOGAU'R AELODAU**


2.1.Swm sy'n Daladwy

2.2. Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod Cynulliad

2.3. Talu Cyflogau


**ADRAN 3: LWFANS COSTAU YCHWANEGOL – ar gyfer treuliau a ysgwyddir wrth aros oddi cartref dros nos**


3.1. Diben a Swm

3.2. Lefel Is y Lwfans Costau Ychwanegol - Aelodau'r Ardal Fewnol

3.3. Lefel Uwch yLwfans Costau Ychwanegol - Aelodau'r Ardal Allanol


**ADRAN 4: TEITHIAU ARFEROL YR AELODAU (yng Nghymru)**


4.1. Rhagarweiniad

4.2. Egwyddorion Cyffredinol

4.3. Teithio Arferol

4.4. Teithio ar y Ffyrdd

4.5. Cyfraddau Fesul Milltir

4.6. Teithiau Dwyffordd a Ganiateir

4.7. Teithio mewn Tacsi

4.8. Teithio mewn Car Llog

4.9. Teithio ar Drên

4.10. Teithio mewn Awyren

4.11. Teithio ar fusnes y Pwyllgorau

**ADRAN 5: TEITHIAU ESTYNEDIG**

5.1. Rhagarweiniad

5.2. Symiau ac Amodau

**ADRAN 6: TEITHIAU GAN BARTNER A PHLANT**

6.1. Cyfyngiad ar Nifer y Teithiau

6.2. Diffiniad o Blentyn

6.3. Teithio mewn Car

6.4. Taliad uniongyrchol i'r priod neu blant

**ADRAN 7: TEITHIAU GAN STAFF YR AELODAU**

7.1. Cyfyngiad ar Nifer y Teithiau

7.2. Teithio mewn Car

7.3. Taliadau uniongyrchol i'r staff

**ADRAN 8: TEITHIO I SEFYDLIADAU'R GYMUNED EWROPEAIDD etc.**

8.1. Hawl

8.2. Cais

8.3. Teithiau i seneddau, cynghorau neu gynulliadau rhanbarthol

**ADRAN 9: LWFANS COSTAU SWYDDFA**

9.1. Diben a Swm

9.2. Costau Swyddfa

9.3. Diogelwch Swyddfeydd

9.4. Iechyd a Diogelwch/Mynediad i'r Anabl

9.5. Trosglwyddo Arian

**ADRAN 10: LWFANS CYFLOGAU STAFF**

10.1. Diben a Swm

10.2. Datblygiad Cyflog

10.3. Costau Eraill yn ymwneud â Staff

10.4. Contractau Cyflogaeth

10.5. Talu Cyflogau

10.6. Trosglwyddo Arian

10.7. Taliadau uniongyrchol i'r staff

**ADRAN 11: PENSIWN A DARPARIAETH GYSYLLTIEDIG AR GYFER STAFF YR AELODAU**

11.1. Pensiwn

11.2. Yswiriant Bywyd

11.3. Yswiriant Salwch Difrifol

**ADRAN 12: LWFANS STAFF DROS DRO**

12.1. Diben

12.2. Cymhwyso am y Lwfans Staff Dros Dro

12.3. Cyfyngiadau

**ADRAN 13: TALIADAU DISWYDDO I STAFF CYMORTH AELODAU'R CYNULLIAD A DELIR O'R LWFANS CYFLOGAU STAFF**

13.1. Pan fo Aelod yn gadael y Cynulliad

**ADRAN 14: LWFANS DIRWYN I BEN**

14.1. Diben a Swm

14.2. Treuliau Taladwy

**ADRAN 15: GRANT ADSEFYDLU**

15.1. Grant Adsefydlu

15.2. Deiliaid Swyddi

**ADRAN 16: GRANT YMDDEOL OHERWYDD SALWCH**

16.1 Grant Ymddeol Oherwydd Salwch

## ADRAN 17: LWFANS ANABLEDD

17.1. Diben a Swm

## ADRAN 18: GALW'R CYNULLIAD NEU BWYLLGOR YN ÔL YN YSTOD Y TORIAD

18.1. Diben a Swm

## ADRAN 1: RHAGARWEINIAD, DIFFINIADAU A DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

### *1.1. Rhagarweiniad*

1.1.1. Penderfyniad gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw hwn o dan adrannau 20, 21 a 53 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“y Ddeddf”) a Rheol Sefydlog 1.7 ac fe’i gelwir yn Benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau a Lwfansau) 2009 a daw i rym ar 1 Ebrill 2009.

1.1.2. Mae’r Penderfyniad hwn yn pennu’r cyflogau a’r lwfansau sy’n daladwy i Aelodau’r Cynulliad o 1 Ebrill 2009. Yn amodol ar unrhyw arbediad a darpariaethau cyfamserol a gynhwysir ynddo, mae’r Penderfyniad hwn yn disodli’r canolynol, na fydd yn gymwys bellach:

- Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau’r Cynulliad a Swyddogion) (Lwfansau) 2008;
- Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau’r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau) Rhagfyr 2008;
- adrannau 1, 2, 13 – 17 a 19 o Benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau’r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau, Lwfansau, etc) 2006.

Mae hyn yn golygu na fydd Penderfyniadau 2008 yn gymwys bellach ac adran 18 yn unig o Benderfyniad 2006 sy’n parhau’n gymwys.

### *1.2. Diffiniadau*

1.2.1. Oni bai bod y dy-destun yn gofyn fel arall, dyma ystyr y geiriau a’r ymadroddion a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Caerdydd | Unrhyw fan o fewn cylch pum milltir o gwmpas adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. |
| Prif gartref | Y cartref a gofrestrwyd gan yr Aelod gyda’r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau, sef y cartref lle y mae'r Aelod yn arfer treulio'r rhan fwyaf o'i (h)amser ac yn talu Treth y Cyngor yn llawn arno. |
| Cyflog | Y cyfanswm gros sy'n daladwy i Aelod cyn tynnu unrhyw beth e.e. treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol |
| Blwyddyn | Y 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth |
| Staff | Staff Cymorth Aelodau’r Cynulliad – oni bai y nodir yn wahanol |

1.2.2. Bydd gan dermau eraill a ddefnyddir yr un ystyr ag yn y Ddeddf, neu yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

1.2.3. Mae'r cyfeiriadau at y Prif Weithredwr a'r Clerc yn gyfeiriadau at Glerc y Cynulliad fel y'i diffinnir yn adran 26 o'r Ddeddf.

### *1.3. Lwfansau Aelodau*

1.3.1. Dim ond mewn perthynas â gwariant y bu'n rhaid ei ysgwyddo ar gyfer busnes y Cynulliad y telir lwfansau.

### *1.4. Penderfyniad y Prif Weithredwr a'r Clerc*

1.4.1 Y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu ar unrhyw gweistynau'n ymwneud â'r hawl i dderbyn lwfans a ddangosir yn y Penderfyniad hwn. Gall y Prif Weithredwr a'r Clerc ymgynghori â Chomisiwn y Cynulliad.

### *1.5. Lwfans ar gyfer Rhan o Flwyddyn*

1.5.1. Mae'r lwfansau a nodir isod wedi'u mynegi fel terfyn ariannol blynyddol felly bydd cyfyngiad pro rata ar Aelod sy'n ymuno neu'n ymadael â'r Cynulliad yng nghanol blwyddyn. Yn gyffredinol ni chyfyngir ar yr Aelod o ran yr hyn y caiff ei hawlio o fis i fis, ond mewn rhai achosion byddai'n rhaid ad-dalu lwfans pe bai Aelod yn gadael yng nghanol blwyddyn ariannol, er enghraifft os yw Aelod wedi hawlio lwfans blwyddyn gyfan erbyn dechrau mis Rhagfyr ac yn gadael y Cynulliad ganol mis Rhagfyr.

1.5.2. Y lwfansau penodol yw Lwfansau Costau Ychwanegol, Lwfans Costau Swyddfa a Lwfans Cyflogau Staff.

### *1.6. Codiadau Blynyddol*

1.6.1. Bydd y Lwfans Costau Ychwanegol, fel y'i diffinnir yn Adran 3 o'r Penderfyniad hwn, a'r Lwfans Costau Swyddfa, fel y'i diffinnir yn Adran 9 o'r Penderfyniad hwn, yn codi ar 1 Ebrill 2010, ac ar yr un dyddiad bob blwyddyn wedi hynny, yn unol â'r cynnydd dros y flwyddyn flaenorol ym Mynegai Prisiau Manwerthu'r DU ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

### *1.7. Talebau a Derbynebau*

1.7.1. Bydd Aelodau'r Cynuliad sydd am hawlio lwfans yn cyflwyno cais am y lwfans fel a phryd y nodir gan y Prif Weithredwr a'r Clerc a gall y Prif Weithredwr a'r Clerc nodi amseroedd gwahanol a ffyrdd gwahanol ar gyfer hawlio lwfansau gwahanol.

1.7.2. Heb ragfarnu ar gynnwys cyffredinol paragraff 1.7.1, gall y Prif Weithredwr a'r Clerc ofyn bod yn rhaid amgáu talebau a dogfennau eraill i gefnogi'r hawliad, fel y gwêl yn dda.

1.7.3. Ym mhob achos, gellir ond cyflwyno anfoneb neu dderbynneb sydd yn enw Aelod perthnasol y Cynulliad neu aelod o'i staff cymorth ac nid trydydd person (er enghraifft at rywun yn yr etholaeth) oni bai bod dogfennau dilys yn cael eu cyflwyno i brofi bod y gwariant yn gwbl gysylltiedig â busnes y Cynulliad.

### *1.8 Cyflwyno Cais yn Brydlon*

1.8.1 Dylid cyflwyno cais am lwfans o fewn tri mis wedi diwedd y mis yr ysgwyddwyd y gwariant. Wrth gyflwyno cais am lwfans ar ôl y cyfnod hwn dylid egluro pam y bu oedi. Y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau, ar ran y Prif Weithredwr a'r Clerc, fydd yn ystyried a ellir derbyn y ceisiadau hwyr. Os oes amheuaeth, neu os oes materion newydd neu ddadleuol yn codi, bydd y Tîm Cymorth Busnes yn cyfeirio'r mater at y Prif Weithredwr a'r Clerc er mwyn iddo/iddi benderfynu ar y mater.

### *1.9 Os bydd Aelod yn marw neu'n methu â chymryd y llw oherwydd salwch*

1.9.1 Os bydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod o ganlyniad i gynnal etholiad arferol o dan adrannau 3 a 14 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ond wedyn yn cael ei ail-ethol yn yr etholiad hwnnw, yn marw neu'n methu â chymryd y Llw sy'n ofynnol o dan adran 23 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 oherwydd salwch, bydd Lwfans Diwryn i Ben ar gael o dan y telerau a nodir yn adran 14 o'r Penderfyniad hwn.

## ADRAN 2: CYFLOGAU'R AELODAU

### *2.1. Swm sy'n Daladwy*

2.1.1. Y cyflog sy'n daladwy i Aelodau fydd cyflog sylfaenol sy'n cyfateb i 82.0 y cant o gyflog Aelod Seneddol, ynghyd â chyflog deiliad swydd ychwanegol os yw'r Aelod yn dal un o'r swyddi a restrir ym mharagraff 2.1.3. Nid yw cyflog Aelod yn dod yn daladwy hyd nes ei fod/bod ef/hi wedi tyngu llw neu wneud y datganiad sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith yn unol ag adran 23 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

2.1.2. Bydd cyflogau Aelodau'r Cynulliad sydd hefyd yn Aelodau Seneddol neu'n Aelodau o Senedd Ewrop yn llai yn unol ag adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac yn cyfateb i ddwy ran o dair y cyflog sylfaenol y byddai gan Aelod Cynulliad yr hawl i'w gael fel arall.

2.1.3. Bydd gan Aelodau sydd yn gwneud unrhyw un o'r swyddi canlynol hawl i dderbyn cyflog ychwanegol fel a ganlyn:

| **Swydd** | **Cyflog Deiliad Swydd Ychwanegol** |
|---|---|
| Y Prif Weinidog | cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel ag Ysgrifennydd Gwladol |
| Gweinidogion Cymru / y Cwnsler Cyffredinol / y Llywydd / Arweinydd y blaid fwyaf nad oes ganddi swyddogaeth weithredol | cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel â Gweinidog Gwladol |
| Dirprwy Weinidogion / y Dirprwy Lywydd / Prif Chwip y Llywodraeth | cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel â 62.9 y cant o gyflog Gweinidogion Cymru |
| Arweinyddion pleidiau nad oes ganddynt swyddogaeth weithredol (heblaw am arweinydd yblaid fwyaf) / Comisiynwyr y Cynulliad / Prif Chwip yr Wrthblaid os hefyd yn Rheolwr Busnes yr Wrthblaid | cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel â 27.9 y cant o gyflog Gweinidogion Cymru |
| Cadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad | cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel â 27.9 y cant o gyflog Gweinidogion Cymru os yw'r Pwyllgor wedi ei restru yn Rhan 1 o'r Atodiad neu 14.6 y cant o gyflog Gweinidogion os yw'r Pwyllgor wedi ei restru yn Rhan 2 o'r Atodiad. |

2.1.4. Os oes gan Aelod fwy nag un o'r swyddi a nodir ym mharagraff 2.1.3 caiff dderbyn cyflog deiliad swydd ychwanegol ar gyfer un yn unig o'r swyddi hyn, sef y cyflog uchaf neu yn ôl fel y bo'n digwydd, y swydd uchaf ei chyflog.

### *2.2. Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod Cynulliad*

2.2.1. Caiff Cwnsler Cyffredinol a benodwyd o dan adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ond nad yw'n Aelod Cynulliad dderbyn cyflog ar yr un lefel â chyfanswm y cyflog sy'n daladwy o dan baragraffau 2.1.1 i 2.1.3 i Gwnsler Cyffredinol sy'n Aelod Cynulliad.

### *2.3. Talu Cyflogau*

2.3.1. Bydd cyflogau'n cael eu talu'n fisol fel ôl-daliad ar ddiwrnod gwaith olaf y mis. Bydd y taliadau yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrif yr Aelod drwy drosglwyddiad electronig (System Glirio Awtomataidd y Bancwyr – BACS).

**ADRAN 3: LWFANS COSTAU YCHWANEGOL – ar gyfer treuliau a ysgwyddir wrth aros oddi cartref dros nos**

### *3.1. Diben a Swm*

3.1.1. Mae'r Lwfans Costau Ychwanegol yn ad-dalu'r Aelodau am dreuliau y bu'n rhaid eu hysgwyddo wrth aros dros nos o'u prif gartref er mwyn cyflawni'u dyletswyddau fel Aelodau.

3.1.2. Mae dwy lefel o Lwfans Costau Ychwanegol i'w cael (sef Lefel Uwch y Lwfans Costau Ychwanegol a Lefel Is y Lwfans Costau Ychwanegol), yn dibynnu ar leoliad prif gartref yr Aelod.

### *3.2. Lefel Is y Lwfans Costau Ychwanegol - Aelodau'r Ardal Fewnol*

3.2.1. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Adran hon, bydd gan yr Aelodau sydd â'u prif gartref yn un o'r etholaethau canlynol yr hawl i Lefel Is y Lwfans Costau Ychwanegol.

| | | |
|---|---|---|
| Caerfifli | Canol Caerdydd | Gogledd Caerdydd |
| De Caerdydd a Phenarth | Gorllewin Caerdydd | Dwyrain Casnewydd |
| Gorllewin Casnewydd | Pontypridd | Bro Morgannwg |

3.2.2. Caiff Aelodau sy'n gymwys am Lefel Is y Lwfans Costau Ychwanegol hawlio hyd at £4,135 yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2009.

3.2.3. Mae Lefel Is y Lwfans Costau Ychwanegol yn daladwy mewn perthynas â chost unrhyw lety dros nos oddi cartref.

### *3.3. Lefel Uwch yLwfans Costau Ychwanegol - Aelodau'r Ardal Allanol*

3.3.1. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Adran hon, caiff Aelodau nad yw eu prif gartref yn un o'r etholaethau a restrir ym mharagraff 3.2.1 hawlio Lefel Uwch y Lwfans Costau Ychwanegol.

3.3.2. Caiff Aelod a oedd yn byw mewn eiddo yr oedd Lwfans ar y Lefel Uwch yn daladwy mewn perthynas ag ef ar 1 Ebrill 2007 barhau i dderbyn y Lefel Uwch hyd yn oed pe na bai'r eiddo, fel arall, yn gymwys oherwydd newidiadau yn y ffiniau etholaethol, cyn belled â'i fod yn dal yn byw yn yr eiddo hwnnw.

3.3.3. Caiff Aelodau sy'n gymwys am lefel uwch y Lwfans Costau Ychwanegol hawlio hyd at £13,115 yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2009.

3.3.4. Mae Lefel Uwch y Lwfans Costau Ychwanegol yn daladwy mewn perthynas â chostau unrhyw lety dros nos oddi cartref. Fe'i telir hefyd i helpu â chostau'r Aelod i ddarparu ail gartref yng Nghaerdydd gan gynnwys eitemau megis dodrefn, llog morgais a rhent. Cyn prynu dodrefn unigol neu unrhyw eitemau unigol eraill sy'n costio mwy na £2,000 dylid cysylltu â Swyddfa Tîm Adnoddau Dynol a Lwfansau'r Aelodau a gofyn am eu cymeradwyaeth.

3.3.5. Rhaid i Aelodau sy'n hawlio'r llog ar forgais ail gartref yn ôl gyflwyno, o leiaf unwaith bob 12 mis, ddatganiad o'r llog a dalwyd er mwyn inni allu cyfrif unrhyw newid a fu yng nghyfraddau'r llog.

3.3.6. Caiff Aelodau hawlio taliad safonol o £30.65 am dreuliau y bu'n rhaid eu hysgwyddo wrth aros dros nos o'u prif gartref er mwyn cyflawni'u dyletswyddau fel Aelodau. Gellir hawlio'r swm hwn heb fod angen cyflwyno derbynneb am bob cost unigol a ysgwyddir yn ystod aros oddi cartref dros nos o'u prif gartref.

## ADRAN 4: TEITHIAU ARFEROL YR AELODAU (yng Nghymru)

### *4.1. Rhagarweiniad*

4.1.1. Mae'r Adran hon yn ymdrin â'r teithiau a wneir gan Aelodau'r Cynulliad ar fusnes y Cynulliad o fewn Cymru (a elwir yn "teithiau arferol"); nid yw'n cynnwys teithio ar fusnes y Cynulliad i rannau eraill o'r DU na thu hwnt (gweler Adrannau 5 ac 8). Yn amodol ar yr hyn a nodir yn Adran 4.2.1, gall Aelod deithio ar y ffyrdd, ar y rheilffyrdd, mewn awyren neu ar y môr ar gyfer y siwrneiau a nodir ym mharagraff 4.1.2 ar draul y cyhoedd os yw'r siwrnai at ddiben cyflawni ei (d)dyletswyddau fel Aelod o'r Cynulliad

4.1.2. Caiff Aelod hawlio lwfans teithio estynedig cyn belled na chaiff ei ad-dalu o ffynhonnell arall, er y gallai'r daith fod at ddiben cyflawni dyletswyddau ar ran y Cynulliad a sefydliadau eraill.

### *4.2. Egwyddorion Cyffredinol*

4.2.1. Disgwylir i'r Aelodau deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol, gan roi ystyriaeth i union gost y daith a chostau aros dros nos. Fodd bynnag, gellir ystyried hefyd yr amser a dreulir ar y daith, a lle y gellir profi manteision o leihau'r amser teithio, o dan amgylchiadau eithriadol, gellir o bosibl hawlio ad-daliad ar gyfradd uwch. Bydd swm priodol yn cael ei dynnu oddi ar hawliad Aelod nad yw, ym marn y Prif Weithredwr a'r Clerc, wedi teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol.

### *4.3. Teithio Arferol*

4.3.1. Yn amodol ar baragraff 4.2.1, mae gan Aelod hawl i deithio ar draul y Cynulliad tra'n teithio ar fusnes y Cynulliad gan ddilyn llwybr rhesymol.

### *4.4. Teithio ar y Ffyrdd*

4.4.1. Yn amodol ar Adran 4.2.1, caiff Aelod wneud 'taith arferol' mewn car a hawlio lwfans fesul milltir yn seiliedig ar y milltiroedd a deithiwyd.

### *4.5. Cyfraddau Fesul Milltir*

4.5.1. Telir Cyfraddau Fesul Milltir a Gymweradwyir gan Gyllid a Thollau EI Mawrhydi i'r rheini sy'n teithio mewn car, ar feic modur a beic.

### *4.6. Teithiau Dwyffordd a Ganiateir*

4.6.1. Os yw Aelod yn defnyddio car ar gyfer teithio o'i gartref cofrestredig i'r orsaf reilffordd neu'r maes awyr agosaf, gellir hawlio ar gyfer y daith ddychwelyd a wneir gan y sawl sy'n ei hebrwng. Caniateir taith ddwyffordd gyffelyb pan fydd Aelod yn cael ei yrru i'r etholaeth o'r cartref cofrestredig, ac yn teithio wedyn i Gaerdydd ar drafnidiaeth gyhoeddus.

### *4.7. Teithio mewn Tacsi*

4.7.1. Yn amodol ar Adrannau 4.2.1, 4.7.2 a 4.7.3, os yw Aelod yn teithio mewn tacsi ar fusnes y Cynulliad caiff wneud cais am ad-daliad cyn belled nad yw'n fwy na chyfradd uwch y Lwfans Fesul Milltir mewn Car a nodir ym mharagraff 4.5.1.

4.7.2. Os nad yw'n ymarferol i'r Aelod ddefnyddio unrhyw drafnidiaeth ar wahan i dacsi, caiff hawlio'r costau a ysgwyddwyd.

4.7.3. Ar unrhyw adeg y swm mwyaf y caiff Aelod ei hawlio fel ad-daliad o dan y lwfans hwn yw'r union gostau a ysgwyddwyd.

### *4.8. Teithio mewn Car Llog*

4.8.1. Yn amodol ar baragraff 4.2.1, os bydd Aelod yn teithio mewn car llog ar fusnes y Cynulliad, caiff hawlio'r union gostau a ysgwyddwyd.

### *4.9. Teithio ar Drên*

4.9.1. Yn amodol ar baragraff 4.2.1, caiff Aelod sy'n talu o'i boced ei hun am deithio mewn trên hawlio'r union gostau a ysgwyddwyd. Caiff Aelodau'r Cynulliad deithio ar docyn Dosbarth Cyntaf neu Ddosbarth Safonol, gan ddibynnu ar yr hyn sydd well ganddynt ac ar y tocynnau sydd ar gael.

### *4.10. Teithio mewn Awyren*

4.10.1. Yn amodol ar baragraff 4.2.1, caiff Aelod hawlio'r gost o deithio mewn awyren reolaidd ar gyfer taith arferol. Caiff Aelod hawlio'r gost o deithio mewn awyren breifat neu awyren siarter o fewn y trefniadau teithio arferol, hyd at uchafswm y gost o wneud yr un daith mewn awyren reolaidd.

### *4.11. Teithio ar fusnes y Pwyllgorau*

4.11.1. Mae’r telerau uchod yn berthnasol hefyd pan fydd Aelod yn teithio ar fusnes swyddogol un o’r Pwyllgorau. Caiff hawlio lwfans fesul milltir ar y gyfradd uwch a nodir yn Adran 4.5.1 ond ni fydd y milltiroedd hynny’n cyfrif yn erbyn cyfyngiadau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi.

## ADRAN 5: TEITHIAU ESTYNEDIG

### *5.1. Rhagarweiniad*

5.1.1. Yn ogystal â threfniadau "teithiau arferol" (Adran 3) gall Aelod deithio ar draul y cyhoedd i fannau eraill yn y DU ar fusnes y Cynulliad a hynny o dan "lwfans teithiau estynedig". Er mwyn bod yn gymwys rhaid i'r daith gydymffurfio ag un o'r gofynion canlynol:

- Mae’r daith at ddiben y Cynulliad
- Mae’r daith yn ymwneud â mater sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd, neu gerbron un o’r Pwyllgorau y mae’r Aelod yn ei wasanaethu
- Mae'n berthnasol i etholaeth, neu'n ymwneud â mater o ddiddordeb cyffredinol i'r etholaeth

5.1.2. Caiff Aelod hawlio lwfans teithio estynedig cyn belled na chaiff ei ad-dalu o ffynhonnell arall, er y gallai'r daith fod at ddiben cyflawni dyletswyddau ar ran y Cynulliad a sefydliadau eraill. Cyn i’r Aelod allu hawlio’r lwfans teithio ychwanegol hwn, mae’n rhaid i’r Tîm Cymorth i Aelodau gytuno ar y daith ymlaen llaw. Y Prif Weithredwr a’r Clerc fydd yn penderfynu ar unrhyw deithiau na roddodd y swyddfa sêl ei bendith iddynt.

### *5.2. Symiau ac Amodau*

5.2.1. Rhestrir lefelau ac amodau’r lwfans teithiau estynedig yn Adran 4.

## ADRAN 6: TEITHIAU GAN BARTNER A PHLANT

### *6.1. Cyfyngiad ar Nifer y Teithiau*

6.1.1. Caiff Aelod hawlio cost teithiau ar gludiant cyhoeddus gan ei b(ph)artner ac unrhyw blant dan ddeunaw oed rhwng Caerdydd a'r etholaeth, neu Gaerdydd a chartref cofrestredig yr Aelod hwnnw. Nid oes rhaid i'r Aelod deithio gyda'r teulu. Er hynny, dim ond ar gyfer 12 taith y flwyddyn gan aelodau o'i deulu y caiff Aelod eu hawlio.

6.1.2. At ddibenion y lwfans hwn, diffinnir partner fel a ganlyn:

- Priod cyfreithlon;
- Partneriaid Sifil fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004
- Person o'r naill ryw neu'r llall sy'n cyd-fyw â'r Aelod ac a enwebwyd yn bartner i'r Aelod at ddibenion Tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

6.1.3. Mae taith ddwyffordd yn cyfrif fel dwy daith sengl.

### *6.2. Diffiniad o Blentyn*

6.2.1. Mae plentyn, at ddibenion y lwfans hwn, yn cynnwys llysblentyn, plentyn wedi'i fabwysiadu, plentyn maeth, neu unrhyw blentyn arall sy'n byw fel un o deulu'r Aelod ac sydd dan ddeunaw oed.

### *6.3. Teithio mewn Car*

6.3.1. Caiff partner yr Aelod ac unrhyw blant dan ddenaw oed deithio mewn car yn hytrach na thrafnidiaeth gyhoeddus rhwng Caerdydd a'r etholaeth, neu Gaerdydd a chartref cofrestredig yr Aelod. Mewn achosion o'r fath, caiff yr Aelod hawlio'r gyfradd briodol fesul milltir. Dylid hawlio costau teithio partner yr Aelod mewn car ar wahân i hawliad yr Aelod ei hun. Y gyfradd fesul milltir yw'r un sy'n berthnasol i Aelodau. Bydd unrhyw daith o'r fath yn cyfrif yn erbyn y cyfanswm o 12 taith sengl a ganiateir mewn blwyddyn. Ni chaiff partner na phlentyn hawlio costau teithio os yw wedi teithio yn yr un car â'r Aelod.

### *6.4. Taliad uniongyrchol i'r priod neu blant*

6.4.1. Caiff yr Aelod ofyn i'r Tim Cymorth Busnes i Aelodau dalu'r swm a hawliwyd o dan y lwfans hwn yn uniongyrchol i'r partner neu'r plentyn dan sylw.

## ADRAN 7: TEITHIAU GAN STAFF YR AELODAU

### *7.1. Cyfyngiad ar Nifer y Teithiau*

7.1.1. Caiff Aelod hawlio costau iddynt hwy o hyd at 18 taith ddwyffordd y flwyddyn rhwng Caerdydd a'r etholaeth, a wnaed ar gludiant cyhoeddus gan aelodau o'i staff. At y diben hwn, mae staff cymorth yn golygu'r rheini a gyflogir ar ran yr Aelod o'r Lwfans Cyflogau Staff, cyllid i grwpiau neu'r Lwfans Staff Dros Dro.

### *7.2. Teithio mewn Car*

7.2.1. Caiff Aelod hawlio cost teithiau mewn car a wnaed gan ei staff rhwng Caerdydd a'i etholaeth. Yr un gyfradd fesul milltir a delir ar gyfer y daith â'r hyn a ganiateir i'r Aelod ar yr un daith. Bydd unrhyw daith o'r fath yn cyfrif yn erbyn y cyfanswm o 18 taith ddwyffordd a ganiateir mewn blwyddyn.

### *7.3. Taliadau uniongyrchol i'r staff*

7.3.1. Caiff yr Aelod ofyn i Dîm Cymorth Busnes i Aelodau i dalu'r swm a hawliwyd yn uniongyrchol i'r aelod o staff dan sylw.

## ADRAN 8: TEITHIO I SEFYDLIADAU'R GYMUNED EWROPEAIDD etc.

### *8.1. Hawl*

8.1.1. Mewn unrhyw flwyddyn, mae hawl gan bob Aelod i wneud tair taith ddwyffordd rhwng y Deyrnas Unedig ac unrhyw un o Sefydliadau'r Gymuned Ewropeaidd ym Mrwsel.

8.1.2. Mewn unrhyw flwyddyn, mae hawl gan bob Aelod i wneud un daith ddwyffordd i unrhyw un o Sefydliadau'r Gymuned Ewropeaidd yn Luxembourg neu Strasbourg neu senedd genedlaethol unrhyw aelod-wladwriaeth arall o'r Undeb Ewropeaidd, yn ogystal ag unrhyw deithiau o dan baragraff 8.1.1.

8.1.3. Yn y naill achos a'r llall, rhaid i brif bwrpas y daith fod yn gysylltiedig â chyfrifoldebau'r Aelod fel Aelod o'r Cynulliad.

8.1.4. Caiff Aelod hawlio union gostau'r daith a hawlio lwfans cynhaliaeth yn amodol ar y cyfyngiadau canlynol:

- cost y tocyn awyren dwyffordd rhataf a mwyaf addas sydd ar gael i un o'r cyrchfannau a nodir yn adran 8.1.1 neu 8.1.2; a
- chynhaliaeth am ddwy noson gyda phrydau bwyd ac unrhyw deithiau ychwanegol.

8.1.5. Caiff Aelod nad yw'n teithio mewn awyren hawlio'r union gostau teithio hyd at yr uchafswm a bennir ym mharagraff 8.1.4 uchod.

### *8.2. Cais*

8.2.1. Cyn teithio, mae'n rhaid i Aelodau gyflwyno datganiad i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ymlaen llaw yn nodi diben yr ymweliad, lleoliad a hyd yr ymweliad, a'r bobl neu'r cyrff y bwriedir cwrdd â hwy. Cyn y caiff yr Aelod hawlio'r lwfans teithio, mae'n rhaid i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau gytuno i'r daith ymlaen llaw. Y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu ar unrhyw deithiau na roddodd y Tîm sêl ei fendith iddynt.

### *8.3. Teithiau i seneddau, cynghorau neu gynulliadau rhanbarthol*

8.3.1. Caiff Aelod ofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr a'r Clerc i ffurfio dirprwyaeth i ymweld â senedd, cyngor neu gynulliad rhanbarthol yn yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid i'r cais ddangos manteision yr ymweliad i waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a nodi'n glir y bobl neu'r sefydliadau y byddant yn ymweld â nhw. Bydd unrhyw ymweliad o dan y paragraff hwn yn lle ymweliad y gellid fod wedi'i wneud o dan baragraff 8.1.2.

## ADRAN 9: LWFANS COSTAU SWYDDFA

### *9.1. Diben a Swm*

9.1.1. Caiff Aelodau hawlio Lwfans Costau Swyddfa er mwyn talu costau dodrefnu a chynnal swyddfa lle mae'r treuliau a ysgwyddwyd yn llwyr, yn unig ac o raid at ddiben eu dyletswyddau fel Aelodau o'r Cynulliad.

9.1.2. Yn amodol ar Adran ADRAN 10:10.6.1, yr uchafswm y gall yr Aelodau ei hawlio fel Lwfans Costau Swyddfa yw £15,135 yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2009.

### *9.2. Costau Swyddfa*

9.2.1. Nid oes modd darparu rhestr gynhwysfawr o'r eitemau a ganiateir. Ond, gall yr enghreifftiau canlynol fod o gymorth i'r Aelodau benderfynu a allant gyflwyno cais ai peidio:

- Costau cynnal swyddfa yn etholaeth Aelod y Cynulliad (gan gynnwys rhent, yswiriant, treth cyngor neu drethi busnes, trydan, nwy, dŵr a ffôn, a chostau darparu cyfarpar i swyddfeydd o'r fath);
- Costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â phrydlesu neu rhentu'r swyddfa;
- Costau yn ymwneud â diogelwch mewn swyddfa etholaeth;
- Cost llogi neu rentu ystafelloedd yn etholaeth Aelod y Cynulliad ar gyfer cynnal "cymorthfeydd etholaeth";
- Costau hysbysebu'r cymorthfeydd etholaeth;
- Papurau newydd a chylchgronau;
- Biliau ffonau symudol;
- Ffioedd cyfrifwyr sy'n gysylltiedig â chost dodrefnu a chynnal y swyddfa;
- Offer swyddfa nad yw ar gael yn uniongyrchol o'r Cynulliad;
- Cyflogau a chostau eraill sydd yn ymwneud â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol, nad ymdrinnir â nhw mewn unrhyw fan arall.

9.2.2. Bydd gofyn i swyddfa'r Tîm Cymorth Busnes i Aeldoau gymeradwyo ceisiadau ar gyfer eitemau unigol o ddodrefn neu eitemau unigol eraill sy'n costio mwy na £2,000, cyn eu talu.

9.2.3. Ni ellir hawlio costau ad-dalu morgais, na'r llog arno, o dan y lwfans hwn.

9.2.4. Rhaid i'r anfonebau ar gyfer rhent y swyddfa gynnwys cyfeiriad yr adeilad sy'n cael ei rentu.

### *9.3. Diogelwch Swyddfeydd*

9.3.1. Bydd swm ychwanegol ar gael i ariannu unrhyw wariant o fwy na £2,000 gan Aelod mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar y camau y mae Aelodau'n bwriadu'u cymryd i ddiogelu'u hunain, eu staff, eu swyddfa etholaethol neu'u hoffer swyddfa ar ôl i'r heddlu argymell eu bod yn gwneud hynny. Rhaid i'r argymhellion hynny fod yn ysgrifenedig a rhaid i Aelodau gyflwyno'r argymhellion ac o leiaf 3 dyfynbris cystadleuol am gost y gwaith dan sylw cyn ysgwyddo unrhyw wariant.

### *9.4. Iechyd a Diogelwch/Mynediad i'r Anabl*

9.4.1. Bydd swm ychwanegol ar gael i ariannu unrhyw wariant gan Aelod o fwy na £2,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol yng nghyswllt iechyd a diogelwch, diogelwch tân neu addasiadau i'w gwneud yn haws mynd i mewn ac allan o'u hadeiladau, os yw'r Aelodau'n bwriadu cymryd y camau hynny oherwydd argymhellion person priodol a gymeradwywyd gan y Prif Weithredwr a'r Clerc ac a ddisgrifir mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Rhaid i'r argymhellion hynny fod yn ysgrifenedig a rhaid i'r Aelodau gyflwyno'r argymhellion ac o leiaf 3 dyfynbris cystadleuol am gost y gwaith dan sylw cyn ysgwyddo unrhyw wariant.

9.4.2. Ni fydd angen i unrhyw Aelod wario mwy na £2,000 o'i Lwfans Costau Swyddfa yng nghyswllt paragraffau 9.3.1 a 9.4.1 yn ystod yr un flwyddyn ariannol.

### *9.5. Trosglwyddo Arian*

9.5.1. Caniateir i Aelod drosglwyddo hyd at 25 y cant o'i Lwfans Costau Swyddfa i'w Lwfans Cyflogau Staff ychwanegol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 10.3.1.) ar ôl hysbysu Tîm Cymorth Busnes i Aelodau yn ysgrifenedig ymlaen llaw.

## ADRAN 10: LWFANS CYFLOGAU STAFF

### *10.1. Diben a Swm*

10.1.1. Caiff Aelod hawlio Lwfans Cyflogau Staff i dalu costau cyflogi pobl i wneud gwaith gweinyddu, clercio neu waith ysgrifenyddol neu i wneud gwaith ymchwil, lle mae'r treuliau a ysgwyddwyd yn llwyr, yn unig ac o raid at ddiben ei (d)dyletswyddau fel Aelod o'r Cynulliad.

10.1.2. Yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2009, gall Aelod Cynulliad hawlio lwfans i dalu costau cyflog, ynghyd â'r Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr cysylltiedig, hyd at 3 o staff cyfwerth ag amser llawn. Ni chaiff mwy na 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 1 fel y diffinnir isod. Ni chaiff mwy na 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 2 a'r gweddill o Fand 3.

| Band | Swyddi |
|---|---|
| 1 | Rheolwr Swyddfa |
| 2 | Uwch Ysgrifennydd<br>Uwch Weithiwr Achos<br>Cynorthwy-ydd Ymchwil<br>Swyddog y Wasg |
| 3 | Gweithiwr Achos<br>Ysgrifennydd Iau |

10.1.3. Dyma'r graddfeydd cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y swyddi hyn:

| **BAND** | **Pwynt 1** | **Pwynt 2** | **Pwynt 3** | **Pwynt 4** | **Pwynt 5** |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | £21,250 | £23,204 | £25,337 | £27,667 | £30,212 |
| **2** | £18,072 | £19,931 | £21,982 | £24,244 | £26,739 |
| **3** | £16,314 | £17,618 | £19,025 | £20,544 | £22,185 |

10.1.4. Caiff y graddfeydd hyn eu hadolygu ar 1 Ebrill 2010 ac ar yr un dyddiad bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

### *10.2. Datblygiad Cyflog*

10.2.1. Bydd cyflogau aelodau unigol o'r staff cymorth sydd mewn swydd ar 1 Ebrill 2005 yn codi fesul pwynt ar 1 Ebrill bob blwyddyn nes y byddant yn cyrraedd pen uchaf y raddfa, yn amodol ar berfformiad boddhaol. Bydd staff cymorth a benodir ar ôl 1 Ebrill 2005 yn symud trwy'r raddfa gyflog fesul pwynt ar benblwydd eu dyddiad cychwyn yn y gyflogaeth bob blwyddyn nes iddynt gyrraedd pen uchaf y raddfa, yn amodol ar berfformiad boddhaol.

10.2.2. Bydd cyflog unrhyw aelod unigol o'r staff cymorth yn cael ei ddiogelu os oedd cyflog hwnnw'n uwch na'r cyflog uchaf ar y raddfa ar 1 Ebrill 2005, nes y bydd hwnnw'n codi'n uwch na'r cyflog sy'n daladwy. Bryd hynny, bydd yn cael y cyflog uchaf ar y raddfa.

10.2.3. Bydd staff cymorth newydd yn dechrau ar waelod y band cyflog priodol oni bai fod rhesymau da sy'n cyfiawnhau cyflog dechreuol uwch. Gofynnir i Aelodau gyflwyno achos dros hynny i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau yn y lle cyntaf gan gyfeirio unrhyw anghydfod at y Prif Weithredwr a'r Clerc iddo ef/hi benderfynu'n derfynol ar y mater os bydd angen.

10.2.4. Yn amodol ar berfformiad boddhaol, caiff staff newydd gynnydd yn eu cyflog ar ddyddiad eu penodiad bob blwyddyn.

### *10.3. Costau Eraill yn ymwneud â Staff*

10.3.1. Yn amodol ar Adran 10.6.1, gall Aelod hawlio swm ychwanegol o'r Lwfans Cyflogau Staff hyd at £5,801 yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2009 i dalu costau goramser, hyfforddiant, teithio, taliadau bonws etc. (gan gynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr mewn perthynas â'r taliadau hyn), a bydd y swm hwn yn codi'n unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

### *10.4. Contractau Cyflogaeth*

10.4.1. Mae gofyn i Aelodau roi datganiad ysgrifenedig i holl aelodau'i staff yn nodi prif delerau ac amodau eu cyflogaeth, gan roi copi i swyddfa'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ymhen mis ar ôl iddynt ddechrau yn eu swydd.

### *10.5. Talu Cyflogau*

10.5.1. Telir cyflogau'r staff cymorth yn fisol ar ddiwrnod olaf pob mis. Bydd y taliadau yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrif yr unigolyn drwy drosglwyddiad electronig (System Glirio Awtomataidd y Bancwyr – BACS).

### *10.6. Trosglwyddo Arian*

10.6.1. Caniateir i Aelod drosglwyddo hyd at 25 y cant o'r Lwfans Cyflogau Staff ychwanegol, fel y'i diffinnir ym mharagraff 10.3.1, i'w Lwfans Costau Swyddfa, ar ôl hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau yn ysgrifenedig ymlaen llaw.

### *10.7. Taliadau uniongyrchol i'r staff*

10.7.1 Caiff yr Aelod ofyn i'r Tîm Adnoddau Dynol a Lwfansau'r Aelodau dalu unrhyw swm a hawliwyd o dan adran 10.3.1 hwn yn uniongyrchol i'r aelod o staff dan sylw.

10.7.2 Yr uchafswm y caiff Aelod dalu fel bonws i staff a gyflogir ganddo/ganddi yw 15% o gyflog llawn yr aelod staff yn y flwyddyn ariannol berthnasol. Ar gyfer dibenion y paragraff hwn, y cyflog llawn yw'r cyflog llawn sy'n daladwy i'r aelod staff cyn unrhyw drefniant aberthu cyflog sy'n weithredol.

## ADRAN 11: PENSIWN A DARPARIAETH GYSYLLTIEDIG AR GYFER STAFF YR AELODAU

### *11.1. Pensiwn*

11.1.1. Caiff Aelod hawlio lwfans ar gyfer costau'u cyfraniadau at gynllun pensiwn personol unrhyw staff a delir o'r:

(a) Lwfans Costau Staff;
(b) cyllid ar gyfer grwpiau; neu
(c) Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol.

11.1.2. Yr uchafswm a delir yw 10% o'r cyflog a delir i'r unigolyn hwnnw. Nid yw'r lwfans hwn yn cymryd lle Lwfans Cyflogau Staff, y cyllid ar gyfer grwpiau na'r Lwfans Costau Swyddfa.

### *11.2. Yswiriant Bywyd*

11.2.1. Caiff Aelod hawlio lwfans mewn perthynas â'r gost iddo ef/hi yn sgil talu cyfraniadau a wneir i unrhyw bolisi yswiriant bywyd a awdurdodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad mewn perthynas â'r canlynol:

(a) unrhyw staff a gaiff eu talu drwy'r Lwfans Costau Staff;
(b) unrhyw staffa gaiff eu talu drwy'r cyllid ar gyfer grwpiau; neu
(c) staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol drwy'r Lwfans Costau Swyddfa.

### *11.3. Yswiriant Salwch Difrifol*

11.3.1. Caiff Aelod hawlio lwfans mewn perthynas â'r gost iddo ef/hi yn sgil talu cyfraniadau a wnaed i unrhyw bolisi yswiriant salwch difrifol a awdurdodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad mewn perthynas â'r canlynol:

(a) unrhyw staff a gaiff eu talu drwy'r Lwfans Costau Staff;
(b) unrhyw staffa gaiff eu talu drwy'r cyllid ar gyfer grwpiau; neu
(c) staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol drwy'r Lwfans Costau Swyddfa.

## ADRAN 12: LWFANS STAFF DROS DRO

### *12.1. Diben*

12.1.1. Caiff Aelod hawlio Lwfans Staff Dros Dro i dalu treuliau a ysgwyddwyd yn llwyr ac o raid yng nghyswllt ei (d)dyletswyddau yn y Cynulliad, i sicrhau cymorth ysgrifenyddol neu gymorth ymchwil os yw person y telir cyflog iddo/iddi o dan y Lwfans Cyflogau Staff yn cael ei atal rhag rhoi'r gwasanaeth hwnnw oherwydd salwch, absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb mabwysiadu.

### *12.2. Cymhwyso am y Lwfans Staff Dros Dro*

12.2.1. Gellir hawlio Lwfans Staff Dros Dro os yw'r aelod o staff y mae angen rhywun i gymryd ei (l)le:

- yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch neu absenoldeb mamolaeth, ac yn dal i gael ei thalu/dalu gan yr Aelod trwy'r Lwfans Cyflogau Staff;
- yn cael ei chyflogi/gyflogi'n barhaol;
- os yw'n sâl, yn absennol am fwy na phythefnos;
- yn cyflwyno tystysgrifau meddygol ar gyfer salwch neu dystysgrif mamolaeth (ffurflen MATB1) sy'n nodi'r wythnos y disgwylir iddi esgor neu yn achos absenoldeb mabwysiadu yn cyflwyno tystysgrif cydweddu;
- yn meddu ar gontract dilys sy'n nodi'r cyfnodau o absenoldeb salwch, mamolaeth ac absenoldeb mabwysiadu a ganiateir gyda chyflog.

### *12.3. Cyfyngiadau*

12.3.1. Bydd yr uchafswm y gellir ei hawlio yn seiliedig ar gyfanswm cyflog yr aelod absennol o staff dros gyfnod penodol (gweler isod).

12.3.2. Yn unol ag arferion cyflogi da, anogir yr Aelodau i wneud yn siwr bod gan yr holl staff dros dro drefniadau pensiwn.

12.3.3. Ymdrinnir ag absenoldebau salwch, mamolaeth a mabwysiadu yn gwbl ar wahân wrth gyfrif Lwfans Staff Dros Dro. Felly, os bu un o'r staff yn absennol oherwydd mamolaeth neu salwch (nad oedd yn gysylltiedig â'r mamolaeth) caiff yr Aelod fanteisio ar ddwy gyllideb wahanol ar gyfer y Lwfans Staff Dros Dro.

12.3.4. Pan fydd unigolyn yn absennol oherwydd salwch, bydd uchafswm y lwfans sydd ar gael yn seiliedig ar chwe mis o dâl llawn a chwe mis ar hanner cyflog (gan gynnwys cyfraniadau'r cyflogwr at yr Yswiriant Cenedlaethol a chostau pensiwn) pob aelod o staff absennol sy'n gymwys.

12.3.5. Os bodlonir y rheol “mwy na phythefnos”, gweler paragraff 12.2.1, bydd y Lwfans Staff Dros Dro yn cael ei ôl dalu i ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.

12.3.6. Pan fydd unigolyn ar absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb mabwysiadu, mae uchafswm y lwfans sydd ar gael yn cyfateb i 26 wythnos o gyflog llawn yr unigolyn (gan gynnwys cyfraniadau'r cyflogwr at yr Yswiriant Gwladol a chostau pensiwn).

12.3.7. Pan wneir cais am gymorth dros dro oherwydd salwch ar gyfer y cyfnod hwyaf a ganiateir o dan y trefniadau newydd, gellir hawlio ar gyfer unrhyw estyniad i'r cymorth o'r Lwfans Cyflogau Staff. Bydd yr unigolyn parhaol wedi cyrraedd yr uchafswm y mae ganddo/ganddi hawl iddo ac a nodwyd yn y contract, ac felly ni fydd costau'r staff dros dro felly yn ychwanegol i'r cyflogau arferol.

12.3.8. Os ceir cais arall am gymorth, a hynny'n gysylltiedig ag aelod o staff sydd wedi bod yn absennol am 12 mis gyda chyflog, bydd y cais hwnnw'n cael ei dderbyn cyn belled â bod cyfnod o 12 mis ers y cais diwethaf.

## ADRAN 13: TALIADAU DISWYDDO I STAFF CYMORTH AELODAU'R CYNULLIAD A DELIR O'R LWFANS CYFLOGAU STAFF

### *13.1. Pan fo Aelod yn gadael y Cynulliad*

13.1.1. Caiff yr Aelod hawlio cost taliadau diswyddo i staff cymwys os yw'r Aelod yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod o'r Cynulliad am unrhyw reswm. I fod yn gymwys, mae'n rhaid i staff fod ag o leiaf dwy flynedd o wasanaeth gyda'r Aelod ar y dyddiad y maent yn rhoi'r gorau i weithio i'r cyn Aelod, a heb fod yn hunan-gyflogedig. Cyfrifir taliadau diswyddo yn unol â'r ddeddfwriaeth gyflogi gyfredol. Yr uchafswm y gellir ei hawlio o dan y lwfans hwn yw swm y tâl diswyddo sy'n daladwy wedi diswyddiad statudol.

## ADRAN 14: LWFANS DIRWYN I BEN

### *14.1. Diben a Swm*

14.1.1. Caiff person sydd wedi rhoi'r gorau i fod yn Aelod o'r Cynulliad, am unrhyw reswm, hawlio lwfans ar gyfer costau gwaith a wneir ar ei r(h)an ar ôl iddo/i roi'r gorau i fod yn Aelod, yn ogystal ag unrhyw fân-wariant cysylltiedig. Caiff y cyn-Aelod ond wneud cais os yw'r gwaith yn angenrheidiol i gwblhau'r hyn oedd ar y gweill ar yr adeg y bu iddo/i roi'r gorau i fod yn Aelod. Yr uchafswm y gellir ei hawlio yw un rhan o dair o swm y Lwfans Costau Swyddfa, yr elfen Costau Staff eraill o'r Lwfans Cyflogau Staff cyfredol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 10.3.1) a'r gwir gyflogau a dalwyd i staff a gyflogwyd gan y cyn Aelod ar y diwrnod y gadawodd y Cynulliad, i dalu costau unrhyw waith angenrheidiol i'r Cynulliad a wneir ar ran Aelod sydd wedi marw, sydd wedi colli'i sedd neu sydd wedi ymddeol, yn dilyn ei (d)ddiwrnod olaf fel Aelod o'r Cynulliad ynghyd ag unrhyw fân-wariant cysylltiedig. Bydd yr uchafswm sy'n daladwy o dan y lwfans hwn yn gostwng yn ôl faint o'r Lwfans Costau Ychwanegol, Lwfans Costau Swyddfa a Lwfans Staff Cymorth a ordalwyd oherwydd y cyfyngiad pro rata a ddisgrifir yn adran 1.5.1. yn y Penderfyniad hwn.

14.1.2. Ar gyfer Aelod sydd wedi marw, telir y lwfans hwn i'r rheini y ceir cyfeiriadau priodol atynt fel cynrychiolwyr personol yr Aelod sydd wedi marw.

### *14.2. Treuliau Taladwy*

14.2.1. Gall treuliau a ysgwyddwyd yn llwyr, yn unig ac o raid at ddibenion dirwyn i ben gynnwys y canlynol:

- Cyflogau a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar gyfer staff sy'n parhau i gael eu cyflogi ynghyd â chyfraniadau pensiwn cysylltiedig;
- Rhwymedigaethau contract y staff;

- Rhwymedigaethau contract i hurbwrcasu offer neu drefniadau prydlesu swyddfeydd;
- Post, deunydd swyddfa a chostau ffôn;
- Costau teithio

14.2.2. Nid yw'r taliadau diswyddo o dan Adran 13 yn cael eu cynnwys o dan y lwfans hwn.

## ADRAN 15: GRANT ADSEFYDLU

### *15.1 Grant Adsefydlu*

15.1.1. Caiff unrhyw berson sydd yn Aelod o'r Cynulliad yn union cyn etholiad cyffredin y Cynulliad ac

- nad yw'n ymgeisydd yn yr etholiad; neu
- os yw'n ymgeisydd, nad yw wedi ei ethol,

hawlio Grant Adsefydlu.

15.1.2. Yn y paragraff blaenorol, “mae "ymgeisydd yn yr etholiad" yn cynnwys person ar restr ymgeiswyr plaid wleidyddol gofrestredig; ac “mae "wedi ei ethol" yn cynnwys person sydd wedi ei ethol ar gyfer rhanbarth etholiadol y Cynulliad.

15.1.3. Mynegir y grant fel canran o’r cyflog blynyddol (ar y gyfradd sy’n daladwy i’r Aelodau yn union cyn yr etholiad) ac fe’i pennir yn ôl oedran yr Aelod (ar ddyddiad yr etholiad) a hyd ei wasanaeth fel Aelod o’r Cynulliad cyn yr etholiad. Bydd Grant Adsefydlu Aelodau Cynulliad sydd hefyd yn Aelodau Seneddol neu’n Aelodau Senedd Ewrop, sy’n derbyn dim ond traean o’u cyflog yn unol â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau’r Cynulliad) (Cyflogau) (Cyfyngu) 1999 (SI 1999 Rhif 1083) yn cael ei bennu ar sail eu cyflog llawn.

15.1.4. Dangosir y canrannau perthnasol yn y Tabl isod.

**CANRANNAU’R CYFLOG BLYNYDDOL**

Nifer y blynyddoedd o wasanaeth (blynyddoedd wedi eu cwblhau)

| Oedran | O dan 10 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 a throsodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O dan 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 |
| 50 | 50 | 50 | 52 | 54 | 56 | 58 | 60 |
| 51 | 50 | 52 | 55 | 58 | 62 | 65 | 68 |
| 52 | 50 | 54 | 58 | 63 | 67 | 72 | 76 |
| 53 | 50 | 56 | 62 | 67 | 73 | 78 | 84 |
| 54 | 50 | 58 | 65 | 72 | 78 | 85 | 92 |
| 55 i 64 | 50 | 60 | 68 | 76 | 84 | 92 | 100 |
| 65 | 50 | 58 | 65 | 72 | 78 | 85 | 92 |
| 66 | 50 | 56 | 62 | 67 | 73 | 78 | 84 |
| 67 | 50 | 54 | 58 | 63 | 67 | 72 | 76 |
| 68 | 50 | 52 | 55 | 58 | 62 | 65 | 68 |
| 69 | 50 | 50 | 52 | 54 | 56 | 58 | 60 |
| 70 a throsodd | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 |

15.1.5. Wrth gyfrif nifer y blynyddoedd o wasanaeth, ni chyfrifir unrhyw gyfnod fel Aelod fwy nag unwaith; caiff unrhyw gyfnod o wasanaeth a ddiystyrwyd wrth gyfrif grant adsefydlu blaenorol ei ddiystyru y tro hwn hefyd. Hefyd, caiff ffracsiwn o flwyddyn ei ddiystyru, os nad yw Aelod a etholwyd mewn etholiad cyffredin yn cwblhau blwyddyn gyfan am fod dyddiad yr etholiad nesaf yn cwympo cyn diwedd y flwyddyn nad yw'n ei chwblhau. Mewn achos o'r fath, dylid cymryd bod yr Aelod wedi gwasanaethu am flwyddyn lawn.

### *15.2 Deiliaid Swyddi*

15.2.1. Bydd gan Aelodau'r Cynulliad sydd wedi dal swydd a nodir ym mharagraff 2.1.3 ar unrhyw adeg yn ystod eu gwasanaeth, y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 15.1.5, hawl i dderbyn taliad ychwanegol drwy gyfrwng Grant Adsefydlu. Bydd y taliad gyfwerth â swm y cyflog a dalwyd i ddeiliad y swydd honno yn y tri mis cyn iddynt roi'r gorau i'r swydd. Os yw'r Aelod wedi dal mwy nag un swydd yn ystod y cyfnod hwnnw, seilir y taliad ar gyfradd y cyflog uchaf.

## ADRAN 16: GRANT YMDDEOL OHERWYDD SALWCH

### *16.1 Grant Ymddeol Oherwydd Salwch*

16.1.1 Mae gan Aelodau sydd â salwch sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan mwyach yng ngweithgareddau'r Cynulliad yr hawl i wneud cais am Grant Ymddeol oherwydd Salwch pan fyddant yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod. Bydd lefel y grant sy'n daladwy yn cael ei gyfrif yn yr un modd â'r Grant Adsefydlu o dan Adran 15, ond y dylid darllen y cyfeiriad at ddyddiad yr etholiad cyffredin 'nesaf' fel y dyddiad y mae'r Aelod yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod.

16.1.2 Ni fydd gan Aelod o'r Cynulliad sy'n hawlio Grant Ymddeol oherwydd Salwch yr hawl i wneud cais am Grant Adsefydlu pan gynhelir yr etholiad cyffredin nesaf.

## ADRAN 17: LWFANS ANABLEDD

### *17.1. Diben a Swm*

17.1.1. Bydd Lwfans Anabledd ar gael i Aelodau sydd ag angen cymorth ychwanegol arnynt o ganlyniad i anabledd, i ymgymryd â'u cyfrifoldebau fel Aelodau.

17.1.2. Bydd swm y lwfans sy'n daladwy yn cael ei gyfrif ar sail asesiad o natur a maint yr anabledd a'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar yr Aelod hwnnw i'w (g)alluogi i ymgymryd â'i (d)dyletswyddau. Bydd angen i'r Aelod a'r Prif Weithredwr a'r Clerc gytuno ar yr asesiad a'r broses o gyfrif y swm sy'n daladwy i'r aelod hwnnw, neu'r Prif Weithredwr a'r Clerc yn unig os nad ydynt yn cytuno.

17.1.3. At ddibenion y lwfans hwn bydd gan "anabledd" yr un ystyr â'r hyn a geir yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

## ADRAN 18: GALW'R CYNULLIAD NEU BWYLLGOR YN ÔL YN YSTOD Y TORIAD

### *18.1. Diben a Swm*

18.1.1. Gall Aelod hawlio unrhyw gostau o ganlyniad i deithiau a wneir ganddo/i i fod yn bresennol mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad a alwyd er mwyn ystyried mater brys sydd o bwys cyhoeddus yn unol â Rheol Sefydlog 7.3.

18.1.2. Mae hawl gan Aelod hawlio costau o ganlyniad i deithiau a wneir ganddo/i i fod yn bresennol mewn cyfarfod o Bwyllgor y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 10.41.

18.1.3. Bydd darpariaethau Adran 4, heblaw am baragraffau 4.1.1 a 4.10.1, yn berthnasol yn yr achosion hyn. Os bydd yn teithio mewn awyren, telir cost tocyn unffordd dosbarth busnes. Telir cost llety dros nos os bu ei angen arno wrth deithio i'r Cynulliad. Os yn ymarferol, caiff Aelodau hawlio’r gost o ailgydio yn ei (g)wyliau os bu rhaid ei (g)alw yn ôl.

Atodiad

**Cyflogau Deiliaid Swyddi Ychwanegol yn daladwy i Gadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad:**

Rhan 1

Bydd Cadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn yn gymwys am gyflog deiliaid swyddi ychwanegol sydd gyfwerth â 27.9 y cant o gyflog Gweinidogion Cymru:

- y Pwyllgorau Craffu a sefydlir o dan Reol Sefydlog 12;
- y Pwyllgor Archwilio a sefydlir o dan Reol Sefydlog 13;
- y Pwyllgor Cyllid a sefydlir o dan Reol Sefydlog 14;
- Pwyllgorau a sefydlir o dan Reol Sefydlog 21 i ystyried cynigion deddfwriaethol a gyfeirir atynt gan y Pwyllgor Busnes.

Rhan 2

Bydd Cadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn yn gymwys am gyflog deiliaid sywddi ychwanegol sydd gyfwerth ag 14.6 y cant o gyflog Gweinidogion Cymru:

- y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc;
- y Pwyllgor Cyfle Cyfartal;
- y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol;
- y Pwyllgor Deisebau;
- y Pwyllgor Safonau Ymddygiad;
- y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

## 18 CYMORTH AR GYFER GRWPIAU

### *18.1 Diben*

18.1.1 Mae gan grwpiau o 3 neu fwy o Aelodau yr hawl i lwfans i'w cynorthwyo â'u gwaith yn y Cynulliad. Rhoddir y lwfans i dalu am gostau angenrheidiol a ysgwyddwyd yn llwyr ganddynt hwy a chan neb arall, er mwyn medru cyflawni eu dyletswyddau.

18.1.2 Nid oes modd darparu rhestr gynhwysfawr o'r eitemau a ganiateir. Ond, gall yr enghreifftiau canlynol fod o gymorth i'r Aelodau benderfynu a allant gyflwyno cais ai peidio:

- cyflogi staff i wneud gwaith gweinyddu, clercio neu waith ysgrifenyddol,
- cyflogi staff i wneud gwaith ymchwil;
- prynu offer swyddfa.

18.1.3 Os dymunir prynu eitemau unigol o ddodrefn neu eitemau unigol eraill sy'n costio mwy na £2,000, dylid gofyn am gymeradwyaeth y Swyddfa Ffioedd ymlaen.

18.1.4 Ni ellir hawlio costau ad-dalu morgais, na'r llog arno, o dan y lwfans hwn.

18.1.5 Mae gofyn i Aelodau roi datganiad ysgrifenedig i holl aelodau eu staff yn nodi prif delerau ac amodau eu cyflogaeth, gan roi copi i'r Swyddfa Ffioedd ymhen mis.

### *18.2 Swm*

18.2.1. Ar gyfer y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2006 a'r blynyddoedd dilynol, gall grwpiau plaid ddewis i'w lwfans gael ei gyfrifo yn unol ag un o'r dulliau a ganlyn:

### *18.3 Dewis 1*

18.3.1. Dyma swm y cyllid ar gyfer y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2006:

(a)bydd gan bob grŵp yr hawl i swm (y swm sylfaenol) na fydd yn fwy na £100,650;

(a) bydd pob grŵp nad yw'n cael ei gynrychioli gan Aelod yn y Cabinet yn derbyn, ar ben y swm sylfaenol, swm ychwanegol wedi'i gyfrifo fel a ganlyn:

Swm o £59,220 ar gyfer grwpiau o 10 Aelod neu lai

Y swm uchod ar gyfer grwpiau o dros 10 Aelod, ynghyd â swm ychwanegol o £24,235 ar gyfer pob 5 aelod ychwanegol (neu ran o hynny).

18.3.2 Rhaid i'r staff a gyflogir o dan y lwfans hwn fod wedi'u cynnwys yn un o'r Bandiau a ganlyn a rhaid iddynt fod yn ddarostyngedig i'r isafsymiau a'r uchafsymiau ac i'r Trefniadau Dros Dro amlinellir yn adran 18.3.3.

| Band | Swyddi | Isafswm | Uchafswm |
|---|---|---|---|
| 1 | Rheolwr Swyddfa | £19,056 | £27,092 |
| 2 | Uwch Ysgrifenydd<br>Uwch Weithiwr Achos<br>Cynorthwy-ydd Ymchwil<br>Swyddog y Wasg | £16,205 | £23,978 |
| 3 | Gweithiwr Achos<br>Ysgrifennydd Iau | £14,630 | £19,894 |
| 4 | Uwch Ymchwilydd | £25,808 | £31,629 |

18.3.3. Bydd y Swyddfa Ffioedd, gan weithredu ar ran Swyddfa'r Llywydd yn cytuno ag arweinwyr y pleidiau ynghylch band cyflog pob aelod unigol o'r staff cymorth. Os bydd unrhyw unigolyn ar gyflog sy'n is na'r isafswm ar y raddfa, caiff ei g/chyflog ei godi i'r lefel honno. Os bydd unrhyw unigolyn ar gyflog uwch na'r uchafswm ar y raddfa, caiff ei g/chyflog ei ddiogelu nes y bydd yr uchafswm wedi codi'n uwch na'r cyflog sy'n daladwy.

18.3.4 Caiff y symiau yn adran 18.3.1 ac uchafsymiau ac isafsymiau y graddfeydd ym mharagraff 18.3.2. eu hadolygu ar 1 Ebrill 2007 ac ar yr un dyddiad bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

### *18.4 Dewis 2*

18.4.1 Yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2006, gall grwp plaid hawlio lwfans i dalu costau cyflogau a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr cysylltiedig ar gyfer hyd at 4.0 o staff cyfwerth ag amser llawn. Ni chaiff mwy nag 1.0 staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 1 fel y'i diffinnir isod. Ni chaiff mwy na 3.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 2 a'r gweddill o Fand 3.

| Band | Swyddi |
|---|---|
| 1 | Rheolwr Swyddfa |
| 2 | Uwch Ysgrifennydd<br>Uwch Weithiwr Achos<br>Cynorthwy-ydd Ymchwil<br>Swyddog y Wasg |
| 3 | Gweithiwr Achos<br>Ysgrifennydd Iau |
| 4 | Uwch Ymchwilydd |

18.4.2 Caiff grŵp o 10 Aelod neu lai nad yw'n cael ei gynrychioli gan Aelod yn y Cabinet benodi hyd at 2.0 o staff cyfwerth ag amser llawn hefyd. Ni chaiff mwy nag 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 4 fel y'i diffinnir uchod. Ni chaiff mwy nag 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 2 a'r gweddill o Fand 3.

18.4.3 Mae gan grŵp o dros 10 o aelodau nad yw'n cael ei gynrychioli gan aelod yn y Cabinet hawl i'r staff a nodir ym mharagraff 18.4.2 ond am bob 5 aelod ychwanegol yn y grŵp (neu ran o hynny) gall benodi hyd at 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn. Ni chaiff mwy na 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 2 fel y'i diffinnir uchod a'r gweddill o Fand 3.

18.4.4 Dyma'r graddfeydd cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y swyddi hyn:

| BAND | Pwynt 1 | Pwynt 2 | Pwynt 3 | Pwynt 4 | Pwynt 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | £19,056 | £20,808 | £22,721 | £24,810 | £27,092 |
| 2 | £16,205 | £17,873 | £19,712 | £21,741 | £23,978 |
| 3 | £14,630 | £15,798 | £17,061 | £18,422 | £19,894 |
| 4 | £25,808 | £27,154 | £28,571 | £30,060 | £31,629 |

18.4.5 Caiff y graddfeydd hyn eu hadolygu ar 1 Ebrill 2007 ac ar yr un dyddiad bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

18.4.6 Bydd cyflogau aelodau unigol a'r staff cymorth unigol yn codi fesul pwynt ar 1 Ebrill bob blwyddyn nes y byddant yn cyrraedd pen uchaf y raddfa, yn amodol ar berfformiad boddhaol.

18.4.7 Bydd cyflog unrhyw aelod unigol o'r staff cymorth yn cael ei ddiogelu os oedd ei gyflog yn uwch na'r cyflog uchaf ar y raddfa ar 1 Ebrill 2005, nes y bydd y cyflog uchaf ar y raddfa'n codi'n uwch na'r cyflog sy'n daladwy. Bryd hynny, bydd yn cael y cyflog uchaf ar y raddfa.

18.4.8 Bydd staff cymorth newydd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2006 yn dechrau ar waelod y band cyflog priodol oni bai fod rhesymau da sy'n cyfiawnhau cyflog dechreuol uwch. Gofynnir i Aelodau gyflwyno achos dros hynny i'r Swyddfa Ffioedd yn y lle cyntaf a chaiff unrhyw anghydfod ei gyfeirio at y Llywydd iddo ef benderfynu'n derfynol ar y mater os bydd angen.

18.4.9 Yn amodol ar berfformiad boddhaol, caiff staff newydd gynnydd yn eu cyflog ar ddyddiad eu penodiad bob blwyddyn.

18.4.10 Caiff grwpiau plaid hawlio swm ychwanegol o'r Lwfans Cyflogau Staff yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2006 i dalu costau goramser, hyfforddiant, teithio, taliadau bonws etc. (gan gynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr ychwanegol mewn perthynas â'r taliadau hyn), prynu cyfarpar angenrheidiol a llogi cyfleusterau etc.

18.4.11 Dyma sut y caiff y swm ychwanegol ei gyfrifo:

(a) bydd gan pob grŵp yr hawl i swm (y swm sylfaenol) na fydd yn fwy na £9,150 y flwyddyn;

(b) bydd pob grŵp nad yw'n cael ei gynrychioli gan aelod yn y Cabinet yn derbyn, ar ben y swm sylfaenol, swm ychwanegol wedi'i gyfrif fel a ganlyn:

Swm o £5,385 ar gyfer grwpiau o 10 aelod neu lai

Y swm uchod ar gyfer grwpiau o dros 10 ynghyd â £2,203 ychwanegol am bob 5 aelod ychwanegol (neu ran o hynny),

18.4.12 Caiff y symiau yn adran 18.4.11 ac uchafsymiau ac isafsymiau y graddfeydd ym mharagraff 18.4.4. eu hadolygu ar 1 Ebrill 2007 ac ar yr un dyddiad bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

### *18.5 Cymeradwyo'r gwariant*

18.5.1 Rhaid cael cymeradwyaeth arweinydd y grwp, neu'r Aelod Cynulliad y mae'r cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo/i, cyn gwario arian o'r lwfans hwn.

## Atodiad 2: Nodau Strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Ein Diben

Gwneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

### Ein Nodau

***Byddwn yn hyrwyddo datganoli ac yn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses***
Yn ystod y pedair blynedd nesaf rhaid i'r Cynulliad ddangos ei fod yn gweithio dros bawb yng Nghymru gan eu hannog i gymryd rhan fwy ymarferol yn y broses ddemocrataidd. Byddwn yn pwysleisio sut mae'r Cynulliad yn effeithio er gwell ar fywydau pobl Cymru. Caiff datganoli ei ehangu'n raddol drwy Ddeddf 2006, ac mae'n bosibl y bydd refferendwm ynghylch cael mwy o bwerau deddfu, a byddwn yn barod i ymgymryd â'r heriau hyn gyda brwdfrydedd.

***Byddwn yn dangos undod ac arweiniad ac yn ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol***
Bydd y Cynulliad yn dangos hyder a gallu wrth ddefnyddio'i bwerau newydd. Rydym yn unedig yn ein bwriad i sicrhau gwaith craffu a deddfu o'r radd flaenaf, gan gynorthwyo'r Aelodau ym mhob agwedd ar eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig.

***Byddwn yn dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith***
Rhaid i ni ofalu bod modd i bobl graffu'n fanwl ar bob agwedd ar ein gwaith, rhaid i'n holl waith fod yn dryloyw a rhaid iddo adlewyrchu nature amrywiol Cymru a'i hieithoedd a'r modd yr ydym yn delio â'i phobl ac yn eu cynnwys yn ein gwaith.

***Byddwn yn gweithio'n gynaliadwy***
Byddwn yn dangos arweiniad yn y ffordd yr ydym yn rheoli ein gwaith a'n hystâd a'n nod yw sicrhau ein bod yn gwneud hynny yn y ffordd fwyaf cynaliadwy bosibl.

***Byddwn yn gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a gaiff ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol***
Byddwn yn codi safon y gwasanaethau a ddarperir i'r Aelodau a phobl Cymru, gan ddangos ein bod yn defnyddio'n hadnoddau'n ddoeth ac yn effeithiol ac

yn rhoi gwerth am arian. Gwasanaethu, yng nghyswllt yr Aelodau a phawb sy'n ymwneud â'r Cynulliad, yw'r ethos sydd wrth wraidd popeth a wnawn.

**Ein Gwerthoedd**

Mae Comisiwn y Cynulliad a'i staff yn:

- gweithredu er lles y Cynulliad bob amser;
- cynnal safonau uchel ac yn gwneud yr hyn yr ydym yn addo ei wneud;
- gweithio'n broffesiynol ac yn arloesol;
- gweithio'n agored ac yn gydweithredol; a
- trin pawb â pharch.

## Atodiad 3: Y fframwaith deddfwriaethol

Mae Adrannau 20 i 22 a 53 a 54 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ymdrin â thalu Aelodau'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru.

Mae Atodlen 5, Maes 13, Mater 13.3 o'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i'r Cynulliad wneud darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â thalu cyflogau, lwfansau, pensiynau a rhoddion i Aelodau'r Cynulliad neu mewn perthynas â hwy.

Caiff Mesur Cynulliad a wneir o dan Fater 13.3 ddiwygio adrannau 20, 22, 53 a 54 o'r Ddeddf, ond nid adran 21.

**Y rheolau sylfaenol ar gyfer pennu cyflogau a lwfansau**

Mae Adran 20:

- Yn gosod **dyletswydd** ar y Cynulliad i wneud darpariaeth ar gyfer talu cyflogau i Aelodau'r Cynulliad

- Yn rhoi'r **pŵer** i'r Cynulliad wneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i Aelodau'r Cynulliad

- Yn rhoi'r **pŵer** i'r Cynulliad wneud darpariaeth ar gyfer talu pensiynau, lwfansau neu roddion i bobl a oedd gynt yn Aelodau Cynulliad neu i bobl sy'n Aelodau Cynulliad o hyd ond a oedd gynt yn Llywyddion neu'n ddeiliaid swyddi eraill.

Mae Adran 53 yn cynnwys dyletswyddau a phwerau tebyg mewn perthynas â Gweinidogion Cymru

Mae Adran 21 yn gosod uchafswm ar gyflogau Aelodau Cynulliad sydd hefyd yn Aelodau Seneddol neu'n Aelodau o Senedd Ewrop.

Mae Adran 22(1) a 54(1) yn galluogi darpariaethau gwahanol i gael eu gwneud ar gyfer achosion gwahanol.

Mae Adrannau 22(4) a 54(4) yn osgoi gwneud darpariaethau sy'n effeithio ar lwfansau neu bensiynau sydd eisoes yn cael eu talu i bobl a oedd gynt yn Aelodau Cynulliad, yn Ddeiliaid Swyddi yn y Cynulliad neu'n Weinidogion Cymru (hynny yw, dim effaith ôl-weithredol).

**Rôl Comisiwn y Cynulliad**

Mae Adrannau 20(6) a 53(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi'r pwerau i'r Cynulliad wneud darpariaethau drwy reol sefydlog neu benderfyniad i roi swyddogaethau i Gomisiwn y Cynulliad.

Mae Adrannau 22(3) a 54(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys lle y mae'r Cynulliad wedi rhoi swyddogaethau i'r Comisiwn mewn perthynas â phennu cyflogau etc. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi ei benderfyniadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl eu gwneud.

O dan Adran 27(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 caiff y Cynulliad roi cyfarwyddiadau arbennig neu gyffredinol i Gomisiwn y Cynulliad at ddiben neu mewn perthynas ag ymarfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad.

O dan Adrannau 20, 21 a 53 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhoddodd Rheolau Sefydlog 1.7 i 1.10 (Hydref 2008) y swyddogaethau o bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau i Gomisiwn y Cynulliad.

## Atodiad 4: Rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad

1. John Evans
2. Elin Jones AC
3. Grŵp Plaid Cymru
4. Grŵp Staff Cymorth y Ceidwadwyr Cymreig
5. Heddlu De Cymru
6. Cyngor Tref Machynlleth
7. Gareth Clubb
8. Dr Patrick McGuinness
9. David Melding AC, Gweinidog yr Wrthblaid dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
10. Tom Middlehurst
11. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
12. Cyngor Cymuned Llandyfaelog
13. Cyngor Cymuned Dyffryn Cennen
14. Cyngor Tref Penarth
15. Y Parchedig Alan Cliff MA
16. Gerald Curnell
17. Roger Bonehill
18. Cyngor Tref Nefyn
19. David Jones
20. Cyngor Cymuned Llangatwg Feibion Afel
21. Un Llais Cymru
22. Cyngor Cymuned Dyffryn Aber
23. Gwynne Evan Owen
24. Cyngor Cymuned Johnston
25. Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili
26. Cyngor Tref Llanelli
27. Cyngor Cymuned Owrtyn
28. Cyngor Cymuned y Ganllwyd
29. Cyngor Tref Penrhyndeudraeth
30. Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed
31. Cyngor Dinas Casnewydd (rhai aelodau)
32. Cyngor Tref Trefdraeth a Chyngor Cymuned Nanhyfer
33. Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr
34. D.A.L George
35. Gweneira Baty
36. Cyngor Cymuned Bragle
37. Cyngor Sir Ynys Môn
38. Cyngor Tref Hwlffordd
39. Peter L Collier
40. Fred Wilding
41. Cyngor Tref Caerfyrddin

42. Cyngor Tref Treffynnon
43. Cyngor Cymuned Llangynidr (tri aelod unigol)
44. Cyngor Cymuned Merthyr Cynog
45. Cyngor Cymuned Gelligaer
46. Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
47. TUC Cymru
48. Cyngor Cymuned Felinfach
49. Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth
50. Jonathan Morgan
51. Mick Pinter
52. Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl
53. Cyngor Cymuned y Creunant
54. Cyngor Cymuned y Mwynglawdd
55. Cyngor Tref y Fenni
56. Cyngor Cymuned Whitton
57. Frank Little, Cynghorydd Ward Tregatwg (Democrat Rhyddfrydol)
58. Phillip Dobbs
59. Cyngor Tref Aberdaugleddau
60. Cyngor Cymuned St Arvans
61. Ymgyrch Senedd i Gymru
62. Cyngor Cymuned Gwehelog Fawr
63. Cyngor Cymuned Llangybi Fawr
64. Eddie Legge
65. Alun W Jones
66. Mansel Rees
67. Cyngor Cymuned Llanbadog
68. Trish Law AC
69. John Anthony Nadin
70. Charles Grisedale
71. Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig
72. Grŵp Staff Cymorth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
73. Grŵp Staff Cymorth Plaid Cymru
74. Staff Cymorth y Blaid Lafur

## Atodiad 5: Rhestr o'r tystion

### Aelodau'r Cynulliad

Lorraine Barrett AC (Comisiynydd)
Peter Black AC (Comisiynydd)
Eleanor Burnham AC
Angela Burns AC
Jane Davidson AC (y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai)
Chris Franks AC (Comisiynydd)
Mike German AC
William Graham AC (Comisiynydd)
Mark Isherwood AC
Carwyn Jones AC (Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Ty, a Gweinidog Busnes y Cynulliad a Chyfathrebu)
Helen Mary Jones AC
Huw Lewis AC
Dai Lloyd AC
Kirsty Williams AC (Arweinydd, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)
Leanne Wood AC

### Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

Phillip Carlick
Andrew Johnson
Karen Roberts
Hywel Thomas
David Taylor
Mike Vickers
Carole Willis

### Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu
John Chick, Pennaeth Cymorth Busnes i Aelodau
Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Brian Davidge, Pennaeth TGCh a Darlledu
Jodie Franklin, Rheolwr Adnoddau Dynol a Lwfansau i Aelodau
Ann Marie Morgan, Rheolwr Cymorth TGCh
Iwan Williams, Rheolwr y Cyfryngau, Cyhoeddiadau a'r We

**Eraill**

William Becket
Dr Jonathan Bradbury, Uwch-ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth, Prifysgol Abertawe
Jeremy Colman, Archwilydd Cyffredinol Cymru
David Davies AS (cyn Aelod Cynulliad)
Eileen Heasman, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Ian Leitch, Cyfarwyddwr Adnoddau a Llywodraethu, Senedd yr Alban
Tom Middlehurst (cyn Aelod Cynulliad)
John Osmond, Cyfarwyddwr, y Sefydliad Materion Cymreig
Richard Penn, y Comisiynydd Safonau
Martin Rees, Arolygwr Trethi, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Peter Seedhouse, Cynghorwr Polisi, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Susie Squire, Rheolwr Ymgyrchoedd, Cynghrair y Trethdalwyr
Karl Straw, Ymgynghorydd i-Change, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Huw Williams, Pennaeth yr Uned Polisi Corfforaethol, Senedd yr Alban

## Atodiad 6: Cod Ymddygiad ar Gyfer Aelodau'r Cynulliad

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**COD YMDDYGIAD AR GYFER AELODAU'R CYNULLIAD**

***Pwrpas y Cod***

1. Pwrpas y Cod Ymddygiad hwn yw:

   (a) rhoi canllawiau i holl Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol ar y safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt wrth gyflawni'u dyletswyddau i'r Cynulliad a'u dyletswyddau cyhoeddus;

   (b) bod mor agored ac atebol ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn y ffordd y mae Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyflawni'u dyletswyddau i'r Cynulliad a'u dyletswyddau cyhoeddus.

2. Mae'r Cod yn berthnasol i holl Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd heb gymryd cyfnod o absenoldeb o'r gwaith.

**Safonau Ymddygiad Cyffredinol**

**Ymddygiad personol**

3. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad:

   (a) gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad;

   (b) ymddwyn yn anrhydeddus bob amser;

   (c) peidio â derbyn unrhyw arian fel cymhelliant neu dâl am arfer dylanwad seneddol;

   (d) peidio â derbyn tâl neu unrhyw fudd materol arall am bleidleisio ar unrhyw Orchymyn neu gynnig, neu ofyn unrhyw gwestiwn yn y cyfarfod llawn neu bwyllgor, neu hyrwyddo unrhyw fater, (y rheolau ynghylch "adfocatiaeth ddi-dâl").

4. Dylai Aelodau'r Cynulliad gadw at y saith egwyddor gyffredinol ynghylch ymddygiad a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau Bywyd Cyhoeddus. Dyma'r saith egwyddor:

(a) **Anhunanoldeb:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu'n faterol.

Dylai Aelodau'r Cynulliad osgoi unrhyw wrthdaro rhwng eu buddiannau personol a'u buddiannau cyhoeddus a dylent ddatrys unrhyw wrthdaro rhwng y ddau ar unwaith a hynny o blaid buddiannau'r cyhoedd.

(b) **Uniondeb:** Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

Dylai Aelodau'r Cynulliad bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei aelodau'n gyffredinol. Ni ddylai'r Aelodau ofyn i weision sifil weithredu mewn unrhyw ffordd a allai gyfaddawdu amhleidioldeb gwleidyddol y Gwasanaeth Sifil neu wrthdaro â Chod y Gwasanaeth Sifil.

(c) **Gwrthrychedd**: Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

(d) **Atebolrwydd:** Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt gytuno i fod yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'r swydd.

Ni ddylid gwneud unrhyw ddefnydd amhriodol o unrhyw daliad neu lwfans a roddir i Aelodau'r Cynulliad at ddibenion cyhoeddus a rhaid cadw at y rheolau gweinyddol sy'n gysylltiedig â thaliadau a lwfansau tebyg.

(e) **Bod yn agored:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a'r camau a gymerir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar y wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.

Ni ddylai Aelodau'r Cynulliad atal unrhyw berson rhag cael gwybodaeth y mae hawl gan y person o dan sylw ei gweld yn ôl y

gyfraith, ond ni ddylai ddatgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys gwybodaeth gyfrinachol o Bwyllgorau'r Cynulliad, heb ganiatâd oni bai ei bod hi'n rheidrwydd arnynt o dan y gyfraith i wneud hynny. Dylai unrhyw wybodaeth gyfrinachol a dderbynnir gan yr Aelodau mewn perthynas â'u dyletswyddau swyddogol gael ei defnyddio i gyflawni'r dyletswyddau hynny yn unig ac ni ddylid ei defnyddio er budd personol. Mewn unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â, neu ar ran, sefydliad y mae gan yr Aelod gyswllt ariannol ag ef, gan gynnwys gweithgareddau lle nad oes cofnod cyhoeddus ohonynt megis cyfarfodydd anffurfiol, rhaid i Aelodau gadw mewn cof yr angen i fod yn agored gydag Aelodau eraill y Cynulliad, a swyddogion.

(f) **Gonestrwydd:** Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi er mwyn diogelu buddiannau'r cyhoedd.

(g) **Arweiniad:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad a dangos esiampl.

**Safonau ymddygiad penodol**

**Cofrestru buddiannau**

5. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad gofrestru'r holl fuddiannau perthnasol a nodwyd yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 31 yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau, er mwyn nodi'n glir unrhyw fuddiannau y gellir eu hystyried yn rhai a fyddai'n dylanwadu ar eu gweithredoedd.

6. Dyma gategorïau y buddiannau y dylid eu cofrestru (fel y'u nodwyd yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 31)

- Unrhyw gyfarwyddiaethau sydd gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, mewn cwmnïau preifat neu gyhoeddus, gan gynnwys y rhai di-dâl lle ceir cydnabyddiaeth ariannol drwy gwmni arall yn yr un grw^p.

- Cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (heblaw aelodaeth o'r Cynulliad) y mae'r Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r

Aelod, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt.

- Enwau cleientiaid, pan fydd y buddiannau y cyfeiriwyd atynt uchod yn cynnwys gwasanaethau gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu sy'n ymwneud mewn rhyw fodd ag aelodaeth o’r Cynulliad neu’n sy'n deillio o hynny.

- Rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol, y mae eu gwerth yn uwch na’r hyn a bennir mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, a dderbynnir gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, oddi wrth gwmni, corff neu unigolyn ac sy'n ymwneud mewn rhyw fodd ag aelodaeth o’r Cynulliad neu’n sy'n deillio o hynny.

- Unrhyw dâl neu fudd materol y mae’r Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, yn ei gael gan unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall sydd wedi tendro, neu sy’n tendro, am gontract gyda’r Cynulliad, neu sy'n meddu ar gontract.

- Nawdd ariannol (i) fel ymgeisydd yn etholiad y Cynulliad lle, hyd y gwyr yr Aelod, bod y nawdd mewn unrhyw achos yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd neu (ii) fel Aelod o'r Cynulliad gan unrhyw berson neu sefydliad, gan nodi a fydd y cyfryw nawdd yn cynnwys tâl i'r Aelod neu unrhyw fantais neu fudd materol.

- Yn unol ag unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Cynulliad, ymweliadau tramor gan yr Aelod, neu hyd y gwyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, sy'n ymwneud â neu'n deillio o Aelodaeth o'r Cynulliad, os na fydd costau ymweliad o'r fath wedi eu talu'n llawn gan yr Aelod neu gan arian cyhoeddus.

- Unrhyw dir neu eiddo'r Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, tir neu eiddo partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y’i pennwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad neu y ceir incwm sylweddol ohono, heblaw unrhyw gartref a ddefnyddir fel cartref personol gan yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod.

- Enwau'r cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod fuddiant lles ynddynt naill ai ar ei ben/phen ei hun neu gyda, neu ar ran, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol, neu hyd y gwyr yr

Aelod, y mae gan bartner yr Aelod, neu unrhyw blentyn dibynnol, fuddiant llesol mewn cyfranddaliadau sydd â’u gwerth yn fwy nag un y cant o’r cyfalaf cyfranddaliadau a gyhoeddwyd, neu lai nag un y cant ond mwy na'r swm a bennwyd mewn unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Cynulliad.

- Aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu’n ddi-dâl sydd gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu’n rhannol gan y Cynulliad.

**Datgan buddiannau**

7. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad, cyn cymryd rhan mewn unrhyw weithdrefnau'r Cynulliad, ddatgan unrhyw fuddiant sy'n berthnasol, o dan Reol Sefydlog 31, yng nghyd-destun y drafodaeth neu'r mater sydd o dan sylw. Rhaid i ddatganiad fod yn gysylltiedig â’r penderfyniad a gaiff ei wneud yn y cyfarfod o dan sylw. Rhaid bod yn berthnasol i fater lle y gall yr Aelod (neu bartner neu blant dibynnol) elwa'n ariannol o'r penderfyniad, lle byddai'r fantais honno yn fwy na'r hyn y byddai pobl y mae’r penderfyniad yn effeithio’n gyffredinol arnynt yn disgwyl ei dderbyn. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn i'r gynulleidfa fedru ffurfio barn gytbwys o'r holl ddadleuon.

**Gwahardd pleidleisio mewn perthynas â buddiannau a gofrestrwyd**

8. Nid oes gan Aelod yr hawl i bleidleisio mewn unrhyw un o weithdrefnau'r Cynulliad os, mewn perthynas ag unrhyw fuddiant y dylid bod wedi'i gofrestru, y gallai penderfyniad penodol gan y Cynulliad neu Bwyllgor olygu mwy o fantais ariannol i'r Aelod nag i'r rhai y mae’r penderfyniad yn effeithio’n gyffredinol arnynt.

**Defnyddio adnoddau'r Cynulliad**

9. Gofynnir i Aelodau gydymffurfio â'r *Canllawiau i Aelodau ar Ddefnyddio Adnoddau’r Cynulliad*, a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Tŷ, ac unrhyw ganllawiau ar y defnydd o adnoddau'r Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol ag ymgyrchoedd etholiadol.

**Mynediad at wybodaeth gan y cyhoedd**

10. Mae egwyddorion Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth ddarparu gwybodaeth wedi’u nodi yn y *Cod Ymarfer ar Ganiatau i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth*, a gymeradwywyd gan Gomisiwn y Cynulliad. Mae gofyn i Aelodau’r Cynulliad sy’n chwilio am wybodaeth gydymffurfio

gyda’r Cod trwy wneud cais ysgrifenedig i’r Cynghorydd Mynediad at Wybodaeth, yn Uned Gorfforaethol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae’r Cod wedi’i gyhoeddi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm.

**Y Berthynas rhwng Aelodau'r Cynulliad a staff y Cynulliad**

11. Mae holl staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru (staff Comisiwn y Cynulliad) yn rhwymedig i God Ymddygiad Staff, ac mae staff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i fod yn rhwymedig i God y Gwasanaeth Sifil. Dylai Aelodau barchu egwyddorion y ddau God yma wrth ddelio gyda staff o’r ddau gorff. Dylai’r berthynas rhwng Aelodau a staff fod yn broffesiynol, a bod y naill ochr yn parchu’r llall, a dylai Aelodau ystyried dyletswydd y staff i fod yn ddi-duedd yn wleidyddol wrth gyflawni’u dyletswyddau.

**Cyflogau a lwfansau'r Aelodau**

12. Gofynnir i Aelodau gydymffurfio â *Phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau a Swyddogion y Cynulliad) (Cyflogau a Lwfansau ac ati),* a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

13. Mae'r penderfyniad yn nodi'r cyflogau a'r lwfansau y mae'r Aelodau yn gymwys i'w derbyn trwy gyflawni dyletswyddau'r Cynulliad.

**Dyletswyddau o ran y Comisiynydd Safonau a’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

14. Bydd yr Aelodau yn cydweithredu, ym mhob cam, ag unrhyw ymchwiliad i’w hymddygiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 33; neu gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn unol â Rheol Sefydlog 16.1(i).

15. Ni fydd unrhyw Aelod yn lobïo aelod o’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn ffordd y cynllunnir neu y bwriedir iddi ddylanwadu arno/arni pan fydd yn ystyried cwyn ynghylch torri unrhyw un o’r materion a nodir yn Rheolau Sefydlog 16.1(i).

16. Ni ddylai unrhyw Aelod gamliwio unrhyw argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor ar Safonau Ymddygiad mewn perthynas ag unrhyw gwyn y mae wedi’i hystyried o dan *Weithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Delio â Chwynion yn erbyn Aelodau’r Cynulliad*.

**Gorfodi'r Cod ymddygiad**

17. Ymdrinnir ag unrhyw gyhuddiadau o beidio â chydymffurfio â'r Cod drwy'r broses a nodwyd yng *Ngweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Delio â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad* a gymeradwywyd gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Cynulliad Cenedlaethol.

18. Ceir gwybodaeth am rôl y Comisiynydd Safonau, gan gynnwys manylion cyswllt, ar wefan y Cynulliad (www.cynulliadcymru.org) neu yn Swyddfa'r Comisiynydd.

## Atodiad 7: Gwariant ar gyflogau a lwfansau 2008-09

| | Budget | Actual Spend |
|---|---|---|
| Cyflogau Aelodau'r Cynulliad (yn cynnwys Yswiriant Cenedlaethol, pensiynau a chyflogau deiliaid swyddi) | £5,130,000 | £5,207,000 |
| Lwfans Costau Swyddfa | £874,000 | £721,800 |
| Lwfans Costau Ychwanegol | £464,000 | £410,000 |
| Cyflogau Staff | £5,606,000 | £5,602,400 |
| Milltiroedd Aelodau'r Cynulliad | £160,000 | £162,400 |
| Teithio gan Aelodau'r Cynulliad | £150,000 | £32,500 |
| Llogi Ceir | (yn rhan o'r gyllideb deithio) | £16,700 |
| Teithio yn Ewrop | £60,000 | £12,000 |
| Lwfans Arweinwyr y Pleidiau | (yn rhan o'r cyflogau staff) | £113,496 |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | £700,000 | £650,000 |
| Offer Swyddfa | £150,000 | £141,500 |
| Hyfforddiant (Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad) | £41,000 | £24,100 |
| **Cyfanswm** | **£13,335,000** | **£13,093,896** |

## Atodiad 8: Cyflogau cymharol gwleidyddion y Deyrnas Unedig

**Graddau Cyflogau Aelodau'r Cynulliad o 1 Ebrill 2009 (£)**

| Swydd | Cyflog sylfaenol 2009–10 | Taliadau ychwanegol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Aelodau | £53,108 | | £53,108 |
| Y Prif Weinidog | £53,108 | £79,753 | £132,861 |
| Y Dirprwy Brif Weinidog | £53,108 | £41,370 | £94,478 |
| Y Llywydd / Gweinidogion Cymru | £53,108 | £41,370 | £94,478 |
| Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ | £53,108 | £41,370 | £94,478 |
| Arweinydd y blaid fwyaf nad oes ganddi swyddogaeth weithredol | £53,108 | £41,370 | £94,478 |
| Arweinwyr y gwrthbleidiau eraill | £53,108 | £11,542 | £64,650 |
| Y Dirprwy Lywydd / Dirprwy Weinidogion | £53,108 | £26,021 | £79,129 |
| Prif Chwip y Llywodraeth | £53,108 | £26,021 | £79,129 |
| Prif Chwip a Rheolwr Busnes yr Wrthblaid | £53,108 | £11,542 | £64,650 |
| Comisiynwyr y Cynulliad | £53,108 | £11,542 | £64,650 |
| Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, Deddfwriaeth, Cyllid ac Archwilio | £53,108 | £11,542 | £64,650 |
| Cadeiryddion y Pwyllgorau Plant a Phobl Ifanc, Materion Ewropeaidd ac Allanol, Cyfle Cyfartal, ac Is-ddeddfwriaeth | £53,108 | £6,039 | £59,147 |

*Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**Graddau Cyflogau Aelodau Seneddol o 1 Ebrill 2009 (£)**

| Swydd | Cyflog sylfaenol 2009–10 | Taliadau ychwanegol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Aelodau | £64,766 | | £64,766 |
| Y Prif Weinidog | £64,766 | £132,923 | £197, 689 |
| Gweinidogion y Cabinet | £64,766 | £79,754 | £144,520 |
| Gweinidogion Gwladol | £64,766 | £41,370 | £106,136 |
| Is-ysgrifennydd Seneddol | £64,766 | £31,401 | £96,167 |
| Prif Chwip y Llywodraeth | £64,766 | £79,745 | £144,511 |
| Chwip y Llywodraeth | £64,766 | £41,370 | £106,136 |
| Arweinydd yr Wrthblaid | £64,766 | £73,109 | £137,875 |
| Prif Chwip yr Wrthblaid | £64,766 | £41,370 | £106,136 |
| Y Llefarydd | £64,766 | £79,754 | £144,520 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau Dethol (1) | £64,766 | 14,366 | £79,132 |

*(1) ac eithrio Cadeiryddion Pwyllgorau Rhanbarthol*

**Graddau Cyflogau Aelodau Senedd yr Alban o 1 Ebrill 2009 (£)**

| Swydd | Cyflog sylfaenol 2009–10 | Taliadau ychwanegol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Aelodau (1) | £56,671 | | £56,671 |
| Aelodau â mandad ddeuol | £18,891 | | £18,891 |
| Y Prif Weinidog | £56,671 | £82,094 | £138,765 |
| Ysgrifennydd y Cabinet | £56,671 | £42,588 | £99,259 |
| Gweinidogion | £56,671 | £26,676 | £83,347 |
| Llywydd | £56,671 | £42,588 | £99,259 |
| Dirprwy Lywydd | £56,561 | £26,676 | £83,347 |
| Arglwydd Adfocad | £56,671 | £55,638 | £112,309 |
| Cyfreithiwr Cyffredinol yr Alban | £56,671 | £40,233 | £96,904 |

*Aelodau (yn cynnwys aelodau sydd hefyd yn Gadeiryddion Pwyllgorau, nad ydynt yn cael lwfans ychwanegol).*

**Graddau Cyflogau Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon o 1 Ebrill 2009 (£)** [(1)]

| Swydd | Cyflog sylfaenol 2009–10 | Taliadau ychwanegol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Aelodau (1) | £43,101 | | £43,101 |
| Aelodau â mandad ddeuol | £43,101 | | £43,101 |
| Y Prif Weinidog | £43,101 | £71,431 | £114,532 |
| Gweinidogion | £43,101 | £37,801 | £80,902 |
| Dirprwy Weinidogion | £43,101 | £19,609 | £62,710 |
| Llefarydd | £43,101 | £37,801 | £80,902 |
| Dirprwy Lefarydd | £43,101 | £8,499 | £51,600 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau | £43,101 | £11,331 | £54,432 |
| Comisiynwyr | £43,101 | £11,331 | £54,432 |

*(1) Ystyriwyd cyflogau a lwfansau Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon gan Fwrdd Adolygu Uwch Gyflogau yn 2008. Cynigiodd y Bwrdd y dylai cyflogau'r Aelodau godi o'r un ganran ag Aelodau Seneddol, am y tair blynedd o 1 Ebrill 2008 ymlaen. Fodd bynnag, mae Comisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon yn dal i ystyried canfyddiadau'r Bwrdd, ac nid ydynt wedi cael eu gweithredu.*

## Atodiad 9: Trefniadau cyflogau – cymariaethau rhyngwladol

[Mae'r tabl hwn yn hawlfraint y Goron ac fe'i hatgynhyrchir o'r *Review of Parliamentary Pay and Pensions* gan Syr John Baker CBE - Mehefin 2008]

| | Mynegai | Cymharydd | Corff adolygu | A yw ASau yn pleidleisio? |
|---|---|---|---|---|
| **Awstralia** | | Cysylltiad â'r pwynt cyfeirio yn strwythur Prif Swyddi Gweithredol y Tribiwnlys Dyfarnu Cyflogau | Penderfyniadau blynyddol gan y Tribiwnlys Dyfarnu Cyflogau | Gallant wrthod penderfyniad |
| **Canada** | Yn cael eu haddasu ar 1 Ebrill bob blwyddyn yn seiliedig ar y mynegai o'r cyfartaledd yng nghynnydd cyflogau'r sector preifat | | | Na. Proses awtomatig. Rhoddir gwybod i Aelodau am y swm yn y fynegai drwy lythyr gan y Llefarydd |
| **Ffrainc** | | Cysylltiad â chyflogau uwch weision sifil | | Na. Cynnydd awtomatig yn unol ag uwch weision sifil |

| | Mynegai | Cymharydd | Corff adolygu | A yw ASau yn pleidleisio? |
|---|---|---|---|---|
| **Yr Almaen** | | Mewn egwyddor, cysylltiad â chyflogau is-farnwyr yn yr Uwch Lysoedd Ffederal a Meiri dinasoedd ac ardaloedd trefol llai. | | Mewn egwyddor, mae'r Bundestag yn pleidleisio ar addasiadau cyflog (ar ddechrau'r tymor deddfwriaethol fel arfer). Cedwir y lefel cyflogau fel arfer ar gyfer y tymor deddfwriaethol cyfan. Codwyd cyflogau Aelodau ym mis Ionawr 2008 a byddant yn codi eto ym mis Ionawr 2009. Yn ddiweddar, trafodwyd a dylai codiadau pellach gyd-fynd â chodiadau cyflog y gwasanaeth sifil ond gwrthodwyd hyn. |
| **Iwerddon** | | Cysylltiad â dyfarniadau cyflog graddfa Prif Swyddogion y gwasanaeth sifil | Penderfynir ar gyflogau'r Prif Swyddogion drwy Gytundeb Cyflogau Cenedlaethol a chyrff adolygu annibynnol o bryd i'w gilydd | Na. Cytundeb rhwng yr undebau, cyflogwyr a'r Llywodraeth yw'r Cytundeb Cyflogau Cenedlaethol. Nid yw'r Senedd yn pleidleisio arno. |
| **Yr Eidal** | | Pennir y cyflogau drwy gyfeirio at gyflog crynswth blynyddol Ynadon sy'n Lywyddion Adrannau'r Goruchaf Lys | | Penderfyniad mwyafrifol ynghylch derbyn neu wrthod gan y Cyngor Arlywyddol ar gyfer y Senedd a'r Swyddfa Arlywyddol ar gyfer y Siambr – gyda chynrychiolaeth gyfrannol i bob grŵp Seneddol |
| **Yr Iseldiroedd** | | Cyd-fynd â graddfa uchaf gradd 16 y gwasanaeth sifil (Dirprwy Gyfarwyddwr) | | Ydynt. Pleidlais yn y Senedd |

| | Mynegai | Cymharydd | Corff adolygu | A yw ASau yn pleidleisio? |
|---|---|---|---|---|
| **Seland Newydd** | | | Penderfyniadau blynyddol gan Awdurdod Dyfarnu Cyflogau | Na, penderfyniad yr Awdurdod yn unig |
| **Norwy** | | | Argymhellion gan Gomisiwn Cyflogau (3 aelod) | Ydynt. Pleidlais yn y Senedd |
| **Singapôr** | | Pecyn cyflogau blynyddol ASau yn cael ei gyfyngu i radd Swyddog Gweinyddol SR9 (56% ar hyn o bryd) | | Na |
| **Sbaen** | | | Bwrdd Seneddol yn gyfrifol am bennu cyflogau a phensiynau. Cysylltir cyflogau cyn belled â phosibl â chyflog Is-Weinidogion Sbaen (a bennir gan y Llywodraeth) | Na, penderfyniad y Bwrdd Seneddol yn unig |
| **Sweden** | | | Penderfyniad Bwrdd Seneddol, sy'n cymharu cyflogau ASau â'r amgylchedd cyflogau a chyflogau swyddi tebyg | Na. Caiff y penderfyniad ei dderbyn yn awtomatig. |

| | Mynegai | Cymharydd | Corff adolygu | A yw ASau yn pleidleisio? |
|---|---|---|---|---|
| **UDA** | Fformiwla flynyddol, yn seiliedig ar y Mynegai Cost Cyflogaeth, llai 0.5% (ond ni allant fod yn uwch nag addasiadau cyflogau'r Rhestr Gyffredinol – cyflogeion gweision sifil "coler wen") | | | Codiadau'n digwydd yn awtomatig yn ôl uchafswm yr Atodlen Gyffredinol oni bai fod y Gyngres yn pleidleisio yn eu herbyn neu i'w diwygio. Rhaid i Aelodau dderbyn y cyflog yn ôl y gyfraith ond gallant ddewis dychwelyd rhan o'u cyflogau. |

## Awstralia

Ers mis Rhagfyr 1999, cafodd cyflogau Aelodau a Seneddwyr eu cysylltu â strwythur Prif Swyddi Gweithredol y Tribiwnlys Dyfarnu Cyflogau (PEO). Mae rheoliadau yn cysylltu hyn â'r Ddeddf Dyfarnu Cyflogau a Lwfansau. Wrth gynnal ei adolygiadau gall y Tribiwnlys ystyried amryw o ffactorau, gan gynnwys y rhai a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- y prif ddangosyddion economaidd
- dangosyddion penodol fel cyfres y Mynegai Cost Cyflogau
- cyflogau yn y sector cyhoeddus ac (i raddau llai) y sector preifat a phenderfyniadau pennu cyflogau Comisiwn Cyflogau Teg Awstralia.

Ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn, mae'r Tribiwnlys Dyfarnu Cyflogau (corff statudol annibynnol sy'n dyfarnu cyflogau prif swyddi Cymanwlad Awstralia) yn pennu cyflogau ar gyfer strwythur y PEO.

Offerynnau yw'r holl benderfyniadau a gall y Senedd eu gwrthod. Mae hyn yn golygu y gall Aelodau neu Seneddwyr gynnig bod y dyfarniadau/graddfeydd yn cael eu gwrthod ac felly, na chânt eu talu. Nid yw hyn wedi digwydd hyd yn hyn.

Cyn y system bresennol, roedd cyflogau Aelodau a Seneddwyr yn gysylltiedig â lefel cyflogau Band 2 Uwch Wasanaeth Gweithredol y Gwasanaeth Cyhoeddus. Cyn mis Gorffennaf 2000 (pan gafwyd y dyfarniad cyntaf gan y Tribiwnlys Dyfarnu Cyflogau) nid oedd Aelodau a Seneddwyr wedi cael codiad cyflog ers mis Hydref 1996. Roedd hyn oherwydd bod staff yr Uwch Wasanaeth Gweithredol wedi symud oddi wrth broses ganolog o bennu cyflogau at broses o gael codiadau cyflog drwy gytundebau a negodwyd.

## Canada

Caiff lwfansau a chyflogau eu haddasu'n flynyddol ar 1 Ebrill yn seiliedig ar fynegai o gyfartaledd canrannol codiadau cyflog y sector cyhoeddus. Cyhoeddir y mynegai gan yr Adran Adnoddau Dynol a Datblygiad Cymdeithasol.

Mae'r dull hwn wedi ei ymgorffori yn Neddf Senedd Canada. Mae'r Llefarydd yn rhoi gwybod i Aelodau drwy lythyr am y codiad cyflog yn unol â'r mynegai.

Daeth y system newydd i rym yn 2005. Rhwng 2001 a 2005 roedd cyflogau Aelodau Seneddol yn gysylltiedig â chyflog Prif Ustus Canada.

**Ffrainc**

Mae cyflogau Aelodau Seneddol wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â chyflogau uwch weision sifil ers 1958. Codir cyflogau Aelodau Seneddol yn awtomatig yn ôl cyfartaledd y codiadau uchaf ac isaf yng ngraddau cyflogau'r uwch weision sifil. Adolygir cyflogau uwch weision sifil (gan Weinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil) yn achlysurol – bob blwyddyn, fel arfer, a gall nifer o resymau sbarduno cynnal yr adolygiadau.

Mae cyflogau Aelodau Seneddol yn cynnwys lwfans sylfaenol, lwfans tai (3%) a lwfans swydd (25%).

Nid yw Aelodau Seneddol yn pleidleisio ar lefel eu cyflogau eu hunain na chyflogau uwch weision sifil.

**Yr Almaen**

Mae aelodau'r Bundestag yn pennu eu cyflogau a'u pensiynau eu hunain. Mae'r Llys Cyfansoddiadol wedi dyfarnu mai hwy ddylai ymgymryd â'r dasg hon ac na chânt ei dirprwyo e.e. i gorff annibynnol.

Mewn egwyddor, cysylltir cyflogau â dangosyddion cymharol yn y sector cyhoeddus – cyflogau is-farnwyr yn yr uwch lysoedd ffederal a meiri (llywodraethol) dinasoedd llai ac ardaloedd sydd â rhwng 50,000 a 100,000 o bleidleiswyr. Mae etholaethau'r Bundestag yn cynnwys rhwng 160,000 a 250,000 o bleidleiswyr (etholir aelodau drwy system sy'n gyfuniad o etholaethau a chynrychiolaeth gyfrannol o restrau'r pleidiau).

Yn draddodiadol, rhoddir codiadau cyflog yn ystod cyfarfod cyntaf tymor deddfwriaethol newydd. Mae'r penderfyniad wedyn yn ddilys ar gyfer yr holl dymor deddfwriaethol ac nid yw'n bosibl gwneud addasiad arall. Fodd bynnag, mae'r Bundestag wedi dewis peidio â derbyn y codiadau cyflog ambell flwyddyn yn ddiweddar ac felly mae eu cyflogau yn is na swyddi cyffelyb.

Yn 2007 cytunodd y Bundestag ar godiadau cyflog ar gyfer 2008 a 2009. Yn dilyn y setliad ariannol ar gyfer y gwasanaeth sifil, cynigiwyd codiadau cyflog pellach yn 2009 a 2010 ond fe'u gwrthodwyd gan eu bod yn ddadleuol.

**Iwerddon**

Ers 2000, mae cyflogau Aelodau Seneddol wedi cael eu cysylltu â dyfarniadau cyflogau Prif Swyddogion y gweision sifil (graddfa safonol). Pennir cyflog y Prif Swyddogion gan y Cytundeb Cyflogau Cenedlaethol ac adolygiadau'r

Corff Meincnodi Gwasanaeth Cyhoeddus. Nid yw'r naill broses na'r llall wedi ei hymgorffori mewn deddfwriaeth.

Mae'r Cytundeb Cyflogau Cenedlaethol yn dod â'r Llywodraeth, cyflogwyr ac undebau (y partneriaid cymdeithasol) at ei gilydd i gytuno ar godiadau cyflog yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r cytundebau'n ddilys am gyfnodau sy'n amrywio rhwng 18 mis a thair blynedd cyn iddynt gael eu hail-negodi.

Mae Corff Meincnodi Gwasanaeth Cyhoeddus annibynnol yn adolygu cyflogau o dro i dro (2002 a 2008) er mwyn penderfynu a ddylai cyflogeion y sector cyhoeddus gael codiadau cyflog yn unol â chyflogau'r sector preifat.

Nid yw'r Senedd yn pleidleisio ar y Cytundeb Cyflogau Cenedlaethol.

Cyn 2000, roedd cyflogau Aelodau'n cael eu hargymell gan y Corff Adolygu Dyfarniadau Cyflogau Uwch yn y Sector Cyhoeddus. Mae'r corff yn parhau i bennu cyflogau uwch swyddogion fel y Taoiseach, Gweinidogion, ac eraill. Caiff adolygiadau o'r fath eu cynnal bob rhyw bedair mlynedd yn dilyn argymhelliad gan y Gweinidog dros Gyllid. Mae'r Corff Adolygu'n cyflwyno adroddiad i'r Llywodraeth a all wedyn dderbyn yr holl argymhellion, derbyn rhai o'r argymhellion neu eu gwrthod.

**Yr Eidal**

Caiff cyflogau Aelodau Seneddol eu rheoleiddio gan ddeddf a basiwyd yn 1965 sy'n seilio'r cyflogau ar gyflog blynyddol crynswth Ynadon sy'n Llywyddion Adrannau yn y Goruchaf Lys. Caiff codiadau blynyddol eu cysylltu â chyflogau'r Ynadon. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd cyfreithiol y dylai'r cyflogau aros ar y lefel hon.

Caiff y penderfyniad i gymeradwyo codiadau cyflog ei wneud gan *y Swyddfa Arlywyddol* (ar gyfer y Siambr) a'r *Cyngor Arlywyddol* (ar gyfer y Senedd). Mae'r Byrddau Rheoli hyn yn cynnwys cynrychiolaeth gyfrannol o'r holl bleidiau gwleidyddol. Gwneir y penderfyniadau gan fwyafrif o aelodau'r Bwrdd. Gall y Siambr a'r Senedd wneud penderfyniadau ar wahân. Pennir cyflogau'r Ynadon gan y Llywodraeth.

**Yr Iseldiroedd**

Caiff cyflogau a phensiynau eu rheoleiddio gan Ddeddf Dyfarnu Cyflogau Aelodau Seneddol 1990.

Mae cyflogau sylfaenol Aelodau Seneddol yn gydradd â phwynt uchaf gradd 16 y gwasanaeth sifil (lefel Dirprwy Gyfarwyddwr). Eglurder gweinyddol oedd

y rheswm tu ôl i'r cysylltiad hwn, yn hytrach nag unrhyw werthusiad o'r swyddi. Addasir cyflogau Aelodau Seneddol yr un pryd â graddfeydd cyflogau'r gwasanaeth sifil – bob dwy flynedd, fel arfer.

Mae Senedd yr Iseldiroedd ar hyn o bryd yn trafod gwneud newidiadau sylweddol i'r system bresennol: mae'r Mesur sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn gosod cyflog Gweinidogion ar raddfa o 100 y cant â'r lefel bresennol a chyflog Aelodau Seneddol ar lefel o 55 y cant. Mae'r mynegai'n seiliedig ar newidiadau mewn cyflogau yn y gwasanaeth sifil. O dan y system arfaethedig, y Llywodraeth fydd yn cynnig graddfeydd cyflogau ond y Senedd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

**Seland Newydd**

Ers 2003, pennir cyflogau a lwfansau Aelodau Seneddol yn flynyddol gan Awdurdod Dyfarnu Cyflogau, sydd yn gorff statudol annibynnol. Mae'r Awdurdod yn cynnwys tri aelod a benodir gan y Llywodraethwr Cyffredinol drwy Orchymyn yn y Cyngor.

Sefydlwyd yr Awdurdod Dyfarnu Cyflogau yn 1 Ebrill 2003 gan Ddeddf Diwygio Awdurdod Dyfarnu Cyflogau (Aelodau Seneddol) 2002. Cyn 1 Ebrill 2003 y Comisiwn Cyflogau Uwch (o dan Ddeddf Awdurdod Dyfarnu Cyflogau 1977) oedd yr enw ar yr Awdurdod.

Mae cylch gwaith yr Awdurdod hefyd yn cynnwys ystod eang o swyddogion statudol, aelodau o'r farnwriaeth ac aelodau awdurdodau lleol (cyhoeddodd yr Awdurdod 89 o ddyfarniadau yn ystod blwyddyn ariannol 2006-07). Mae'r Awdurdod yn defnyddio cymariaethau cyhoeddus a phreifat yn sgil arolygon a gwerthuso swyddi ac yn ceisio cael cysondeb a pherthnasedd priodol yng nghyflogau seneddwyr, y weithrediaeth, y farnwriaeth a'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae cysylltiad anuniongyrchol â'r sector preifat gan fod cyflogau yn y farnwriaeth yn ystyried (er nad yn adlewyrchu'n llawn) cyflogau allanol ym myd y gyfraith. Fel arfer, mae cyflogau yn y sector cyhoeddus yn adlewyrchu lefelau cyflogau yng ngweddill yr economi.

Bwriad y darpariaethau deddfwriaethol presennol yw cadw'r Llywodraeth hyd braich o'r broses o bennu cyflogau a phensiynau. Er y gall rhanddeiliaid fel y Llywodraeth ac Aelodau Seneddol anfon sylwadau at yr Awdurdod, mae'r cyfrifoldeb am y penderfyniad terfynol yn nwylo'r Awdurdod.

**Norwy**

Mae Llywydd y Senedd (y Llefarydd) yn penodi 'Comisiwn Cyflogau' annibynnol am gyfnod o bum mlynedd, a chaiff y mater ei adolygu'n

flynyddol ar 1 Hydref. Mae gan y Comisiwn dri aelod, sef Pennaeth y Tribiwnlys Cyflafareddu Cenedlaethol, barnwr ac Athro.

Mae'r Comisiwn Cyflogau'n cyfarfod tua dwy neu dair gwaith yn ystod yr hydref. Mae gweinyddiaeth Storting yn cynnig Pennaeth yr Adran Gyllid a Gweinyddol yn ysgrifennydd i'r Comisiwn. Mae'r ysgrifennydd yn sicrhau bod gwybodaeth gyffredinol am ddatblygiadau o ran cyflogau a dangosyddion cymdeithasol perthnasol eraill ar gael i'r Comisiwn. Mae'r ysgrifennydd hefyd yn rhoi gwybod am unrhyw wybodaeth arall y mae'r Comisiwn ei hangen er mwyn gwneud ei waith.

Mae Comisiwn Cyflogau Storting yn cyflwyno ei argymhellion i'r Presidiwm, sydd wedyn yn cyflwyno'r cynnig fel eitem fusnes ar wahân i'r Storting. Cynhelir pleidlais ar hyn yn y ffordd arferol. Ers sefydlu'r Comisiwn Cyflogau yn 1996, cafodd ei argymhellion eu derbyn bob tro gan y Storting.

**Singapôr**

Mae pecyn cyflog blynyddol Aelodau Seneddol yn cael ei gysylltu â Gradd Swyddog Gweinyddol SR9 (sydd yn 56% ar hyn o bryd). Y feincnod ar gyfer gradd SR9 yw cyflogeion sy'n 32 oed ac sy'n ennill y pymthegfed incwm uchaf allan o grŵp o chwe phroffesiwn (bancwyr, cyfrifwyr, peirianwyr, cyfreithwyr, cwmnïau gweithgynhyrchu lleol a chorfforaethau rhyngwladol).

Mae pecyn cyflog blynyddol Aelodau Seneddol yn cynnwys bonws sy'n gysylltiedig â chynnyrch mewnwladol crynswth (GDP) a all fod cymaint â chyflog deufis arferol, yn ddibynnol ar berfformiad economaidd (a gyfrifir ar gynydd mewn GDP o 2% ac uwch). Nid yw Aelodau Seneddol yn pleidleisio ar lefel eu cyflogau na'u pensiynau.

**Sbaen**

Mae Cyfansoddiad Sbaen yn nodi y dylai Dirprwyon a Seneddwyr gael cyflog a gaiff ei bennu gan y ddwy siambr. Mae'r gyfraith Seneddol yn nodi y dylid rhoi cyflog i Ddirprwyon sy'n eu galluogi i ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol a chydag urddas.

Cyn belled â phosibl, cysylltir cyflog sylfaenol Aelodau Seneddol â chyflog "Secretario de Estado" (SdE – swydd sy'n gyfystyr ag Is-Weinidog), a bennir gan y Llywodraeth (anarferol fyddai gweld y cyflog yn codi'n uwch na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr). Mewn gwirionedd, bydd Aelod Seneddol fel arfer yn ennill llai na SdE oherwydd gall SdE, yn ôl y gyfraith, fod yn aelodau cyflogedig o fyrddau sawl cwmni cyhoeddus.

Y Bwrdd Seneddol yn y pendraw sy'n gyfrifol am bennu cyflogau a phensiynau. Caiff aelodau'r Bwrdd Seneddol eu hethol ar gychwyn cyfnod deddfwriaethol a chaiff pob plaid ei chynrychioli'n gyfrannol. Gwneir penderfyniad y tu ôl i ddrysau caeedig a thrwy gonsensws, oni bai bod anghytundeb, pan gaiff pleidlais ei chynnal ar y mater.

**Sweden**

Caiff cyflogau aelodau'r Riksdag eu pennu gan Awdurdod (cadeirydd a dau aleod arall) a benodir gan Fwrdd y Riksdag (sy'n cynnwys y Llefarydd a deg Aelod o'r Riksdag). Mae aelodau'r Awdurdod yn anwleidyddol ac yn aml yn uwch farnwyr. Penodir yr Awdurdod am gyfnodau o ddwy flynedd.

Nid yw'r Llywodraeth yn ymyrryd ym mhenderfyniadau'r Awdurdod i gynyddu cyflogau ai peidio, ac nid yw Aelodau Seneddol yn pleidleisio ar y mater.

Wrth wneud ei benderfyniad, bydd yr Awdurdod yn ystyried lefelau cyflogau aelodau'r cabinet a rhai gweision sifil yn ogystal ag ystyried yr economi ehangach.

**Unol Daleithiau'r America**

Sefydlodd Deddf Diwygio Moeseg 1989 fformiwla blynyddol ar gyfer newidiadau i gyflogau Aelodau ynghyd ag adolygiad bob pedair blynedd o gyflogau swyddogion gan Gomisiwn o Ddinasyddion ar Wasanaeth a Chydnabyddiaeth Cyhoeddus (nid yw'r corff hwn erioed wedi cyfarfod). Gwaharddodd y Ddeddf hefyd honoraria ac adolygodd y rheolau ynghylch incwm a chyflogaeth ar ôl gwasanaethu'r Llywodraeth.

Mae cyflog presennol aelodau'n ganlyniad nifer o newidiadau, gyda rhai'n gysylltiedig â'r mynegai, ac eraill yn rhai annibynnol, nad ydynt yn gysylltiedig â'r fynegai. Defnyddiwyd deddfwriaeth arbennig i roi codiadau cyflog ddiwethaf yn 1990 ac 1991; ers hynny, mae unrhyw newidiadau wedi bod yn unol â'r fformiwla a sefydlwyd o dan Ddeddf 1989.

Caiff y cynnydd blynyddol i aelodau ei bennu gan fformiwla sy'n defnyddio'r Mynegai Cost Cyflogaeth. Mae'r mynegai yn mesur newidiadau chwarterol yng nghyflogau'r sector preifat (nid ydynt yn cael eu cymhwyso'n dymhorol). Mae Deddf Diwygio Moeseg 1989 yn nodi y dylid defnyddio'r newid canrannol yn y chwarter sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol, llai 0.5%. Ni ddylai cyflogau Aelodau naill ai fod yn uwch na'r newid canrannol yng nghyflog sylfaenol gweision sifil 'coler wen' nac yn uwch na 5%.

Caiff y newid hwn ei wneud yn awtomatig i gyflogau blynyddol Aelodau os na chaiff deddfwriaeth ei phasio sy'n adolygu neu wrthod y cynnydd canrannol.

Ers 1989 mae'r fformiwla blynyddol wedi arwain at dderbyn codiadau cyflog ar 12 achlysur, a'u gwrthod ar chwe achlysur (ym 1994, 1995, 1996, 1997, 1999 a 2007).

Oni bai i'r codiadau cyflog gael eu gwrthod ar naw achlysur ym 1994, 1995, 1996, 1998, 1999, 2001, 2003, 2007 a 2008, byddai'r fformiwla wedi arwain at roi llai o godiad cyflog fel nad oeddent yn uwch na chodiadau cyflog gweision sifil coler wen.

Gall y weithrediaeth effeithio'n anuniongyrchol ar gyflogau aelodau'r Gyngres mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae gan yr Arlywydd y pŵer i wrthod llofnodi deddfwriaeth. Yn ail, mae gan yr Arlywydd ran i'w chwarae wrth bennu cynnydd yng nghodiadau cyflog gweision sifil coler wen.

Cafodd nifer o newidiadau i gyflogau Aelodau eu gwneud neu eu cynnig dros y blynyddoedd, gan gynnwys:

Deddfwriaeth i atal Aelodau sy'n pleidleisio yn erbyn codiad rhag cael codiad cyflog, os nad yw'r gwaharddiad yn cael ei basio.

Cynigion i gysylltu codiadau cyflog â ffactorau economaidd neu â chamau a gaiff eu cymryd gan y Gyngres e.e. y gyllideb – gan atal codiad cyflog os oedd diffyg ariannol yn y flwyddyn flaenorol, neu os na chafodd y mesur neilltuo arian ei basio erbyn amser penodol yn y flwyddyn ariannol.

Cynigion i roi rôl fwy uniongyrchol ac atebol i Aelodau allu caniatáu rhoi codiadau cyflog.

## Atodiad 10: Crynodeb o Lawlyfr Cynllun Pensiwn yr Aelodau

### DIFFINIAD O DERMAU

Defnyddir nifer o dermau arbenigol yn y llawlyfr hwn. Mae'n rhaid cael y termau hyn er mwyn gallu rhoi disgrifiad cywir o'r buddion a gynigir gan y cynllun.

**Plentyn Dibynnol** yw unrhyw blentyn sy'n ddibynnol arnoch chi sydd:

(a) dan ddwy ar bymtheg

(b) dan dair ar hugain ac mewn addysg lawn-amser

(c) adeg eich marwolaeth yn gwbl neu'n rhannol ddibynnol arnoch oherwydd gwendid corfforol neu feddyliol (gweler y Rheolau am diffiniad llawn)

(d) wedi ei genhedlu ond heb ei eni ar adeg marwolaeth yr ymadawedig

Gall y diffiniad hwn gynnwys: llysblant, plant wedi'u mabwysiadu neu blant siawns a phlant perthnasol, sy'n golygu plant yr ymadawedig, neu wraig neu wˆ r yr ymadawedig. Mae plant perthnasol hefyd yn cynnwys plant a genhedlwyd mewn perthynas sefydlog hirdymor.

**Yr Uchafswm a Bennir** yw uchafswm y tâl i'w gyfrif wrth bennu buddion a chyfraniadau pensiwn. Mae'r uchafswm a bennir ar gyfer unrhyw flynyddoedd treth yn golygu'r ffigur a bennwyd gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn dreth honno. £112,800 yw'r uchafswm a bennir ar gyfer 2007/2008.

**Lleiafswm pensiwn gwarantedig** sef yr isafswm pensiwn y mae Cynllun yn gorfod ei roi o ran gwasanaeth sy'n cyfrif cyn 6 Ebrill 1997, o ganlyniad i gontractio allan o Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth sy'n gysylltiedig ag Enillion. Gwarantir y bydd y swm hwn o leiaf yn gyfwerth â phensiwn a fyddai wedi casglu yng Nghynllun Pensiwn y Wladwriaeth sy'n gysylltiedig ag Enillion. Er i chi ymuno â'r Cynllun ar ôl 6 Ebrill 1997, mae'n berthnasol os ydych wedi trosglwyddo buddion a gasglwyd cyn y dyddiad hwnnw o gynlluniau eraill.

**Cyflog terfynol** yw'r swm a dderbyniodd Aelod arferol yn y deuddeg mis olaf cyn gadael neu ymddeol.

**Oed pensiwn** yw pan fo person yn peidio â bod yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol, pan fo'n cyrraedd chwe deg a phum mlwydd oed.

**Pensiwn cynnar**. Os ymunodd Aelod â'r Cynllun cyn 1 Ebrill 2007, gellir talu pensiwn heb ostyngiad pan fo'r aelod yn 60 oed gyda gwasanaeth gwirioneddol o 20 mlynedd o leiaf fel Aelod o'r Cynulliad (neu o 61 gyda 19 mlynedd o wasanaeth, a 62 gyda 18 mlynedd ac ymlaen hyd 64 oed gydag 16 mlynedd o wasanaeth).

Gall gwasanaeth fel Aelod Seneddol (AS) neu Aelod o'r Senedd Ewropeaidd (ASE) gyfrif tuag at hyd eich gwasanaeth at ddibenion sicrhau'ch bod yn gymwys i gael pensiwn cynnar, cyn belled nad ydych yn gwasanaethu fel Aelod o'r Cynulliad yn yr un cyfnod.

**Pensiwn gostyngol**. Gellir talu pensiwn gostyngol i Aelod dros 50 oed sy'n ymddeol os ymunodd â'r Cynllun cyn 6 Ebrill 2006. Pennir lefel y gostyngiad gan Actwari'r Llywodraeth. Mae'n bosibl hefyd i gyn-Aelod sydd dros 50 oed dderbyn pensiwn ar unwaith a fydd yn amodol ar ostyngiad gan yr actwari yn seiliedig ar oedran a hyd gwasanaeth. Os ymunodd Aelod â'r Cynllun ar, neu ar ôl 6 Ebrill 2006, ni chafidd bensiwn nes y bydd yn 55 oed. Eto, gallwn gymryd eich gwasanaeth fel AS neu ASE i ystyriaeth.

**Gwasanaeth sy'n cyfrif** yw'r gwasanaeth sy'n cyfrif tuag at eich pensiwn. Mae credyd gwasanaeth yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn o gynllun pensiwn blaenorol i Gynllun y Cynulliad yn cynyddu eich pensiwn sy'n cyfrif. Hefyd, gallwch brynu blynyddoedd ychwanegol o gredyd gwasanaeth i gynyddu eich hawliau pensiwn.

**Oed pensiwn y wladwriaeth** yw'r oed pan fo pensiwn yn daladwy gan y wladwriaeth. Ar hyn o bryd, mae'r oed hwn yn 65 i ddynion a 60 i fenywod. Fodd bynnag, dros y cyfnod deng mlynedd o 2010 i 2020, bydd oed pensiwn yn cael ei wneud yn gyfartal i bawb, yn 65 oed.

**Gweddw/gŵr gweddw/partner sifil/partner** yw eich priod neu'ch partner sifil yn llygaid y gyfraith pan fyddwch yn marw, neu'ch partner mewn perthynas sefydlog hirdymor sydd yn ddibynnol neu'n gyd-ddibynnol arnoch chi.

Yn achos partner, yn ôl Rheolau'r Cynllun, rhaid i'r partner fod wedi cyd-fyw â'r Aelod am o leiaf 12 mis cyn marwolaeth yr Aelod, rhaid i'r Aelod fod wedi enwebu'r partner o leiaf chwe mis cyn dyddiad marwolaeth yr Aelod a rhaid cael tystiolaeth fod y partner wedi bod yn ddibynnol neu'n gyd-ddibynnol yn ariannol am o leiaf 12 mis cyn marwolaeth yr Aelod.

Nid yw cyn wˆ r, gwraig, neu bartner yn gymwys i dderbyn pensiwn gweddw/gŵr gweddw/partner.

**Deiliaid swyddi**
Y swyddi ar hyn o bryd yw:

a) Llywydd
b) Dirprwy Lywydd
c) Prif Weinidog Cymru
d) Gweinidogion Cymru
e) Arweinydd y blaid fwyaf heb swyddogaeth weithredol
f) Cadeiryddion Pwyllgorau
g) Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
h) Dirprwy Weinidogion Cymru
i) Cwnsler Cyffredinol

**Terfyn cyfraniadau taladwy gan Swyddfa Cyllid y Wlad**
Ni all cyfraniadau pensiwn at ei gilydd fod yn fwy na 20% o gyflog arferol Aelod mewn unrhyw flwyddyn dreth, yn amodol ar yr uchafswm a bennir.

**Aseinio buddion**
Ni chaniateir i chi aseinio unrhyw fuddion. Golyga hyn nad ydych yn gallu rhoi eich hawliau chi dan y Cynllun i unrhyw un arall.

**Cynnydd blynyddol**
Mae pob pensiwn yn cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Man-werthu.

**AELODAETH Y CYNLLUN**

**Sut i ymuno**

Nid oes rhaid i chi wneud unrhyw beth i ymuno â'r Cynllun, gan y tybir eich bod yn aelod o'r Cynllun o ddyddiad yr etholiad. Nid yw'r Cynllun yn orfodol, ond **mae'n rhaid i chi wneud dewis pendant i'w adael.** Bydd angen i chi roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr os ydych am adael y Cynllun. Os gwnewch y penderfyniad hwn mae'n gyfreithiol ofynnol i chi wneud darpariaethau eraill ar gyfer eich pensiwn naill ai trwy:

(i) Ymuno ag Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth; neu
(ii) Eithrio o Ail Bensiwn y Wladwriaeth drwy bensiwn personol perthnasol.

Wrth i chi ymuno â'r Cynllun, byddwch yn cronni buddion yn awtomatig ar sail un rhan o ddeugain o'ch cyflog am bob blwyddyn o wasanaeth neu ffracsiwn cyfatebol. Os ydych yn dymuno cronni buddion ar sail un rhan o hanner cant o'ch cyflog am bob blwyddyn o wasanaeth, neu ffracsiwn

cyfatebol, bydd angen i chi roi gwybod i'r Ymddiriedolwyr cyn pen 3 mis ar ôl i chi eich ethol. (Darllenwch hefyd **Talu am eich Buddion** i weld manylion eich cyfraniadau.

**Trefnu I drosglwyddo buddion o drefniant blaenorol**

Os oes gennych fuddion pensiwn mewn cynllun gan gyflogwr blaenorol, neu mewn cynllun personol, gallwch eu trosglwyddo i Gynllun y Cynulliad. Mae'n rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig i drosglwyddo'r buddion hyn.

Yn y rhan fwyaf o achosion (ac yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr) gellir derbyn trosglwyddiad ariannol o gynllun pensiwn arall wrth ymuno â Chynllun y Cynulliad, a gellir gwneud trosglwyddiad tebyg i gynllun arall pan fyddwch yn gadael y Cynulliad neu'r Cynllun. Dylech nodi fod gan yr Ymddiriedolwyr yr hawl i wrthod trosglwyddo os yw'n annigonol ar gyfer cost eich **lleiafswm pensiwn gwarantedig**.

**Aelodau'r Cynulliad sy'n dewis gadael y cynllun**

Gallwch ddewis gadael y Cynllun ar unrhyw adeg.

Fel aelod newydd, mae gennych **dri mis** ar ô dyddiad eich etholiad i'r Cynulliad i ddewis gwneud hynny os ydych am gael ad-daliad cyfraniadau. Bydd yr ad-daliad yn cael ei ddyddio'n ôl i ddyddiad yr etholiad. Mae'n rhaid rhoi hysbysiad o'ch bwriad i optio allan yn ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr.

Os ydych yn penderfynu gadael y Cynllun wedi hynny, daw eich penderfyniad i rym ar ddyddiad a bennir gan yr Ymddiriedolwyr fel y dyddiad ymarferol cyntaf wedi iddynt dderbyn hysbysiad ysgrifenedig.

**Deiliaid swyddi sy'n dewis gadael y Cynllun**

Fel Deiliad Swydd sy'n Aelod cyfrannol yn y Cynllun mae gennych hawl i beidio â bod yn Ddeiliad Swydd cyfrannol yn y Cynllun. Rhaid i chi ysgrifennu at yr Ymddiriedolwyr i ddweud eich bod yn bwriadu gadael y Cynllun cyn pen **12 mis** ar ôl eich penodi i'r Swydd. Bydd eich penderfyniad i adael y Cynllun yn weithredol o'ch diwrnod cyntaf yn eich swydd. Caiff unrhyw gyfraniadau a ddidynnwyd yn ystod y cyfnod hwnnw'n cael eu had-dalu.

Os ydych yn penderfynu gadael y cynllun wedi hynny, yna'r dyddiad ar gyfer gweithredu hynny fydd dyddiad a bennir gan yr Ymddiriedolwyr yn seiliedig ar y dyddiad mwyaf ymarferol wedi derbyn yr hysbysiad ysgrifenedig.

**Cyfleoedd i Aelodau'r Cynulliad ailymuno ar ddyddiad diweddarach**

Fel Aelod o'r Cynulliad sydd wedi dewis gadael y Cynllun, gallwch wneud cais i ail ymuno â'r Cynllun os ydych yn cael eich ail ethol mewn etholiad. Mae'n rhaid rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr yngly^ n â'ch bwriad i adael y Cynllun cyn pen tri **mis** ar ôl eich ethol. Y dyddiad ar gyfer ymuno fydd dyddiad yr etholiad.

**Cyfleoedd i ddeiliaid swyddi ailymuno ar ddyddiad diweddarach**

Fel Deiliad Swydd sy'n Aelod o'r Cynllun, gallwch wneud cais i ail ymuno â'r Cynllun ar ddyddiad cyfnod newydd mewn swydd gymwys. Mae'n rhaid rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr **o fewn 12 mis** i'ch penodi i'r Swydd.

## TALU AM EICH BUDDION

**Cyfraniadau Aelodau**

Fel aelod o'r Cynllun, mae gofyn i chi dalu cyfraniad o'ch cyflog gan y Cynulliad; mae'r Cynulliad yn gwneud cyfraniad "Cyflogwr". Mae cyfraddau cyfrannu yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd, fel rheol yn dilyn adolygiad o'r Gronfa gan Actwari'r Llywodraeth.

Cyfradd gyfredol cyfraniadau Aelodau yw **10% o'r cyflog pensiynadwy os ydych yn cronni un rhan o ddeugain neu 6% os ydych yn cronni un rhan o hanner cant** - mae'r cyfraniadau yn gymwys ar gyfer gostyngiad treth. Os byddwch yn cyrraedd yr uchafswm hawl pensiwn a ganiateir dan reolau'r Cynlluniau cyn eich pen-blwydd yn 65, bydd y cyfraniadau yn dod i ben; byddant yn dechrau eto pan fyddwch yn 65 os ydych yn dal i fod yn aelod o'r cynllun.

Mae'r cyfraniadau hyn yn cael eu tynnu o'ch cyflog cyn cyfrif eich treth, felly byddwch yn derbyn gostyngiad treth incwm llawn ar y raddfa uchaf yr ydych yn ei thalu. Hefyd, gan fod Cynllun y Cynulliad wedi contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth, byddwch yn talu llai o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mewn nifer cyfyngedig o amgylchiadau, gall y gostyngiad yn eich treth gael ei gyfyngu gan y Lwfans Blynyddol sy'n cael ei bennu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi bob blwyddyn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn penodi Rheolwr Cronfa Buddsoddiadau i fuddsoddi'r holl gyfraniadau (eich cyfraniadau chi a'r Cynulliad).

| **ENGHRAIFFT** | **CYFRANIADAU AELODAU** | | |
|---|---|---|---|
| *Cyflog aelod yw £46,496 y flwyddyn* | | | |
| Cyfraniadau Cynllun Pensiwn o 10% | = | £4,649.60 | (a) |
| Gostyngiad Treth Incwm (gan gyfrif 40c yn y £) | = | £1,859.84 | (b) |
| Cyfraniad Net (cost i chi) (a) – (b) | = | **£2,789.76** | |

**Trefniadau arbennig ar gyfer deiliaid swyddi**

Bydd manylion y trefniadau hyn yn cael eu hanfon at Ddeiliaid Swyddi pan fyddant yn cychwyn ar y gwaith. Mae'r cyfraniadau ar raddfa o 10% (neu 6%) o'r cyflog, ac fe delir cyfraniad gan y cyflogwyr.

Mae'r buddion yn cael eu cyfrif trwy fformwla cymhleth, i roi pensiwn sy'n seiliedig ar 1/40 (neu 1/50) o gyflog deiliaid swyddi.

## BUDDION YMDDEOL

Pan fyddwch yn ymddeol, byddwch yn derbyn pensiwn blynyddol. Bydd y swm hwn yn dibynnu ar eich **Cyflog Terfynol** a hyd eich **Gwasanaeth Cyfrifadwy**.

Uchafswm y pensiwn fydd ar gael yn 65 oed yw 2/3 o'r cyflog terfynol; mae'n bosibl casglu hawliau pensiwn ychwanegol os yw'r gwasanaeth yn parhau y tu hwnt i 65 oed.

**ENGHRAIFFT** **PENSIWN**

*Eich cyflog terfynol yw £46,496 a'ch gwasanaeth cyfrifadwy yw 4 blynedd.*

Cyfrifir eich pensiwn fel a ganlyn:

$$\frac{£46{,}496 \times 4}{40 \text{ (cyfradd croniadau)}} = \mathbf{£4{,}649.60pa}$$

Mewn rhai amgylchiadau prin, bydd y Lwfans Gydol Oes, a bennir bob blwyddyn gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi yn cyfyngu ar eich pensiwn. Os yw hynny'n berthnasol yn eich achos chi, cewch wybod pan fyddwch yn agosáu at oedran ymddeol.

**Cyfnewid cyfandaliad**

Os oes gennych yr hawl i dderbyn pensiwn, efallai y gallwch gyfnewid rhan o'r pensiwn yn gyfandaliad di-dreth, gan dderbyn gweddill y pensiwn neu bensiwn llai. Mae'n rhaid i chi wneud hyn trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr cyn i randaliad cyntaf eich pensiwn gael ei dalu.

Bydd swm y cyfandaliad yn cyfateb i oddeutu 25% o werth cyfalaf eich hawliau pensiwn blynyddol. Cewch wybodaeth fanwl pan fyddwch yn ymddeol, ond os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddfa Ffioedd.

**Gwasanaeth cyfrifadwy**

Uchafswm hyd gwasanaeth cyfrifadwy i'w gynnwys at eich pensiwn yw 26 a dau draean o flynyddoedd (neu 33 a thraean o flynyddoedd os ydych yn cronni un rhan o hanner cant) pan fyddwch yn cyrraedd **oed pensiwn**. Gallwch gael mwy o wasanaeth cyfrifadwy os ydych yn gweithio y tu hwnt i'ch oed pensiwn.

**Ymddeol oherwydd salwch**

Er mwyn i chi gael buddion ymddeol oherwydd salwch byddai'n rhaid i chi fodloni'r Ymddiriedolwyr eich bod wedi'ch rhwystro rhag parhau i fod yn Aelod o'r Cynulliad oherwydd salwch. Os yw'r Ymddiriedolwyr yn derbyn bod hynny'n wir, byddwch yn derbyn pensiwn ar unwaith. Byddai'r hawl i bensiwn yn cael ei gyfrif, gan ychwanegu at y gwasanaeth nes eich bod yn 65 oed (yn amodol ar uchafswm o gyfyngiad 2/3). Ni fyddwch yn derbyn ychwanegiad os ydych yn gadael oherwydd salwch pan fyddwch yn hyˆ n na 65.

Gall cyn Aelod o'r Cynllun â phensiwn gohiriedig sy'n ymddeol o waith cyflogedig oherwydd salwch, wneud cais i'r Ymddiriedolwyr am daliad ar unwaith o'i bensiwn gohiriedig ynghyd â chodiadau pensiwn sydd wedi casglu. Ni cheir unrhyw ychwanegiad gwasanaeth i hawl pensiwn y cyn Aelod.

**Pensiwn y wladwriaeth**

Pan fyddwch yn cyrraedd oed Pensiwn y Wladwriaeth, bydd pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn daladwy, os oes gennych ddigon o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol, yn ogystal â Phensiwn y Cynulliad.

## CYNYDDU EICH BUDDION

Efallai y byddwch am gynyddu'r buddion pensiwn sy'n daladwy i chi pan fyddwch yn ymddeol.

Gallwch ddewis codi eich pensiwn trwy brynu credyd blynyddoedd gwasanaeth ychwanegol os nad ydych yn gallu cyrraedd lefel uchafswm buddion sy'n daladwy dan Reoliadau Swyddfa Cyllid y Wlad. Mae gostyngiad treth ar gael ar gyfraniadau a delir at gontract blynyddoedd ychwanegol.

Ni ellir newid contract i brynu blynyddoedd ychwanegol.

Ni all pensiynwyr brynu buddion ychwanegol.

Os ydych am brynu buddion ychwanegol, siaradwch ag aelod o staff y Swyddfa Ffioedd.

## RHODD AR FARWOLAETH

### Marw tra'n gwasanaethu

Pe byddech yn marw tra'n gwasanaethu, byddai rhodd ar ffurf cyfandaliad sydd gyfwerth â phedair gwaith eich cyflog Cynulliad yn daladwy i'r sawl a enwebwyd gennych. Gallwch enwebu unigolyn, unigolion, sefydliad neu ymddiriedolaeth. Os nad oes gennych enwebiad dilys, byddai'r rhodd ar farwolaeth yn mynd yn rhan o'ch ystad. Mae'ch pecyn croeso yn cynnwys ffurflen enwebu, a chewch gopïau ychwanegol gan y Swyddfa Ffioedd. Mae'n bwysig eich bod yn adolygu'r enwebiad yn rheoliadd ac yn ei ddiweddaru os yw'n amgylchiadau personol yn newid.

Pe bai priod neu bartner sefydlog hirdymor yn eich goroesi, byddai pensiwn gweddw/gŵr gweddw/partner yn daladwy. Byddai'r pensiwn cyfwerth â 5/8 o'ch pensiwn fel Aelod. Gall yr Ymddiriedolwyr benderfynu cynyddu'ch pensiwn.

Mae pensiwn plant hefyd yn daladwy er budd unrhyw blentyn perthnasol sydd dan 17 oed neu dan 23 oed ac mewn addysg amser-llawn, neu hyfforddiant amser-llawn.


### Marwolaeth yn dilyn ymddeoliad

Dan yr amgylchiadau hyn, byddai eich gweddw/gŵr gweddw/partner yn derbyn cyfradd eich pensiwn cyn-Aelod am y tri mis cyntaf, (mewn rhai achosion bydd hyn yn amodol ar benderfyniad yr Ymddiriedolwyr), ac yna


cyfradd flynyddol cyfwerth â 5/8 o'ch hawl pensiwn cyn-Aelod heb ei gyfnewid.

Pe baech yn marw cyn pen pum mlynedd ar ôl bod â hawl i gael pensiwn, byddai pensiwn eich gweddw/gŵr gweddw/partner ar yr un raddfa â'ch pensiwn chi hyd ddiwedd y cyfnod o bum mlynedd.  Wedi hynny, byddai'r pensiwn ar gyfradd o 5/8 o'ch pensiwn fel Aelod.  Gall pensiwn plant hefyd fod yn daladwy.

# Atodiad 11: Lleoliadau swyddfeydd rhanbarthol a swyddfeydd etholaeth (mapiau)



Appendix 11(b): Locations of Constituency Assembly Members' Offices and location of "inner" and "outer" areas - see chapter 6 / Atodiad 11(b): Lleoliadau Swyddfeydd Aelodau Etholaeth a lleoliad ardaloedd "mewnol" ac "allanol" -gweler Pennod 6



## Atodiad 12: Llawlyfr staff (cynnwys arfaethedig)

Rhagarweiniad:

Dylai'r rhagarweiniad gynnwys y canlynol:

**Croeso, cyflwyniad i'r sefydliad:** strwythur, amcanion a gweledigaeth (democratiaeth flaengar, effeithlon ac atebol), amcanion y Cynulliad, amlinellu rôl allweddol staff wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn i bobl Cymru; safonau gwasanaeth a ddisgwylir, egwyddorion Nolan a hyder y cyhoedd, y fframwaith deddfwriaethol sy'n berthnasol i weithgareddau'r Cynulliad, deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth, cynaliadwyedd, amrywiaeth, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd, cyfeirio at y Cod Ymddygiad a nodi'r tebygolrwydd o gael cyfnod cyflogaeth pedair blynedd.

Esbonio statws y llawlyfr, sef canllawiau i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad ynghylch pa bolisïau sy'n berthnasol ynghyd ag arfer da. Dylai'r naill grŵp a'r llall allu cysylltu â'r adran Adnoddau Dynol os oes ganddynt ymholiadau. Y bwriad hefyd yw y dylai Aelodau'r Cynulliad gael hyfforddiant a chanllawiau ynghylch eu swydd fel rheolwyr staff proffesiynol a gofalgar.

**Oriau gwaith**: cyfeirio at gytundebau cyflogaeth ac oriau swyddfa arferol ar gyfer y gwahanol leoliadau lle cyflogir staff e.e. swyddfeydd etholaeth neu adeilad y Cynulliad yng Nghaerdydd. Yn unol â gofyniadau gweithredol, efallai bydd gofyn gweithio mewn lleoliadau eraill ac ar amseroedd eraill etc.

**Cyflog**: pryd y caiff ei dalu, pwy sy'n ei dalu, sut mae codiadau a bandiau cyflog yn gweithio (gan gynnwys canllawiau ar ailgyflogi staff sydd wedi gweithio fel Staff Cymorth i Aelodau Cynulliad o'r blaen; fel arfer dylid eu cyflogi ar yr un lefel yr oeddent arni cyn gadael), treth a didyniadau.

**Treuliau a goramser**: rheolau ynghylch hawlio, lincs i ffurflenni treuliau perthnasol, y weithdrefn ynghylch amser o'r gwaith *in lieu*, gweithdrefn gymeradwyo, ymrwymiadau treth.

**Cyfnod rhybudd:** esbonio cyfrifoldeb unigolion ac Aelodau'r Cynulliad fel yr amlinellwyd yn y cytundeb cyflogaeth. Nodi y bydd y cyfnod cyflogaeth tebygol yn cyd-fynd â thymor y Cynulliad ac esbonio beth fydd yn digwydd fel arfer ar ddiwedd y cyfnod hwn – rhoddir rhybudd terfynu cyflogaeth.

**Cyfnod prawf:** dylai pob aelod staff newydd gael cyfnod prawf chwe mis a dylid cynnal adolygiad ar ôl tri a chwe mis. Manylion am sut bydd hyn yn gweithio.

**Cyfweliadau gadael:** i'w cynnal un ai gan yr adran Adnoddau Dynol neu reolwr grŵp y blaid yn unol â fformat y cytunwyd arno.

**Gweithdrefn ddisgyblaeth a chwyno:** esboniad llawn.

**Gwyliau blynyddol:** i gynnwys manylion am hawliau a'r modd y cânt eu cyfrifo ar gyfer staff llawn amser a rhan amser, y weithdrefn i'w dilyn wrth wneud cais am wyliau, gwyliau cyhoeddus a threfniadau yn ystod y toriad.

**Absenoldeb salwch:** y weithdrefn i'w dilyn, cyfrifoldeb Aelodau'r Cynulliad dros fonitro, y camau i'w cymryd mewn achosion o lefelau absenoldeb uwch neu fynych. Lincs i ffurflenni hunandystiolaeth, ffurflenni monitro etc

**Pensiynau:** Manylion y cynllun rhanddeiliaid.

**Caniatâd tosturiol, apwyntiadau meddygol a gwasanaeth rheithgor**

**Absenoldeb mamolaeth a thadolaeth:** cynnwys manylion a gweithdrefn yr hawliau. Cynnwys manylion y Cynllun Gofal Plant hefyd.

**Iechyd a diogelwch:** manylion y polisi a'r ymrwymiadau i staff Aelodau Cynulliad, i Aelodau'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad. Pa drefniadau a chyfrifoldebau sy'n gymwys i staff a leolir yn y Cynulliad ac mewn lleoliadau eraill a'r hyn y disgwylir i Aelodau'r Cynulliad ei wneud fel cyflogwyr. Bydd hyn yn cynnwys – cadw tŵ, ymgynghori, cymorth cyntaf, adrodd damweiniau, beth i'w wneud os bydd tân, diffoddwyr tân, Offer Sgrîn a phrofion llygaid, trafod â llaw, ymwelwyr a chontractwyr, offer trydanol a gweithio unigol.

**Alcohol a chyffuriau:** datganiad ynghylch ymddygiad annerbyniol mewn perthynas ag alcohol a chyffuriau yn y gwaith. Disgwyl safonau ymddygiad da bob amser.

**Gwerthuso, hyfforddiant a datblygu ac addysg bellach:** cynhelir gwerthusiad blynyddol gan yr Aelod Cynulliad a/neu rheolwr y grŵp. Yn ogystal â thrafod perfformiad swydd, caiff anghenion hyfforddiant a datblygu eu cytuno arnynt.

**Cod ymddygiad:** Disgwylir i bob aelod o'r staff cymorth lofnodi Cod Ymddygiad; cyfeirir at hyn yn y cytundeb cyflogaeth. Bydd hyn yn cynnwys cyfrinachedd, cod TGCh, safonau ymddygiad cyffredinol, egwyddorion Nolan, materion cydraddoldeb a materion perthnasol eraill fel y rhai a amlinellir yng Nghod ymddygiad y Gwasanaeth Sifil a'r canllawiau ynghylch cynghorwyr arbennig. Bydd y cod yn pwysleisio'r angen am gadw gwaith gwleidyddol ar wahân e.e. 'Yr Aelod Cynulliad yw eich cyflogwr ond gydag arian cyhoeddus

y'ch cyflogir chi ac felly caiff eich swydd ei llywodraethu gan egwyddorion Nolan. Atgoffir chi o'r pwysigrwydd o gadw gwaith gwleidyddol ar wahân i'r gwaith sy'n gwasanaethu'r Cynulliad a'r etholwyr. Gall hwn fod yn llwybr anodd i'w droedio ond disgwylir i chi gymryd cyfrifoldeb dros hyn.'

**Diogelu data a chyfrinachedd**

**Polisi dwyieithog:** disgrifio'r polisi a nodi, er nad yw hi'n bosibl darparu gwasanaeth dwyieithog bob tro, yn enwedig mewn swyddfeydd etholaethol, dylid bod yn sensitif i anghenion yr etholwr.

**Y defnydd o TG a diogelwch TG:** lluniwyd polisi gan yr adran TG. Cyn defnyddio systemau TG, dylai'r cyflogai a'r Aelod Cynulliad orfod llofnodi eu bod wedi darllen y polisi hwn a'u bod yn addo cydymffurfio â rheolau'r polisi. Bydd y polisi'n cynnwys rheolau a chanllawiau ar faterion fel – defnydd awdurdodedig, defnydd personol, lawrlwytho, gweithdrefnau e-bost, diogelu data, archifo, cymorth a chefnogaeth, canllawiau DSE ac ati.

**Safonau gwasanaeth:** mewn perthynas ag ymdrin â'r cyhoedd. Ni ddylai hwn fod yn rhy fanwl, ond yn fwy o arweiniad ynghylch ymateb yn rhesymol i ddefnyddwyr cyhoeddus gwasanaethau'r Cynulliad, gan gynnwys pethau fel sut i ateb y ffôn, defnyddio e-bost, y drefn ynghylch materion trawsbleidiol neu faterion etholaethol, cydnabyddiaethau, ffurf ymatebion, dewisiadau dwyieithog, terfynau amser a'r system gwaith achos TG. Yr amcan yw cynnig ymateb proffesiynol ac effeithlon sy'n cyfrannu at enw da'r Cynulliad a'i gynrychiolwyr. Awgrymir y dylid sefydlu gweithgor bychan i lunio'r safonau gwasanaeth hyn. (Mae San Steffan eisoes wedi datblygu rhai canllawiau yn y maes hwn.)

**System ffôn:** rheolau ynghylch dyrannu a defnyddio ffonau.

**Chwythu'r chwiban:** manylion ynghylch beth y dylai cyflogai ei wneud os daw'n ymwybodol o rywbeth difrifol gwaharddedig neu anghyfreithlon a allai niweidio enw da'r Cynulliad. Os nad yw'r Cynulliad yn cynnig canllawiau yn y maes hwn mae perygl i staff fynd â'r mater yn syth at y cyfryngau, neu berygl na chaiff materion o'r fath byth eu crybwyll. Gallai hyn niweidio enw da'r Cynulliad. (Awgrym y dylai'r polisi a luniwyd yn ddiweddar ar gyfer staff y Cynulliad Cenedlaethol fod yn gymwys i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad hefyd)

**Aelodaeth o undeb llafur neu gymdeithas staff:** Nodi bod gan staff yr hawl i fod yn aelod o'r rhain.

**Diogelwch a gweithio ar eich pen eich hun:** Dilyn arfer da.

**Polisi dileu swydd:** Manylion rheolau a chanllawiau'r Cynllun Dileu Swydd ynghylch yr hyn sy'n digwydd fel arfer ar ddiwedd tymor Cynulliad.

**Ymlyniadau gwleidyddol a gwrthdrawiadau buddiannau eraill:** Dylai Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad orfod datgan unrhyw wrthdrawiad buddiannau.

## Atodiad 13: Cyflogi Aelodau Teuluol (Rheol Sefydlog Drafft)

Rheol Sefydlog Drafft[11] – Mawrth 2009

**RHEOL SEFYDLOG XX – Cofnodi Cyflogaeth Aelodau Teuluol y mae Aelodau wedi hawlio Lwfans mewn perthynas â nhw**

**[Sylwch: mae gofyniad bod rhaid hysbysu o dan y Rheol Sefydlog hon yn ychwanegol at unrhyw ofyniad bod rhaid cofrestru cyflogaeth partner neu blentyn dibynnol Aelod o dan Reol Sefydlog 31. Os yw Rheol Sefydlog 31 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod gofrestru cyflogaeth priod neu blentyn dibynnol o dan y Rheol Sefydlog honno, rhaid i'r Aelod wneud hynny yn ychwanegol at unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol o dan y Rheol Sefydlog hon.]**

XX.1 Rhaid i Aelod sydd ar unrhyw adeg yn hawlio unrhyw lwfans mewn perthynas â chost cyflogi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, berson y mae'r Aelod hwnnw'n gwybod ei fod yn aelod o deulu'r Aelod hwnnw neu'n aelod o deulu Aelod arall wneud hysbysiad o dan y Rheol Sefydlog hon, a hynny heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn Rheol Sefydlog XX.4.

XX.2 Yn y Rheol Sefydlog hon:

(i) ystyr "aelod o deulu" yw:

(a) partner neu gyn-bartner Aelod;
(b) plentyn, ŵyr neu wyres Aelod;
(c) rhiant, taid neu nain Aelod;
(ch) brawd neu chwaer Aelod;
(d) nai neu nith Aelod;
(dd) ewythr neu fodryb Aelod; neu
(e) cefnder neu gyfnither Aelod,

(ii) ystyr "partner" yw priod, partner sifil neu un o gwpl p'un ai o'r un rhyw ynteu o'r rhyw arall sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod.

(iii) mae'r ymadroddion "plentyn", "ŵyr", "wyres", "rhiant", "taid", "nain", "brawd", "chwaer", "ewythr", "modryb", "cefnder" a "cyfnither" yr un

[11] Rheol Sefydlog Drafft a gymeradwywyd gan Gomisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Safonau at ddibenion ymgynghoriad ag Aelodau'r Cynulliad

mor gymwys i hanner-perthnasau, llys-berthnasau, perthnasau maeth a pherthnasau mabwysiadol ac (ac eithrio mewn perthynas â chefnder a chyfnither) maent yn gymwys hefyd i bersonau sydd â'r berthynas o dan sylw â phartner yr Aelod;

(iv) ystyr "cefnder" a "cyfnither" yw person sy'n rhannu o leiaf un hynafiad cyffredin gyda'r Aelod, ar yr amod yn achos yr Aelod fod yr hynafiad cyffredin yn daid neu'n nain i'r Aelod;

(v) ystyr "lwfans" yw lwfans sy'n daladwy gan y Comisiwn i Aelodau o dan Reol Sefydlog 1.7.

XX.3 Rhaid i'r hysbysiad sy'n ofynnol o dan y Rheol Sefydlog hon gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(i) enw'r Aelod;
(ii) os yw'r cyflogai yn aelod o deulu Aelod arall neu Aelodau eraill, enw'r Aelod arall hwnnw neu enwau'r Aelodau eraill hynny;
(iii) enw llawn y cyflogai;
(iv) perthynas y cyflogai â'r Aelod (neu, os yw'n briodol, â'r Aelod neu'r Aelodau y cyfeirir atynt yn (ii));
(v) ym mha swyddogaeth y mae'r cyflogai wedi'i gyflogi, gan gynnwys unrhyw deitl swydd;
(vi) y dyddiad y dechreuodd y gyflogaeth;
(vii) os yw'r gyflogaeth wedi dod i ben, y dyddiad y daeth i ben;
(viii) yr oriau y mae'r cyflogai wedi'i gontractio i'w gweithio bob wythnos;
(ix) os yw'r cyflogai wedi'i gyflogi mewn swydd y mae graddfa gyflogau wedi'i rhagnodi ar ei chyfer mewn penderfyniad a wnaed gan y Comisiwn mewn perthynas â chyflogeion Aelodau'r Cynulliad, y band cyflog perthnasol; neu
(x) yn achos unrhyw gyflogai nad yw'n dod o fewn (ix), y cyflog sy'n daladwy i'r cyflogai.

XX.4 Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi cyn pen wyth wythnos ar ôl y dyddiad y bydd yr Aelod yn tyngu'r llw teyrngarwch neu'n rhoi'r cadarnhad teyrngarwch neu cyn pen pedair wythnos ar ôl y tro cyntaf i'r Aelod hawlio lwfans mewn perthynas â chyflogi (yn uniongyrchol ynteu'n anuniongyrchol) yr aelod teulu, p'un bynnag yw'r olaf.

XX.5 Os:

(a) oes hysbysiad wedi'i roi o dan y Rheol Sefydlog hon; a
(b) bod unrhyw newid wedi bod yn yr wybodaeth a gynhwyswyd yn yr hysbysiad hwnnw;

rhaid i'r Aelod, cyn pen pedair wythnos ar ôl dyddiad y newid hwnnw, roi hysbysiad ynglŵn â'r newid hwnnw.

XX.6 Rhaid i hysbysiad o dan Reol Sefydlog XX.1 neu o dan Reol Sefydlog XX.5 gael ei roi drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd at y diben a'i chyflwyno i'r Swyddfa Gyflwyno.

XX.7 Rhaid i'r Llywydd gadw cofnod o'r hysbysiadau a roddir gan yr Aelodau o dan y Rheol Sefydlog hon a rhaid iddo gyhoeddi'r cofnod a threfnu bod copi ar gael i'w archwilio'n bersonol gan yr Aelodau a chan y cyhoedd.

XX.8 Mae'r Aelodau o dan ddyletswydd barhaus i sicrhau bod y cofnod o hysbysiadau yn cynnwys y manylion cywir a hysbyswyd ganddynt o dan Reolau Sefydlog XX.1 neu XX.5, a hynny drwy ei archwilio o dro i dro.

## Atodiad 14: Costau rhedeg cerbydau

**(Ffynhonnell: AA 2009)**

**Petrol**

**Cyfanswm costau sefydlog a chostau rhedeg (ceiniog y filltir)**

**Cost y car yn newydd:**

| | Hyd at £12,000 | £12,000 - £14,000 | £14,000 - £22,000 | £22,000 – 30,000 | Dros £30,000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 5,000 o filltiroedd y flwyddyn | 56.27 | 71.06 | 95.80 | 121.71 | 218.14 |
| 10,000 | 37.14 | 45.08 | 58.55 | 72.74 | 123.73 |
| 15,000 | 30.93 | 36.68 | 46.52 | 56.92 | 93.30 |
| 20,000 | 27.95 | 32.68 | 40.80 | 49.40 | 78.86 |
| 25,000 | 25.96 | 29.96 | 36.90 | 44.27 | 68.96 |
| 30,000 | 24.59 | 28.09 | 34.20 | 40.73 | 62.09 |

**Diesel**

**Cyfanswm costau sefydlog a chostau rhedeg (ceiniog y filltir)**

**Cost y car yn newydd:**

| | Hyd at £12,000 | £12,000 - £14,000 | £14,000 - £22,000 | £22,000 – 30,000 | Dros £30,000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 5,000 o filltiroedd y flwyddyn | 57.35 | 75.89 | 98.11 | 125.74 | 227.63 |
| 10,000 | 36.59 | 46.42 | 58.50 | 73.70 | 127.80 |
| 15,000 | 29.86 | 36.90 | 45.72 | 56.91 | 95.63 |
| 20,000 | 26.64 | 32.37 | 39.64 | 48.92 | 80,38 |
| 25,000 | 24.48 | 29.29 | 35.49 | 43.47 | 69.89 |
| 30,000 | 22.99 | 27.16 | 32.62 | 39.70 | 62.63 |

## Atodiad 15: Nodyn gan Archwilydd Cyffredinol

Nodyn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y sicrwydd sydd ei angen er mwyn sicrhau mai ceisiadau dilys yn unig a gaiff eu cyflwyno gan Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac a delir iddynt.

Beth yw sicrwydd?

1. Cadarnhad annibynnol bod yr honiadau a wneir yn gyson â'r dystiolaeth. Yn achos sicrwydd ynghylch lwfansau Aelodau, y sicrwydd a geisir yw mai ceisiadau dilys yn unig a dderbynnir; ac y cânt eu prosesu, eu talu a'u cyfrif amdanynt mewn modd effeithlon ac effeithiol.

Beth yw elfennau hanfodol system sicrwydd?

2. Elfennau hanfodol system sicrwydd hanfodol yw:

- rheolau a chanllawiau eglur ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol;
- rheolaeth a phrosesau rheoli cadarn, a gynlluniwyd i atal a dod o hyd i geisiadau annilys ac felly sicrhau cydymffurfio â'r rheolau;
- gwirio a phrofi'r system reolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn ddigonol effeithiol;
- cyflwyno adroddiad ar ganlyniad y gwirio hwnnw i'r rhai sy'n ceisio'r sicrwydd.

Pwy all roi'r sicrwydd hwn?

3. Fel arfer, drwy ddefnyddio dulliau mewnol ac allanol y gellir rhoi'r sicrwydd cryfaf, a hynny drwy:

- drefniadau llywodraethu mewnol cadarn;
- system reolaeth fewnol gadarn a gaiff ei gorfodi'n gryf ac sy'n destun adroddiad gan yr adran archwilio mewnol; ac
- archwilio annibynnol allanol.

4. Dylai sicrwydd mewnol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) ddeillio o'i brosesau ei hun, fel y rhai a ganlyn:

- rheolaeth a chanllawiau eglur a nodwyd ar gyfer y Comisiwn yn y Penderfyniad (a gymeradwywyd gan Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru);

- bod rheolwyr yn gweithredu system reolaeth gadarn er mwyn sicrhau mai ceisiadau dilys yn unig a gaiff eu prosesu a'u talu;

- bod rheolwyr yn gwirio'r ffordd y caiff eu system reolaeth ei rhoi ar waith, er mwyn sicrhau bod y rheolaethau'n cael eu gweithredu'n drylwyr;

- bod rheolwyr yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau eu profion, er mwyn parhau ag arfer da a dod o hyd i wendidau;

- bod rheolwyr yn gwneud argymhellion i wella'u systemau rheolaeth er mwyn gwneud gwelliannau parhaus;

- bod rheolwyr yn cyflwyno adolygiadau sicrwydd ansawdd er mwyn asesu i ba raddau y mae pobl yn cydymffurfio â'r fframwaith rheolaeth;

- bod Archwilio Mewnol yn profi'r amgylchedd rheolaeth, yn cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau ac yn gwneud argymhellion ynghylch sut i wella'r rheolaethau.

5. Daw sicrwydd allanol y Comisiwn o'r cadarnhad annibynnol a wnaf i o'r datgeliadau a wneir yn ei ddatganiadau ariannol statudol ac, o fewn y datganiadau hynny, y gosodiadau a wneir yn Natganiad Rheolaeth Fewnol y Swyddog Cyfrifyddu. Rhoddaf y cadarnhad hwn yn fy marn archwilio ar y datganiadau blynyddol.

6. Dim ond os yw'r cofnodion a'r systemau craidd yn ddigonol y gallaf roi'r sicrwydd hwn. Os nad ydynt yn ddigonol, byddaf yn ystyried a yw effaith unrhyw wendidau yn berthnasol i'r datganiadau ariannol. Byddai camgymeriad sylweddol, sydd heb ei gywiro, yn arwain at roi barn archwilio amodol.

7. Gall y datganiadau ariannol gynnwys camgymeriad sylweddol yn ôl ei werth, ei natur neu ei gyd-destun. Caiff y mathau hyn o gamgymeriadau eu hesbonio'n llawnach yn Strategaeth Archwilio pob blwyddyn.

Pwy sy'n rhoi'r sicrwydd ar hyn o bryd?

8. Mae Aelodau'n cymryd cyfrifoldeb dros ddilysrwydd eu ceisiadau eu hunain, drwy lofnodi eu ceisiadau a darparu tystiolaeth atodol yn eu cylch.

9. Ar ôl cyflwyno cais, caiff sicrwydd ynghylch prosesu a chyfrifyddu gan y Comisiwn ei roi drwy'r rheolaethau a sefydlwyd gan ei reolwyr; gwiriadau'r rheolwyr hynny a'u hadroddiadau ar weithredu'r system reolaeth sy'n bodoli; adolygiad Archwilio Mewnol ar weithredu'r system reolaeth honno; ac fy archwiliad i o wariant blynyddol y Comisiwn yng nghyd-destun ei ddatganiadau ariannol statudol, sy'n cynnwys y lwfansau a dalwyd i Aelodau.

Pa archwiliadau a wneir gennyf i?

10. O ran talu lwfansau Aelodau, mae fy staff yn:

(i) Adolygu a phrofi'r rheolaethau sy'n bodoli

Bob blwyddyn, mae fy staff yn adolygu, cofnodi a phrofi bodolaeth prif elfennau system reolaeth y Comisiwn a'r ffordd y'u gweithredir. Mae enghreifftiau o'r math o reolaeth a gaiff eu harchwilio yn cynnwys: penodi a therfynu cyflogaeth staff cymorth yr Aelodau; adolygu a chysoni'r staff cymorth a gyflogir; gweinyddu a rheoli lwfansau dirwyn i ben Aelodau; a gweinyddu a rheoli balans lwfansau sy'n weddill i'w wario (boed rheini mewn credyd neu ddyled).

Os yw'r ymchwiliadau o'r system reolaeth yn foddhaol, maent yn rhoi sicrwydd i mi bod y system reolaeth yn gweithredu'n effeithiol. Rwy'n cyflwyno adroddiad ar unrhyw wendidau y daethpwyd o hyd iddynt i'r rheolwyr, yn ogystal ag argymhellion ynghylch mynd i'r afael â'r gwendidau. Mae'n bwysig nodi bod fy staff yn ystyried y gwaith a wneir gan Archwilio Mewnol bob blwyddyn. Pan fo'n briodol mae fy staff yn adolygu cwmpas a chadernid y gwaith archwilio mewnol a gynhaliwyd ac, os yw'n foddhaol, yn cymryd sicrwydd o'r canfyddiadau. Gall hyn leihau fy archwiliad uniongyrchol o systemau a chofnodion y Comisiwn gan felly osgoi ailadrodd y gwaith archwilio a hwyluso'r baich archwilio ar staff y Comisiwn.

(ii) Dadansoddi cyfanswm y lwfansau a dalwyd

Ar gyfer yr archwiliad blynyddol, mae fy staff yn datblygu dealltwriaeth o swyddi'r holl Aelodau ac unrhyw newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn. Gall fy staff wedyn ragweld costau perthnasol yr Aelodau a'u cymharu â chofnodion ariannol a datganiadau ariannol y Comisiwn. Caiff yr asesiad ei gymharu â gwerth gwahaniaeth derbyniol mesuradwy a benderfynwyd arno o flaen llaw. Mae'r ymchwiliad hwn yn rhoi sicrwydd i mi bod cyfanswm yr holl symiau a dalwyd yn rhesymol, yn gyffredinol gywir ac yn gyson â'm gwybodaeth o swyddi Aelodau etholedig a'u cyfrifoldebau yn ystod y flwyddyn archwilio.

(iii) Profi sylwedd y lwfansau a dalwyd

Er mwyn cefnogi'r ymchwiliadau o ran y system reolaeth a'r dadansoddiadau, mae fy staff hefyd yn gwirio sylwedd y lwfansau a dalwyd. Mae'r gwaith archwilio hwn fel arfer wedi ei seilio ar astudiaeth o sampl o daliadau ochr yn ochr â: dilysiad Aelodau o'u ceisiadau; ac, os yw'n briodol, y dogfennau gwreiddiol a roddodd Aelodau i'r Comisiwn.

Mae'r ymchwiliadau hyn hefyd yn cynnwys adolygiad a dilysiad cyflawn o'r holl ddatgeliadau mewn perthynas â'r Aelodau yn y datganiadau ariannol statudol, ochr yn ochr â chofnodion y Comisiwn. Enghraifft o hyn yw fy archwiliad o'r Adroddiad Taliadau yn y datganiadau ariannol.

11. Fel yr Archwilydd Cyffredinol, o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae gennyf bwerau adolygu archwiliad eraill ar wahân i'r pŵer sydd gennyf i archwilio datganiadau ariannol gan gyrff:

(i) Adolygu gwerth am arian

O dan Ddeddf 2004, gallaf gynnal adolygiadau i'r graddau y mae cyrff cyhoeddus yn cynnig gwerth am arian (o ran bod yn ddarbodus, a bod yn effeithlon ac yn effeithiol).

Gellir cyhoeddi fy adroddiadau gwerth am arian a'u cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gall Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried unrhyw adroddiadau o'r fath, gan glywed tystiolaeth gan Swyddog Cyfrifyddu'r corff dan sylw, ac yna cyhoeddi ei adroddiad ei hun. Rhaid i'r corff a archwiliwyd wedyn ymateb yn gyhoeddus.

Hyd yn hyn, ni chynhaliwyd adolygiad gwerth am arian o'r fath o'r taliadau a wneir i Aelodau, ac nid oes gennyf fwriad i gynnal un ar hyn o bryd.

(ii) Adroddiadau er lles y cyhoedd

Mae gennyf y pŵer i gyflwyno adroddiad cyhoeddus ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw yn ystod archwiliad neu archwiliad gwerth am arian. Nid wyf wedi defnyddio'r pŵer hwnnw erioed, ond mae'n bodoli a gellir ei ddefnyddio i gyflwyno adroddiad ar agweddau ar daliadau i Aelodau.

(iii) Gwaith ymchwilio arall

12. Gallaf ddefnyddio fy nisgresiwn i gynnal unrhyw waith ymchwilio arall, y tu allan i'r archwiliad o ddatganiadau ariannol statudol ac ymchwiliadau gwerth am arian. Er enghraifft, os yw'n briodol ac yn ymarferol, rhoddaf ymatebion llawn i bob gohebiaeth a ddaw i law. Os yw canlyniadau archwiliadau nas cynlluniwyd o'r fath yn gwarantu hynny, gallaf gyhoeddi adroddiad o'm canfyddiadau.

13. Yn gynnar yn 2007, rhoddais ymateb llawn i aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â phryderon ynghylch taliadau i rai Aelodau penodol. Yn dilyn fy ymchwiliad, rhoddais gadarnhad i'r aelod o'r cyhoedd bod y taliadau a wnaed gan (gyn) Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad wedi cydymffurfio â'r trefniadau ac, yn benodol, â'r Penderfyniad a fodolai ar y pryd.

14. Ar sail cytundeb â'r Comisiwn, ac felly yn ogystal â'm hymchwiliadau statudol, gallaf gynnal archwiliadau sicrwydd ychwanegol o lwfansau Aelodau, a gallaf gyflwyno adroddiad ar wahân i'r rhai sy'n ceisio'r sicrwydd.

15. I gefnogi fy marn archwilio ar ddatganiadau ariannol statudol y Comisiwn, fy lle i yw penderfynu ar hyd a lled a natur fy ymchwiliadau, fel y nodwyd ym mharagraff 10 uchod. Wrth wneud hyn, rwy'n sicrhau fy mod yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Rhyngwladol.

16. Ar gais y Comisiwn, gallaf gynnal archwiliadau ychwanegol o daliadau i Aelodau a chyflwyno adroddiad yn rhoi sicrwydd archwilio ychwanegol.

17. Gallai adolygiad archwilio o'r fath astudio sylwedd nifer fwy o daliadau, ochr yn ochr â'r dogfennau atodol sydd ar gael, ac ochr yn ochr â'r

rheolau a'r canllawiau sy'n bodoli. Byddai'r profion hyn yn ychwanegol at y profion a wneir gennyf i wrth gefnogi fy marn archwilio ar y datganiadau ariannol.

18. Yn ogystal â chynnal rhagor o ymchwiliadau i sylwedd ceisiadau, gallaf, er enghraifft, ymchwilio i drefniadau Aelodau. Byddai ymchwiliadau o'r fath yn asesu'r system reolaeth a ddefnyddir gan Aelodau i'w gweinyddu eu hunain, drwy roi sicrwydd ynghylch y trefniadau a sefydlwyd ganddynt i reoli eu ceisiadau lwfansau. Byddai hyn yn galluogi sicrwydd y Comisiwn i fynd y tu hwnt i lofnod yr Aelod gan felly roi gwell sicrwydd ynghylch y broses geisiadau. Dros gyfnod o nifer o flynyddoedd, gellid ymchwilio trefniadau pob un o'r Aelodau.

19. Byddai unrhyw ymchwiliadau ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a wneir gennyf i gefnogi fy marn archwilio, yn cynyddu'r gost o gynnal fy archwiliad a byddai'n ymyrryd fwy ar yr Aelodau. Hefyd, tan i fy staff ymchwilio i drefniadau'r holl Aelodau, byddai'r sicrwydd i'r Comisiwn yn gyfyngedig i'r Aelodau yr ymchwiliwyd iddynt yn unig. Gallai'r Comisiwn ddyfarnu bod adolygiad o drefniadau Aelodau'n anymarferol.

20. Wrth gloi, dylai'r Comisiwn nodi y gallai ymchwiliadau ychwanegol arwain at adroddiad er lles y cyhoedd, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 14. Gellir hefyd anfon geisiadau rhyddid gwybodaeth ataf yn gofyn i mi ddatgelu canlyniadau fy archwiliadau. Caiff pob cais o'r fath ei ystyried gan fy swyddfa fesul achos, yn unol â deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
18 Mai 2009

# Atodiad 16: Yr amserlen a awgrymwyd ar gyfer y broses archwilio

Rhaglen a argymhellwyd ar gyfer gwaith archwilio mewnol ac allanol

**2009-10: Y flwyddyn baratoi**

O fis Medi 2009, dylai Archwilwyr Mewnol y Comisiwn baratoi ar gyfer cynnal adolygiad o fframwaith rheolaeth fewnol newydd y bydd angen ei datblygu er mwyn rhoi 'Pecyn Cymorth i Aelodau' y Panel Adolygu Annibynnol ar waith.

Dylid cynllunio'r gwaith archwilio mewnol hwn er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:

- bod y system rheolaeth fewnol newydd yn addas
- bod y broses o newid yn cael ei harolygu'n briodol gan uwch reolwyr.

Er mwyn rheoli'r newid i 'Becyn Cymorth i Aelodau' newydd y Panel Adolygu Annibynnol, awgrymwn y dylid cyhoeddi fersiwn y Cynulliad o'r Llyfr Cyllideb Manwl erbyn diwedd 2009, yn dilyn mabwysiadu Adroddiad y Panel Annibynnol yn ffurfiol.

**2010-11: Y flwyddyn bontio**

Erbyn mis Ebrill 2010, dylai Archwilio Allanol fod yn barod i wirio bod Aelodau'n cydymffurfio ag ymrwymiad y Comisiwn i gyhoeddi gwariant unigol ar geisiadau a lwfansau a wnaed ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-10. Dylai adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad archwilio allanol hwnnw gael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2009-10 pan gaiff ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2010.

Ym mis Mai/Mehefin 2010, dylai Archwilio Allanol wirio sampl o geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer 2009-10. Dylid cynllunio'r gwaith archwilio allanol hwn er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol:

- bod pob cais wedi ei lunio, ei gyflwyno, ei awdurdodi a'i dalu yn unol â 'Phecyn Cymorth i Aelodau' y Panel Adolygu Annibynnol a'r canllawiau atodol
- bod y dogfennau priodol ar gael i gefnogi pob gwariant yn y sampl

- bod yr holl wariant yn y sampl wedi ei ysgwyddo gan roi sylw dyledus i reoleidd-dra a phriodoldeb, a'i fod yn cynnig gwerth da am arian i bwrs y wlad

Yr egwyddor allweddol wrth gynnal archwiliad allanol o sampl o geisiadau yw 'olrhain llwybr y bunt gyhoeddus', gan ddefnyddio pwerau statudol helaeth yr Archwilydd Cyffredinol.

Ym mis Gorffennaf/Awst 2010, dylai Archwilio Allanol ailadrodd y broses o wirio sampl o geisiadau a gyflwynwyd yn ystod y chwarter sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2010.

Yn ystod hydref 2010, dylai Archwilio Mewnol baratoi ar gyfer cynnal adolygiad o'r systemau rheolaeth newydd, a gynlluniwyd er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ynghylch yr hyn a ganlyn:

- bod y system reolaeth fewnol wedi ei chynllunio'n gadarn

- bod y system reolaeth fewnol yn gweithio fel y bwriadwyd iddi weithio gan reolwyr y Comisiwn

Ym mis Tachwedd 2010, dylai Archwilio Allanol ailadrodd y broses o wirio sampl o geisiadau a gyflwynwyd yn ystod y chwarter sy'n dod i ben ar 30 Medi 2010.

Yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol o'r adroddiad archwilio mewnol a'r canlyniadau diweddaraf ynghylch gwirio sampl o geisiadau gan Archwilio Allanol, dylai'r Prif Swyddog Cyfrifyddu fod mewn sefyllfa i allu argymell unrhyw welliannau sydd angen eu gwneud i 'Becyn Cymorth i Aelodau' y Panel Adolygu Annibynnol yng nghyfarfod adolygu blynyddol y Panel Adolygu Annibynnol ym mis Chwefror 2011.

Ym mis Chwefror 2011, dylai Archwilio Allanol ailadrodd y broses o wirio sampl o geisiadau a gyflwynwyd yn ystod y chwarter sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2010.

**2011-12 Blwyddyn 1**

Ym mis Mai 2011, dylai Archwilio Allanol ailadrodd y broses o wirio sampl o geisiadau a gyflwynwyd yn ystod y chwarter sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2011.

Ym mis Gorffennaf/Awst 2011, dylai Archwilio Allanol ailadrodd y broses o wirio sampl o geisiadau a gyflwynwyd yn ystod y chwarter sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2011.

Yn ystod hydref 2011, dylai Archwilio Mewnol baratoi ar gyfer cynnal adolygiad o'r systemau rheolaeth newydd, a gynlluniwyd er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ynghylch yr hyn a ganlyn:

- bod y system reolaeth fewnol wedi ei chynllunio'n gadarn
- bod y system reolaeth fewnol yn gweithio fel y bwriadwyd iddi weithio gan reolwyr y Comisiwn

Ym mis Tachwedd 2011, dylai Archwilio Allanol ailadrodd y broses o wirio sampl o geisiadau a gyflwynwyd yn ystod y chwarter sy'n dod i ben ar 30 Medi 2011.

Yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol o'r adroddiad archwilio mewnol a'r canlyniadau diweddaraf ynghylch gwirio sampl o geisiadau gan archwilio allanol, dylai'r Prif Swyddog Cyfrifyddu fod mewn sefyllfa i allu argymell unrhyw welliannau sydd angen eu gwneud i 'Becyn Cymorth i Aelodau' y Panel Adolygu Annibynnol yng nghyfarfod adolygu blynyddol y Panel Adolygu Annibynnol ym mis Chwefror 2012.

Ym mis Chwefror 2012, dylai Archwilio Allanol ailadrodd y broses o wirio sampl o geisiadau a gyflwynwyd yn ystod y chwarter sy'n dod i ben ar 30 Rhagfyr 2011.

**O 2012 ymlaen**

Dylai'r patrwm hwn o weithgarwch archwilio mewnol ac allanol, ynghyd ag ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, barhau dros gyfnod oes 'Pecyn Cymorth i Aelodau' y Panel Adolygu Annibynnol.